# Cofnod y Trafodion
# The Record of Proceedings
# 21/01/2014

Cynnwys Contents


Cwestiynau i'r Prif Weinidog
Questions to the First Minister

Cwestiwn Brys: Argymhellion y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus
Urgent Question: The Commission on Public Service Governance and Delivery Recommendations

Cwestiwn Brys: Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr
Urgent Question: Betsi Cadwaladr University Local Health Board

Datganiad a Chyhoeddiad Busnes
Business Statement and Announcement

Cynigion i Ethol Aelodau i Bwyllgorau
Motions to Elect Members to Committees

Datganiad: Cynlluniau Newid Gwasanaethau Hywel Dda
Statement: Hywel Dda Service Change Plans

Datganiad: Perfformiad Llywodraeth Leol—Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
Statement: Local Government Performance—Blaenau Gwent County Borough Council

Datganiad: Gwella Perfformiad Ynni Adeiladau yng Nghymru
Statement: Improving the Energy Performance of Buildings in Wales

Gorchymyn Diwygio Deddfwriaethol (Taliadau Gan Gynghorau Plwyf, Cynghorau Cymuned ac Ymddiriedolwyr Siarter) 2013
The Legislative Reform (Payments by Parish Councils, Community Councils and Charter Trustees) Order 2013

Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ynghylch y Bil Plant a Theuluoedd mewn perthynas â Rheoleiddio Deunydd Pacio Manwerthu Cynhyrchion Tybaco, Rheoli Cynhyrchion Tybaco eu hunain a Chreu Troseddau Cysylltiedig
Supplementary Legislative Consent Motion on the Children and Families Bill in relation to the Regulation of Retail Packaging of Tobacco Products, the Regulation of Tobacco Products themselves and the Creation of Associated Offences

Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ynghylch y Bil Plant a Theuluoedd mewn perthynas ag Adran 38 o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 1963 (Perfformiadau)
Supplementary Legislative Consent Motion on the Children and Families Bill in relation to Section 38 of the Children and Young Persons Act 1963 (Child Performances)

Sicrhau Mynediad Gwell at ein Treftadaeth A'n Diwylliant
Ensuring Wider Access to our Heritage and Culture

Cyfnod Pleidleisio
Voting Time


*Cyfarfu'r Cynulliad am 13:30 gyda'r Llywydd (Y Fonesig Rosemary Butler) yn y Gadair.*

*The Assembly met at 13:30 with the Presiding Officer (Dame Rosemary Butler) in the Chair.*

13:30

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Good afternoon. The National Assembly for Wales is now in session.

Prynhawn da. Dyma ddechrau trafodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog

## Questions to the First Minister

### Comisiwn Williams

### The Williams Commission

13:30

## Llyr Gruffydd Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*1. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am oblygiadau argymhellion Comisiwn Williams ynghylch gwasanaethau cyhoeddus yng Ngogledd Cymru? OAQ(4)1437(FM)*

*1. Will the First Minister make a statement on the implications of the Williams Commission recommendations on public services in North Wales? OAQ(4)1437(FM)*

13:30 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Cyhoeddodd y comisiwn ei adroddiad ar 20 Ionawr, a hoffwn roi fy niolch i'r comisiwn am y gwaith y mae wedi'i wneud. Rydym i gyd yn awr am ystyried ei ganfyddiadau'n ofalus.

The commission published its report on 20 January, and I put on record my thanks to the commission for the work that it has undertaken. We all now want to consider its findings in detail.

13:30 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch i chi am eich ateb. Dywedoch mewn cyfweliad gyda'r BBC ddoe ynglŷn ag aildrefnu llywodraeth leol,

Thank you for that response. You said in an interview with the BBC yesterday in regard to the reorganisation of local government,

'Os ydych chi'n mo'yn gwneud hyn yn weddol gyflym, bydd yn rhaid i chi gadw'r un nifer o gynghorwyr ac wedyn, yn y dyfodol, ddweud nawr yw'r amser i leihau.'

If you want to do this relatively quickly, you will have to retain the same number of councillors and then, in future, say that this is the time for a reduction in numbers.

A allwch chi felly gadarnhau ei bod hi'n fwriad gan Lywodraeth Cymru i leihau nifer y cynghorwyr yn y tymor hirach?

Can you therefore confirm that it is the Welsh Government's intention to reduce the number of councillors in the longer term?

13:31 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Ydy, wrth gwrs. Mae'n synhwyrol dweud y bydd llai o gynghorwyr os bydd llai o gynghorau. Rwyf am gwrdd ag arweinwyr eraill yn awr er mwyn ystyried barn y gwahanol bleidiau yn y Cynulliad er mwyn symud ymlaen gyda hyn cyn gynted ag sy'n bosib.

Yes, of course. It would be sensible to say that if there are fewer councils, there will be fewer councillors. I now wish to meet with other leaders in order to discuss the views of the various parties in the Assembly in order to progress with this as soon as possible.

13:31 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

You may be aware that the Communities, Equality and Local Government Committee recently completed an inquiry into progress on local government collaboration. How do you respond to the evidence to that inquiry from Conwy council, on behalf of north Wales councils, that working across organisational and geographic boundaries could bring complexity and ambiguity that could generate confusion and weaken accountability, paralleled by Cardiff Business School, which said that you have hundreds of different cost curves all behaving differently and that there is no simple answer to the local government-sized conundrum?

Efallai y byddwch yn ymwybodol bod y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol wedi cwblhau ymchwiliad yn ddiweddar i gynnydd o ran cydweithrediad llywodraeth leol. Sut ydych chi'n ymateb i'r dystiolaeth i'r ymchwiliad hwnnw gan Gyngor Conwy, ar ran cynghorau'r gogledd, y gallai gweithio ar draws ffiniau sefydliadol a daearyddol ddod â chymhlethdod ac amwysedd a allai achosi dryswch a gwanhau atebolrwydd, sy'n cael ei atseinio gan Ysgol Fusnes Caerdydd, a ddywedodd bod gennych gannoedd o wahanol gromliniau cost, i gyd yn ymddwyn yn wahanol ac nad oes unrhyw ateb syml i'r pos maint llywodraeth leol?

13:32 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

The Member makes the case for reorganisation, does he not, by saying that the evidence is not there that there is working across boundaries or that it is too complicated. What the Williams commission identifies is a need for change now and it identifies a need for change in order to benefit the public. It also identifies the problems that have arisen due to the lack of collaboration between many local authorities in Wales.

Mae'r Aelod yn cefnogi'r achos dros ad-drefnu, onid yw, trwy ddweud nad yw'r dystiolaeth ar gael y ceir gweithio ar draws ffiniau neu ei fod yn rhy gymhleth. Yr hyn y mae comisiwn Williams yn ei nodi yw'r angen am newid nawr ac mae'n nodi angen am newid er lles y cyhoedd. Mae hefyd yn nodi'r problemau sydd wedi codi oherwydd y diffyg cydweithredu rhwng llawer o awdurdodau lleol yng Nghymru.

13:32 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Brif Weinidog, mae'n siŵr y bydd y rhan fwyaf o'r boblogaeth yn meddwl mwy am safon eu gwasanaethau yn hytrach na ffiniau. Mae rhai o'r awgrymiadau yn creu sefyllfa lle bydd rhai cyfrifoldebau, megis tai, yn golygu bod un cyngor yn allanoli stoc tai a'r llall yn cadw'r stoc. A yw'r amserlen, o ran cael rhyw fath o symud ymlaen erbyn y Pasg, yn un rhesymol wrth ystyried yr holl oblygiadau hyn?

First Minister, I am sure that the majority of people will be more concerned about the quality of services rather than boundaries. Some of the recommendations will create a situation where certain responsibilities, such as housing, mean that one council outsources the housing stock while another retains its stock. Is the timetable, in terms of making some sort of progress by Easter, a reasonable one given all of these implications?

13:33 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Erbyn y Pasg, hoffwn fod mewn sefyllfa lle mae barn gadarn gyda phob plaid yn y Cynulliad. Ni fydd y broses drosodd erbyn y Pasg, wrth gwrs. Y cam nesaf wedyn fydd ystyried ym mha ffordd y dylai newid ddigwydd. Wrth ddilyn y broses ymarferol yn y Cynulliad, ni fydd yn bosibl cyflwyno Bil o flaen y Cynulliad yr ochr yma i etholiadau'r Cynulliad. Os oes cytundeb rhwng y pleidiau, er enghraifft, i symud pethau ymlaen yn gyflymach, mae hynny'n un opsiwn y gellid ei ystyried. Mae pethau ymarferol y mae'n rhaid delio â nhw, ond, ar ddiwedd y dydd, yr hyn yr ydym yn siarad amdano yw system sy'n mynd i wella gwasanaethau i bobl Cymru.

By Easter, I would like to be in a position where every party in the Assembly has a firm opinion. The process will not be complete by Easter, of course. The next step will be to consider in which way the change should happen. Following the process required in the Assembly means that it will not be possible to introduce a Bill in the Assembly this side of the Assembly elections. However, if there is consensus between the parties on moving things forward more quickly, then that is one option for consideration. There are practicalities that we have to consider, but, ultimately, what we are talking about is a system that will improve services for the people of Wales.

13:33 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Before we move to question 2, I am sure Members would like to join me in welcoming the delegation from our sister Parliament in Canada. We hope you will find this afternoon beneficial. [Applause.]

Cyn i ni symud at gwestiwn 2, rwy'n siŵr yr hoffai'r Aelodau ymuno â mi i groesawu'r ddirprwyaeth o'n chwaer-Senedd yng Nghanada. Gobeithiwn y bydd y prynhawn yma o fudd i chi. [Cymeradwyaeth.]

## Prisiau Ynni

## Energy Pricing

13:34 **David Rees** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*2. Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael â Gweinidogion Llywodraeth y DU ynghylch prisiau ynni? OAQ(4)1440(FM)*

*2. What discussions has the First Minister had with UK Government Ministers on energy pricing? OAQ(4)1440(FM)*

13:34 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

We have consistently raised with UK Government Ministers our concerns. I have personally raised concerns with Vince Cable, explaining to him the concerns that are passed on to me by our energy-intensive industries that the cost of energy for them is too high, and we remain concerned about the ability of the UK to remain competitive with energy costs as they are.

Rydym ni wedi codi ein pryderon gyda Gweinidogion Llywodraeth y DU yn gyson. Rwyf wedi codi pryderon yn bersonol gyda Vince Cable, gan esbonio iddo'r pryderon sy'n dod ataf fi oddi wrth ein diwydiannau ynni-ddwys bod cost ynni iddyn nhw'n rhy uchel, ac rydym ni'n parhau i bryderu am allu'r DU i barhau'n gystadleuol gyda chostau ynni fel ag y maent.

13:34 **David Rees** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that answer, First Minister. As you may be aware, the foundation industries, which include anchor companies such as Tata Steel, last week wrote to the UK Government asking for it to ensure that it created a level playing field for it to operate within. That included energy costs, so that companies can compete, as you say, effectively and efficiently in a global market. These companies bring huge investment into Wales and support our economy dramatically and employ many people. Do you agree with me that this UK Government has failed those companies and these employees by its failure to tackle the energy costs, and will you raise those issues with the Prime Minister, the next time that you meet him, so that he can change his approach to the funding and the costing of energy prices?

Diolch i chi am yr ateb yna, Brif Weinidog. Fel y gwyddoch efallai, ysgrifennodd y diwydiannau sylfaen, sy'n cynnwys cwmnïau angori fel Tata Steel, at Lywodraeth y DU yr wythnos diwethaf yn gofyn iddi sicrhau ei bod yn creu sefyllfa weithredu lle mae pawb yn cael eu trin yn yr un modd. Roedd hynny'n cynnwys costau ynni, fel y gall cwmnïau gystadlu, fel y dywedwch, yn effeithiol ac yn effeithlon mewn marchnad fyd-eang. Mae'r cwmnïau hyn yn dod â buddsoddiad enfawr i mewn i Gymru ac yn cefnogi ein heconomi yn helaeth iawn ac yn cyflogi llawer o bobl. A ydych chi'n cytuno â mi fod Llywodraeth bresennol y DU wedi siomi'r cwmnïau hynny a'r gweithwyr hynny trwy ei methiant i fynd i'r afael â'r costau ynni, ac a wnewch chi godi'r materion hynny gyda'r Prif Weinidog, y tro nesaf y byddwch yn cyfarfod ag ef, fel y gall newid ei ymagwedd at ariannu a chostio prisiau ynni?

13:35 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I thank the Member for his comments. As I said, I have raised the issue with Vince Cable, and, if I remember, I have also raised the issue with the JMC. It is an issue that is of crucial importance to those industries that are important to the Welsh economy but which are high energy users, despite the fact that, like Tata, they have taken steps and have invested heavily in order to reduce the amount of energy they use. However, the nature of the business is such that they are bound to use a substantial amount of energy. I would urge the UK Government to address this position as quickly as possible in order to secure the future of our manufacturing industries.

Diolchaf i'r Aelod am ei sylwadau. Fel y dywedais, rwyf wedi codi'r mater gyda Vince Cable, ac, os rwy'n cofio, rwyf hefyd wedi codi'r mater gyda Chydbwyllgor y Gweinidogion. Mae'n fater sydd o bwys hanfodol i'r diwydiannau hynny sy'n bwysig i economi Cymru ond sy'n ddefnyddwyr ynni uchel, er gwaethaf y ffaith eu bod, fel Tata, wedi cymryd camau ac wedi buddsoddi'n helaeth er mwyn lleihau faint o ynni maen nhw'n ei ddefnyddio. Fodd bynnag, mae natur y busnes yn golygu eu bod yn siŵr o ddefnyddio cryn dipyn o ynni. Byddwn yn annog Llywodraeth y DU i fynd i'r afael â'r sefyllfa hon cyn gynted â phosibl er mwyn sicrhau dyfodol ein diwydiannau gweithgynhyrchu.

13:35 **Russell George** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

One way to mitigate higher energy prices in the future is to improve the energy performance of new and existing buildings, both domestic and non-domestic. Why has the Government significantly reduced its building regulation targets for greenhouse gas emissions, which could go a long way to lowering energy prices?

Un ffordd o liniaru prisiau ynni uwch yn y dyfodol yw gwella perfformiad ynni adeiladau newydd a phresennol, yn ddomestig ac yn annomestig. Pam mae'r Llywodraeth wedi gostwng yn sylweddol ei thargedau rheoliadau adeiladu ar gyfer allyriadau nwyon tŷ gwydr, a allai wneud llawer i ostwng prisiau ynni?

13:36 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

That has been done in order to assist the construction industry—and I thought that he might welcome that, actually—to improve its performance over the next few years. The Minister made it absolutely clear that he wanted to make sure that targets were reached within a reasonable time, but that they were not introduced so quickly as to stymie the recovery of the construction industry, which employs so many people in Wales.

Mae hynny wedi cael ei wneud er mwyn cynorthwyo'r diwydiant adeiladu—ac roeddwn i'n meddwl y byddai'n croesawu hynny, a dweud y gwir—i wella ei berfformiad yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf. Gwnaeth y Gweinidog hi'n gwbl eglur ei fod eisiau gwneud yn siŵr bod targedau yn cael eu cyrraedd o fewn amser rhesymol, ond nad oeddent yn cael eu cyflwyno mor gyflym ag i atal adferiad y diwydiant adeiladu, sy'n cyflogi cymaint o bobl yng Nghymru.

13:36 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Mae problemau sy'n gysylltiedig â phrisiau trydan uchel wedi bod yn boendod i Tata Steel, a diwydiannau eraill, ers blynyddoedd. A fyddai cael cwmni ym mherchnogaeth y Llywodraeth—Llywodraeth Cymru, o bosibl—i ddosbarthu trydan yn sicrhau gwell bargen i drethdalwyr ac i fusnesau?

Problems related to high electricity prices have been a concern for Tata Steel, and other industries, over many years. Would having a Government-owned company—possibly owned by the Welsh Government—to distribute electricity secure a better deal for taxpayers and for businesses?

13:36 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Yn gyntaf, mae cwestiwn yn codi ynglŷn â rheoliadau Ewrop. Ni fyddai'n bosibl, wrth gwrs, i sybsideiddio unrhyw gwmni. Byddai'n rhaid ffeindio rhyw ffordd o gyllido cwmni na fyddai'n mynd yn groes i gyfraith cymorth gwladwriaethol, ac, wrth gwrs, ni fyddai'n bosibl sefydlu unrhyw gwmni a fyddai'n gweithio mewn ffordd nad yw'n gystadleuol. Os ydych yn mynd i gael marchnad sy'n gystadleuol, mae'n bwysig dros ben bod pob corff sy'n cystadlu yn y farchnad honno yn cystadlu mewn ffordd deg. O ran y cwestiwn a ddylai fod felly, wrth gwrs, mae hwnnw'n gwestiwn arall. Fodd bynnag, byddai'n rhaid i unrhyw gwmni, yn gyntaf, godi'r arian ei hunan, ac, yn ail, sicrhau nad yw'n gweithio mewn ffordd sy'n mynd yn erbyn rheoliadau Ewrop.

First, a question arises regarding European regulation. It would not be possible, of course, to subsidise any company. We would have to find some means of funding a company that would not break state aid law, and, of course, it would not be possible to establish any company that would work in a non-competitive way. If you want a competitive market, it is very important that all companies competing in that market do so on a level playing field. On whether it should be like that, that is, of course, another matter. However, any company would, first of all, have to raise its own money and, secondly, ensure that it did not work in a way that is contrary to European regulations.

## Cwestiynau Heb Rybudd gan Arweinwyr y Pleidiau.

## Questions Without Notice from the Party Leaders.

13:37 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First this afternoon, we have the leader of the opposition, Andrew R.T. Davies.

Arweinydd yr wrthblaid, Andrew R.T. Davies, sydd gyntaf y prynhawn yma.

13:37 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition*

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Presiding Officer. First Minister, you said recently that you were confident that the Welsh Ambulance Services NHS Trust has the resources that it needs. You are aware of the tragic incident of the death of Mr Pring from Flintshire, which was in the news last week. He died after waiting 42 minutes for an ambulance to arrive. The reason given for that was that there were no ambulances available to attend. We were told that there were six vehicles waiting at Wrexham Maelor Hospital, and that there were three at Ysbyty Glan Clwyd. The inquest also concluded that, if an ambulance had been available, the optimised prospects for his survival would have been greatly increased. When you hear of these types of events, do you believe that the Welsh ambulance service has the resources that it requires to stop events like this from happening?

Diolch i chi, Lywydd. Brif Weinidog, dywedasoch yn ddiweddar eich bod yn hyderus bod gan Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru yr adnoddau sydd eu hangen arni. Rydych chi'n ymwybodol o ddigwyddiad trasig marwolaeth Mr Pring o Sir y Fflint, a oedd yn y newyddion yr wythnos diwethaf. Bu farw ar ôl aros 42 munud i ambiwlans gyrraedd. Y rheswm a roddwyd am hynny oedd nad oedd unrhyw ambiwlansys ar gael i ddod. Dywedwyd wrthym fod chwe cherbyd yn aros yn Ysbyty Maelor Wrecsam, a bod tri yn Ysbyty Glan Clwyd. Daeth y cwest i'r casgliad hefyd, pe byddai ambiwlans wedi bod ar gael, y byddai'r rhagolygon gorau posibl iddo oroesi wedi cael eu cynyddu'n fawr. Pan fyddwch yn clywed am y mathau hyn o ddigwyddiadau, a ydych chi'n credu bod gan wasanaeth ambiwlans Cymru yr adnoddau sydd eu hangen arno i atal digwyddiadau fel hyn rhag digwydd?

13:38 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

First of all, could I express my condolences to the family of Mr Pring and what happened to him? It is right to say that the coroner did not say that Mr Pring would have lived had the ambulance arrived; it is right to say that he would have had a better chance of living had the ambulance arrived in time—that much is true. However, that said, this was not a typical event in the history of the Welsh Ambulance Services NHS Trust, nor is it typical of its performance over the course of the last year. Nevertheless, it is important that it continues to improve—as it has done—in order to minimise events such as this occurring in the future.

Yn gyntaf oll, a gaf i fynegi fy nghydymdeimlad â theulu Mr Pring a'r hyn a ddigwyddodd iddo? Mae'n gywir i ddweud na ddywedodd y crwner y byddai Mr Pring wedi byw pe byddai'r ambiwlans wedi cyrraedd; mae'n gywir i ddweud y byddai wedi bod â siawns well o fyw pe byddai'r ambiwlans wedi cyrraedd mewn pryd—mae cymaint â hynny'n wir. Fodd bynnag, wedi dweud hynny, nid oedd hwn yn ddigwyddiad nodweddiadol yn hanes Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, ac nid yw'n nodweddiadol o'i pherfformiad yn ystod y flwyddyn ddiwethaf chwaith. Serch hynny, mae'n bwysig ei bod yn parhau i wella—fel y mae wedi ei wneud—er mwyn sicrhau cyn lleied â phosibl o ddigwyddiadau fel hyn yn y dyfodol.

13:39 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

First Minister, I asked you whether the Welsh ambulance service had the resources that it requires to try to stop events like this from happening. You will be aware that your own district general hospital—the Princess of Wales Hospital—last Thursday had, I am told, 11 ambulances waiting outside it. In the news last night, there was a similar type of event to the one that I mentioned, where a patient was unable to be discharged into the care of the Princess of Wales Hospital. That delay, potentially, could have affected the outcome of the patient's ability to survive the incident that they were presenting for at the hospital. I ask you again, First Minister, given that I have cited two examples in very recent weeks: does the Welsh ambulance service have the resources to help mitigate and stop this type of event happening at our district general hospitals?

Brif Weinidog, gofynnais i chi a yw'r adnoddau sydd eu hangen arno gan wasanaeth ambiwlans Cymru i geisio atal digwyddiadau fel hyn rhag digwydd. Byddwch yn ymwybodol bod 11 ambiwlans yn aros y tu allan i'ch ysbyty cyffredinol dosbarth eich hun—Ysbyty Tywysoges Cymru—ddydd Iau diwethaf, yn ôl yr hyn a ddywedwyd wrthyf. Yn y newyddion neithiwr, roedd math tebyg o ddigwyddiad i'r un a grybwyllais, lle nad oedd modd rhyddhau claf i ofal Ysbyty Tywysoges Cymru. Mae'n bosibl y gallai'r oedi hwnnw fod wedi effeithio ar ganlyniad gallu'r claf i oroesi'r digwyddiad yr aethpwyd ag ef i'r ysbyty o'i herwydd. Gofynnaf i chi eto, Brif Weinidog, o gofio fy mod wedi nodi dwy enghraifft yn ystod yr wythnosau diweddar iawn: a yw'r adnoddau gan wasanaeth ambiwlans Cymru i helpu i liniaru ac atal y math hwn o ddigwyddiad rhag digwydd yn ein hysbytai cyffredinol dosbarth?

13:40 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

The answer to that is 'yes', but could I just point the leader of the opposition to one aspect that certainly does affect ambulance response times? That, of course, is the time it takes to get through A&E. Part of the problem, if not much of the problem, is that A&E can become overloaded from time to time, and that is what delays the ambulances. So, the answer is to get more people through A&E in order to release ambulances more quickly. That, of course, is why, as a Government, we are so keen to ensure that we have a structure for the NHS that enables that to happen. It is not a question of ambulance resources. It is a question of ensuring that the hospitals are able to admit patients as quickly as possible, and that is why, of course, there have been proposals across Wales to look again at the structure of A&E.

Yr ateb i hynny yw 'ydynt', ond a gaf i dynnu sylw arweinydd yr wrthblaid at un agwedd sy'n sicr yn effeithio ar amseroedd ymateb ambiwlansys? A hynny, wrth gwrs, yw'r amser y mae'n ei gymryd i gael drwy adrannau damweiniau ac achosion brys. Rhan o'r broblem, os nad llawer o'r broblem, yw y gall adrannau damweiniau ac achosion brys fod yn orlawn o bryd i'w gilydd, a dyna beth sy'n oedi'r ambiwlansys. Yr ateb felly yw cael mwy o bobl trwy adrannau damweiniau ac achosion brys yn gyflymach. Dyna, wrth gwrs, pam rydym ni, fel Llywodraeth, mor awyddus i sicrhau bod gennym strwythur i'r GIG sy'n galluogi hynny i ddigwydd. Nid mater o adnoddau ambiwlans yw hyn, ond mater o sicrhau bod yr ysbytai'n gallu derbyn cleifion cyn gynted â phosibl, a dyna pam, wrth gwrs, y bu cynigion ledled Cymru i edrych eto ar strwythur adrannau damweiniau ac achosion brys.

13:41 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I think that that is where we will disagree because I do not believe that, by shutting A&E departments, you will increase the life chances of people who are presenting at the ones that are to remain. Obviously, one of the key problems about people progressing through A&E has to do with being taken into the hospital environment, and the lack of beds and the loss of beds are one of the big obstacles to people being able to pass through A&E and, then, to ambulances, when they bring in new patients, being able to discharge them to A&E. We have the worst A&E waiting times in the United Kingdom, regrettably. What key actions are you going to be undertaking to see that there is improvement—and, I would suggest, immediate improvement—in our A&E times so that the events I have outlined previously at Wrexham Maelor and at your own district general hospital can cease to be an occurrence within the Welsh NHS and so that patients and families will not go through the trauma that those individuals' families have gone through recently?

Rwy'n meddwl mai dyna lle y byddwn ni'n anghytuno oherwydd nid wyf yn credu, trwy gau adrannau damweiniau ac achosion brys, y byddwch yn cynyddu cyfleoedd bywyd y bobl sy'n sy'n dod i'r rhai a fydd ar ôl. Yn amlwg, mae un o'r problemau allweddol o ran pobl yn symud trwy adrannau damweiniau ac achosion brys yn ymwneud â mynd i mewn i amgylchedd yr ysbyty, ac mae'r diffyg gwelyau a cholli gwelyau yn un o'r rhwystrau mawr sy'n atal pobl rhag gallu symud drwy adrannau damweiniau ac achosion brys ac, yna, i ambiwlansys, pan eu bod yn dod â chleifion newydd i mewn, yn gallu eu rhyddhau i'r adran damweiniau ac achosion brys. Yn anffodus, ni sydd â'r amseroedd aros gwaethaf ar gyfer adrannau damweiniau ac achosion brys yn y Deyrnas Unedig. Pa gamau gweithredu allweddol ydych chi'n mynd i fod yn eu cymryd i sicrhau bod gwelliant—a gwelliant ar unwaith, byddwn yn awgrymu—i'n hamseroedd adrannau damweiniau ac achosion brys, fel na fydd y digwyddiadau yr wyf wedi sôn amdanynt yn Ysbyty Maelor Wrecsam ac yn eich ysbyty cyffredinol dosbarth eich hun yn digwydd o fewn y GIG yng Nghymru ac fel na fydd cleifion a theuluoedd yn mynd drwy'r trawma y mae teuluoedd yr unigolion hynny wedi ei ddioddef yn ddiweddar?

13:42 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Well, I disagree with him when he says that we have the worst A&E times. If he looks, for example, at Belfast, he will see that there have been enormous problems there, particularly around the Royal Victoria Hospital, where a state of emergency was effectively declared at one point. However, he makes the point about what we can do to increase the throughput of patients through A&E. He will know about the extra resource we have put into the NHS—£570 million—which will assist in that. However, there is no getting away from the fact that people also need to go to the right A&E department for the condition they have, and that means making sure that people go to the right A&E department in the first place and that the A&E departments are able to deal with them in terms of the experience they have, which is why reorganisation, of course, is something that is being taken forward across Wales.

Wel, rwy'n anghytuno ag ef pan ddywed mai ni sydd â'r amseroedd adrannau damweiniau ac achosion brys gwaethaf. Pe byddai'n edrych, er enghraifft, ar Belfast, bydd yn gweld y bu problemau enfawr yno, yn enwedig o gwmpas Ysbyty'r Royal Victoria, lle cyhoeddwyd ei bod yn sefyllfa argyfyngus i bob pwrpas ar un adeg. Fodd bynnag, mae'n gwneud y pwynt am yr hyn y gallwn ei wneud i wella symud cleifion trwy adrannau damweiniau ac achosion brys. Bydd yn gwybod am yr adnoddau ychwanegol yr ydym ni wedi eu rhoi i mewn i'r GIG—£570 miliwn—a fydd yn cynorthwyo yn hynny o beth. Fodd bynnag, ni ellir dianc oddi wrth y ffaith fod angen i bobl fynd i'r adran damweiniau ac achosion brys gywir hefyd ar gyfer y cyflwr sydd ganddynt, ac mae hynny'n golygu gwneud yn siŵr bod pobl yn mynd i'r adran damweiniau ac achosion brys gywir yn y lle cyntaf a bod yr adrannau damweiniau ac achosion brys yn gallu ymdrin â nhw o ran y profiad sydd ganddynt, a dyna pam y mae ad-drefnu, wrth gwrs, yn rhywbeth sy'n cael ei ddatblygu ledled Cymru.

Also, of course, there is a responsibility here as well on individuals. It is still the case, I believe, that people go to A&E when they do not need to. Speaking to A&E consultants in my own hospital in Bridgend, it counts for between a third and a half of the cases they see; these are people who should not be there in the first place because they have been to see the GP, the GP has said, 'There is nothing wrong with you', so they go to A&E. There is a level of discipline, I think, that people need to exert as well. I see nothing wrong in local health boards saying to people, 'Look, do not come to A&E unless you really have to'. I think that is perfectly sensible advice. On top of that, in order to minimise tragic occurrences, such as the two occurrences in the past year, it is important that the resource is there, and I would argue that that is exactly what we have done.

Hefyd, wrth gwrs, mae cyfrifoldeb ar unigolion yma hefyd. Mae'n dal yn wir, rwy'n credu, bod pobl yn mynd i adrannau damweiniau ac achosion brys pan nad oes rhaid iddynt. Ar ôl siarad ag ymgynghorwyr damweiniau ac achosion brys yn fy ysbyty fy hun ym Mhen-y-bont ar Ogwr, mae'n debyg bod y rhain rhwng traean a hanner yr achosion y maent yn eu gweld; mae'r rhain yn bobl na ddylent fod yno yn y lle cyntaf oherwydd eu bod wedi bod i weld y meddyg teulu, mae'r meddyg teulu wedi dweud, 'Does dim yn bod arnoch chi', felly maen nhw'n mynd i adran damweiniau ac achosion brys. Ceir lefel o ddisgyblaeth, rwy'n credu, y mae angen i bobl gadw ati hefyd. Nid wyf yn gweld dim byd o'i le mewn byrddau iechyd lleol yn dweud wrth bobl, 'Edrychwch, peidiwch â dod i'r adran damweiniau ac achosion brys oni bai bod wir yn rhaid i chi ddod'. Rwy'n credu bod hynny'n gyngor cwbl gall. Yn ogystal â hynny, er mwyn sicrhau bod cyn lleied o ddigwyddiadau trasig â phosibl, fel y ddau ddigwyddiad yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'n bwysig sicrhau bod yr adnoddau ar gael, a byddwn yn dadlau mai dyna'n union yr ydym ni wedi ei wneud.

13:43 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

We now move to the leader of Plaid Cymru, Leanne Wood.

Symudwn nawr at arweinydd Plaid Cymru, Leanne Wood.

13:43 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd Plaid Cymru / The Leader of Plaid Cymru*

Senedd.tv
Fideo Video

Diolch, Lywydd. First Minister, the Williams commission report has helped to shine a very concerning light on public services in this country. The commission confirmed that public service performance in places is poor and patchy, too complex and lacking in ambition. Do you accept this verdict on your leadership?

Diolch, Lywydd. Brif Weinidog, mae adroddiad comisiwn Williams wedi helpu i daflu goleuni pryderus iawn ar wasanaethau cyhoeddus yn y wlad hon. Cadarnhaodd y comisiwn fod perfformiad gwasanaethau cyhoeddus mewn rhai mannau yn wael ac yn anghyson, yn rhy gymhleth ac â diffyg uchelgais. A ydych chi'n derbyn y feirniadaeth hon o'ch arweinyddiaeth?

13:43 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Well, it does not talk about the Government, does it? I mean, it talks a little about the Government but it is concerned mainly with local government and other public services. The reality is that, if you look at the report, you will see that it talks about situations where some public service bodies see regulation and inspection as a burden or something to be resisted. The reality is that this is all about servicing the public, and the reality is that the present structure of local government, which is part of that report, will never be able to deliver the level of service that people expect.

Wel, nid yw'n sôn am y Llywodraeth, ydy e? Hynny yw, mae'n sôn rhywfaint am y Llywodraeth ond mae'n ymwneud â llywodraeth leol a gwasanaethau cyhoeddus eraill yn bennaf. Y gwir amdani yw, os edrychwch chi ar yr adroddiad, byddwch yn gweld ei fod yn sôn am sefyllfaoedd lle mae rhai cyrff gwasanaethau cyhoeddus o'r farn bod rheoleiddio ac arolygu yn faich neu'n rhywbeth i'w gwrthwynebu. Y gwirionedd yw bod hyn yn ymwneud yn llwyr â gwasanaethu'r cyhoedd, a'r gwir amdani yw na fydd y strwythur llywodraeth leol presennol, sy'n rhan o'r adroddiad hwnnw, byth yn gallu darparu'r lefel o wasanaeth y mae pobl yn ei ddisgwyl.

Senedd.tv
Fideo Video

13:44 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

First Minister, you are in charge of public services in Wales, and what has been said about local government can equally be applied to our national health service. There are very real people being affected by poor public services. We have just heard about the heart-wrenching case of a patient from Flintshire, who lay for 40 minutes waiting for an ambulance while his wife watched him die. Surely you would agree, First Minister, that this is something that should never ever happen in our country.

Brif Weinidog, chi sy'n gyfrifol am wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, ac mae'r hyn sydd wedi cael ei ddweud am lywodraeth leol yr un mor berthnasol i'n gwasanaeth iechyd gwladol. Mae pobl go iawn yn cael eu heffeithio gan wasanaethau cyhoeddus gwael. Rydym ni newydd glywed am achos torcalonnus claf o Sir y Fflint, a orweddodd am 40 munud yn aros am ambiwlans tra bod ei wraig yn ei wylio'n marw. Does bosib na fyddech chi'n cytuno, Brif Weinidog, fod hyn yn rhywbeth na ddylai fyth ddigwydd yn ein gwlad.

Senedd.tv
Fideo Video

13:45 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Indeed; I agree with that. However, in relation to the Williams commission, I would remind the leader of Plaid Cymru that her party did not come forward with the idea for a commission such as this, and did not consider that there was a need to look very carefully at the way in which the structure of public services was delivered in Wales. I await, with an open mind, her view on the Williams commission. I reiterate the point that I made earlier, which is that there needs to be change in Wales and there needs to be reorganisation of local government in Wales, so that we can take forward the Williams commission's report. In order for that to happen, there needs to be a level of cross-party support within this Chamber. I want to talk to the other party leaders in order to establish how much of that is possible. This is a major change to local government. I would like to see this done on a basis that is as cross-party as possible. I extend that invitation to her.

Yn wir; rwy'n cytuno â hynny. Fodd bynnag, o ran comisiwn Williams, hoffwn atgoffa arweinydd Plaid Cymru na wnaeth ei phlaid hi gynnig y syniad ar gyfer comisiwn fel hyn, ac nad oedd yn credu bod angen edrych yn ofalus iawn ar y ffordd y darperir strwythur gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Rwy'n disgwyl, gyda meddwl agored, am ei barn ar gomisiwn Williams. Ailadroddaf y pwynt a wnes yn gynharach, sef bod angen newid yng Nghymru ac mae angen ad-drefnu llywodraeth leol yng Nghymru, fel y gallwn fwrw ymlaen ag adroddiad comisiwn Williams. Er mwyn i hynny ddigwydd, mae angen lefel o gefnogaeth ar draws y pleidiau yn y Siambr hon. Hoffwn siarad ag arweinwyr y pleidiau eraill er mwyn canfod faint o hynny sy'n bosibl. Mae hwn yn newid mawr i lywodraeth leol. Hoffwn weld hyn yn cael ei wneud ar sail sydd mor drawsbleidiol â phosibl. Estynnaf y gwahoddiad hwnnw iddi.

Senedd.tv
Fideo Video

13:45 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Thank you, First Minister. I am interested in reaching a consensus with you, but I would contend that you are not starting the process in the correct manner.

Diolch yn fawr, Brif Weinidog. Mae gennyf ddiddordeb mewn dod i gonsensws â chi, ond byddwn yn dadlau nad ydych yn cychwyn y broses yn y modd cywir.

Going back to public services, this very morning, Betsi Cadwaladr University Local Health Board has postponed all non-urgent surgery. This is the second health board to do this. There is clearly a capacity issue that you have failed to get to grips with.

I fynd yn ôl at wasanaethau cyhoeddus, mor ddiweddar â bore heddiw, mae Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi gohirio pob llawdriniaeth nad yw'n llawdriniaeth frys. Dyma'r ail fwrdd iechyd i wneud hyn. Mae'n amlwg bod problem o ran capasiti yr ydych chi wedi methu â mynd i'r afael â hi.

Senedd.tv
Fideo Video

Rather than centralise and cut health services further, which will put further pressure on ambulances and on A&E departments, why do you not now back Plaid Cymru's proposals to boost doctor recruitment? If you are against this, First Minister, can you tell us exactly what you are for?

Yn hytrach na chanoli a thorri gwasanaethau iechyd ymhellach, a fydd yn rhoi mwy o bwysau ar ambiwlansys ac ar adrannau damweiniau ac achosion brys, pam na wnewch chi gefnogi cynigion Plaid Cymru nawr i roi hwb i recriwtio meddygon? Os ydych chi'n gwrthwynebu hyn, Brif Weinidog, a allwch chi ddweud wrthym beth yn union yr ydych chi o'i blaid?

13:46

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I would be in a better position, I am sure, to support Plaid Cymru if doctors themselves supported you, and they do not. If you look at what doctors say about the NHS in Wales, the vast majority of them will say that there needs to be change. Yet, you keep on opposing change all of the time. Doctors will say to you that the difficulty is throughput of patients; you cannot create a situation where there are more patients coming through a hospital. That does not happen unless you have a service that is more centralised. Unless you are prepared to ignore the Royal College of Surgeons and the advice of independent doctors, which is what your party is constantly trying to do, you cannot create the Shangri-La situation that you want. We want a sustainable health service that is based on the guidance that doctors themselves give. You want to ignore that guidance; where doctors say that a service is unsafe, you want to ignore that and pretend that it is not happening. That is not sustainable.

Byddwn mewn sefyllfa well, rwy'n siŵr, i gefnogi Plaid Cymru pe byddai'r meddygon eu hunain yn eich cefnogi, ac nid ydynt yn gwneud hynny. Os edrychwch chi ar yr hyn y mae meddygon yn ei ddweud am y GIG yng Nghymru, bydd y mwyafrif llethol ohonynt yn dweud bod angen newid. Ac eto, rydych chi'n parhau i wrthwynebu newid drwy'r amser. Bydd meddygon yn dweud wrthych chi mai symud cleifion drwy'r system yw'r anhawster; ni allwch chi greu sefyllfa lle mae mwy o gleifion yn dod drwy ysbyty. Nid yw hynny'n digwydd oni bai bod gennych chi wasanaeth sy'n fwy canolog. Oni bai eich bod yn barod i anwybyddu Coleg Brenhinol y Llawfeddygon a chyngor meddygon annibynnol, sef yr hyn y mae eich plaid yn ceisio ei wneud yn gyson, ni allwch chi greu'r sefyllfa Shangri-La yr ydych chi ei heisiau. Rydym ni eisiau gweld gwasanaeth iechyd cynaliadwy sy'n seiliedig ar yr arweiniad y mae meddygon eu hunain yn ei roi. Rydych chi eisiau anwybyddu'r arweiniad hwnnw; pan fo meddygon yn dweud nad yw gwasanaeth yn ddiogel, rydych chi eisiau anwybyddu hynny ac esgus nad yw'n digwydd. Nid yw hynny'n gynaliadwy.

Coming back to the question that she asked about the Williams commission, I now look forward to working with Plaid Cymru and other parties with a view to getting consensus on the way that public services are delivered in Wales, in order to improve them for the people of Wales.

I ddod yn ôl at y cwestiwn a ofynnodd am gomisiwn Williams, rwy'n edrych ymlaen nawr at weithio gyda Phlaid Cymru a phleidiau eraill gyda'r nod o gael consensws ar y ffordd y darperir gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, er mwyn eu gwella ar gyfer pobl Cymru.

13:47

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Finally, I call the leader of the Welsh Liberal Democrats.

Yn olaf, galwaf ar arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru.

13:47

## Kirsty Williams Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats*

First Minister, in your programme for government, to which you are very fond of referring in this Chamber, you list a whole series of targets that you will use to measure NHS performance. On Sunday, you said that it is difficult to see what the justification is for them, and that there was no logic to them. If there is no logic to them, what on earth were you doing including them in your programme for government less than three years ago?

Brif Weinidog, yn eich rhaglen ar gyfer llywodraethu, yr ydych chi'n hoff iawn o gyfeirio ati yn y Siambr hon, rydych chi'n rhestru cyfres o dargedau y byddwch yn eu defnyddio i fesur perfformiad y GIG. Dywedasoch ddydd Sul ei bod yn anodd gweld beth yw'r cyfiawnhad drostynt, ac nad oedd unrhyw resymeg iddynt. Os nad oes unrhyw resymeg iddynt, beth ar y ddaear oeddech chi'n ei wneud yn eu cynnwys yn eich rhaglen ar gyfer llywodraethu lai na thair blynedd yn ôl?

13:48 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

They exist. If you look at the clinical reasoning for the targets, it is difficult to see where it comes from. That much is true. That is not coming from us; it is coming from doctors. When I went around Wales's hospitals with the Minister for Health and Social Services in the summer, officials said the same thing to us. They said, 'You have targets with regard to A&E. We have people who come here, they may spend 13 hours in A&E, but the alternative is that they spend three days in hospital. So, we keep them in for longer and the targets do not help.' Clearly, we need to revisit the targets, but I am fully aware that revisiting the targets without actually reaching at least some of them will leave us open to the allegation that we are trying to stitch the figures up. I understand that. So, what I said on Sunday was that I would like to see us reach some of those targets and then consider carefully whether they need to be changed.

Maen nhw'n bodoli. Os edrychwch chi ar y rhesymeg glinigol dros y targedau, mae'n anodd gweld o ble mae'n dod. Mae cymaint â hynny'n wir. Nid yw hynny'n dod oddi wrthym ni; mae'n dod oddi wrth feddygon. Pan es i o gwmpas ysbytai Cymru gyda'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn yr haf, dywedodd swyddogion yr un peth wrthym ni. Dywedasant, 'Mae gennych chi dargedau o ran adrannau damweiniau ac achosion brys. Mae gennym ni bobl sy'n dod yma, efallai y byddant yn treulio 13 awr yn yr adran damweiniau ac achosion brys, ond y dewis arall yw eu bod yn treulio tri diwrnod yn yr ysbyty. Felly, rydym ni'n eu cadw i mewn am fwy o amser ac nid yw'r targedau'n helpu. 'Yn amlwg, mae angen i ni ailystyried y targedau, ond rwy'n gwbl ymwybodol y bydd ailystyried y targedau heb gyrraedd o leiaf rhai ohonynt mewn gwirionedd yn ein gadael yn agored i'r honiad ein bod yn ceisio trin y ffigurau. Rwy'n deall hynny. Felly, yr hyn a ddywedais ddydd Sul oedd yr hoffwn ein gweld yn cyrraedd rhai o'r targedau hynny ac yna ystyried yn ofalus a oes angen iddynt gael eu newid.

Senedd.tv
Fideo Video

13:49 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Let us look at one specific target. You promised, in your programme for government, that you would improve access and patient experience by ensuring rapid investigations and treatment. Are waits for scans and endoscopies no longer important, or is it the fact that the number of people waiting longer than eight weeks for diagnostic services has trebled in the last two years? Is that one that you are planning to meet or one that you are planning to ditch?

Gadewch i ni edrych ar un targed penodol. Addawyd gennych, yn eich rhaglen ar gyfer llywodraethu, y byddech yn gwella mynediad a phrofiad y claf drwy sicrhau cynnal ymchwiliadau a thriniaeth yn gyflym. Onid yw arosiadau am sganiau ac endosgopau yn bwysig bellach, neu ai'r ffaith bod nifer y bobl sy'n aros mwy nag wyth wythnos am wasanaethau diagnostig wedi treblu yn ystod y ddwy flynedd diwethaf? A yw hwnnw'n un yr ydych chi'n bwriadu ei gyrraedd neu'n un yr ydych chi'n bwriadu cael gwared arno?

Senedd.tv
Fideo Video

13:49 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

It is true to say that there have been challenges, as I have said many times in this Chamber, over the past year or two. We are confident, however, that the extra resources—the £570 million—going into the NHS will help to meet some of those challenges.

Mae'n wir dweud y bu heriau, fel rwyf wedi ei ddweud sawl gwaith yn y Siambr hon, yn ystod y flwyddyn neu ddwy ddiwethaf. Rydym ni'n hyderus, fodd bynnag, y bydd yr adnoddau ychwanegol—y £570 miliwn—sy'n mynd i mewn i'r GIG yn helpu i ymateb i rai o'r heriau hynny.

Senedd.tv
Fideo Video

13:49 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

First Minister, it is not just that target, is it? You do not routinely meet your Government's ambulance response time targets, you do not meet your cancer targets, you do not meet your A&E targets, and the number of people waiting more than nine months for treatment has hit a new high. If you are saying that those things are not important any more in our NHS, how are you going to measure your Government's performance in running the health service? I ask you again: which of those are you planning to meet and which are you planning to ditch?

Brif Weinidog, nid dim ond y targed hwnnw yw e, nage? Rydych chi'n methu â chyrraedd targedau amser ymateb ambiwlansys eich Llywodraeth yn rheolaidd, nid ydych chi'n cyrraedd eich targedau canser, nid ydych chi'n cyrraedd eich targedau damweiniau ac achosion brys, ac mae nifer y bobl sy'n aros mwy na naw mis am driniaeth wedi cyrraedd lefel uchel newydd. Os ydych chi'n dweud nad yw'r pethau hynny'n bwysig yn ein GIG bellach, sut ydych chi'n mynd i fesur perfformiad eich Llywodraeth o ran rhedeg y gwasanaeth iechyd? Gofynnaf i chi eto: pa rai o'r rheini ydych chi'n bwriadu eu cyrraedd a pha rai ydych chi'n bwriadu cael gwared arnynt?

Senedd.tv
Fideo Video

13:50 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography
*Y Prif Weinidog / The First Minister*

We plan to meet them all. I am not pretending that it is easy to do that. This is not a situation that is unique to Wales; England routinely misses its targets as well. The reality when it comes to cancer treatment times, for example, is that the situation is the same in Wales as it is in England. The reality is that the vast majority of people have prompt and effective clinical care. That is not to say that there cannot be improvement. It was the leader of the Liberal Democrats who suggested that we did not think that these figures were important; of course they are important. The performance of the NHS is important to all of us in the Chamber. That is why the Minister for health has outlined very carefully how he intends to see the health service improve in terms of the resources that he has put in. However, I emphasise that there cannot be improvement in the health service without structural change. One cannot happen without the other. To those parties—her party is not one of them, in fairness—that oppose all or any change in the NHS, despite, on occasions, independent panels of doctors saying that there has to be change, I have to say this: the NHS will not improve as long as those parties hold those positions.

Rydym ni'n bwriadu eu cyrraedd nhw i gyd. Nid wyf yn esgus ei bod yn hawdd gwneud hynny. Nid yw hon yn sefyllfa sy'n unigryw i Gymru; mae Lloegr yn methu â chyrraedd ei thargedau yn rheolaidd hefyd. Y gwir amdani pan ddaw i amseroedd triniaeth canser, er enghraifft, yw bod y sefyllfa yr un fath yng Nghymru ag y mae yn Lloegr. Y gwir amdani yw bod y mwyafrif llethol o bobl yn derbyn gofal clinigol prydlon ac effeithiol. Nid yw hynny'n golygu na ellir gwella. Arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol awgrymodd nad oeddem yn meddwl bod y ffigurau hyn yn bwysig; wrth gwrs eu bod nhw'n bwysig. Mae perfformiad y GIG yn bwysig i bob un ohonom ni yn y Siambr. Dyna pam mae'r Gweinidog iechyd wedi amlinellu yn ofalus iawn sut y mae'n bwriadu gweld y gwasanaeth iechyd yn gwella o ran yr adnoddau y mae wedi eu neilltuo. Fodd bynnag, rwy'n pwysleisio na ellir cael gwelliant yn y gwasanaeth iechyd heb newid strwythurol. Ni all un ddigwydd heb y llall. I'r pleidiau hynny—nid yw ei phlaid hi yn un ohonynt, a bod yn deg—sy'n gwrthwynebu pob neu unrhyw newid yn y GIG, er gwaethaf, ar adegau, paneli annibynnol o feddygon yn dweud bod yn rhaid cael newid, mae'n rhaid i mi ddweud hyn: ni fydd y GIG yn gwella tra bydd y pleidiau hynny yn parhau â'r safbwyntiau hynny.

Senedd.tv Fideo Video

13:51 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

We have never said that.

Nid ydym ni erioed wedi dweud hynny.

Senedd.tv Fideo Video

13:51 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography
*Y Prif Weinidog / The First Minister*

No, you have not.

Nac ydych, dydych chi ddim.

Senedd.tv Fideo Video

### GIG Cymru

### Welsh NHS

13:51 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

*3. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ei flaenoriaethau ar gyfer GIG Cymru yn 2014? OAQ(4)1429(FM)*

*3. Will the First Minister make a statement on his priorities for the Welsh NHS in 2014? OAQ(4)1429(FM)*

Senedd.tv Fideo Video

13:51 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography
*Y Prif Weinidog / The First Minister*

A topical question. We continue to improve the quality, safety and sustainability of the NHS.

Cwestiwn amserol. Rydym ni'n parhau i wella ansawdd, diogelwch a chynaladwyedd y GIG.

Senedd.tv Fideo Video

13:51 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that answer, First Minister. Do you agree that there is a developing crisis that is deepening in the Welsh NHS, particularly around emergency and unscheduled care? On 10 December, people were told not to go to Morriston Hospital's A&E department unless they had a genuine emergency and they were told that they should not attend Withybush hospital unless it was absolutely necessary. Morriston and Princess of Wales hospitals had to cancel operations on 6 January, because of pressures on beds. We know that Wrexham Maelor was described as being logjammed on 8 January and we have heard just today about the cancellation of operations in north Wales. Your Minister for health has said that there is no crisis in the Welsh NHS, but do you agree that your record-breaking NHS budget cuts are not helping the situation, that you are cutting the NHS budget too far, too fast—to coin a phrase—and that it is now a matter of regret for you that you do not have a national comprehensive winter NHS plan, unlike the UK Government? What action are you taking to sort this problem out, once and for all?

Diolch i chi am yr ateb yna, Brif Weinidog. A ydych chi'n cytuno bod argyfwng sy'n datblygu ac yn gwaethygu yn y GIG yng Nghymru, yn enwedig o ran gofal brys a gofal heb ei drefnu? Ar 10 Rhagfyr, hysbyswyd pobl i beidio â mynd i adran damweiniau ac achosion brys Ysbyty Treforys oni bai bod ganddynt argyfwng gwirioneddol a dywedwyd wrthynt na ddylent fynd i ysbyty Llwynhelyg oni bai bod hynny'n gwbl angenrheidiol. Bu'n rhaid i Ysbyty Treforys ac Ysbyty Tywysoges Cymru ganslo llawdriniaethau ar 6 Ionawr, oherwydd pwysau ar welyau. Rydym yn gwybod y dywedwyd bod Ysbyty Maelor Wrecsam dan ei sang ar 8 Ionawr ac rydym ni wedi clywed heddiw ddiwethaf am ganslo llawdriniaethau yn y gogledd. Mae eich Gweinidog iechyd wedi dweud nad oes unrhyw argyfwng yn y GIG yng Nghymru, ond a ydych chi'n cytuno nad yw eich toriadau uchaf erioed i gyllideb y GIG yn helpu'r sefyllfa, eich bod yn torri cyllideb y GIG yn rhy bell, yn rhy gyflym—i ddyfynnu ymadroddad—a'i fod bellach yn destun edifeirwch i chi nad oes gennych gynllun GIG cenedlaethol cynhwysfawr ar gyfer y gaeaf, yn wahanol i Lywodraeth y DU? Pa gamau ydych chi'n eu cymryd i ddatrys y broblem hon, unwaith ac am byth?

13:53 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

First, he talks about a winter plan; there is a winter plan and it is working. If you look at A&E figures in England, you will see that they are worse than ever. [Interruption.]

Yn gyntaf, mae'n sôn am gynllun gaeaf; mae cynllun gaeaf ar waith ac mae'n gweithio. Os edrychwch chi ar ffigurau damweiniau ac achosion brys yn Lloegr, byddwch yn gweld eu bod yn waeth nag erioed. [Torri ar draws.]

13:53 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Order, Darren Millar.

Trefn, Darren Millar.

13:53 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Look at the newspapers for 11 January and you will see that things are far worse under his party's stewardship, if you can use that word, in London. The reality is that he stands up in this Chamber and says that, where advice is given to people that they should not attend A&E unless there is an emergency, that advice is wrong. He seems to be suggesting that, according to the Conservatives, A&E departments are extended GP surgeries. I stand by that advice: people should not be going to A&E unless there is a genuine emergency. [Interruption.]

Edrychwch ar bapurau newydd 11 Ionawr a byddwch yn gweld bod pethau'n llawer gwaeth dan stiwardiaeth, os gallwch chi ddefnyddio'r gair hwnnw, ei blaid ef yn Llundain. Y gwir amdani yw ei fod yn sefyll ar ei draed yn y Siambr hon ac yn dweud, pan roddir cyngor i bobl na ddylent fynd i adrannau damweiniau ac achosion brys oni bai bod argyfwng, bod y cyngor hwnnw'n anghywir. Mae'n ymddangos ei fod yn awgrymu, yn ôl y Ceidwadwyr, bod adrannau damweiniau ac achosion brys yn estyniad o feddygfeydd teulu. Rwy'n cyd-fynd â'r cyngor hwnnw: ni ddylai pobl fod yn mynd i adrannau damweiniau ac achosion brys oni bai fod gwir argyfwng. [Torri ar draws.]

13:53 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Darren Millar, will you let the First Minister answer? I am sorry, First Minister; I cannot hear what you are saying, because Darren Millar keeps repeating things.

Darren Millar, a wnewch chi ganiatáu i'r Prif Weinidog ateb? Mae'n ddrwg gennyf, Brif Weinidog; ni allaf glywed yr hyn yr ydych chi'n ei ddweud, gan fod Darren Millar yn ailadrodd pethau drwy'r amser.

13:53 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

I cannot hear him either, but there it is, Presiding Officer.

Ni allaf innau ei glywed ychwaith, ond dyna ni, Lywydd.

The reality is that it is quite right that people should not attend A&E unless it is a genuine emergency. He may think that they are extended GP surgeries, but they are not. We have put extra resources into the NHS. This compares with his party, which has cut the NHS by £20 billion in England, except they call those cuts 'efficiencies'—if they call them efficiencies, they are not really cuts, are they? That is the reality of Conservative rule. We see A&E departments struggling in England. In Wales, we approach this with honesty, we understand the challenges, we put more resources in and we have an NHS that properly benefits the people of Wales, not one that is being hammered by billions of pounds of cuts, as is done by the Conservatives in London.

Y gwir amdani yw ei bod yn gwbl iawn na ddylai pobl fynd i adrannau damweiniau ac achosion brys oni bai bod gwir argyfwng. Efallai ei fod yn credu eu bod yn estyniad o feddygfeydd teulu, ond nid ydynt. Rydym ni wedi neilltuo adnoddau ychwanegol i'r GIG. Mae hyn o'i gymharu â'i blaid ef, sydd wedi torri £20 biliwn oddi ar y GIG yn Lloegr, ond eu bod yn galw'r toriadau hynny yn 'doriadau effeithlonrwydd'—nid ydynt wir yn doriadau os ydynt yn eu galw'n rhai effeithlonrwydd, nac ydynt? Dyna wirionedd llywodraeth Geidwadol. Rydym yn gweld adrannau damweiniau ac achosion brys yn ei chael hi'n anodd yn Lloegr. Yng Nghymru, rydym ni'n ymdrin â hyn gyda gonestrwydd, rydym ni'n deall yr heriau, rydym ni'n rhoi mwy o adnoddau i mewn ac mae gennym GIG sydd o fudd gwirioneddol i bobl Cymru, nid un sy'n cael ei daro gan filiynau o bunnoedd mewn toriadau, fel y mae'r Ceidwadwyr yn Llundain yn ei wneud.

13:54

## Elin Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Brif Weinidog, un rheswm bod ambiwlansys yn ciwio tu allan i 'A&E' yw'r diffyg gwelyau ar wardiau. Yn aml, mae hynny oherwydd bod gwelyau yn cael eu blocio gan fod diffyg darpariaeth yn y gymuned. Ac eithrio ym Mhowys, ddoe, ni wnaeth comisiwn Williams argymell uno gwasanaethau iechyd â gwasanaethau cymdeithasol, sy'n siomedig, yn fy marn i. Sut, felly, y byddwch chi, yn 2014, yn cyfarwyddo byrddau iechyd ac awdurdodau lleol i uno gwasanaethau a chyllidebau ar lawr gwlad yn llawer gwell nag a wneir ar hyn o bryd?

First Minister, one reason that ambulances queue outside A&E is that there is a lack of beds on wards. That is often because beds are blocked as a result of a lack of provision in the community. With the exception of Powys, yesterday, the Williams commission did not recommend the amalgamation of health services and social services, which is disappointing in my view. How will you, therefore, in 2014, direct health boards and local authorities to amalgamate services and budgets at grass-roots level to a much greater degree than at present?

13:55

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Mae'r neges honno'n gryf iawn. Mae'n bwysig iawn eu bod yn cydweithio mor agos ag y bo modd. Wrth siarad am wasanaethau cymdeithasol, rydym yn siarad am wasanaethau gofal—nid ydym yn siarad am fabwysiadu, er enghraifft. Mae'r neges wedi mynd i fyrddau iechyd lleol ac i gynghorau lleol ei bod yn bwysig dros ben iddynt gydweithio er mwyn sicrhau bod y dinesydd yn cael y gwasanaeth gorau posibl.

That is a very strong message. It is extremely important that they collaborate as closely as possible. In talking about social services, we are talking about care services—we are not talking about adoption, for example. The message has been conveyed to local health boards and to local councils, that it is extremely important to collaborate in order to ensure that the citizen is given the best service possible.

13:55

## William Powell Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, last term I raised with you the urgent fire safety requirements that had to be put in place at Bronllys Hospital's pain management centre. I am pleased to say that, since your intervention towards the end of the autumn, the work is now in hand. However, my question for you today, particularly in the context of your Minister for health's statement last week with regard to the NHS concentrating more on the areas where we can deliver good rather than, potentially, deliver harm, is: would it not be prudent to consider investing further in that recognised centre of excellence, particularly as it would, on a spend-to-save basis, potentially reduce the burden of costs for expensive and ever-escalating drug bills for pain relief?

Brif Weinidog, codais y gofynion diogelwch tân brys y bu'n rhaid eu rhoi ar waith yng nghanolfan rheoli poen Ysbyty Bronllys gyda chi y tymor diwethaf. Rwy'n falch o ddweud, ers eich ymyrraeth tua diwedd yr hydref, bod y gwaith yn cael ei wneud erbyn hyn. Fodd bynnag, fy nghwestiwn i chi heddiw, yn enwedig yng nghyd-destun datganiad eich Gweinidog iechyd yr wythnos diwethaf o ran y GIG yn canolbwyntio mwy ar y meysydd lle y gallwn wneud da yn hytrach nag, o bosibl, gwneud niwed, yw: oni fyddai'n ddoeth ystyried buddsoddi ymhellach yn y ganolfan gydnabyddedig honno o ragoriaeth, yn enwedig gan y byddai, ar sail gwario i arbed, o bosibl yn lleihau baich costau biliau cyffuriau drud, ac sy'n cynyddu'n barhaus, ar gyfer lleddfu poen?

13:56 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

These are matters for the local health board, of course. I am sure that it will want to invest in such a way that services are delivered better and efficiently. I am glad to hear that, following your question in the Assembly Chamber, work seems to be beginning, at least, at Bronllys Hospital.

Materion i'r bwrdd iechyd lleol yw'r rhain, wrth gwrs. Rwy'n siŵr y bydd eisiau buddsoddi yn y fath fodd fel y darperir gwasanaethau'n well ac yn effeithlon. Rwy'n falch o glywed, yn dilyn eich cwestiwn yn Siambr y Cynulliad, ei bod yn ymddangos bod gwaith yn dechrau, o leiaf, yn Ysbyty Bronllys.

Senedd.tv Fideo Video

### Stryd Fawr yng Nghymru

### Welsh High Street

13:57 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

First Minister, Cooke & Arkwright reported last week that many small businesses in Wales are paying double the business rate that they should be paying—

Brif Weinidog, dywedodd Cooke & Arkwright yr wythnos diwethaf bod llawer o fusnesau bach yng Nghymru yn talu dwbl y gyfradd fusnes y dylent fod yn ei thalu—

Senedd.tv Fideo Video

13:57 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

That does not match the question that I have on my paper.

Nid yw hynny'n cyd-fynd â'r cwestiwn sydd gennyf i ar fy mhapur.

Senedd.tv Fideo Video

13:57 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

I am so sorry. It was my mistake.

Mae'n ddrwg iawn gennyf. Fy nghamgymeriad i oedd hynny.

Senedd.tv Fideo Video

*4. Pa gamau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gefnogi'r stryd fawr yng Nghymru yn 2014? OAQ(4)1434(FM)*

*4. What actions will the Welsh Government be taking to support the Welsh high street in 2014? OAQ(4)1434(FM)*

13:57 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

It is very sporting of the Member to give me the supplementary question before the main question. [Laughter.]

Chwarae teg i'r Aelod roi'r cwestiwn atodol i mi cyn y prif gwestiwn. [Chwerthin.]

Senedd.tv Fideo Video

13:57 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

I am sure that I am not the first.

Rwy'n siŵr mai nad fi yw'r cyntaf.

Senedd.tv Fideo Video

13:57 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Our vibrant and viable places framework demonstrates a clear emphasis on the regeneration of town centres in Wales. This will be supported by further action, including business improvement district support, a town-centre loan fund, action on business rates—Members will be aware, of course, of the cap—and a high street support campaign launched this autumn.

Mae ein fframwaith lleoedd llewyrchus llawn addewid yn dangos pwyslais eglur ar adfywio canol trefi yng Nghymru. Bydd hyn yn cael ei gefnogi gan gamau pellach, gan gynnwys cefnogaeth ardal gwella busnes, cronfa benthyciadau canol y dref, camau ar ardrethi busnes—bydd yr Aelodau yn ymwybodol o'r cap, wrth gwrs—a chynllun cefnogi'r stryd fawr a lansiwyd yr hydref hwn.

Senedd.tv Fideo Video

13:57 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

At the risk of repeating myself, I welcome the 2% cap in the business rates that you have just mentioned, but your own high street strategy is now some seven months late. In the meantime, how about adopting some of the Welsh Conservative policies that were announced in the vision for the high street?

Heb fod eisiau ailadrodd fy hun, rwy'n croesawu'r cap o 2% ar y cyfraddau busnes yr ydych chi newydd ei grybwyll, ond mae eich strategaeth stryd fawr eich hun tua saith mis yn hwyr bellach. Yn y cyfamser, beth am fabwysiadu rhai o bolisïau Ceidwadwyr Cymru a gyhoeddwyd yn y weledigaeth ar gyfer y stryd fawr?

Senedd.tv Fideo Video

13:58 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

I think that there is some common ground here. We all want to see the high streets thrive. That is why we announced the pilot town-centre loan scheme, which has been brought forward to assist local partners in pilot areas to bring their own town centres back to life. Officials are also working with a small task and finish group regarding the campaign that I have mentioned in support for our high streets, which will be launched this autumn. The Minister announced business rate relief schemes, which will benefit town centres by encouraging construction and speculative developments, and support long-term empty premises back into use. Of course, the business rates cap will help that.

Rwy'n credu bod rhywfaint o dir cyffredin yma. Rydym ni i gyd eisiau gweld pob stryd fawr yn ffynnu. Dyna pam y cyhoeddwyd y cynllun arbrofol benthyciad canol trefi gennym, a gyflwynwyd i helpu partneriaid lleol mewn ardaloedd arbrofol i adfywio canol eu trefi eu hunain. Mae swyddogion hefyd yn gweithio gyda grŵp gorchwyl a gorffen bach ar yr ymgyrch yr wyf wedi ei grybwyll i gefnogi ein stryd fawr, a fydd yn cael ei lansio yr hydref hwn. Cyhoeddodd y Gweinidog gynlluniau rhyddhad ardrethi busnes, a fydd o fudd i ganol trefi trwy annog datblygiadau adeiladu a thybiannol, ac yn cynorthwyo safleoedd sydd wedi bod yn wag am gyfnod hir i gael eu defnyddio unwaith eto. Wrth gwrs, bydd y cap ardrethi busnes yn helpu hynny.

13:58 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Brif Weinidog, rwy'n falch eich bod yn cydnabod bod argyfwng yn wynebu llawer o strydoedd mawr Cymru ar hyn o bryd. Un peth sy'n effeithio ar ddelwedd y stryd fawr yw siopau gwag. A fyddech yn ystyried gweithio gydag awdurdodau lleol i weld sut y gellid llenwi siopau gwag, efallai gyda busnesau nad ydynt yn gallu fforddio cael ffenestr siop ar y stryd fawr ar hyn o bryd?

First Minister, I am pleased that you acknowledge that there is a crisis facing many high streets in Wales at present. One thing that impacts upon the image of the high street is empty shops. Would you consider working with local authorities to see how empty shops could be filled, possibly by businesses that cannot afford a shop window on the high street at present?

Yr ail bwynt yw parcio. A ydych yn gweld bod lle i fod yn greadigol gyda pharcio—cynnig awr neu ddwy am ddim yn ystod y dydd, fel na ellir cymryd y lle hwnnw can bobl sy'n gweithio mewn swyddfeydd?

The second point is parking. Do you believe that there is scope to be creative with parking—offering an hour or two of free parking during the day so that those spaces cannot be taken by office workers?

13:59 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Mater i awdurdodau lleol yw hynny. O ran businessau 'pop-up', rwy'n credu ei bod yn bosibl i awdurdodau lleol, yn gweithio gyda busnesau, ystyried a fyddai modd sicrhau mis i fusnes, er enghraifft, heb orfod talu ardrethi neu unrhyw fath o lóg er mwyn gweld a fyddai modd iddynt fod yn gynaliadwy. Yna, wrth gwrs, os ydynt yn gynaliadwy, byddai'n rhaid iddynt dalu. Byddai hynny'n rhoi cyfle i rai pobl nad ydynt, efallai, am ddechrau busnes a chael eu clymu i unrhyw fath o gytundeb weld a oes marchnad i'r hyn maent am ei werthu. Un broblem y mae angen ei hystyried—ac roeddwn yn meddwl am y mater hwn y bore yma—yw bod yn rhaid i'r stryd fawr ailfeddwl sut y mae hi'n gweithio oherwydd bod y rhan fwyaf o gwsmeriaid y stryd fawr yn y gwaith pan fydd y siopau ar agor. Maent yn cau am 5.30 p.m.. Wel, i'r rhan fwyaf o bobl, gan gynnwys y rhan fwyaf ohonom yn y Siambr hon, bach iawn o siopa sy'n digwydd i ni yn yr wythnos yn ystod yr oriau hynny, felly mae pobl yn tueddu i fynd i siopau sydd ar agor yn hwyrach. Felly, mae angen ystyried, yn fy marn i, yr oriau y mae'r siopau ar agor er mwyn tynnu pobl i mewn yn ystod y nosweithiau, ac nid yn unig yn y dydd.

That is a matter for local authorities, of course. In terms of pop-up businesses, I think that it is possible for local authorities to work with businesses to consider whether or not it would be possible, for example, to secure a month for a business without having to pay rates or any type of interest just to see whether it can be sustainable. Then, if it is sustainable, it would have to pay. It would provide an opportunity for some people who may not want to start a business by being tied into some sort of contract, to see whether there is a market for what they want to sell. One of the problems that we have to consider—and I was thinking about this issue this morning—is that the high street has to rethink the way that it works because of the fact that most high street customers are at work when those shops are open. They close at 5.30 p.m.. Well, for most people, including most of us in this Chamber, there is very little shopping going on during the week during those hours, so people tend to go to shops that are open later. So, we also have to consider, in my opinion, the opening hours of our high street stores in order to draw people in during the evenings, and not only during the daytime.

### Lleihau Faint sy'n Ysmygu

### Reduce Smoking

14:00 **Lindsay Whittle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*5. Pa dystiolaeth sydd gennych fod dulliau Llywodraeth Cymru i leihau faint sy'n ysmygu mewn ceir sy'n cludo plant yn cael unrhyw effaith gadarnhaol? OAQ(4)1430(FM)*

*5. What evidence do you have that the Welsh Government's approach to reducing smoking in cars carrying children is having any positive impact? OAQ(4)1430(FM)*

14:00 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Recent research has shown an increase in people reporting that smoking was not allowed in their main car. We have also commissioned studies of primary and secondary school age children's exposure to second-hand smoke in cars. The results of that research will be available later this year.

Mae gwaith ymchwil diweddar wedi dangos cynnydd i nifer y bobl a ddywedodd na chaniateir ysmygu yn eu prif gar. Rydym ni hefyd wedi comisiynu astudiaethau o gysylltu plant oedran ysgol gynradd ac uwchradd â mwg ail-law mewn ceir. Bydd canlyniadau'r gwaith ymchwil hwnnw ar gael yn ddiweddarach eleni.

Senedd.tv
Fideo Video

14:01 **Lindsay Whittle** Bywgraffiad Biography

I thank you, First Minister, for answering my question. It is well known that 80% of the public want smoking in cars carrying children to be banned, yet 22% of adults still smoke when children are in their cars. Eminent medics tell us that this form of passive smoking leads to asthma, chest infections, ear problems and even cot deaths. While we have been waiting for the past two years, children have been suffering. I know that some Conservatives have opposed this with shouts about personal freedom. Is it not time, First Minister, to put the right of children to good health above so-called personal freedoms and ban smoking in cars in which children are passengers?

Diolch i chi, Brif Weinidog, am ateb fy nghwestiwn. Mae'n hysbys iawn bod 80% o'r cyhoedd yn dymuno i ysmygu mewn ceir sy'n cludo plant gael ei wahardd, ac eto mae 22% o oedolion yn dal i ysmygu pan fydd plant yn eu ceir. Mae meddygon blaenllaw yn dweud wrthym fod y math hwn o ysmygu goddefol yn arwain at asthma, heintiau ar y frest, problemau'r glust a marwolaethau yn y crud hyd yn oed. Tra ein bod ni wedi bod yn aros am y ddwy flynedd diwethaf, mae plant wedi bod yn dioddef. Gwn fod rhai Ceidwadwyr wedi gwrthwynebu hyn trwy weiddi am ryddid personol. Onid yw'n bryd, Brif Weinidog, i roi hawl plant i fwynhau iechyd da o flaen rhyddid personol honedig a gwahardd ysmygu mewn ceir y mae plant yn deithwyr ynddynt?

Senedd.tv
Fideo Video

14:01 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

That option, of course, is available to us, when that research becomes available in the summer. We have always said that, if the voluntary approach does not work, we will look to legislate.

Mae'r dewis hwnnw, wrth gwrs, ar gael i ni, pan fydd y gwaith ymchwil hwnnw ar gael yn yr haf. Rydym ni wedi dweud erioed, os nad yw'r dull gwirfoddol yn gweithio, byddwn yn ystyried deddfu.

Senedd.tv
Fideo Video

14:02 **William Graham** Bywgraffiad Biography

The First Minister will be aware that, every year in Wales, around 14,500 young people, aged 11 to 15, are introduced to smoking, very often through peer pressure. First Minister, you have given one answer already, but do you not think that you should look at this once again? I appreciate that you want to see the evidence, but most people would like this ban to be in place. Could you reconsider bringing legislation forward to outlaw smoking in cars with children in them?

Bydd y Prif Weinidog yn ymwybodol bod tua 14,500 o bobl ifanc, 11 i 15 oed, yn cael eu cyflwyno i ysmygu bob blwyddyn yng Nghymru, yn aml iawn trwy bwysau gan gyfoedion. Brif Weinidog, rydych chi wedi rhoi un ateb yn barod, ond onid ydych chi'n credu y dylech chi ystyried hyn unwaith eto? Rwy'n sylweddoli eich bod eisiau gweld y dystiolaeth, ond hoffai'r rhan fwyaf o bobl i'r gwaharddiad hwn fod ar waith. A allech chi ailystyried cyflwyno deddfwriaeth i wahardd ysmygu mewn ceir sydd â phlant ynddynt?

Senedd.tv
Fideo Video

14:02 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I think that we need to get the results of the research to provide the evidence base. We all know anecdotally what the situation is, but that much is important. The point I would make is this: yes, of course people—adults, that is—have a freedom to do as they wish in their own cars, but when there are children in the car, the children cannot get out of the car and they cannot make their own decisions. That personal freedom of adults to impose their smoking on children is not something that I would look to support as being in any way a freedom that does not impinge on the rights of others. That is exactly what smoking in cars with children in them does.

Rwy'n credu bod angen i ni gael canlyniadau'r gwaith ymchwil i ddarparu sail dystiolaeth. Rydym i gyd yn gwybod beth yw'r sefyllfa yn anecdotaidd, ond mae cymaint â hynny'n bwysig. Y pwynt y byddwn yn ei wneud yw hyn: oes, wrth gwrs bod gan bobl—oedolion, hynny yw—ryddid i wneud fel y dymunant yn eu ceir eu hunain, ond pan fo'u plant yn y car, ni all y plant fynd allan o'r car ac ni allant wneud eu penderfyniadau eu hunain. Nid yw'r rhyddid personol hwnnw i oedolion orfodi eu hysmygu ar blant yn rhywbeth y byddwn eisiau ei gefnogi fel rhyddid o unrhyw fath nad yw'n amharu ar hawliau pobl eraill. Dyna'n union y mae ysmygu mewn ceir gyda phlant ynddynt yn ei wneud.

Senedd.tv
Fideo Video

## Ysbyty Bronglais

## Bronglais Hospital

14:03

### Simon Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*6. Pa gynlluniau sydd gan y Prif Weinidog i ailsefydlu gwasanaethau llawfeddygaeth y colon a'r rhefr yn Ysbyty Bronglais? OAQ(4)1444(FM)*

*6. What plans does the First Minister have to re-establish colo-rectal surgery services at Bronglais Hospital? OAQ(4)1444(FM)*

14:03

### Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Rwyf yn gwybod bod y bwrdd iechyd wedi ceisio gwneud hwn. Cafodd y swydd hon ei chynnig i rywun fis Mehefin y llynedd, ond penderfynodd y person hwnnw beidio â chymryd y swydd honno. Ers hynny, yn anffodus, mae'r coleg brenhinol wedi dweud na fydd yn cefnogi ymgynghorydd arbennig ar hyn o bryd, oherwydd nad yw o'r farn bod y model yn yr ysbyty'n ddigonol, o ran y safonau cenedlaethol.

I know that the health board attempted to do this and somebody was offered the post in June of last year, but, they declined the post. Since then, unfortunately, the royal college has said that it would not support having a specialist consultant there at present, because it does not believe that the model at the hospital is adequate as regards national standards.

14:03

### Simon Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Dyna'r rhesymau pam nad oes triniaeth o'r math hwn ar gael ym Mronglais ar hyn o bryd, ond nid oes ateb i'r cwestiwn ynghylch pryd y cawn driniaeth o'r math hwn. A ydych yn disgwyl i'r sefyllfa bresennol, a oedd i fod yn sefyllfa dros dro naw mis yn ôl, i bara am y flwyddyn nesaf? Dyna'r hanes, yn anffodus, gyda Hywel Dda: pethau dros dro yn cael eu cyflwyno ac wedyn yn dod yn barhaol. Roedd 300 o bobl yn y cyfarfod cyhoeddus yn Aberystwyth 10 niwrnod yn ôl—gan gynnwys tri Aelod Cynulliad—wedi pleidleisio'n unfrydol i ailsefydlu'r driniaeth hon. Pa bryd y gwelwn y driniaeth hon yn dod yn ôl i ysbyty Bronglais, os gwelwch yn dda?

Those are the reasons why such treatment is not available at Bronglais currently, but there has been no answer to the question as to when such a service will be available. Do you expect the current situation, which was supposed to be temporary nine months ago, to continue over the next year? That is unfortunately the story with Hywel Dda: temporary measures are introduced and then they become permanent. There were 300 people at a public meeting in Aberystwyth 10 days ago—including three Assembly Members—and they voted unanimously to re-establish this treatment. When will we see this treatment re-established at Bronglais hospital, please?

14:04

### Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Ar hyn o bryd, mae'r coleg yn dweud nad oes digon o gleifion i sicrhau y byddai'r gwasanaeth yn un saff. Ar hyn o bryd, ynglŷn â chancr, yr hyn yr wyf yn ei ddeall yw bod y sefyllfa hon yn effeithio ar ddau neu dri o bobl y mis. Un broblem a oedd yn bodoli gyda Bronglais oedd y ffaith bod yna ddoctoriaid a oedd yn gwneud yn llawdriniaeth ond nad oeddent yn darparu 'laparoscopy'. Oherwydd hynny, nid oeddent yn gallu rhoi hyfforddiant i unrhyw un arall. Unwaith aeth y doctoriaid hynny, nid oedd unrhyw un ar ôl. Felly, roedd yna broblem oherwydd nid oedd y modd yr oeddent yn gwneud llawfeddygaeth ym Mronglais yn cyd-fynd â'r safonau mwyaf modern. Nid oedd unrhyw beth yn bod â'r llawfeddygaeth; nid wyf yn beirniadu pa mor dda yr oedd y llawfeddygaeth yno, ond nid oedd yr un peth â'r hyn a oedd ar gael yn ysbytai eraill yng Nghymru. O achos hynny, roedd problem: nid oedd unrhyw un arall yn gallu dod i mewn fel doctor ifanc, achos ni fyddai'n gallu cael yr hyfforddiant yr oedd ei eisiau. Os yw'r coleg yn newid ei feddwl ac yn newid ei safonau, byddai'n bosibl ailystyried hwn. Ond, ni all unrhyw un apwyntio doctor mewn ysbyty lle mae'r doctoriaid eu hunain yn dweud na fyddai'n saff i wneud hynny. Dyna beth yw'r broblem ar hyn o bryd.

At present, the college says that there is not a sufficient number of patients to ensure that the service is safe. At the moment as I understand it, as regards cancer, two to three people a month are affected by this situation. One problem that existed at Bronglais was the fact that there were doctors available to undertake the surgery, but they did not undertake laparoscopies. Due to that fact, they could not train anyone else. Once those doctors left, there was no-one left. So, there was a problem because the way in which they undertook surgery at Bronglais did not match with the most modern ways of doing things. There was nothing wrong with the way that they were doing it; I am not criticising the quality of the surgery there, but it was not the same as the practice found at other hospitals in Wales. As a result, there was a problem: no-one could come in as a junior doctor, because they could not receive the training that they required. If the college changes its mind and changes the standards, it will be possible to reconsider this. However, nobody can appoint a doctor in a hospital where the doctors themselves say that it would not be safe to do so. That is the problem at present.

14:05 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

As Simon Thomas has said, the recent meeting in Aberystwyth focused very much on colorectal surgery, and of the 300 people who were at the meeting, none were from the health board. Do you join me in encouraging the health board to up its game in terms of engaging with and listening to people across Hywel Dda?

Fel y mae Simon Thomas wedi ei ddweud, roedd y cyfarfod diweddar yn Aberystwyth yn canolbwyntio i raddau helaeth iawn ar lawdriniaeth y colon a'r rhefr, ac o'r 300 o bobl a oedd yn y cyfarfod, nid oedd unrhyw un ohonynt o'r bwrdd iechyd. A ydych chi'n ymuno â mi i annog y bwrdd iechyd i wella ei berfformiad o ran ymgysylltu â phobl o bob rhan o Hywel Dda, a gwrando arnynt?

14:06 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

I think that it is essential that all health boards are as accessible as possible to the people that they serve. I would urge all health boards to do that. I would say that the health board, I understand, has said to those who organised the meeting that it is more than happy to answer any written questions that are sent to it as a result of that meeting. I understand that no such questions have yet been sent, though.

Rwy'n credu ei bod yn hanfodol bod pob bwrdd iechyd mor hygyrch â phosibl i'r bobl y maen nhw'n eu gwasanaethu. Byddwn yn annog pob bwrdd iechyd i wneud hynny. Byddwn yn dweud bod y bwrdd iechyd, rwy'n deall, wedi dweud wrth y rhai a drefnodd y cyfarfod ei fod yn fwy na hapus i ateb unrhyw gwestiynau ysgrifenedig a anfonir iddo o ganlyniad i'r cyfarfod hwnnw. Rwy'n deall nad oes unrhyw gwestiynau o'r fath wedi eu hanfon hyd yn hyn, serch hynny.

14:06 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, I too share the concerns that have been expressed by Members, both about the lack of engagement by the health board and the challenges that this decision presents to patients. One of those challenges is of course the transport costs to get to the other, alternative centres for their treatment. I wonder what engagement the Welsh Government has had with the health board to ensure that it is supporting patients who need support with finance towards those transport costs to make sure that they can access the treatment that they need.

Brif Weinidog, rwyf innau hefyd yn rhannu'r pryderon a fynegwyd gan yr Aelodau, am y diffyg ymgysylltiad gan y bwrdd iechyd a'r heriau y mae'r penderfyniad hwn yn eu cyflwyno i gleifion. Un o'r heriau hynny, wrth gwrs, yw'r costau cludiant i gyrraedd y canolfannau eraill ar gyfer eu triniaeth. Tybed pa ymgysylltiad mae Llywodraeth Cymru wedi ei gael gyda'r bwrdd iechyd er mwyn sicrhau ei fod yn cefnogi cleifion sydd angen cymorth gyda chyllid tuag at y costau cludiant hynny i wneud yn siŵr eu bod yn gallu cael mynediad at y driniaeth sydd ei hangen arnynt.

14:06 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

I would expect the local health board to assist people where it can, but the reality of the situation is that where you have the royal colleges saying that the establishment of a particular service would not be safe, no politician, surely—rationally—would then try to establish that service. It is unfortunate. It is nothing to do with money. A lot of it is to do with the throughput of patients. You cannot increase, physically, the number of patients going through a particular department unless you centralise the service in that regard. It has been an unfortunate scenario that has unfolded in Bronglais. I do reiterate the fact that the number of patients affected is small. For those affected, of course, it is an issue—I understand that—but we are talking about two to three patients a month.

Byddwn yn disgwyl i'r bwrdd iechyd lleol gynorthwyo pobl pan ei fod yn gallu, ond gwirionedd y sefyllfa yw, pan fo gennych y colegau brenhinol yn dweud na fyddai sefydlu gwasanaeth penodol yn ddiogel, ni fyddai unrhyw wleidydd, does bosib—yn rhesymol—yn ceisio sefydlu'r gwasanaeth hwnnw wedyn. Mae'n anffodus. Nid yw'n ddim i wneud ag arian. Mae llawer ohono'n ymwneud â nifer y cleifion sy'n mynd drwy'r gwasanaeth. Ni allwch gynyddu, yn ffisegol, nifer y cleifion sy'n mynd trwy adran benodol oni bai eich bod yn canoli'r gwasanaeth yn hynny o beth. Mae'r sefyllfa sydd wedi datblygu ym Mronglais wedi bod yn anffodus. Rwyf am ailadrodd y ffaith mai prin yw nifer y cleifion yr effeithir arnynt. I'r rhai yr effeithir arnynt, wrth gwrs, mae'n broblem—rwy'n deall hynny—ond rydym ni'n sôn am ddau neu dri o gleifion y mis.

### Taith i Waith

### New Work Connections

14:07 **Rhun ap Iorwerth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*7. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y cynllun Taith i Waith? OAQ(4)1432(FM)*

*7. Will the First Minister make a statement on the New Work Connections initiative? OAQ(4)1432(FM)*

14:07 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Gyda chymorth £9 miliwn gan gronfa gymdeithasol Ewrop, mae'r prosiect Taith i Waith, sydd werth £17 miliwn, yn helpu pobl dan anfantais yng ngogledd-orllewin Cymru i gael gwaith a chyfleoedd hyfforddi.

Supported by £9 million from the European social fund, the £17 million New Work Connections project is helping disadvantaged people in north-west Wales to find employment and access training opportunities.

14:07 **Rhun ap Iorwerth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Mae Taith i Waith yn dod i ben ddiwedd mis Chwefror. Mae wedi bod yn bwysig iawn o ran cynorthwyo pobl ddifreintiedig i ganfod llwybr yn ôl i waith. Nid ydym dal yn gwybod beth a ddaw yn ei le. A yw'r Prif Weinidog yn derbyn y gall y bwlch rhwng Taith i Waith a beth bynnag a ddaw yn ei le fod yn niweidiol iawn o ran canfod gwaith i'r rhai mwyaf difreintiedig? A wnewch chi ymrwymiad i gyhoeddi cynlluniau ar gyfer cynllun newydd cyn gynted â phosibl?

New Work Connections will be coming to an end at the end of February. It has been extremely important in assisting disadvantaged people with finding a pathway back to work. We still do not know what will replace it. Does the First Minister accept that that gap between New Work Connections and whatever will replace it could be detrimental from the point of view of finding employment for the most disadvantaged people? Will you make a commitment to announce plans for a new scheme as soon as possible?

14:08 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Rwy'n deall bod yr awdurdodau lleol eu hunain yn edrych ar gynlluniau i sicrhau bod unigolion yn gallu parhau â'r prosiect, ac yn edrych ar ym mha ffordd y gallent gael adnoddau eraill tu fas i'r rhaglen hon. Wrth ddweud hynny, rydym eisiau sicrhau bod y cynlluniau ynglŷn â'r cronfeydd Ewropeaidd ar gyfer 2014 i 2020 wedi eu hystyried ac wedi eu caniatáu gan y Comisiwn Ewropeaidd erbyn mis Mai eleni.

I understand that the local authorities themselves are looking at proposals to ensure that individuals can continue with the project, and they are looking to see how they can put other resources in place outwith this programme. Having said that, we want to ensure that the plans for the European funds for 2014 to 2020 have been considered and permitted by the European Commission by May of this year.

14:09 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, of course you will be aware of the Working Links programme that runs concurrently with the New Work Connections programme, so when this programme ends, it will be possible for people who have been on the New Work Connections initiative to go to seek assistance and help from Working Links. Have you been working with the UK Government to see how it might be able to assist in that regard? The Working Links programme has the same objectives of getting people back into work and providing training for them and support, particularly when they may have particular needs or problems that need to be addressed.

Brif Weinidog, byddwch yn ymwybodol, wrth gwrs, o'r rhaglen Working Links sy'n rhedeg ar yr un pryd â'r rhaglen Taith i Waith, felly pan ddaw'r rhaglen hon i ben, bydd yn bosibl i bobl sydd wedi bod ar y fenter Taith i Waith fynd i ofyn am gymorth a help gan Working Links. A ydych chi wedi bod yn gweithio gyda Llywodraeth y DU i weld sut y gallai gynorthwyo yn hynny o beth? Mae gan y rhaglen Working Links yr un amcanion o gael pobl yn ôl i'r gwaith a darparu hyfforddiant iddynt ,a chefnogaeth, yn enwedig pan allai fod ganddynt anghenion neu broblemau penodol y mae angen mynd i'r afael â nhw.

14:09 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

The Minister has been active in terms of working with the UK Government on this, and I understand that there has been a recent meeting with a view to looking to resolve the situation.

Mae'r Gweinidog wedi bod yn weithgar o ran gweithio gyda Llywodraeth y DU ar hyn, ac rwy'n deall y bu cyfarfod diweddar gyda'r nod o geisio datrys y sefyllfa.

## Ardaloedd Menter

## Enterprise Zones

14:10 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*8. A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd sy'n cael ei wneud yn yr Ardaloedd Menter? OAQ(4)1431(FM)*

*8. Will the first Minister provide an update on the progress of Enterprise Zones? OAQ(4)1431(FM)*

14:10 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

A progress update was published in the autumn term. We have also published performance indicators and targets, against which we will report further progress in May of this year and on an annual basis thereafter.

Cyhoeddwyd diweddariad ar gynnydd yn ystod tymor yr hydref. Rydym ni hefyd wedi cyhoeddi dangosyddion a thargedau perfformiad, y byddwn yn adrodd ar gynnydd pellach yn eu herbyn ym mis Mai eleni ac yn flynyddol wedi hynny.

Senedd.tv
Fideo Video

14:10 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

I am sure that you are aware of the Finance Committee's report into enterprise zones, which was published in December last year, which alluded to what I can only describe as an air of mystery surrounding where we are at the moment with enterprise zones in Wales. One of the concerns in the report is that,

Rwy'n siŵr eich bod yn ymwybodol o adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar ardaloedd menter, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr y llynedd, a oedd yn cyfeirio at yr hyn y gallaf ond ei ddisgrifio fel ymdeimlad o ddirgelwch o ran ein sefyllfa ar hyn o bryd gyda'r ardaloedd menter yng Nghymru. Un o'r pryderon yn yr adroddiad yw ei bod,

'it is difficult to be 100% clear about what influence these strategic objectives have',

yn anodd bod 100% yn eglur am ba ddylanwad y mae'r amcanion strategol hyn yn ei gael,

because the Welsh Government has hitherto failed to make those objectives public, despite having them in the Welsh Government's files, so to speak. Will you agree with the Finance Committee, First Minister, that recommendation 1 of that report should be fulfilled and that all non-commercially sensitive information relating to the objectives of the zones should now be published so that scrutiny can run its course?

gan fod Llywodraeth Cymru wedi methu â gwneud yr amcanion hynny'n gyhoeddus hyd yn hyn, er eu bod yn ffeiliau Llywodraeth Cymru, fel petai. A wnewch chi gytuno â'r Pwyllgor Cyllid, Brif Weinidog, y dylid cyflawni argymhelliad 1 yr adroddiad hwnnw ac y dylai pob darn o wybodaeth nad yw'n fasnachol sensitif sy'n ymwneud ag amcanion yr ardaloedd gael ei gyhoeddi nawr fel y gellir gwneud y craffu priodol?

Senedd.tv
Fideo Video

14:11 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

There is no mystery surrounding the success of our enterprise zones: we have already assisted over 60 new and growing SMEs with their business rates. That is nearly £4.5 million committed in support. Some 2,000 jobs have been created across the enterprise zones, which contrasts with his party's stewardship of enterprise zones in England, where the target was 54,000 jobs by 2015 and it seems now that 11% of those 54,000 jobs will be delivered. The National Audit Office has hammered the UK Government recently over its stewardship of enterprise zones. In order to help keep track of progress, Members will be aware that, over the next year, we will be publishing performance indicators and targets for 2014-15. We look forward to publishing the first report against those indicators in the spring of this year. We are more than happy to be scrutinised on the success of the Welsh enterprise zones, compared to the abject failure of those across the border.

Nid oes unrhyw ddirgelwch am lwyddiant ein hardaloedd menter: rydym ni eisoes wedi helpu dros 60 o fusnesau bach a chanolig newydd, a rhai sy'n tyfu, gyda'u hardrethi busnes. Mae hynny'n golygu bod bron i £4.5 miliwn wedi'i ymrwymo i gefnogi hynny. Crëwyd tua 2,000 o swyddi ar draws yr ardaloedd menter, sy'n cyferbynnu â stiwardiaeth ei blaid ef o ardaloedd menter yn Lloegr, lle'r oedd y targed yn 54,000 o swyddi erbyn 2015 ac mae'n ymddangos bellach mai 11% o'r 54,000 o swyddi hynny fydd yn cael eu cyflawni. Mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol wedi beirniadu Llywodraeth y DU yn ddifrifol yn ddiweddar am ei stiwardiaeth o ardaloedd menter. Er mwyn helpu i gadw golwg ar gynnydd, bydd yr Aelodau'n ymwybodol y byddwn, dros y flwyddyn nesaf, yn cyhoeddi dangosyddion a thargedau perfformiad ar gyfer 2014-15. Edrychwn ymlaen at gyhoeddi'r adroddiad cyntaf yn erbyn y dangosyddion hynny yng ngwanwyn eleni. Rydym yn fwy na pharod i fod yn destun craffu ar lwyddiant yr ardaloedd menter yng Nghymru, o'i gymharu â methiant llwyr y rhai ar draws y ffin.

Senedd.tv
Fideo Video

14:12 **Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas** Bywgraffiad Biography

Fel un sy'n cael y fraint o gynrychioli parth menter Eryri, nid wyf yn gweld unrhyw ddirgelwch o gwbl ynglŷn â'r cynlluniau yma ac yn croesawu'n fawr y datblygiadau sy'n digwydd. A fyddai'r Prif Weinidog yn cytuno, yn dilyn cyhoeddi adroddiad ardderchog Syr Paul Williams a'i gyd-gomisiynwyr, ei bod yn hanfodol bellach bod llywodraeth leol, gan gynnwys awdurdodau cynllunio a pharciau cenedlaethol, yn gweld y ffordd yn glir i gydweithio gydag amcanion Llywodraeth Cymru pan fydd materion pwysig ynglŷn â chaniatadau ar gyfer datblygiadau yn dod ger eu bron?

As one who has the privilege of representing the Snowdonia enterprise zone, I see no mystery at all surrounding these proposals and I warmly welcome the developments that are taking place. Will the First Minister agree, following the publication of the excellent report by Sir Paul Williams and his fellow commissioners, that it is now crucial that local government, including planning authorities and national parks, see their way clear to co-operate with the Welsh Government's objectives when important issues on consents for developments come before them?

Senedd.tv
Fideo Video

14:12 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Mae'n hynod bwysig bod hynny'n digwydd. Mae rhai ceisiadau mawr yn dod o dan sawl awdurdod lleol weithiau. Gwn o brofiad nad yw'n rhwydd eu cael i gydweithio er mwyn rhoi ateb i unrhyw ddatblygydd. Hefyd, mae profiad yn dangos bod awdurdodau cynllunio Cymru yn gallu delio â cheisiadau arferol, ond unwaith mae rhywbeth mawr yn dod mewn, maent yn stryglo achos does dim digon o gynllunwyr ac nid oes gan y corff y capasiti i ddelio â'r rhai mawr. Mae'n bwysig bod gennym strwythur cynllunio sy'n gallu delifro yn gyflym iawn ac sy'n ystyried yn fanwl beth yw'r arweinyddiaeth sy'n dod o Lywodraeth Cymru.

It is exceptionally important that that happens. Some of the major applications fall under a number of local authorities at times. I know from experience that it is not easy to get them to collaborate in order to give a response to any developer. Also, experience demonstrates that local planning authorities in Wales are able to deal with routine applications, but once a major application is submitted, they struggle because they do not have enough planners and they do not have the capacity in the bodies to deal with the major ones. It is important that we have a planning structure that can deliver very swiftly and also considers in detail what leadership is given by the Welsh Government.

14:13 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, you have told me repeatedly in this Chamber that the primary purpose of enterprise zones is to create new private sector jobs. However, the KPIs published by your Government suggest that you will publish an aggregate of jobs, created jobs, safeguarded jobs and assisted jobs, and it will not specify that they are private sector jobs that we are talking about. It is still your intention that enterprise zones are there to create private sector jobs?

Brif Weinidog, rydych chi wedi dweud wrthyf dro ar ôl tro yn y Siambr hon mai prif ddiben ardaloedd menter yw creu swyddi sector preifat newydd. Fodd bynnag, mae'r dangosyddion perfformiad allweddol a gyhoeddwyd gan eich Llywodraeth yn awgrymu y byddwch yn cyhoeddi cyfanred o swyddi, swyddi a grëwyd, swyddi a ddiogelwyd a swyddi a gynorthwywyd, ac na fydd yn nodi mai swyddi sector preifat yr ydym ni'n sôn amdanynt. Ai eich bwriad o hyd yw bod ardaloedd menter yno i greu swyddi sector preifat?

14:14 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

They are; of course, they are. That is why we have chosen not just those areas that are easier than others to pull in investment— Deeside being one such area—but we also looked at areas such as Snowdonia, which historically has been difficult to attract investment into. We do not try to look for the easier areas. We want to make sure that enterprise zones are spread out across the whole of Wales. Enterprise zones are there to do exactly what it says on the tin, namely, to promote enterprise.

Maen nhw; wrth gwrs eu bod nhw. Dyna pam rydym ni wedi dewis nid yn unig yr ardaloedd hynny lle mae'n haws denu buddsoddiad iddynt nag eraill—mae Glannau Dyfrdwy yn un ardal o'r fath—ond rydym ni hefyd wedi edrych ar ardaloedd fel Eryri, lle y bu'n anodd denu buddsoddiad iddynt yn hanesyddol. Nid ydym yn ceisio chwilio am yr ardaloedd haws. Rydym ni eisiau gwneud yn siŵr bod ardaloedd menter wedi eu gwasgaru ar draws Cymru gyfan. Mae ardaloedd menter yno i wneud yn union yr hyn y mae'n ei ddweud ar y tun, sef hybu menter.

## Gemau'r Cymanwlad

## Commonwealth Games

14:14 **Lynne Neagle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*9. A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynigion i gynnal Gemau'r Gymanwlad yng Nghymru? OAQ(4)1436(FM)*

*9. Will the First Minister provide an update on proposals to host the Commonwealth Games in Wales? OAQ(4)1436(FM)*

14:14 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Since December 2012 we have been working with Cardiff, Sport Wales and the Commonwealth Games Council on preliminary investigations to establish whether a bid should be mounted and what the implications would be.

Ers mis Rhagfyr 2012, rydym ni wedi bod yn gweithio gyda Chaerdydd, Chwaraeon Cymru a Chyngor Gemau'r Gymanwlad ar ymchwiliadau rhagarweiniol er mwyn darganfod a ddylid gwneud cais a beth fyddai'r goblygiadau.

14:14 **Lynne Neagle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I believe that hosting the games in 2026 could be a huge boost for the country, putting Wales at the centre of world attention for the duration of the games and underlining our growing reputation for organising and hosting global sporting events. First Minister, what is your assessment of the economic benefits that the games would bring to Wales and the sporting legacy that it would leave? Would you ensure that, hardwired into any bid, is a commitment to ensure that places such as Torfaen share fully in the benefits of this potentially fantastic showcase for Wales?

Rwy'n credu y gallai cynnal y gemau yn 2026 fod yn hwb enfawr i'r wlad, gan wneud Cymru yn ganolbwynt i sylw'r byd yn ystod cyfnod y gemau a thanlinellu ein henw da cynyddol am drefnu a chynnal digwyddiadau chwaraeon byd-eang. Brif Weinidog, beth yw eich asesiad chi o'r manteision economaidd y byddai'r gemau yn eu cynnig i Gymru a'r etifeddiaeth chwaraeon y byddent yn ei gadael ar eu hôl? A fyddech chi'n sicrhau, yn rhan ganolog o unrhyw gais, bod ymrwymiad i sicrhau bod lleoedd fel Torfaen yn rhannu'n llawn ym manteision yr hysbyseb gwych posibl hwn i Gymru?

14:15 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

We are undertaking an analysis of the benefits and costs. Part of that will be informed by the experience that we see in Glasgow later on this year. I have to say that it is a very expensive undertaking—there is no question about that. The figures that we are talking about run into the hundreds of millions of pounds. A rigorous analysis of any benefits would have to be undertaken even if the funds could be secured to host the games. Those are the challenges that we face; the aspiration is still there, but much work needs to be done.

Rydym yn cynnal dadansoddiad o fanteision a chostau. Bydd rhan o hynny'n cael ei hysbysu gan y profiad a welwn yng Nglasgow yn ddiweddarach eleni. Mae'n rhaid i mi ddweud ei fod yn ymgymeriad drud iawn—nid oes amheuaeth am hynny. Mae'r ffigurau yr ydym ni'n sôn amdanynt yn gannoedd o filiynau o bunnoedd. Byddai'n rhaid cynnal dadansoddiad trylwyr o unrhyw fanteision, hyd yn oed pe gellid dod o hyd i'r arian i gynnal y gemau. Dyna'r heriau sy'n ein hwynebu; mae'r dyhead yn dal i fod yno, ond mae angen gwneud llawer o waith.

14:16 **Mohammad Asghar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, the Commonwealth Games have the potential to project Cardiff on a global scale and bring real jobs and investment to this city and to Wales also. Will the First Minister confirm his support for the bid and will he advise us how many meetings his Government's major events unit has had with the officials of Cardiff Council and other bodies with the aim of bringing the Commonwealth Games to Wales in 2026?

Brif Weinidog, mae gan Gemau'r Gymanwlad y potensial i arddangos Caerdydd ar raddfa fyd-eang a dod â swyddi a buddsoddiad gwirioneddol i'r ddinas hon ac i Gymru hefyd. A wnaiff y Prif Weinidog gadarnhau ei gefnogaeth i'r cais ac a wnaiff ef roi gwybod i ni faint o gyfarfodydd y mae uned digwyddiadau mawr ei Lywodraeth wedi eu cael gyda swyddogion Cyngor Caerdydd a chyrff eraill gyda'r nod o ddod â Gemau'r Gymanwlad i Gymru yn 2026?

14:16 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

There have been many meetings. I have had many meetings over this issue as well. The issue will be further informed following an analysis of Glasgow. As I say, the aspiration remains to look to host the Commonwealth Games, but it is an exceptionally expensive undertaking. There would have to be very clear and demonstrable benefits to Cardiff and the surrounding area—well, not just the surrounding area, but the whole of Wales, actually, because it would be a Commonwealth Games for the whole of Wales—before even considering the next step of understanding where the money might come from, which, again, is not an easy question to answer.

Bu llawer o gyfarfodydd. Rwyf innau wedi cael llawer o gyfarfodydd ar y mater hwn hefyd. Bydd mwy o wybodaeth ar gael ar y mater yn dilyn dadansoddiad o Glasgow. Fel y dywedais, mae'r dyhead yn parhau i geisio cynnal Gemau'r Gymanwlad, ond mae'n ymrwymiad eithriadol o ddrud. Byddai'n rhaid cael manteision eglur ac amlwg iawn i Gaerdydd a'r cyffiniau—wel, nid yn unig y cyffiniau, ond i Gymru gyfan, a dweud y gwir, gan y byddai'n Gemau'r Gymanwlad i Gymru gyfan—cyn hyd yn oed ystyried y cam nesaf o ddeall o ble allai'r arian ddod, sydd, unwaith eto, yn gwestiwn nad oes ateb hawdd iddo.

14:17 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Brif Weinidog, wrth gwrs byddwn yn croesawu unrhyw 'bid', yn enwedig cyfle i allu chwarae yn lliwiau ein gwlad ein hunain, ond rwyf yn cytuno â'r hyn a ddywedodd Lynne Neagle yng nghyd-destun gwaddol y gemau, oherwydd rydym wedi gweld gyda'r Gemau Olympaidd nad ydym wedi cael fawr o fuddiannau o'r Gemau Olympaidd a ddigwyddodd yn Lloegr. Felly, mae angen inni sylweddoli sut y bydd Cymru yn gallu elwa, yn enwedig gan fod cynghorau lleol yn cau cyfleusterau chwaraeon neu'n eu preifateiddio. Mae'n rhaid i'r Llywodraeth sicrhau ein bod ni, fel Aelodau Cynulliad, yn deall yn iawn sut y bydd pobl Cymru, a phobl ifanc Cymru, yn elwa o unrhyw gemau a ddaw i'r wlad.

First Minister, of course I would welcome any bid, particularly if there were an opportunity to contest in our own colours as a nation, but I agree with what Lynne Neagle had to say in terms of the legacy of the games, because we have seen with the Olympic Games that we have not actually benefited a great deal from the legacy of the Olympic Games that took place in England. So, we do need to realise how Wales could actually benefit, particularly as local councils are closing sports facilities or privatising them. The Government must ensure that we, as Assembly Members, understand fully how the people of Wales, and young people in Wales, will benefit from any games coming to this country.

Senedd.tv
Fideo Video

14:17 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Mae hynny'n iawn, a dyna pam, wrth gwrs, ein bod ni'n ystyried ar hyn o bryd beth fyddai'r buddion a'r costau. Wedyn, erbyn yr Hydref eleni, byddwn yn ei ddweud, byddem mewn sefyllfa i ystyried yr heriau a'r buddiannau.

That is right and that, of course, is why we are considering what the benefits and costs would be. By the autumn of this year, I would say, we will then be in a position to consider the challenges and the benefits.

Senedd.tv
Fideo Video

14:18

## Cwestiwn Brys: Argymhellion y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus

## Urgent Question: The Commission on Public Service Governance and Delivery Recommendations

Senedd.tv
Fideo Video

**Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Thank you, First Minister. I have accepted two urgent questions. On the first urgent question, I ask Janet Finch-Saunders whether she would like to ask the question she submitted.

Diolch yn fawr, Brif Weinidog. Rwyf wedi derbyn dau gwestiwn brys. O ran y cwestiwn brys cyntaf, gofynnaf i Janet Finch-Saunders pa un a hoffai ofyn y cwestiwn a gyflwynwyd ganddi.

14:18 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

*A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am oblygiadau argymhellion y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus i awdurdodau lleol a darparwyr gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru? EAQ(4)0373(LG)*

*Will the First Minister make a statement on the implications for local authorities and public service providers in Wales of the recommendations proposed by the Commission on Public Service Governance and Delivery? EAQ(4)0373(LG)*

Senedd.tv
Fideo Video

14:18 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I refer the Member to the answers that I gave in relation to question 1.

Cyfeiriaf yr Aelod at yr atebion a roddais i gwestiwn 1.

Senedd.tv
Fideo Video

14:18 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

First Minister, ahead of the publication of this report, and following many pre-emptive statements by yourself, there are predictions now of some 15,000 front line staff that are now in limbo, waiting for news on what reorganisation will mean for them. Furthermore, the estimated costs of reorganisation have been somewhat wide ranging, from £500 million by senior figures in Welsh Labour to £200 million from the Welsh Local Government Association, to £100 million by the commission itself. This is a staggering gulf in estimates, First Minister. Now, I know the report—

Brif Weinidog, cyn cyhoeddi'r adroddiad hwn, ac yn dilyn llawer o ddatganiadau rhagataliol gennych chi, ceir rhagfynegiadau erbyn hyn bod tua 15,000 o aelodau staff rheng flaen sydd bellach yn nhir neb, yn aros am newyddion am yr hyn y bydd ad-drefnu yn ei olygu iddyn nhw. Yn ogystal â hynny, mae'r amcangyfrif o gostau ad-drefnu wedi bod braidd yn amrywiol, o £500 miliwn gan ffigyrau blaenllaw yn Llafur Cymru i £200 miliwn gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, i £100 miliwn gan y comisiwn ei hun. Mae hwn yn fwlch syfrdanol rhwng yr amcangyfrifon, Brif Weinidog. Nawr, rwy'n gwybod mai—

Senedd.tv
Fideo Video

14:19

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Are you coming to a question? Immediately, please.

A ydych chi'n dod at gwestiwn? Ar unwaith, os gwelwch yn dda.

14:19

## Janet Finch-Saunders [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

[Continues.]—was only released yesterday. What considerations have you given—[Interruption.]

[Parhau.]—dim ond ddoe y cyhoeddwyd yr adroddiad. Pa ystyriaethau ydych chi wedi eu rhoi—[Torri ar draws.]

14:19

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Order, order. Carry on.

Trefn, trefn. Ewch ymlaen.

14:19

## Janet Finch-Saunders [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

First Minister, what considerations have you given to showing strong leadership by undertaking a full cost-benefit analysis in order to obtain a definitive cost to the taxpayers of reorganisation and to alleviate the concerns of our front-line staff?

Brif Weinidog, pa ystyriaethau ydych chi wedi eu rhoi i ddangos arweiniad cryf trwy gynnal dadansoddiad cost a budd llawn er mwyn cael cost bendant yr ad-drefnu i'r trethdalwyr ac i liniaru pryderon ein haelodau staff rheng flaen?

14:19

## Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I accept the costings of the Williams commission of £100 million. I see no need to conduct another exercise in terms of a cost-benefit analysis. I do intend that this should move forward as quickly as possible. I urge all those in the Chamber, the leaders, to consult their parties. I look forward, of course, to looking to gain as much cross-party support as possible. I will not, as her leader said in his press conference this morning, be in a position where the ball is in my lap and I should not therefore sit on it. I am not a gymnast. [Laughter.] I intend to take this forward as quickly as possible and I look forward to hearing the views of other parties.

Rwy'n derbyn costau comisiwn Williams o £100 miliwn. Ni welaf unrhyw angen i gynnal ymarfer arall o ran dadansoddiad cost a budd. Rwyf yn bwriadu y dylai hyn symud ymlaen cyn gynted â phosibl. Rwy'n annog pawb yn y Siambr, yr arweinwyr, i ymgynghori â'u pleidiau. Edrychaf ymlaen, wrth gwrs, at geisio sicrhau cymaint o gefnogaeth drawsbleidiol â phosibl. Ni fyddaf, fel y dywedodd ei harweinydd yn ei gynhadledd i'r wasg y bore yma, mewn sefyllfa lle mae'r bêl yn fy nwylo ac ni ddylwn eistedd arni felly. Nid wyf yn gymnastwr. [Chwerthin.] Rwy'n bwriadu bwrw ymlaen â hyn cyn gynted â phosibl ac edrychaf ymlaen at glywed barn y pleidiau eraill.

*Janet Finch Saunders a gododd—*

*Janet Finch-Saunders rose—*

14:20

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Sorry, you have had your question. I call on Rhodri Glyn Thomas.

Mae'n ddrwg gennyf, rydych chi wedi gofyn eich cwestiwn. Galwaf ar Rhodri Glyn Thomas.

14:20

## Rhodri Glyn Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Brif Weinidog, rwy'n falch iawn o glywed eich bod yn mynd i ymateb yn bendant ac yn gyflym i gomisiwn Williams, oherwydd, os nad yw hynny'n digwydd, bydd cynghorau yn edrych i weld pa bartneriaethau y gallant ddatblygu o ystyried yr opsiynau sydd wedi eu cynnig gan Williams. Mae'n rhaid cael arweiniad pendant a chadarn. A ydych yn hyderus y gallwch gyrraedd yr amserlen y mae comisiwn Williams wedi ei osod ar eich cyfer?

First Minister, I am very pleased to hear you say that you are going to respond positively and swiftly to the Williams commission, because, if that does not happen, councils will be looking to see what partnerships they can form in considering the options that have been proposed by Williams. We need firm and definite leadership on this. Are you confident that you can work to the timetable that the Williams commission has set for you?

14:20 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Ydw. Rwyf yn mo'yn bod mewn sefyllfa erbyn y Pasg lle, o ran fy mhlaid i, bod barn gadarnhaol gennym. O ran y pleidiau eraill, gobeithiaf y bydd y pleidiau eraill yn gallu mynegi barn. Nid wyf yn dweud y bydd barn pawb yr un peth, wrth gwrs, ond mae'n bwysig dros ben bod hwn yn cael ei symud ymlaen nawr. Mae'n rhaid inni gofio, ynglŷn â chomisiwn Williams, bod aelodau—er nid cynrychiolwyr—o bob plaid ar y comisiwn. Deallaf nad ydynt yn cynrychioli'r pleidiau, ond roedd y comisiwn yn eang o ran y bobl oedd yn aelodau o'r comisiwn. Mae'n bwysig nawr bod y pleidiau yn ystyried eu safbwynt ynglŷn ag adroddiad y comisiwn er mwyn i ni allu symud ymlaen ar hyn.

Yes. I want to be in a position by Easter where, in terms of my own party, we have a firm position. In terms of the other parties, I very much hope that the other parties can also express their views. I am not saying that everyone will have the same view, of course, but it is very important that this is progressed now. It is important that we bear in mind, in terms of the Williams commission, that there were, not representatives of, but members of, each party on the commission. I understand that they were not party nominees, but the commission was broad-ranging in terms of its membership. It is now important that parties consider their stance on the commission so that we can progress with this issue.

14:21 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

May I first of all confirm, First Minister, that there was no member from the Welsh Liberal Democrats on that commission? Secondly, in relation to the commission's report, you have indicated already that you wish to consult with other parties and get a consensus as soon as possible. What plans do you have to achieve consensus among stakeholders and other people around the country? How will the consultation process on taking this forward pan out?

A gaf i gadarnhau yn gyntaf oll, Brif Weinidog, nad oedd unrhyw aelod o Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru ar y comisiwn hwnnw? Yn ail, o ran adroddiad y comisiwn, rydych chi wedi nodi eisoes eich bod yn dymuno ymgynghori â phleidiau eraill a chael consensws cyn gynted â phosibl. Pa gynlluniau sydd gennych i sicrhau consensws ymhlith rhanddeiliaid a phobl eraill ledled y wlad? Sut y bydd y broses ymgynghori ar fwrw ymlaen â hyn yn cael ei chyflawni?

14:21 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

First of all, I had not realised that the Liberal Democrat had resigned from the commission. However, it was a wide commission, whatever happened. In terms of consultation, the first step, to my mind, is for the party leaders to talk about this over the next few weeks, to look to get to an established position by Easter. Then, of course, there will need to be some debate as to what process this should be taken through—whether it should be taken through the established legislative process, which means that this would not happen before the Assembly elections, or whether there is a feeling in the Chamber—and this is not something that the Government should push, to my mind, without acceptance elsewhere—that this should be taken through a speedier process, with, of course, the permission of the Presiding Officer. That much is important. Those are matters yet to be dealt with.

Yn gyntaf oll, nid oeddwn wedi sylweddoli bod y Democrat Rhyddfrydol wedi ymddiswyddo o'r comisiwn. Fodd bynnag, roedd yn gomisiwn eang, beth bynnag a ddigwyddodd. O ran ymgynghori, y cam cyntaf, yn fy marn i, yw i arweinwyr y pleidiau drafod hyn yn ystod yr ychydig wythnosau nesaf, i geisio cael safbwynt pendant erbyn y Pasg. Yna, wrth gwrs, bydd angen cael rhywfaint o drafodaeth ynghylch pa broses y dylid ei defnyddio ar gyfer hyn—a ddylid mynd ag ef drwy'r broses ddeddfwriaethol sefydledig, sy'n golygu na fyddai hyn yn digwydd cyn etholiadau'r Cynulliad, neu a oes teimlad yn y Siambr—ac nid yw hyn yn rhywbeth y dylai'r Llywodraeth ei wthio, yn fy marn i, heb gytundeb mewn mannau eraill—y dylid mynd â hyn trwy broses gyflymach, gyda chaniatâd y Llywydd, wrth gwrs. Mae cymaint â hynny'n bwysig. Mae'r rheini'n faterion na roddwyd sylw iddynt hyd yma.

Then, at the appropriate time, a Bill would be introduced. There would be consultation on the White Paper and on the draft Bill itself. That would then give an opportunity to stakeholders to comment on the principle and then the detail of not just the reorganisation of local government—'merger' is a better word, I think—but all of the proposals included in the Williams report.

Yna, ar yr adeg briodol, byddai Bil yn cael ei gyflwyno. Byddai ymgynghoriad ar y Papur Gwyn ac ar y Bil drafft ei hun. Byddai hynny wedyn yn rhoi cyfle i randdeiliaid gynnig sylwadau ar yr egwyddor ac yna'r manylion, nid yn unig o ran ad-drefnu llywodraeth leol—mae 'uno' yn air gwell, rwy'n credu—ond yr holl gynigion sydd wedi eu cynnwys yn adroddiad Williams.

14:23 **Angela Burns** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, the report is silent on democratic accountability. You have just talked about producing White Papers, but will you also be producing a White Paper on how we will be able to elect people to whatever the new councils will be? For example, if Dyfed were to come back, there would be 176 councillors, which is obviously unworkable. Also, what impact will this have on the current legislative programme, which has a lot of work on boundary-orientated organisations, such as the six safeguarding boards in the Social Services and Well-being (Wales) Bill? What work are you doing to see how this might impact on the legislative programme?

Brif Weinidog, mae'r adroddiad yn dawel am atebolrwydd democrataidd. Rydych chi newydd sôn am gynhyrchu Papurau Gwyn, ond a fyddwch chi hefyd yn cynhyrchu Papur Gwyn ar sut y byddwn yn gallu ethol pobl i beth bynnag fydd y cynghorau newydd? Er enghraifft, pe byddai Dyfed yn dychwelyd, byddai 176 o gynghorwyr, sy'n amlwg yn anymarferol. Hefyd, pa effaith fydd hyn yn ei chael ar y rhaglen ddeddfwriaethol bresennol, sydd â llawer o waith ar sefydliadau sy'n seiliedig ar ffiniau, fel y chwe bwrdd diogelu ym Mil Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru)? Pa waith ydych chi'n ei wneud i weld sut y gallai hyn effeithio ar y rhaglen ddeddfwriaethol?

14:23 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

We are confident that this can be dealt with in the legislative programme, should it be the will of the Assembly that it should happen this side of the election. The boundary commission has indicated that it would be able to complete any work on new boundaries by 2016. That is ambitious, but it is something that, I understand, it has indicated to us. Initially, there was a debate as to whether you keep the same number of councillors and then reduce them at the following election, but that introduces a new option, as far as we are concerned.

Rydym yn hyderus y gellir ymdrin â hyn yn y rhaglen ddeddfwriaethol, os mai ewyllys y Cynulliad yw y dylai ddigwydd yr ochr hon i'r etholiad. Mae'r comisiwn ffiniau wedi nodi y byddai'n gallu cwblhau unrhyw waith ar ffiniau newydd erbyn 2016. Mae hynny'n uchelgeisiol, ond mae'n rhywbeth, rwy'n deall, y mae wedi ei awgrymu i ni. I ddechrau, roedd dadl ynghylch a fyddwch yn cadw'r un nifer o gynghorwyr ac yna eu lleihau yn yr etholiad canlynol, ond mae hynny'n cyflwyno opsiwn newydd, yn ein tyb ni.

I do not think that the report was silent about accountability. It was far from silent about scrutiny. It talked about the lack of scrutiny that exists in many levels of government and, indeed, in some bodies. It was particularly scathing—I think that is the right word—in terms of the attitude of some public service delivery bodies in regarding inspection almost as an impertinence and not something to be used to improve services. It talks a great deal about the need to improve scrutiny, particularly in authorities where it is suggested that officers have been running them with little scrutiny from members. It also talks, of course, about the need for a leadership academy and further training with regard to scrutiny. That much is important. If we look to reorganise the way public services are delivered, if there is an appetite to merge councils, as I believe there is, then, of course, those issues mentioned in the commission about scrutiny will be equally as important.

Nid wyf yn credu bod yr adroddiad yn dawel am atebolrwydd. Roedd ymhell o fod yn dawel am graffu. Roedd yn sôn am y diffyg craffu sy'n bodoli ar sawl lefel o lywodraeth ac, yn wir, mewn rhai cyrff. Roedd yn arbennig o ddeifiol—rwy'n credu mai dyna'r gair cywir—am agwedd rhai cyrff sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus o ran eu barn bod arolygu bron yn hyfdra ac nid yn rhywbeth i'w ddefnyddio i wella gwasanaethau. Mae'n sôn cryn dipyn am yr angen i wella craffu, yn enwedig mewn awdurdodau lle yr awgrymir bod swyddogion wedi bod yn eu rhedeg gydag ychydig iawn o graffu gan yr aelodau. Mae hefyd yn sôn, wrth gwrs, am yr angen am academi arweinyddiaeth a hyfforddiant pellach o ran craffu. Mae cymaint â hynny'n bwysig. Os ydym ni'n ceisio ad-drefnu'r ffordd y darperir gwasanaethau cyhoeddus, os oes awydd i uno cynghorau, fel yr wyf yn credu bod, yna, wrth gwrs, bydd y materion hynny a grybwyllwyd yn y comisiwn am graffu yr un mor bwysig.

14:25 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, First Minister.

Diolch yn fawr, Brif Weinidog.

14:25

## Cwestiwn Brys: Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr

## Urgent Question: Betsi Cadwaladr University Local Health Board

Senedd.tv Fideo Video

**Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

I call on Antoinette Sandbach to ask the second urgent question.

Galwaf ar Antoinette Sandbach i ofyn yr ail gwestiwn brys.

**Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

*A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar atal dros dro lawdriniaethau dewisol nad ydynt yn frys yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr? EAQ(4)0384(HSS)*

*Will the Minister make a statement on the suspension of non-urgent elective surgery in the Betsi Cadwaladr University Health Board area? EAQ(4)0384(HSS)*

Will the Minister make a statement on the suspension of non-elective surgery in the Betsi Cadwaladr University Health Board area?

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar atal dros dro lawdriniaethau nad ydynt yn rhai dewisol yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr?

14:25

## Mark Drakeford Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services*

There is no suspension of non-elective surgery in the Betsi Cadwaladr University Local Health Board area. Indeed, it is precisely in order to strengthen its capacity to go on providing emergency non-elective treatments that the LHB has announced a temporary suspension of some non-urgent elective surgery during this week.

Nid oes unrhyw lawdriniaethau nad ydynt yn rhai dewisol wedi'u hatal dros dro yn ardal Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr. Yn wir, yn union er mwyn cryfhau ei allu i barhau i ddarparu triniaethau brys nad ydynt yn rhai dewisol y mae'r BILl wedi cyhoeddi atal dros dro rai llawdriniaethau dewisol nad ydynt yn rhai brys yn ystod yr wythnos hon.

14:26

## Antoinette Sandbach Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, it is clear that there is a suspension of some non-urgent surgery currently in place at Betsi, as announced today. Patients in the Betsi Cadwaladr—

Weinidog, mae'n amlwg bod rhai llawdriniaethau nad ydynt yn rhai brys wedi'u hatal dros dro yn Betsi ar hyn o bryd, fel y cyhoeddwyd heddiw. Mae cleifion yn ardal Betsi Cadwaladr—

14:26

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have asked the Minister to reply to an urgent question. It would be helpful if Members listened.

Rwyf wedi gofyn i'r Gweinidog ymateb i gwestiwn brys. Byddai'n ddefnyddiol pe byddai'r Aelodau yn gwrando.

14:26

## Antoinette Sandbach Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Patients in the Betsi Cadwaladr University Local Health Board area currently have among the highest waiting times in the whole of Wales. The health board area has the highest number of patients waiting for over 26 weeks and up to 36 weeks for surgery and the highest number of patients waiting over 36 weeks for treatment. In relation to the current announcement, Minister, it cites issues with out-of-hours care and problems of capacity at the health board. Have you thought about announcing extra funding in order to fund a winter care plan—the UK Government has put £500 million into funding a winter care plan—because, clearly, the pressures within the health board are such that it is not able to cope at this time?

Ar hyn o bryd, mae amseroedd aros cleifion yn ardal Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr ymhlith yr uchaf yng Nghymru gyfan. Ardal y bwrdd iechyd sydd â'r nifer uchaf o gleifion sy'n aros am fwy na 26 wythnos a hyd at 36 wythnos am lawdriniaeth a'r nifer uchaf o gleifion sy'n aros dros 36 wythnos am driniaeth. O ran y cyhoeddiad presennol, Weinidog, mae'n nodi materion yn ymwneud â gofal y tu allan i oriau arferol a phroblemau capasiti yn y bwrdd iechyd. A ydych chi wedi ystyried cyhoeddi cyllid ychwanegol er mwyn ariannu cynllun gofal ar gyfer y gaeaf—mae Llywodraeth y DU wedi rhoi £500 miliwn i ariannu cynllun gofal ar gyfer y gaeaf—oherwydd, yn amlwg, mae'r pwysau o fewn y bwrdd iechyd cymaint fel nad yw'n gallu ymdopi ar hyn o bryd?

14:27

## Mark Drakeford Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

It is the case that Betsi Cadwaladr Local University Health Board has experienced particularly high levels of emergency call on its services during the post-Christmas period. It is in order to be able to deal with that effectively that it is temporarily suspending some non-urgent treatments. I regret that, and so does the clinical director in his note to staff and patients. However, it is not an issue to do with funding. It is an issue to do with the pressures that have come on the system, coupled with norovirus, which has led to the closure of wards in north Wales. This is a sensible way of the local health board prioritising the demands that are placed on it in order to make sure that those whose needs are the most urgent are guaranteed to get the treatment that they need.

Mae'n wir y bu lefelau arbennig o uchel o alw brys ar wasanaethau Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr yn ystod y cyfnod ar ôl y Nadolig. Er mwyn gallu ymdrin â hynny yn effeithiol y mae'n atal rhai triniaethau nad ydynt yn rhai brys dros dro. Rwy'n gresynu hynny, fel y mae'r cyfarwyddwr clinigol yn ei nodyn i aelodau staff a chleifion. Fodd bynnag, nid yw'n fater sy'n ymwneud â chyllid. Mae'n fater sy'n ymwneud â'r pwysau sydd wedi dod ar y system, ynghyd â norofirws, sydd wedi arwain at gau wardiau yn y gogledd. Mae hon yn ffordd gall i'r bwrdd iechyd lleol flaenoriaethu'r gofynion sydd arno er mwyn gwneud yn siŵr bod y rhai sydd â'r anghenion lle y mae mwyaf o frys yn sicr o gael y driniaeth sydd ei hangen arnynt.

14:28 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Last year, Hywel Dda Local Health Board, of course, decided to postpone elective surgery to concentrate on the expected surge in urgent cases due to winter pressure. Now, it seems that Betsi Cadwaladr, temporarily, perhaps, has followed suit. Will you tell us, Minister, whether elective surgery, or urgent elective surgery, if you prefer, is now something our NHS regards as requiring a winter break?

Y llynedd, wrth gwrs, penderfynodd Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda ohirio llawdriniaeth ddewisol i ganolbwyntio ar yr ymchwydd a ddisgwyliwyd mewn achosion brys oherwydd pwysau'r gaeaf. Nawr, mae'n ymddangos bod Betsi Cadwaladr, dros dro, efallai, wedi gwneud yr un peth. A wnewch chi ddweud wrthym, Weinidog, a yw llawdriniaeth ddewisol, neu lawdriniaeth ddewisol frys, os yw'n well gennych, yn rhywbeth y mae ein GIG yn ei hystyried sydd angen seibiant dros y gaeaf?

14:28 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I do not think that it is possible for Members here to play this both ways. Before Christmas, Members on the bench opposite week after week criticised Hywel Dda Local Health Board for taking the view that, knowing that pressures would come on the system, it should take decisions in advance in order to provide scheduled care in a way that would allow it to meet winter pressures. When Betsi Cadwaladr takes the opposite tactic, and tries to sustain its levels of non-elective surgery, then they wish to criticise the health board for doing it that way as well. It is unavoidable that, if a healthcare system comes under severe pressure from urgent need—very often, of the most frail, elderly people with complex comorbidities who then end up having to stay in hospital for extended periods of time—in order to make sure that those people get the care and treatment that they need, some less urgent treatment has to be suspended for a temporary period. It is regrettable, but it is sensible and it is proportionate.

Nid wyf yn credu ei bod yn bosibl i Aelodau yma ei chael hi'r ddwy ffordd. Cyn y Nadolig, roedd yr Aelodau ar y fainc gyferbyn yn beirniadu Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda wythnos ar ôl wythnos am gymryd y safbwynt, o wybod y byddai pwysau yn dod ar y system, y dylai wneud penderfyniadau ymlaen llaw er mwyn darparu gofal wedi ei drefnu mewn ffordd a fyddai'n caniatáu iddo ymateb i bwysau'r gaeaf. Pan fo Betsi Cadwaladr yn mabwysiadu'r dacteg groes, ac yn ceisio cynnal ei lefelau o lawdriniaeth nad yw'n ddewisol, yna maen nhw eisiau beirniadu'r bwrdd iechyd am ei wneud yn y ffordd honno hefyd. Mae'n anochel, os yw system gofal iechyd yn dod o dan bwysau difrifol oherwydd angen brys—yn aml, y bobl hŷn mwyaf bregus sydd â chyd-afiachusrwydd cymhleth sydd wedyn yn gorfod aros yn yr ysbyty am gyfnodau estynedig o amser—er mwyn gwneud yn siŵr bod y bobl hynny'n cael y gofal a'r driniaeth sydd eu hangen arnynt, bod yn rhaid atal rhai triniaethau lle mae llai o frys am gyfnod dros dro. Mae'n anffodus, ond mae'n gwneud synnwyr ac mae'n gymesur.

14:30 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I think that the point that we are trying to make is that, last Thursday, we were told that there were 4,330 patients in the Betsi Cadwaladr area who had waited more than 36 weeks for treatment. The statement by the clinical director today does not say 'some' elective surgery. It states that all non-elective surgery on its three main district general hospital sites, excluding cancer surgery, are suspended for a week.

Weinidog, rwy'n meddwl mai'r pwynt yr ydym ni'n ceisio ei wneud yw, ddydd Iau diwethaf, dywedwyd wrthym fod 4,330 o gleifion yn ardal Betsi Cadwaladr a oedd wedi aros mwy na 36 wythnos am driniaeth. Nid yw'r datganiad gan y cyfarwyddwr clinigol heddiw yn dweud 'rhai' llawdriniaethau dewisol. Mae'n datgan bod pob llawdriniaeth nad yw'n ddewisol ar ei dri phrif safle ysbyty cyffredinol dosbarth, ac eithrio llawdriniaeth canser, wedi eu hatal am wythnos.

It will be looking at the situation again on Thursday. There is no guarantee in the statement that the situation will not extend beyond next Monday. The fear that we have in north Wales is whether we are looking at a situation where the NHS in north Wales only operates for part of the year for non-urgent cases.

Bydd yn ystyried y sefyllfa eto ddydd Iau. Nid oes unrhyw sicrwydd yn y datganiad na fydd y sefyllfa yn ymestyn y tu hwnt i ddydd Llun nesaf. Yr ofn sydd gennym yn y gogledd yw a ydym yn edrych ar sefyllfa lle mae'r GIG yng ngogledd Cymru yn gweithredu am ran o'r flwyddyn yn unig ar gyfer achosion nad ydynt yn rhai brys.

14:30 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The statement that the Member quotes from is clear that the suspension of non-urgent elected surgery does not include cancer surgery, elective ophthalmology or orthopaedic surgery, which will continue at Abergele, and that this is suspended until Monday of next week. The board will review its position on 23 January and I have instructed my officials to have daily contact with members of the Betsi Cadwaladr University Local Health Board in order to ensure that the planned surgery that it has had to temporarily suspend is resumed as soon as possible.

Mae'r datganiad y mae'r Aelod yn dyfynnu ohono yn eglur nad yw'r atal llawdriniaethau dewisol nad ydynt yn rhai brys yn cynnwys llawdriniaethau canser, offthalmoleg ddewisol na llawdriniaeth orthopedig, a fydd yn parhau yn Abergele, a bod hyn wedi ei atal tan ddydd Llun yr wythnos nesaf. Bydd y bwrdd yn adolygu ei sefyllfa ar 23 Ionawr ac rwyf wedi cyfarwyddo fy swyddogion i gysylltu'n ddyddiol ag aelodau Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr er mwyn sicrhau bod y llawdriniaethau a gynlluniwyd y mae wedi gorfod eu hatal dros dro yn cael eu hailddechrau cyn gynted â phosibl.

14:31 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Do you accept that the huge reduction in bed numbers over the past decade will have contributed to this problem because there is insufficient bed capacity in some of our hospitals in north Wales, and that, in spite of the plans that were put in place for this winter, the ability to flex those beds has not been sufficient to address the problem and pressures in the A&E departments? Can you tell us what action the Welsh Government has taken to assess whether people who are waiting for operations are themselves, as a result of those waits, putting even greater pressure on our emergency departments because of complications associated with their problems? That is something that, anecdotally, we are told is a problem. I wonder what evidence base you have either to dismiss those suggestions, or indeed to support them, and given that evidence, what action you intend to take.

A ydych chi'n derbyn y bydd y gostyngiad enfawr i nifer y gwelyau dros y degawd diwethaf wedi cyfrannu at y broblem hon gan fod gwelyau annigonol mewn rhai o'n hysbytai yn y gogledd, ac, er gwaethaf y cynlluniau a roddwyd ar waith ar gyfer y gaeaf hwn, nid yw'r gallu i fod yn hyblyg gyda'r gwelyau hynny wedi bod yn ddigonol i fynd i'r afael â'r broblem a'r pwysau yn yr adrannau damweiniau ac achosion brys? A allwch chi ddweud wrthym pa gamau mae Llywodraeth Cymru wedi eu cymryd i asesu a yw pobl sy'n aros am y llawdriniaethau hyn eu hunain, o ganlyniad i'r arosiadau hynny, yn rhoi mwy o bwysau fyth ar ein hadrannau achosion brys oherwydd cymhlethdodau sy'n gysylltiedig â'u problemau? Mae hynny'n rhywbeth y dywedir wrthym, yn anecdotaidd, sy'n broblem. Tybed pa sail dystiolaeth sydd gennych naill ai i wrthod yr awgrymiadau hynny, neu yn wir i'w cefnogi, ac o ystyried y dystiolaeth honno, pa gamau ydych chi'n bwriadu eu cymryd.

14:32 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I disagree with the first proposition that the Member made, but agree with two of the other points that he went on to make. I disagree with the basic proposition that the solution to problems in the health service is more beds. That proposition has been investigated many times and was found not to be the answer. He went on to ask about flexing bed capacity in the short term, during the winter period. I agree with him that more needs to be done in different parts of the Welsh NHS to learn from one another as to what has happened during this winter in being able to open up what is called surge capacity. It is possible that Betsi Cadwaladr has not been able to open planned surge capacity beds sufficiently quickly to deal with some of the pressures it faced over the past week.

Rwy'n anghytuno â'r gosodiad cyntaf a wnaeth yr Aelod, ond yn cytuno gyda dau o'r pwyntiau eraill a aeth yn ei flaen i'w gwneud. Rwy'n anghytuno â'r gosodiad sylfaenol mai mwy o welyau yw'r ateb i broblemau yn y gwasanaeth iechyd. Ymchwiliwyd i'r cynnig hwnnw lawer gwaith a chanfuwyd mai nad dyna'r ateb. Aeth yn ei flaen i ofyn am nifer gwelyau hyblyg yn y byrdymor, yn ystod cyfnod y gaeaf. Rwy'n cytuno ag ef bod angen gwneud mwy mewn gwahanol rannau o'r GIG yng Nghymru i ddysgu oddi wrth ei gilydd am yr hyn sydd wedi digwydd yn ystod y gaeaf hwn o ran gallu cyflwyno'r hyn a elwir yn gapasiti ymchwydd. Mae'n bosibl nad yw Betsi Cadwaladr wedi gallu cyflwyno gwelyau capasiti ymchwydd a gynlluniwyd yn ddigon cyflym i ymdrin â rhai o'r pwysau iddo eu hwynebu yn ystod yr wythnos ddiwethaf.

The issue of whether people who have planned operations cancelled then go on to provide additional pressure into the unscheduled care system is a matter that has been raised in the past, and is one that my officials continue to investigate along with members of local health boards in Wales.

Mae'r mater o ba un a yw pobl sy'n cael canslo eu llawdriniaethau a drefnwyd wedyn yn mynd yn eu blaenau i roi pwysau ychwanegol ar y system gofal heb ei drefnu yn fater a godwyd yn y gorffennol, ac yn un y mae fy swyddogion yn parhau i ymchwilio iddo, ynghyd ag aelodau o fyrddau iechyd lleol yng Nghymru.

14:33

# Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

# Business Statement and Announcement

Senedd.tv Fideo Video

**Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Local Government and Government Business*

I have three changes to report to this week's business. The Business Committee has agreed to schedule a motion to elect Members to Assembly Committees immediately after this business statement. I have postponed my oral statement on local government performance: Blaenau Gwent County Borough Council, and, finally, no questions have been tabled for answer by the Assembly Commission, so tomorrow's agenda has been amended accordingly. Business for the next three weeks is as shown on the business statement and announcements, which can be found among the agenda papers that are available to Members electronically.

Mae gennyf dri newid i'w hadrodd i fusnes yr wythnos hon. Mae'r Pwyllgor Busnes wedi cytuno i drefnu cynnig i ethol Aelodau i Bwyllgorau'r Cynulliad yn syth ar ôl y datganiad busnes hwn. Rwyf wedi gohirio fy natganiad llafar am berfformiad llywodraeth leol: Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, ac, yn olaf, nid oes dim cwestiynau wedi'u cyflwyno i'w hateb gan Gomisiwn y Cynulliad, felly mae agenda yfory wedi ei newid yn unol â hynny. Mae'r busnes ar gyfer y tair wythnos nesaf fel y dangosir ar y datganiad a chyhoeddiadau busnes, sydd ymhlith papurau'r agenda sydd ar gael i'r Aelodau'n electronig.

14:34 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am grateful to the leader of the house for her statement today. I ask her to ask the Minister for Economy, Science and Transport to make a statement on measures to be taken by the Welsh Government on the present problems and wide-ranging difficulties facing the M4 motorway around Newport. This is obviously before the relief road is built. I note the Minister is in her place today and ask her to bring forward a statement on what is happening at the moment. She will know that delays over the last two days not only show that the southern distributor road is completely inadequate, but that even the most modest improvements would prove to be an impractical solution. Yesterday, the traffic lights failure on junction 28 resulted in 8 miles of traffic, and, today, two lorries crashed in the Brynglas tunnels, most unfortunately, causing terrible delays for all.

Rwyf yn ddiolchgar i arweinydd y tŷ am ei datganiad heddiw. Gofynnaf iddi ofyn i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth wneud datganiad am y camau i'w cymryd gan Lywodraeth Cymru ynglŷn â'r problemau a'r anawsterau eang sy'n wynebu traffordd yr M4 o amgylch Casnewydd ar hyn o bryd. Mae hyn wrth gwrs cyn i'r ffordd liniaru gael ei hadeiladu. Nodaf fod y Gweinidog yma heddiw a gofynnaf iddi gyflwyno datganiad am yr hyn sy'n digwydd ar hyn o bryd. Bydd yn gwybod bod yr oedi yn ystod y deuddydd diwethaf yn dangos nid yn unig bod y ffordd ddosbarthu ddeheuol yn gwbl annigonol, ond y byddai hyd yn oed y gwelliannau mwyaf cymedrol yn ateb anymarferol. Ddoe, roedd 8 milltir o draffig oherwydd i'r goleuadau traffig ar gyffordd 28 fethu, a heddiw, bu damwain rhwng dwy lori yn nhwneli Bryn-glas, yn anffodus iawn, gan achosi oedi enbyd i bawb.

14:35 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Minister for Economy, Science and Transport is happy to make a statement.

Mae Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn hapus i wneud datganiad.

14:35 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yesterday, I was pleased to host what I hope will be the first of many 'The Guardian' round-table events here in Wales. We discussed, in quite some depth, malnutrition and nutritional care. In the light of that, I wish to ask for two statements, the first on how the Welsh Government is tackling malnutrition, in the context of austerity, and the second on how nutritional care is being delivered in hospitals and in social care settings, as well as to people who receive their care in the community.

Ddoe, roeddwn yn falch o gynnal digwyddiad bwrdd crwn 'The Guardian'; gobeithiaf mai hwn fydd y cyntaf o lawer yma yng Nghymru. Buom yn trafod, yn dra manwl, ddiffyg maeth a gofal maethol. Yng ngoleuni hynny, hoffwn ofyn am ddau ddatganiad, y cyntaf am y ffordd y mae Llywodraeth Cymru'n ymdrin â diffyg maeth, yng nghyd-destun darbodaeth, a'r ail am y ffordd y darperir gofal maeth mewn ysbytai ac mewn lleoliadau gofal cymdeithasol, yn ogystal ag i bobl sy'n cael eu gofal yn y gymuned.

14:35 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am sure that the Minister for Health and Social Services discusses both those topics with health boards regularly. Obviously, it is up to health board to make sure that they have those services within their service for the local population. However, I am sure that the Minister will be happy to make a statement, if he has anything further to add.

Rwyf yn siŵr bod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn trafod y ddau bwnc hynny'n rheolaidd â byrddau iechyd. Wrth gwrs, mater i'r bwrdd iechyd yw gwneud yn siŵr bod y gwasanaethau hynny'n rhan o'i wasanaeth i'r boblogaeth leol. Fodd bynnag, rwyf yn siŵr y bydd y Gweinidog yn hapus i wneud datganiad, os oes ganddo rywbeth arall i'w ychwanegu.

14:36 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Hoffwn gael dadl ond derbyniaf ddatganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar ofal cleifion iechyd meddwl yn y gogledd. Ychydig cyn y Nadolig, caewyd uned gofal iechyd meddwl Ysbyty Glan Clwyd yn gyfan gwbl, oherwydd nad oedd y gwasanaeth yn ddiogel. Erbyn hyn, mae'n rhyfel cartref rhwng staff uned Hergest Ysbyty Gwynedd a'r bwrdd iechyd lleol, gyda ffraeo cyhoeddus, a bygwth eto gau rhan o'r uned. Dyma wasanaeth allweddol i bobl fwyaf bregus ein cymuned, ac mae mewn anhrefn a gwrthryfel. Fel cynrychiolwyr cyhoeddus yr ardal, dylwn gael eglurhad gan y Llywodraeth ynglŷn â beth sy'n digwydd, ac ynglŷn â sut y gellir sicrhau etholwyr bod y gwasanaeth hwn yn un diogel.

I would like to have a debate but I will accept a statement from the Minister for Health and Social Services on the care of mental health patients in north Wales. A little before Christmas, the Glan Clwyd Hospital mental health unit was closed completely, because the service was not safe. By now, there is civil war between the staff of the Hergest unit at Ysbyty Gwynedd and the local health board, with public rowing, and a threat once again that part of the unit will be closed. This is a key service for the most vulnerable within our community, and it is in total chaos. As a representative of the area, I should have an explanation from the Government about what is happening, and about how I can ensure my electors that this service is safe.

14:37 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

As you say, mental health services are very important for some of the most vulnerable people in our society. As a local Assembly Member up in north Wales, I know that we are being kept informed of the action that is being taken by Betsi Cadwaladr University Local Health Board in relation to this issue. I know that the Minister's officials are working with the health board to rectify the difficulties, and I am sure that we will be updated in due course.

Fel y dywedwch, mae gwasanaethau iechyd meddwl yn bwysig iawn i rai o'r bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas. Fel Aelod Cynulliad lleol i fyny yn y gogledd, gwn ein bod yn cael gwybod am y camau y mae Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr yn eu cymryd mewn perthynas â'r mater hwn. Gwn fod swyddogion y Gweinidog yn gweithio gyda'r bwrdd iechyd i unioni'r anawsterau, ac rwyf yn siŵr y cawn y wybodaeth ddiweddaraf maes o law.

14:37 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Minister, you have no doubt seen the coverage of the recent movements of train rolling stock through the town of Barmouth, given the recent difficulties that were caused by the inclement weather on the Cambrian line. I wonder whether you could liaise with your colleague the Minister for Economy, Science and Transport to keep this house updated on progress. Yesterday, we had information from Network Rail that stated that it may take until at least May to have the service fully restored. I think that it is vital that this house is kept abreast of developments in that area, particularly given the importance of the vital tourist sector in that part of Wales.

Weinidog, rydych yn ddiau wedi gweld y sylw a roddwyd i symudiadau diweddar cerbydau trên drwy dref Abermaw, ac ystyried yr anawsterau diweddar a achoswyd gan y tywydd garw ar reilffordd y Cambrian. Tybed a allech gysylltu â'ch cydweithiwr, Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, i sicrhau bod y tŷ hwn yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am hyn? Ddoe, cawsom wybodaeth gan Network Rail a oedd yn dweud y gallai gymryd tan o leiaf fis Mai i adfer y gwasanaeth yn llawn. Credaf ei bod yn hanfodol fod y tŷ hwn yn parhau i gael gwybod am y datblygiadau diweddaraf yn y maes hwnnw, yn enwedig ac ystyried pwysigrwydd y sector twristiaeth sy'n allweddol yn y rhan honno o Gymru.

14:38 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you for that question. The Minister for Economy, Science and Transport has indeed kept us updated, as she wrote to all Assembly Members on 10 January with an update on the impact of the storm damage on transport services, which included the Cambrian coast railway line. Her officials continue to work closely with Network Rail, and the Minister will be happy to provide a statement, as appropriate.

Diolch am y cwestiwn hwnnw. Mae Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn wir wedi rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf inni; ysgrifennodd at holl Aelodau'r Cynulliad ar 10 Ionawr i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am effaith difrod y storm ar wasanaethau trafnidiaeth, a oedd yn cynnwys rheilffordd arfordir y Cambrian. Mae ei swyddogion yn parhau i weithio'n agos gyda Network Rail, a bydd y Gweinidog yn hapus i ddarparu datganiad, fel y bo'n briodol.

14:38 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I call for a single statement on ambulance and hospital emergency department services in north Wales, following the comments by the coroner for north Wales east and central only yesterday. The chief executives of the Welsh Ambulance Services NHS Trust and Betsi Cadwaladr University Local Health Board have said that they have made a number of improvements since the tragic death from heart failure of Mr Pring from Mynydd Isa, Flintshire in March 2013, while waiting 48 minutes for ambulances to arrive, after his wife called for them. However, the coroner for north Wales east and central said only yesterday that unacceptable ambulance delays led to Mr Pring's death, and that he intends to make reports to the ambulance trust and to the health board advising them of his concerns, and that, unless action is taken, circumstances creating a risk of other deaths will continue to exist. That was stated only yesterday. I would be grateful if you could comment on that, bearing in mind the two Wales Audit Office reports—the first found that the NHS in Wales was the only one of the four UK nations to have suffered a real-term cut in funding, and the second report, produced jointly with Healthcare Inspectorate Wales, found that major corporate governance failings at Betsi Cadwaladr, something that our casework had been warning us of for many years.

Galwaf am un datganiad am wasanaethau ambiwlans ac adrannau achosion brys ysbytai yn y gogledd, yn sgil sylwadau gan grwner dwyrain a chanol gogledd Cymru ddoe ddiwethaf. Mae prif weithredwyr Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru a Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi dweud eu bod wedi gwneud nifer o welliannau ers marwolaeth drasig Mr Pring o Fynydd Isa, Sir y Fflint o fethiant y galon ym mis Mawrth 2013, wrth iddo aros 48 munud i ambiwlansys gyrraedd, ar ôl i'w wraig alw amdanynt. Fodd bynnag, dywedodd crwner dwyrain a chanol gogledd Cymru ddoe ddiwethaf fod oedi annerbyniol wrth aros am ambiwlans wedi arwain at farwolaeth Mr Pring, a'i fod yn bwriadu cyflwyno adroddiadau i'r ymddiriedolaeth ambiwlans ac i'r bwrdd iechyd i roi gwybod iddynt am ei bryderon, ac, oni bai bod camau yn cael eu cymryd, y bydd amgylchiadau sy'n peri risg o farwolaethau eraill yn parhau. Dywedodd hynny ddoe ddiwethaf. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech wneud sylw am hynny, ac ystyried dau adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru—canfu'r cyntaf mai'r GIG yng Nghymru oedd yr unig un o bedair cenedl y DU i ddioddef toriad i'w chyllid mewn termau real, a chanfu'r ail adroddiad, a gynhyrchwyd ar y cyd ag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, fethiannau sylweddol o ran llywodraethu corfforaethol yn Betsi Cadwaladr, sy'n rhywbeth y mae ein gwaith achos wedi bod yn ein rhybuddio amdano ers blynyddoedd lawer.

14:39 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We are very aware of this tragic incident. The Wales Ambulance Services NHS Trust has submitted a summary of its investigation findings, and action that it has identified that requires to be taken on issues addressed by that investigation. For instance, there is going to be the ongoing implementation of the north Wales unscheduled care integrated action plan. It confirms that the ambulance trust and the Betsi Cadwaladr University Local Health Board are working together to address the issues that have arisen from hospital handover delays.

Rydym yn ymwybodol iawn o'r digwyddiad trasig hwn. Mae Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru wedi cyflwyno crynodeb o ganfyddiadau ei hymchwiliad, a'r camau y mae wedi nodi bod angen eu cymryd ynglŷn â materion yr ymdriniodd yr ymchwiliad hwnnw â hwy. Er enghraifft, bydd proses barhaus o roi ar waith gynllun gweithredu integredig gofal heb ei drefnu gogledd Cymru. Mae'n cadarnhau bod yr ymddiriedolaeth ambiwlans a Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr yn cydweithio i roi sylw i'r materion sydd wedi codi o ran oedi wrth drosglwyddo cleifion i ysbytai.

14:40 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Weinidog, nid wyf yn ymddiheuro am ddod yn ôl at y pwnc a godwyd gan William Powell; mae lein y Cambrian yn bwysig iawn o ran y cysylltiadau rhwng y de a'r gogledd—mae'n un o'r ychydig gysylltiadau trafnidiaeth cyhoeddus cyson sydd gyda ni. Mae'n bwysig ar hyn o bryd ar gyfer cludo plant i'r ysgol, ac mae cau rhannau o'r lein wedi amharu ar hynny. Mae'n bwysig yn y tymor hirach hefyd oherwydd twristiaeth. Bydd pobl yn dechrau cynllunio a bwcio eu gwyliau, ac er mai'r gobaith yw y bydd y lein yn ailagor ym mis Mai, nid oes sicrwydd o hynny. Felly, hoffwn ofyn i'r Llywodraeth wneud datganiad i ddweud wrth y Cynulliad beth sydd wedi cael ei wneud. Mae cynhadledd frys ar 7 Chwefror ym Mhorthmadog i drafod hyn, a gobeithio'n fawr y bydd swyddogion o Lywodraeth Cymru yno. Yn sgîl hynny, gofynnwn i'r Gweinidog wneud datganiad i'r Siambr ynglŷn â'r hyn sy'n cael ei wneud, a'i fod hefyd yn dweud beth fydd gwaith y Llywodraeth i sicrhau amddiffynfeydd tymor hir yn erbyn stormydd, yn enwedig ar hyd yr arfordir. Nid ydym eisiau bod yn y sefyllfa lle mae hyn yn digwydd eto. Os oes buddsoddiad yn awr i ailagor lein y Cambrian, mae'n rhaid bod hwnnw'n ddigon cadarn i gadw'r lein honno ar agor ar gyfer y dyfodol.

Minister, I do not apologise for returning to the issue raised by William Powell; the Cambrian line is very important in terms of the connections between north and south Wales—it is one of the few public transport links that we have. It is currently important for taking children to school, and closing parts of the line has disrupted that. It is also important in the longer term because of tourism. People will be starting to plan and book their holidays, and although the hope is that it will reopen in May, there is no certainty of that. So, I would like to ask the Government to make a statement to tell the Assembly what is being done. There is an emergency conference on 7 February in Porthmadog to discuss this, and I very much hope that Welsh Government officials will be in attendance. In the light of that, I ask the Minister to make a statement in the Chamber on what is being done, and that he also states what the Government will do to ensure long-term defences against storms, particularly on our coastline. We do not want to find ourselves in a situation of this happening again. If there is investment now to reopen the Cambrian line, we must ensure that that is robust enough to keep that line open for the future.

14:41 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

You will have heard my earlier answer to William Powell. The Minister will be very happy to make a statement when she feels that she has something to update us on. Her officials are working very closely with Network Rail, and they are trying to ensure that this work is done as soon as possible. The point you raise about tourism is very important.

Byddwch wedi clywed fy ateb cynharach i William Powell. Bydd y Gweinidog yn hapus iawn i wneud datganiad pan fydd hi'n teimlo bod ganddi wybodaeth i'w rhoi inni. Mae ei swyddogion yn cydweithio'n agos iawn â Network Rail, ac maent yn ceisio sicrhau bod y gwaith hwn yn cael ei wneud cyn gynted â phosibl. Mae'r pwynt yr ydych yn ei godi am dwristiaeth yn un pwysig iawn.

In relation to your second point about coastal defences, you will be aware that the Minister for Natural Resources and Food is having a review of coastal defences, and it is very important that that is done as quickly as possible.

Ynglŷn â'ch ail bwynt am amddiffynfeydd arfordirol, byddwch yn ymwybodol bod y Gweinidog Adnoddau Naturiol a Bwyd yn cynnal adolygiad o amddiffynfeydd arfordirol, ac mae'n bwysig iawn gwneud hynny cyn gynted â phosibl.

14:42 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Leader of the house, there are a number of opportunities for young people to go abroad to gain valuable experience on programmes run by the European Union, such as the Erasmus programme, and programmes offered by institutions such as the educational programmes run by CERN for summer students and university students. A cross-party group visited CERN yesterday, and we saw the Alpha project run by Swansea University looking into antimatter. Could we have a statement from the Minister for Education and Skills about the number of opportunities that have been taken up by Welsh students, particularly in the school system, to access the educational programmes available for schools and summer schools, and also in the university system? That will allow us to see how many young people in Wales are taking advantage of exceptional programmes that can provide them with the entry on their curriculum vitae that allows them to stand out when they are looking for employment, and allows them to gain invaluable technical expertise that could help ensure that we can take advantage of changes that will happen at CERN in 2020, for example, to ensure that we have that expertise in Wales and can make the most of it. It would be really good to know how many people have taken up those opportunities in the last five years, and whether more can be done to encourage them to do so.

Arweinydd y tŷ, mae nifer o gyfleoedd i bobl ifanc fynd dramor i ennill profiad gwerthfawr ar raglenni a gynhelir gan yr Undeb Ewropeaidd, megis rhaglen Erasmus, a rhaglenni a gynigir gan sefydliadau megis y rhaglenni addysgol a gynigir gan CERN i fyfyrwyr haf a myfyrwyr prifysgol. Bu grŵp trawsbleidiol yn ymweld â CERN ddoe, a gwelsom y prosiect Alpha a gynhelir gan Brifysgol Abertawe i edrych ar wrthfater. A gawn ni ddatganiad gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau am nifer y cyfleoedd y mae myfyrwyr o Gymru wedi eu cymryd, yn enwedig yn y system ysgolion, i fanteisio ar y rhaglenni addysgol sydd ar gael o ran ysgolion ac ysgolion haf, a hefyd yn y system prifysgolion? Bydd hynny'n ein galluogi i weld faint o bobl ifanc yng Nghymru sy'n manteisio ar raglenni eithriadol a all roi iddynt y cofnod trawiadol hwnnw ar eu curriculum vitae pan fyddant yn chwilio am waith, a chaniatáu iddynt ennill arbenigedd technegol amhrisiadwy a allai helpu i sicrhau y gallwn fanteisio ar y newidiadau a fydd yn digwydd yn CERN yn 2020, er enghraifft, er mwyn sicrhau bod gennym yr arbenigedd hwnnw yng Nghymru ac y gallwn wneud y gorau ohono. Byddai'n dda iawn cael gwybod faint o bobl sydd wedi manteisio ar y cyfleoedd hynny yn y pum mlynedd diwethaf, ac a ellir gwneud mwy i'w hannog i wneud hynny.

14:44 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I am aware that there are several schemes—you referred to Erasmus—that encourage young people's participation. I am not sure whether the information that you are requesting will be held centrally by the Welsh Government, but I will ask the Minister for Education and Skills, if he has that information, to make it available to all Assembly Members.

Gwn fod llawer o gynlluniau—cyfeiriasoch at Erasmus—sy'n annog pobl ifanc i gymryd rhan. Nid wyf yn siŵr a fydd y wybodaeth yr ydych yn gofyn amdani yn cael ei chadw'n ganolog gan Lywodraeth Cymru, ond gofynnaf i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau, os yw'r wybodaeth honno ganddo, sicrhau ei bod ar gael i holl Aelodau'r Cynulliad.

14:44 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Leader of the house, I wish to put two points to you today. The Presiding Officer very kindly allowed an urgent question on the Williams commission report yesterday, and I note that the Government has tabled a debate for next week. It is normal custom for the Government to make a statement so that questions can be put to the Government Minister—in this case, the First Minister—as to the Government's intention and the way to take it forward, including, maybe, some of the flaws—or not, as the case may be—in that piece of work that is up for scrutiny in the statement. I am interested to know why the Government has chosen not to bring a formal statement forward. I thought that, just in the questioning on the urgent question, there were some very valid points from across the Chamber that might not be able to be explored via a debate.

Arweinydd y tŷ, rwyf am gyflwyno dau bwynt ichi heddiw. Roedd y Llywydd yn ddigon caredig i ganiatáu cwestiwn brys am adroddiad comisiwn Williams ddoe, a nodaf fod y Llywodraeth wedi cyflwyno dadl ar gyfer yr wythnos nesaf. Mae'n arferol i'r Llywodraeth wneud datganiad fel y gellir cyflwyno cwestiynau i Weinidog y Llywodraeth—yn yr achos hwn, y Prif Weinidog—ynglŷn â bwriad y Llywodraeth a sut i symud ymlaen ag ef, gan gynnwys, efallai, rai o'r diffygion—neu beidio, yn ôl yr amgylchiadau—yn y darn o waith hwnnw sy'n destun craffu yn y datganiad. Hoffwn gael gwybod pam y mae'r Llywodraeth wedi dewis peidio â chyflwyno datganiad ffurfiol. Roeddwn yn meddwl, yn yr holi am y cwestiwn brys yn unig, fod pwyntiau dilys iawn o bob rhan o'r Siambr na fyddai modd eu harchwilio o reidrwydd mewn dadl.

The second point is that I was hoping to receive a statement from the Minister for health in relation to selective internal radiation therapy. I have engaged with the Minister in relation to this treatment, which is currently available in other parts of the United Kingdom, but not, regrettably, in Wales. The Minister has indicated that the health service in Wales is proceeding towards making this treatment available, but when I have spoken to clinicians who are experts in this field in Velindre, they seem to be unaware of the progress that has been made. Indeed, they do not seem to have been consulted as to its implementation here in Wales. So, I would be grateful if a statement could be forthcoming from the Minister for health on the time frame for making this treatment available to Welsh patients, and, importantly, on the discussions that are ongoing with the clinical consultants who are dealing with this matter on a day-to-day basis and who, ultimately, will bring this treatment forward in the NHS.

Yr ail bwynt yw fy mod wedi gobeithio cael datganiad gan y Gweinidog iechyd ynglŷn â therapi ymbelydredd mewnol dethol. Rwyf wedi cysylltu â'r Gweinidog ynglŷn â'r driniaeth hon, sydd ar gael ar hyn o bryd mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig, ond nid, yn anffodus, yng Nghymru. Mae'r Gweinidog wedi dweud bod y gwasanaeth iechyd yng Nghymru'n symud tuag at gynnig y driniaeth hon, ond pan wyf wedi siarad â chlinigwyr sy'n arbenigwyr yn y maes hwn yn Felindre, mae'n ymddangos nad ydynt yn ymwybodol o'r cynnydd sydd wedi ei wneud. Yn wir, nid yw'n ymddangos bod neb wedi ymgynghori â hwy ynglŷn â'i rhoi ar waith yma yng Nghymru. Felly, byddwn yn ddiolchgar pe gallai'r Gweinidog iechyd roi datganiad am yr amserlen ar gyfer sicrhau bod y driniaeth hon ar gael i gleifion yng Nghymru, ac, yn bwysig, am y trafodaethau sydd ar y gweill â'r ymgynghorwyr clinigol sy'n ymdrin â'r mater hwn o ddydd i ddydd ac a fydd, yn y pen draw, yn cynnig y driniaeth hon yn y GIG.

14:46

## Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you for those two questions. In relation to the Williams commission report, we have, as you say, timetabled a debate for next Tuesday, which will be led by the First Minister. In relation to a statement and questions, I will be answering questions tomorrow. I think that I have five tabled questions on the Williams report, so you can ask me questions in relation to that.

Diolch am y ddau gwestiwn hynny. O ran adroddiad comisiwn Williams, rydym, fel y dywedwch, wedi trefnu dadl ddydd Mawrth nesaf, dan arweiniad y Prif Weinidog. O ran datganiad a chwestiynau, byddaf yn ateb cwestiynau yfory. Credaf fod gennyf bum cwestiwn wedi'u cyflwyno am adroddiad Williams, felly gallwch ofyn cwestiynau imi ynglŷn â hynny.

In relation to selective internal radiation therapy, the Minister for Health and Social Services has asked officials to examine the viability of joining the Commissioning through Evaluation programme in order for certain patients in Wales to benefit from that therapy. That work is in its early stages, but I am sure that the Minister—you mentioned that you were in correspondence with him—will keep you updated.

O ran therapi ymbelydredd mewnol dethol, mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi gofyn i swyddogion edrych ar ddichonoldeb ymuno â'r rhaglen Comisiynu drwy Werthuso er mwyn i rai cleifion yng Nghymru gael elwa o'r therapi hwnnw. Megis dechrau y mae'r gwaith hwnnw, ond rwyf yn siŵr y bydd y Gweinidog—soniasoch eich bod yn gohebu ag ef—yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi.

14:47

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, Minister.

Diolch, Weinidog.

# Cynigion i Ethol Aelodau i Bwyllgorau

# Motions to Elect Members to Committees

Cynnig NDM5408 Rosemary Butler

Motion NDM5408 Rosemary Butler

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Alun Ffred Jones (Plaid Cymru) yn aelod o'r Pwyllgor Cyllid yn lle Simon Thomas (Plaid Cymru).

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 17.14, elects Alun Ffred Jones (Plaid Cymru) as a member of the Finance Committee in place of Simon Thomas (Plaid Cymru).

Cynnig NDM5409 Rosemary Butler

Motion NDM5409 Rosemary Butler

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Alun Ffred Jones (Plaid Cymru) yn aelod o'r Pwyllgor Cyfrifion Cyhoeddus yn lle Jocelyn Davies (Plaid Cymru).

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 17.14, elects Alun Ffred Jones (Plaid Cymru) as a member of the Public Accounts Committee in place of Jocelyn Davies (Plaid Cymru).

Cynnig NDM5410 Rosemary Butler

Motion NDM5410 Rosemary Butler

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Dafydd Elis-Thomas (Plaid Cymru) yn aelod o'r Pwyllgor Menter a Busnes yn lle Alun Ffred Jones (Plaid Cymru).

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 17.14, elects Dafydd Elis-Thomas (Plaid Cymru) as a member of the Enterprise and Business Committee in place of Alun Ffred Jones (Plaid Cymru).

Cynnig NDM5411 Rosemary Butler

Motion NDM5411 Rosemary Butler

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Jocelyn Davies (Plaid Cymru) yn aelod o'r Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog yn lle Elin Jones (Plaid Cymru).

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 17.14, elects Jocelyn Davies (Plaid Cymru) as a member of the Committee for the Scrutiny of the First Minister in place of Elin Jones (Plaid Cymru).

14:47

## Elin Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Cynigiaf y cynigion.

I move the motions.

14:47

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I propose that the votes on the motions are grouped. Does any Member object? There are no objections. The proposal is to agree the motions. Does any Member object? There are no objections, therefore the motions are agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Cynigiaf fod y pleidleisiau ar y cynigion yn cael eu grwpio. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad. Y cynnig yw y dylid cytuno ar y cynigion. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad, felly, mae'r cynigion wedi'u derbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Derbyniwyd y cynigion yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Motions agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

14:47

# Datganiad: Cynlluniau Newid Gwasanaethau Hywel Dda

# Statement: Hywel Dda Service Change Plans

Senedd.tv Fideo Video

## Mark Drakeford Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services*

Rwyf yn awr yn gallu gwneud fy mhenderfyniad am yr uned lefel 2 sydd wedi'i chynnig ar gyfer babanod newydd-anedig yn Ysbyty Cyffredinol Glangwili, Caerfyrddin. Gofynnwyd i Weinidogion Cymru wneud penderfyniad ynghylch gwrthwynebiadau a godwyd gan y cyngor iechyd cymuned lleol. Roedd y cyngor yn gwrthwynebu'r cynigion ar gyfer yr uned hon a oedd yng nghynllun newid gwasanaethau bwrdd iechyd Hywel Dda, 'Eich Iechyd, Eich Dyfodol'.

I am now in a position to make my determination in respect of the proposed level 2 neonatal unit at Glangwili General Hospital, Carmarthen. Welsh Ministers were asked to make a determination on objections raised by the local community health council to proposals for this unit contained in the Hywel Dda health board's service change plan, 'Your Health, Your Future'.

Yn fy natganiad yn y Siambr ar 24 Medi, esboniais fod y panel arbenigol a sefydlwyd i fy nghynghori wedi gofyn i'r bwrdd iechyd wneud darn arall o waith ar ei gynlluniau ar gyfer gwasanaethau obstetreg a bydwreigiaeth lleol cyn gallu rhoi cyngor terfynol i mi ar wasanaethau ar gyfer babanod newydd-anedig yn ardal Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda. Cyflwynwyd y gwaith ychwanegol hwn ychydig cyn y Nadolig a chafodd ei rannu gyda'r cyngor iechyd cymuned lleol. Hefyd, ym mis Rhagfyr, penderfynais ofyn i'r panel craffu arbenigol ddod ynghyd eto i ystyried y cynlluniau hyn. Cafodd y panel help gyda'r dasg hon gan Mr Simon Emery, obstetregydd ymgynghorol, a chynrychiolydd Cymru yng Ngholeg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr.

In my statement to this Chamber on 24 September, I explained that the expert panel set up to advise me had asked for a further piece of work from the health board on its plans for local obstetric and midwifery services before it could provide final advice on neonatal services for the Hywel Dda area. That additional work was submitted just before Christmas and shared with the local community health council. Also in December, I decided to ask the expert scrutiny panel to reconvene in order to consider these plans. The panel received assistance in this task from Mr Simon Emery, a consultant obstetrician and Wales representative of the Royal College of Obstetricians and Gynaecologists.

Following a series of meetings in the Hywel Dda area, the scrutiny panel has now provided me with its final, subsidiary report and recommendations. The panel is clear that this subsidiary report should be read in the context of its original detailed report, and not as a separate entity. Llywydd, let me therefore begin by reminding Members of some key conclusions from the expert panel's report of September 2013, in which it said of Hywel Dda that attempting to go on providing

Ar ôl cyfres o gyfarfodydd yn ardal Hywel Dda, mae'r panel craffu bellach wedi rhoi imi ei is-adroddiad terfynol, a'i argymhellion. Mae'r panel yn glir y dylid darllen yr is-adroddiad hwn yng nghyd-destun ei adroddiad manwl gwreiddiol, ac nid fel endid ar wahân. Lywydd, gadewch imi felly ddechrau drwy atgoffa'r Aelodau o rai o gasgliadau allweddol adroddiad y panel arbenigol ym mis Medi 2013, lle dywedasant am Hywel Dda nad yw ceisio parhau i ddarparu

'neonatal special care facilities across all health boards hospitals is neither safe nor sustainable. Even if funds were available to establish teams of specialists at every site where babies are born it is unlikely that there would be sufficient numbers of skilled, trained staff available to recruit, and even if recruitment were possible, their skills will be inevitably, rapidly compromised through lack of sufficient patient throughput.'

cyfleusterau gofal arbennig newyddenedigol ar draws holl ysbytai'r bwrdd iechyd yn ddiogel nac yn gynaliadwy. Hyd yn oed pe bai arian ar gael i sefydlu timau o arbenigwyr ym mhob safle lle caiff babanod eu geni mae'n annhebygol y byddai digon o staff medrus, hyfforddedig ar gael i'w recriwtio, a hyd yn oed pe bai'n bosibl recriwtio, byddai prinder cleifion yn anochel yn golygu bod eu sgiliau'n dirywio'n gyflym.

The panel was clear that the needs of pregnant women and their babies could be safely accommodated without a neonatal unit presence, provided that this was accompanied by emergency cover, staff trained in newborn resuscitation and stabilisation and with clearly defined pathways for in utero and postnatal transfers. The scrutiny panel, following its further work, has concluded that it has not been presented with any additional evidence that leads it to question its original support for the health board's proposals to develop a level 2 neonatal unit at Glangwili. Indeed, the panel expressly endorses the health board's intention to move to midwife-led units across the Hywel Dda region. This it sees as vital to the way Hywel Dda neonatal services should develop and improve in future.

Roedd y panel yn glir y gellid bodloni anghenion menywod beichiog a'u babanod yn ddiogel heb uned newyddenedigol, cyhyd ag y bo hefyd staff wrth gefn ar gyfer argyfyngau, staff wedi'u hyfforddi mewn dadebru a sefydlogi babanod newydd-anedig, a llwybrau wedi'u diffinio'n glir ar gyfer trosglwyddiadau in utero ac ôl-enedigol . Mae'r panel craffu, ar ôl gwneud gwaith pellach, wedi dod i'r casgliad nad oes dim tystiolaeth ychwanegol wedi'i chyflwyno iddo sy'n peri iddo amau ei gefnogaeth wreiddiol i gynigion y bwrdd iechyd i ddatblygu uned babanod newydd-anedig lefel 2 yn Ysbyty Glangwili. Yn wir, mae'r panel yn benodol yn cymeradwyo bwriad y bwrdd iechyd i symud i unedau dan arweiniad bydwragedd ar draws rhanbarth Hywel Dda. Mae'n ystyried bod hyn yn hanfodol i'r ffordd y dylid datblygu a gwella gwasanaethau newyddenedigol Hywel Dda yn y dyfodol.

However, there are a number of important provisos relating to the way ahead that the panel has also set out. First, mindful of the issues raised by local communities and the strength of feeling when changes are made to obstetric, midwifery and neonatal services, the panel feels that it is essential that, until the midwife-led units are fully established, the health board should put in place a robust safety-net arrangement to provide midwives with the skilled assistance they might need in the event of an unexpected emergency. Until the new service model is fully in place, therefore, a suitable level of consultant obstetric support will remain in place in Withybush. It is the LHB's intention that, during this period, a stratified service, supported by an obstetric rota, will also continue at Bronglais, with high-risk mothers, as now, being transferred to Glangwili hospital for their babies to be delivered.

Fodd bynnag, mae nifer o amodau pwysig yn gysylltiedig â'r ffordd ymlaen y mae'r panel hefyd wedi'u hamlinellu. Yn gyntaf, ac ystyried y materion a godwyd gan gymunedau lleol a chryfder y teimladau pan wneir newidiadau i wasanaethau obstetreg a bydwreigiaeth a gwasanaethau newyddenedigol, mae'r panel o'r farn ei bod yn hanfodol, hyd nes y bydd yr unedau dan arweiniad bydwragedd wedi'u sefydlu'n llawn, y dylai'r bwrdd iechyd sefydlu trefniant rhwyd ddiogelwch cadarn i ddarparu'r cymorth medrus y gallai fod ei angen ar fydwragedd pe bai argyfwng annisgwyl. Hyd nes y bydd y model gwasanaeth newydd wedi'i sefydlu'n llawn, felly, bydd lefel addas o gefnogaeth obstetreg ymgynghorol yn dal i fod ar gael yn Llwynhelyg. Bwriad y bwrdd iechyd lleol, yn ystod y cyfnod hwn, yw parhau â gwasanaeth haenedig, gyda chymorth rota obstetreg, ym Mronglais hefyd, ac y bydd mamau risg uchel, fel sy'n digwydd yn awr, yn cael eu trosglwyddo i ysbyty Glangwili i eni eu babanod.

Secondly, in order to help mitigate local public anxiety over additional travelling times and for efficient transfer arrangements, the supplementary report recommends that robust emergency transfer arrangements should be put in place by the health board until its new emergency medical retrieval system and the improved Cymru inter-hospital neonatal transfer service become fully operational. I can tell the Chamber this afternoon that detailed work will now go on, involving my officials and local health boards, to accelerate the introduction of a new round-the-clock emergency retrieval service for Wales, deploying specialised medical staff. The planning for that service will include the capacity to transfer sick babies and mothers in labour.

Yn ail, er mwyn helpu i liniaru pryder ymhlith y cyhoedd yn lleol ynglŷn ag amser teithio ychwanegol ac er mwyn sicrhau trefniadau trosglwyddo effeithiol, mae'r adroddiad atodol yn argymell y dylai'r bwrdd iechyd sefydlu trefniadau trosglwyddo brys cadarn hyd nes y bydd y system adalw meddygol brys newydd a'r gwasanaeth trosglwyddo newyddenedigol gwell rhwng ysbytai Cymru yn gwbl weithredol. Gallaf ddweud wrth y Siambr y prynhawn yma y gwneir gwaith manwl yn awr, gan fy swyddogion a'r byrddau iechyd lleol, i gyflymu'r broses o gyflwyno gwasanaeth adalw brys newydd 24 awr i Gymru, gan ddefnyddio staff meddygol arbenigol. Bydd gwaith cynllunio'r gwasanaeth yn cynnwys y gallu i drosglwyddo babanod sâl a mamau sydd ar esgor.

Thirdly and finally, the panel is clear that the midwife-led units must be developed in strict accordance with the guidance provided by 'Neonatal Support for Stand Alone Midwife Led Units; a Framework for practice'. The combined effect of these provisos leads the panel to recommend a phased introduction of the new service model. I expect the local community health council to assist the health board with the preparatory work to develop pathways and clinical protocols. The panel recommends, and I agree, that this work should start without delay.

Yn drydydd ac yn olaf, mae'r panel yn glir bod yn rhaid datblygu'r unedau dan arweiniad bydwragedd yn unol yn gyfan gwbl â'r arweiniad a ddarperir yn 'Neonatal Support for Stand Alone Midwife Led Units; a Framework for practice'. Mae effaith yr amodau hyn gyda'i gilydd yn peri i'r panel argymell cyflwyno'r model gwasanaeth newydd yn raddol. Disgwyliaf i'r cyngor iechyd cymuned lleol gynorthwyo'r bwrdd iechyd â'r gwaith paratoi i ddatblygu llwybrau a phrotocolau clinigol. Mae'r panel yn argymell, ac rwyf yn cytuno, y dylai'r gwaith hwn ddechrau'n ddi-oed.

An essential factor in any maternity model of care is that the mother should be able to make a clinically informed decision on the place of birth. That is what the panel's recommendations produce and promote. For mothers in the Hywel Dda health board area, these changes will mean that the majority of maternity services, including pregnancy day assessment and pre and postnatal care, will continue to be provided locally by their GPs and hospital, as they are now, and that the majority of women, if they choose do to so, can safely have their deliveries at their local midwife-led unit. These are important developments for the people in the Hywel Dda area. In a further assurance measure, I will commission, through the health board, an independent evaluation of the impact of the revised neonatal services on newborn outcomes and patient experiences in 12 months' time.

Un o ffactorau sylfaenol unrhyw fodel gofal mamolaeth yw y dylai'r fam allu gwneud penderfyniad ar sail gwybodaeth glinigol am lle y mae'n geni'r baban. Dyna'r hyn y mae argymhellion y panel yn ei gynhyrchu a'i hyrwyddo. I famau yn ardal bwrdd iechyd Hywel Dda, bydd y newidiadau hyn yn golygu bod y rhan fwyaf o wasanaethau mamolaeth, gan gynnwys asesu dydd yn ystod beichiogrwydd a gofal cyn ac ôl-enedigol, yn parhau i gael eu darparu'n lleol gan eu meddygon teulu ac ysbytai, fel y maent yn awr, a bod y rhan fwyaf o fenywod, os ydynt yn dewis gwneud hynny, yn gallu geni eu babanod yn ddiogel yn eu huned leol dan arweiniad bydwragedd. Mae'r rhain yn ddatblygiadau pwysig i bobl yn ardal Hywel Dda. Er mwyn rhoi sicrwydd pellach, byddaf yn comisiynu, drwy'r bwrdd iechyd, werthusiad annibynnol o effaith y gwasanaethau newyddenedigol diwygiedig ar ganlyniadau newyddenedigol a phrofiadau cleifion ymhen 12 mis.

Llywydd, I have provided a summary of the expert panel's advice and recommendations to me in this matter. I am immensely grateful to them each of them individually—Dr David Salter, Professor Neena Modi, Mr Jim Wardrope and Mr Simon Emery—for working tirelessly on this over the holiday period and for undertaking a challenging itinerary of visits to the Hywel Dda area. I am satisfied that the scrutiny panel has conducted a comprehensive examination of the proposals, has reviewed all relevant information and has supplemented that information with meetings with the CHC, the LHB and with local clinicians.

Lywydd, rwyf wedi rhoi crynodeb o gyngor ac argymhellion y panel arbenigol imi ynglŷn â'r mater hwn. Rwyf yn hynod ddiolchgar i bob un ohonynt yn unigol—Dr David Salter, yr Athro Neena Modi, Mr Jim Wardrope a Mr Simon Emery—am weithio'n ddiflino ar hyn dros gyfnod y gwyliau ac am gynnal cyfres heriol o ymweliadau ag ardal Hywel Dda. Rwyf yn fodlon fod y panel craffu wedi cynnal archwiliad cynhwysfawr o'r cynigion, wedi adolygu'r holl wybodaeth berthnasol ac wedi ategu'r wybodaeth honno â chyfarfodydd â'r cyngor iechyd cymuned, y bwrdd iechyd lleol a chlinigwyr lleol.

I have very carefully considered the expert clinical advice provided, as set out in both their original and subsidiary reports and so now determine this matter on behalf of Welsh Ministers. I endorse the new service model as set out in the panel's report. I also make it a requirement that implementation of that model is predicated on meeting the provisos identified by the panel and set out in this statement.

Rwyf wedi ystyried y cyngor clinigol arbenigol a ddarparwyd yn ofalus iawn, fel y nodir yn yr adroddiad gwreiddiol ac yn yr is-adroddiad ac felly gwnaf benderfyniad yn awr am y mater hwn ar ran Gweinidogion Cymru. Rwyf yn cymeradwyo'r model gwasanaeth newydd fel y'i hamlinellir yn adroddiad y panel. Rwyf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol bod yn rhaid , er mwyn gweithredu'r model hwnnw, bodloni'r amodau a nodwyd gan y panel ac a amlinellir yn y datganiad hwn.

Llywydd, all change in health services is challenging and gives rise to very strong feelings. The panel's recommendations are expressly based on what it says provides the best outcomes and experience for mother and baby, and its conclusion is that the new service model will provide an improved service for Hywel Dda mothers and babies. That is the basis on which it has secured my endorsement.

Lywydd, mae pob newid i wasanaethau iechyd yn heriol ac yn ennyn teimladau cryf iawn. Mae argymhellion y panel yn seiliedig yn benodol ar yr hyn y mae'n ei ddweud sy'n darparu'r canlyniadau a'r profiad gorau i'r fam a'r baban, a'i gasgliad yw y bydd y model gwasanaeth newydd yn rhoi gwasanaeth gwell i famau a babanod Hywel Dda. Ar y sail honno yr wyf wedi'i gymeradwyo.

14:57

## Paul Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

May I thank the Minister for his statement this afternoon? However, I rise to respond to this announcement with a heavy heart. Today, I believe, is a bleak day for the people of Pembrokeshire who have tirelessly campaigned and fought to protect vital lifesaving services at Withybush hospital, because the Minister has made it absolutely clear that it is his intention to close the special care baby unit in due course. The decision to close this unit will, I believe, undoubtedly put lives at risk in my constituency, and that now lies squarely on this Government's shoulders.

A gaf i ddiolch i'r Gweinidog am ei ddatganiad y prynhawn yma? Fodd bynnag, codaf i ymateb i'r cyhoeddiad hwn â chalon drom. Mae heddiw, yn fy marn i, yn ddiwrnod trist i bobl sir Benfro sydd wedi ymgyrchu ac wedi ymladd yn ddiflino i ddiogelu gwasanaethau achub bywyd hanfodol yn ysbyty Llwynhelyg, oherwydd mae'r Gweinidog wedi ei gwneud yn gwbl glir ei fod yn bwriadu cau'r uned gofal arbennig i fabanod maes o law. Bydd y penderfyniad i gau'r uned hon, yn fy marn i, yn ddiau yn peryglu bywydau yn fy etholaeth i, a'r Llywodraeth hon sydd yn awr yn llwyr gyfrifol am hynny.

It seems to me that this decision has been taken without considering a number of crucial factors affecting us in Pembrokeshire. I put it to the Minister that geographical considerations have not been taken fully into account. I note in his statement that detailed work is now going on with the air ambulance service to accelerate the introduction of a new round-the-clock emergency retrieval service. Surely, this work should have been undertaken before a decision like this was made, to ensure that it is safe and sustainable in the future. Perhaps the Minister can tell us why this work has not been done before now.

Mae'n ymddangos i mi fod y penderfyniad hwn wedi ei wneud heb ystyried nifer o ffactorau allweddol sy'n effeithio arnom yn sir Benfro. Awgrymaf wrth y Gweinidog nad yw materion daearyddol wedi eu hystyried yn llawn. Rwyf yn sylwi yn ei ddatganiad fod gwaith manwl yn awr yn cael ei wneud gyda'r gwasanaeth ambiwlans awyr i gyflymu'r broses o gyflwyno gwasanaeth adalw brys 24 awr newydd. Oni ddylai'r gwaith hwn fod wedi ei wneud cyn gwneud penderfyniad fel hyn, er mwyn sicrhau ei fod yn ddiogel ac yn gynaliadwy yn y dyfodol? Efallai y gall y Gweinidog ddweud wrthym pam na chafodd y gwaith hwn ei wneud cyn hyn.

Quite frankly, I do not see how the decision to site the new level 2 neonatal unit at Glangwili hospital meets recommendation 13 of the Assembly's Children and Young People Committee's report on the provision of neonatal care in Wales, which states that the Welsh Government needs to

A dweud y gwir, ni allaf weld sut y mae'r penderfyniad i leoli'r uned babanod newydd-anedig lefel 2 newydd yn Ysbyty Glangwili yn bodloni argymhelliad 13 adroddiad Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc y Cynulliad am ddarpariaeth gofal newyddenedigol yng Nghymru, sy'n nodi bod angen i Lywodraeth Cymru sicrhau bod

'ensure that local health boards take transport transfer times into account when assessing service reconfiguration plans'.

'y byrddau iechyd lleol yn sicrhau eu bod yn ystyried yr amser y mae'n ei gymryd i drosglwyddo babanod wrth asesu cynlluniau i ad-drefnu gwasanaethau.'

Perhaps the Minister can explain exactly how closing the special care baby unit at Withybush hospital meets this specific recommendation.

Efallai y gall y Gweinidog egluro sut yn union y mae cau'r uned gofal arbennig i fabanod yn Ysbyty Llwynhelyg yn bodloni'r argymhelliad penodol hwn.

The constituency that I represent has challenging transport links and, therefore, travelling any distance to obtain emergency treatment will certainly lessen survival chances. The Welsh Institute for Health and Social Care analysis states quite clearly that outcomes improve significantly if patients receive the right care and treatment within the first golden hour of falling ill or being injured. However, for patients in rural areas such as Pembrokeshire, it is highly unlikely that they will receive the right care and treatment within the first hour of falling ill if critical services are not based locally. Quite simply, Minister, that could mean the difference between life and death for the people whom I represent.

Mae cysylltiadau trafnidiaeth yn heriol yn yr etholaeth yr wyf yn ei chynrychioli ac, felly, bydd teithio unrhyw bellter i gael triniaeth frys yn sicr yn lleihau'r gobaith o oroesi. Mae dadansoddiad Athrofa Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru'n datgan yn hollol glir fod canlyniadau'n gwella'n sylweddol os yw cleifion yn cael y gofal a'r driniaeth gywir o fewn yr awr aur gyntaf ar ôl mynd yn sâl neu gael eu hanafu. Fodd bynnag, i gleifion mewn ardaloedd gwledig fel sir Benfro, mae'n annhebygol iawn y byddant yn cael y gofal a'r driniaeth iawn o fewn yr awr gyntaf ar ôl mynd yn sâl os nad oes gwasanaethau hanfodol ar gael yn lleol. Yn syml iawn, Weinidog, gallai hynny olygu'r gwahaniaeth rhwng byw a marw i'r bobl yr wyf yn eu cynrychioli.

Given the work currently being undertaken by the local health board and the fact that he intends to commission an independent evaluation of this decision in 12 months' time, can he confirm that, if these new services are proved to be unsafe, he will reconsider his position?

Ac ystyried y gwaith y mae'r bwrdd iechyd lleol yn ei wneud ar hyn o bryd a'r ffaith ei fod yn bwriadu comisiynu gwerthusiad annibynnol o'r penderfyniad hwn ymhen 12 mis, a all gadarnhau, os profir bod y gwasanaethau newydd hyn yn anniogel, y bydd yn ailystyried ei safbwynt?

There is also a question about the sustainability of other services at Withybush hospital and the knock-on effect that removing the special care baby unit will have. In recent years, we have seen services already disappear from Withybush hospital—for example, orthodontics and histopathology have already transferred from Pembrokeshire. Can the Minister, therefore, provide cast-iron guarantees this afternoon that there will be no knock-on effects on paediatrics and A&E services following the closure of this unit? The Minister must surely recognise that establishing a new level 2 neonatal unit at Glangwili hospital could take staff away from the paediatrics department at Withybush hospital, which could make this department unsustainable in the future. Paediatrics is absolutely essential to a district general hospital, given that 25% of admissions to an accident and emergency department are children. If the paediatrics department is taken away, children will be unable to be admitted to accident and emergency, which, in turn, could make that facility unsustainable in the future. Therefore, what plans does the Minister have in place to protect these services in the wake of the closure of the special care baby unit? If the Minister cannot guarantee that other core services, such as paediatric and A&E services, are not downgraded, can he confirm that, before further changes take place, another comprehensive consultation process will be undertaken?

Mae cwestiwn hefyd ynglŷn â chynaliadwyedd gwasanaethau eraill yn Ysbyty Llwynhelyg a beth fydd sgil effaith cael gwared ar yr uned gofal arbennig i fabanod. Yn y blynyddoedd diwethaf, rydym eisoes wedi gweld gwasanaethau'n diflannu o ysbyty Llwynhelyg—er enghraifft, mae orthodonteg a histopatholeg eisoes wedi eu trosglwyddo o sir Benfro. A all y Gweinidog, felly, roi gwarantau cadarn y prynhawn yma na fydd dim sgil effeithiau ar wasanaethau pediatreg a damweiniau ac achosion brys ar ôl cau'r uned hon? Mae'n rhaid bod y Gweinidog yn cydnabod y gallai sefydlu uned babanod newydd-anedig lefel 2 newydd yn Ysbyty Glangwili gymryd staff oddi wrth yr adran bediatreg yn ysbyty Llwynhelyg, a allai wneud yr adran honno'n anghynaladwy yn y dyfodol. Mae pediatreg yn gwbl hanfodol i ysbyty cyffredinol dosbarth, ac ystyried mai plant yw 25% o'r derbyniadau i adrannau damweiniau ac achosion brys. Os caiff yr adran bediatreg ei symud oddi yno, ni fydd plant yn gallu cael eu derbyn i'r adran damweiniau ac achosion brys; gallai hynny wneud y cyfleuster yn anghynaladwy yn y dyfodol. Felly, pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i amddiffyn y gwasanaethau hyn yn sgil cau'r uned gofal arbennig i fabanod? Os na all y Gweinidog ein sicrhau na fydd gwasanaethau craidd eraill, megis gwasanaethau pediatrig a damweiniau ac achosion brys, yn cael eu hisraddio, a all gadarnhau y cynhelir proses ymgynghori gynhwysfawr arall cyn gwneud newidiadau pellach?

Given today's decision, can the Minister also reassure us that the closure of this unit will not affect the recruitment of staff and professionals to manage other services at the hospital? There could well be an impact on recruitment, because doctors and other professionals might well see this decision as a signal to downgrade other services, so clinicians might feel disinclined to join a hospital that they believe does not have a future. Given that the new level 2 neonatal unit will cost an estimated £12 million, surely it could be more beneficial to patients and, indeed, more cost-effective to maintain and improve current services at existing sites rather than centralising these services at one site.

Ac ystyried y penderfyniad heddiw, a all y Gweinidog hefyd roi sicrwydd inni na fydd cau'r uned hon yn effeithio ar recriwtio staff a gweithwyr proffesiynol i reoli gwasanaethau eraill yn yr ysbyty? Mae'n bosibl iawn y gallai hyn effeithio ar recriwtio, oherwydd gallai meddygon a gweithwyr proffesiynol eraill weld y penderfyniad hwn fel arwydd i israddio gwasanaethau eraill, felly efallai y bydd clinigwyr yn teimlo'n amharod i ymuno ag ysbyty os nad ydynt yn credu bod ganddo ddyfodol. Ac ystyried y bydd yr uned babanod newydd-anedig lefel 2 newydd yn costio tua £12 miliwn, oni allai fod yn fwy buddiol i gleifion ac, yn wir, yn fwy cost-effeithiol cadw a gwella'r gwasanaethau presennol ar eu safleoedd presennol yn hytrach na chanoli'r gwasanaethau hyn ar un safle?

The Minister, his predecessor and the First Minister have all talked about the need for safe and sustainable services and said that change should be clinically led. However, the Children's Commissioner for Wales, in recent correspondence with me, has claimed that these decisions are primarily of a financial nature. Can the Minister clarify whether the children's commissioner is right? Is the decision to close the special care baby unit at Withybush primarily of a financial nature?

Mae'r Gweinidog, ei ragflaenydd a'r Prif Weinidog i gyd wedi sôn am yr angen am wasanaethau diogel a chynaliadwy ac wedi dweud y dylai unrhyw newid gael ei arwain yn glinigol. Fodd bynnag, mae Comisiynydd Plant Cymru, mewn gohebiaeth ddiweddar â mi, wedi honni mai penderfyniadau ariannol yw'r rhain yn anad dim. A all y Gweinidog egluro a yw'r comisiynydd plant yn gywir? Ai penderfyniad ariannol yn anad dim yw'r penderfyniad i gau'r uned gofal arbennig i fabanod yn Ysbyty Llwynhelyg?

In closing, the Minister made it clear at the end of last year that change was coming to Withybush. However, the change that he has announced today could be dangerous and unsafe for the people of Pembrokeshire and will put lives at risk.

I gloi, dywedodd y Gweinidog yn glir ar ddiwedd y llynedd fod newid yn dod i Lwynhelyg. Fodd bynnag, gallai'r newid y mae wedi'i gyhoeddi heddiw fod yn beryglus ac yn anniogel i bobl sir Benfro a bydd yn peryglu bywydau.

15:03 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Let me begin, as I did the last time that we debated this matter, by recognising the way in which the local Member represents the strong views of people who live in this part of Wales and the respect that I have for the way that he does that.

Gadewch imi ddechrau, fel y gwneuthum y tro diwethaf inni drafod y mater hwn, drwy gydnabod bod yr Aelod lleol yn cynrychioli barn gref pobl sy'n byw yn y rhan hon o Gymru a'r parch sydd gennyf at y ffordd y mae'n gwneud hynny.

I will take his last point first. Of course the panel directly considered the issue of whether lives would be put at risk and whether the proposals that it was putting to me were likely to endanger the lives of patients. Of course it looked at that, and it would not have made the recommendations that it has made had it thought that that was going to be the outcome.

Cymeraf ei bwynt olaf yn gyntaf. Wrth gwrs, bu i'r panel ystyried yn uniongyrchol a fyddai bywydau'n cael eu peryglu ac a oedd y cynigion yr oedd yn eu cyflwyno imi'n debygol o beryglu bywydau cleifion. Wrth gwrs ei fod wedi edrych ar hynny, ac ni fyddai wedi gwneud yr argymhellion a wnaeth pe bai'n credu mai dyna fyddai'r canlyniad.

May I take a moment to reflect on the experience that we have in Wales, in Powys, where exactly this sort of model has been in operation now since 2001? Over the last few years, 2,549 babies have been born in Powys using midwifery-led services. Of course, there are occasions when a woman will have opted to give birth in a midwifery-led unit and things, in an unexpected way, turn into an emergency. That has happened in fewer than 4% of those cases. Every one of those cases then requires that woman to be taken, in an emergency—and in Powys's case, lengthy distances—to the hospital where she will get the care that she needs. In not a single one of those cases has there been a risk to the life of the child or the mother. We have the experience in Wales. We know that it can be done. Of course, I would not be coming to this Assembly if I thought that the proposals that I was endorsing really did put lives at risk in any way. I give the Member an assurance that, should it be the case that, at the 12-month point, an independent review demonstrates that the new service model is—to use his word—'unsafe', any sensible person would, of course, want to revisit that model.

A gaf i gymryd ennyd i fyfyrio ar y profiad sydd gennym yng Nghymru, ym Mhowys, lle mae'r math hwn o fodel yn union wedi bod ar waith bellach ers 2001? Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae 2,549 o fabanod wedi eu geni ym Mhowys gan ddefnyddio gwasanaethau dan arweiniad bydwragedd. Wrth gwrs, ar rai achlysuron bydd menyw wedi dewis rhoi genedigaeth mewn uned o dan arweiniad bydwragedd a phethau, yn annisgwyl, wedi troi'n argyfwng. Digwyddodd hynny mewn llai na 4% o'r achosion hynny. Ym mhob un o'r achosion hynny, mae'n rhaid mynd â'r fenyw honno, mewn argyfwng—ac ym Mhowys, dros bellteroedd mawr—i'r ysbyty i gael y gofal sydd ei angen arni. Ni fu perygl i fywyd y plentyn na'r fam mewn dim un o'r achosion hynny. Mae gennym brofiad o hyn yng Nghymru. Rydym yn gwybod y gellir gwneud hyn. Wrth gwrs, ni fyddwn yn dod at y Cynulliad hwn pe bawn yn credu bod y cynigion yr wyf yn eu cymeradwyo yn peryglu bywydau mewn unrhyw ffordd. Gallaf sicrhau'r Aelod, pe bai adolygiad annibynnol ar ôl 12 mis yn dangos bod y model gwasanaeth newydd—a defnyddio ei air ef—yn 'anniogel', y byddai unrhyw berson synhwyrol, wrth gwrs, yn awyddus i ailystyried y model.

I do not know whether there is anything that I can say to the Member on the slippery slope theory: that this change will lead to another change, and yet another, and will end up with nothing being left in place. However, I can say to him that I am confident that Withybush hospital will continue to serve its local population; it will continue to have a secure and significant place in the health services that are provided in that part of Wales. It was only last week that I made an announcement of further capital investment in services at that hospital. I think that the recruitment of staff will be made easier for these services as a result of this announcement. It was only last week that we held a debate here where it was suggested around the Chamber that uncertainty was leading to difficulties in recruitment. I am providing certainty for the future of these services today.

Nid wyf yn gwybod a oes dim y gallaf ei ddweud wrth yr Aelod am ddamcaniaeth y llethr llithrig: y bydd y newid hwn yn arwain at newid arall, ac yna un arall, ac na fydd dim byd ar ôl yn y diwedd. Fodd bynnag, gallaf ddweud wrtho fy mod yn hyderus y bydd ysbyty Llwynhelyg yn parhau i wasanaethu ei boblogaeth leol; bydd lle diogel ac arwyddocaol iddo yn y gwasanaethau iechyd a ddarperir yn y rhan honno o Gymru. Dim ond yr wythnos diwethaf, cyhoeddais fuddsoddiad cyfalaf pellach mewn gwasanaethau yn yr ysbyty hwnnw. Credaf y bydd yn haws i'r gwasanaethau hyn recriwtio staff o ganlyniad i'r cyhoeddiad hwnnw. Dim ond yr wythnos diwethaf, cawsom ddadl yma lle awgrymwyd o amgylch y Siambr fod ansicrwydd yn arwain at anawsterau wrth recriwtio. Rwyf yn darparu sicrwydd i ddyfodol y gwasanaethau hyn heddiw.

Finally, on the issue of the financial matter, financial considerations played no part in the panel's deliberations. It was looking to see what safe and secure service for mothers and babies in this part of Wales could be provided for in the future.

Yn olaf, ynglŷn â'r mater ariannol, nid oedd ystyriaethau ariannol yn rhan o drafodaethau'r panel o gwbl. Ei fwriad oedd ceisio gweld pa fath o wasanaeth diogel a sicr y gellid ei ddarparu i famau a babanod yn y rhan hon o Gymru yn y dyfodol.

15:08 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography



Minister, I think that most people accept the evidence, which suggests that standalone midwife-led units for low-risk women are safe. We saw that in the recent maternity clinical reference group's position paper on midwife-led care, and the Cochrane Library review, which found that maternity care delivers better outcomes for those low-risk women under a midwife. What really frightens people about these proposals are those rare cases where a woman who has been identified as not at risk suddenly develops unexpected complications. So, according to the evidence, Minister, how often would you expect women to find themselves in that situation, under the new system? What solid reassurance can you offer them about their safety and that of their baby?

Weinidog, rwyf yn credu bod y rhan fwyaf o bobl yn derbyn y dystiolaeth, sy'n awgrymu bod unedau annibynnol dan arweiniad bydwragedd i fenywod isel eu risg yn ddiogel. Gwelsom hynny ym mhapur safbwynt y grŵp cyfeirio clinigol ar famolaeth yn ddiweddar ar ofal dan arweiniad bydwragedd, ac yn adolygiad Llyfrgell Cochrane, a ganfu fod gofal mamolaeth yn rhoi gwell canlyniadau i fenywod isel eu risg o dan fydwraig. Yr hyn sy'n dychryn pobl mewn gwirionedd am y cynigion hyn yw'r achosion prin hynny lle mae menyw a nodwyd nad yw mewn perygl yn sydyn yn datblygu cymhlethdodau annisgwyl. Felly, yn ôl y dystiolaeth, Weinidog, pa mor aml y byddech yn disgwyl i fenywod eu cael eu hunain yn y sefyllfa honno, o dan y system newydd? Pa sicrwydd cadarn y gallwch ei gynnig iddynt am eu diogelwch hwy a'u babanod?

The panel refers to a safety net. What does that really mean, in practical terms? It also talks about 'phased implementation'. What would the timescales and milestones be for that phased implementation? Also, what really needs to be in place before any change at all takes place?

Mae'r panel yn cyfeirio at rwyd ddiogelwch. Beth yw ystyr hynny mewn gwirionedd, yn ymarferol? Mae hefyd yn sôn am weithredu fesul cam. Beth fyddai'r amserlenni a'r cerrig milltir ar gyfer y gweithredu hwnnw fesul cam? Hefyd, beth sydd angen ei roi ar waith mewn gwirionedd cyn i unrhyw newid o gwbl ddigwydd?

You referred to looking to Powys for lessons. What have you learned about how geographical challenges are dealt with in Powys, and how does that impact on how the emergency retrieval service might work in Pembrokeshire?

Cyfeiriasoch at edrych ar Bowys er mwyn dysgu gwersi. Beth ydych chi wedi ei ddysgu am y ffordd yr ymdrinnir â heriau daearyddol ym Mhowys, a sut y mae hynny'n effeithio ar y ffordd y gallai'r gwasanaeth adalw brys weithio yn sir Benfro?

I note your response to the questions on the impact on other services at Withybush hospital. I just seek your reassurance and your guarantee, Minister, that you have had no evidence to suggest that these proposals might negatively impact specifically on A&E, because that is an issue that has been drawn to my attention many times.

Nodaf eich ymateb i'r cwestiynau am yr effaith ar wasanaethau eraill yn ysbyty Llwynhelyg. Hoffwn gael sicrwydd a gwarant gennych, Weinidog, nad ydych wedi cael dim tystiolaeth i awgrymu y gallai'r cynigion hyn gael effaith negyddol ar adrannau damweiniau ac achosion brys yn benodol, oherwydd mae hwnnw'n fater y tynnwyd fy sylw ato lawer gwaith.

I must also ask you about the impact of the proposals on Glangwili hospital. Specifically, are you satisfied that Glangwili has the expertise for a level 2 unit, or are we looking at another difficult and protracted round of recruitment? Does the hospital even have the physical capacity to deliver anything more than it already does? I cannot see that there is much spare physical space in the hospital, or much room for it to expand. The expert panel refers to the need to for additional labour ward, theatre, antenatal and postnatal capacity. Are you sure that there is the capacity there to do that? In your previous statement, you said that you would expect the level 2 unit to comply with all modern standards, including parental accommodation. Is that still your intention? What investment would be needed to make that happen, and what would the timescales be? The neonatal services at Morriston would also impact on services at Glangwili. Is there a danger that Morriston might make a level 2 unit at Glangwili unsustainable in the long term?

Rhaid imi hefyd eich holi am effaith y cynigion ar ysbyty Glangwili. Yn benodol, a ydych yn fodlon fod gan Glangwili yr arbenigedd ar gyfer uned lefel 2, ynteu a ydym yn edrych ar gyfnod recriwtio anodd a maith arall? A oes gan yr ysbyty hyd yn oed y gallu ffisegol i ddarparu mwy nag y mae eisoes yn ei wneud? Ni allaf weld bod llawer o le ffisegol ar gael yn yr ysbyty, na llawer o le iddo i ehangu. Mae'r panel arbenigol yn cyfeirio at y ffaith bod angen ward esgor ychwanegol, theatr, a chapasiti cyn-geni ac ôl-enedigol. A ydych yn sicr bod y capasiti yno i wneud hynny? Yn eich datganiad blaenorol, dywedasoch y byddech yn disgwyl i'r uned lefel 2 gydymffurfio â'r holl safonau modern, gan gynnwys llety i rieni. Ai dyna yw eich bwriad o hyd? Pa fuddsoddiad fyddai ei angen i sicrhau bod hynny'n digwydd, a beth fyddai'r amserlenni? Byddai'r gwasanaethau newyddenedigol yn Nhreforys hefyd yn effeithio ar wasanaethau yn Ysbyty Glangwili. A oes perygl y gallai Treforys wneud uned lefel 2 yn Ysbyty Glangwili yn anghynaladwy yn y tymor hir?

Finally, Minister, how do you respond to concerns about the impact that these proposals might have on an already stretched ambulance service?

Yn olaf, Weinidog, sut ydych chi'n ymateb i bryderon am yr effaith y gallai'r cynigion hyn ei chael ar wasanaeth ambiwlans sydd eisoes dan bwysau?

15:11 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I will take some of those questions in order. Rebecca Evans is absolutely right to point to the very recent Cochrane Collaboration review of maternity-led services. Not only did it conclude that midwifery-led services had advantages over other forms of provision, but it also concluded that the risk level of births in midwifery-led units could be raised safely and successfully. So, there is more scope within these units for more births to be conducted in the future.

Atebaf rai o'r cwestiynau hynny yn eu trefn. Mae Rebecca Evans yn gwbl gywir i dynnu sylw at adolygiad diweddar iawn Cochrane Collaboration o wasanaethau dan arweiniad mamolaeth. Yn ogystal â dod i'r casgliad bod manteision i wasanaethau dan arweiniad bydwragedd o'u cymharu â mathau eraill o ddarpariaeth, daeth i'r casgliad hefyd y gellid codi lefel risg genedigaethau mewn unedau dan arweiniad bydwragedd yn ddiogel ac yn llwyddiannus. Felly, mae mwy o le o fewn yr unedau hyn i gael mwy o enedigaethau yn y dyfodol.

The Member asked me about the safety net that the panel set out. I have already mentioned two aspects of it. At Withybush, while the midwifery-led unit is being established and matured, a level of consultant obstetric cover will remain in place. I expect that to be there for at least the next 12 months. It will provide the safety net to make sure that, should midwives come across cases that, in those early establishing days, they do not have the confidence or competence to deal with, there will be consultant obstetric cover available to them. At Bronglais, the existing provision will continue during this safety-net period, and certainly into the period during which the piece of work that has been set in hand to look at the future of services across that middle part of north Wales will have a chance to consider this issue and to report on its work.

Gofynnodd yr Aelod imi am y rhwyd ddiogelwch a nododd y panel. Rwyf eisoes wedi sôn am ddwy agwedd arni. Yn Llwynhelyg, tra bo'r uned dan arweiniad bydwragedd yn cael ei sefydlu ac yn aeddfedu, bydd rhyw fath o wasanaeth obstetreg ymgynghorol yn parhau. Rwyf yn disgwyl i hynny fod yno am o leiaf y 12 mis nesaf. Bydd yn darparu'r rhwyd ddiogelwch i sicrhau, pan fydd bydwragedd yn gweld achosion nad oes ganddynt yr hyder neu'r gallu i ymdrin â hwy yn y dyddiau cynnar hynny, y bydd gwasanaeth obstetreg ymgynghorol ar gael iddynt. Ym Mronglais, bydd y ddarpariaeth bresennol yn parhau yn ystod cyfnod y rhwyd ddiogelwch, ac yn sicr i mewn i'r cyfnod pan fydd y darn o waith sydd ar y gweill i edrych ar ddyfodol y gwasanaethau ar draws canol gogledd Cymru yn cael cyfle i ystyried y mater hwn ac adrodd am y gwaith.

What have we learned from Powys? Well, we have learned some of the things that I mentioned earlier. There, fewer than 4% of births that are intended to be carried out in a midwifery-led unit end up in an emergency transfer to a hospital setting. What have we learned in terms of those transfers? We have learned that they can be carried out successfully, because they are carried out successfully every week of the year, and in some challenging terrain as well. This can be done. This will require additional expertise at Glangwili. The panel was in favour of Glangwili because it believes that recruitment there will be more successful. It will require physical capacity at Glangwili as well. I expect the level 2 unit to be built to modern standards. There is money in the Welsh Government capital programme next year set aside against exactly this development. Regarding Morriston, it is possible that, in the future, there will be further developments in other parts of Wales. The panel draws attention to this. It says that we will need to keep the whole of these services under review as patterns of service change in the future. However, we have to attend to the here-and-now needs of the population of Hywel Dda, and that is what today's decision does.

Beth ydym ni wedi ei ddysgu gan Bowys? Wel, rydym wedi dysgu rhai o'r pethau y soniais amdanynt yn gynharach. Yno, mae llai na 4% o'r genedigaethau y bwriedir iddynt ddigwydd mewn uned dan arweiniad bydwragedd yn y pen draw'n cael eu trosglwyddo ar frys i ysbyty. Beth ydym ni wedi'i ddysgu o ran y trosglwyddiadau hynny? Rydym wedi dysgu y gellir eu cyflawni'n llwyddiannus, oherwydd maent yn cael eu cyflawni'n llwyddiannus bob wythnos o'r flwyddyn, a thros dir eithaf heriol hefyd. Mae hyn yn bosibl. Bydd yn rhaid wrth arbenigedd ychwanegol yn Ysbyty Glangwili. Roedd y panel o blaid Glangwili oherwydd ei fod o'r farn y bydd yn haws recriwtio yno. Bydd angen capasiti ffisegol yn Ysbyty Glangwili hefyd. Rwyf yn disgwyl i'r uned lefel 2 gael ei hadeiladu at safonau modern. Mae arian yn rhaglen gyfalaf Llywodraeth Cymru y flwyddyn nesaf wedi'i neilltuo ar gyfer yr union ddatblygiad hwn. O ran Treforys, mae'n bosibl, yn y dyfodol, y bydd datblygiadau pellach mewn rhannau eraill o Gymru. Mae'r panel yn tynnu sylw at hyn. Mae'n dweud y bydd angen inni barhau i adolygu'r holl wasanaethau hyn wrth i batrymau gwasanaeth newid yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae'n rhaid inni roi sylw i anghenion poblogaeth Hywel Dda ar hyn o bryd, a dyna'r hyn y mae'r penderfyniad heddiw'n ei wneud.

15:14 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Hoffwn ddiolch i'r Gweinidog am ei ddatganiad heddiw. Dechreuaf drwy dderbyn nad yw'n fwriad ganddo ef na'r panel, mewn unrhyw ffordd, osod yn ei lle unrhyw system a fyddai'n peryglu bywydau mamau sy'n disgwyl plant yn y gorllewin. Rwy'n derbyn hefyd yr hyn y mae'n ei ddweud ynglŷn â chyfundrefnau wedi eu arwain gan fydwragedd, a pha mor llwyddiannus y maent yn gallu bod. Rwyf hefyd yn derbyn ei bwynt sylfaenol mai pwrpas yr holl waith hwn yw sicrhau bod mamau yn gallu gwneud y penderfyniad ynglŷn â lle i gael eu plant ar sail gwybodaeth glinigol llawn, cyngor clinigol llawn a, gwnaf ychwanegu at hynny, fynediad cyfartal i wasanaethau, yn ogystal.

I would like to thank the Minister for his statement today. I begin by accepting this it is not his intention or that of the panel to establish a system that would, in any way, endanger the lives of expectant mothers in west Wales. I also accept what he has said about regimes that are midwifery led, and how successful they can be. I also accept his fundamental point that the purpose of all of this work is to ensure that mothers can make a decision as to where to have their children on the basis of full clinical information, full clinical advice and, I will add to that, equal access to services also.

Wedi dweud hynny, bydd yn gwybod yn iawn bydd nifer o bobl, yn enwedig yn sir Benfro, yn hynod siomedig gyda'i benderfyniad heddiw, ac yn teimlo'n flin iawn. Un o'r rhesymau am hynny yw nid yn unig cynnwys yr hyn y mae'n ei ddweud, ond y cyd-destun, oherwydd bod cynifer o ddatganiadau yn y gorffennol gan y bwrdd iechyd wedi cael eu profi i fod yn gau, a heb ddod i wiredd. Mae diffyg ymddiriedaeth gan nifer o bobl bellach yn ardal Hywel Dda yn arweinyddiaeth glinigol y bwrdd iechyd presennol oherwydd y ffordd y mae'n rhedeg y gwasanaethau drwy, er enghraifft, fel yr oeddwn yn gofyn i'r Prif Weinidog yn ei gylch yn gynharach, dorri un gwasanaeth dros dro ac wedyn, blwyddyn yn ddiweddarach, nid oes ailadrodd y gwasanaeth hwnnw. Dyna beth yw'r cyd-destun, a pham mae pobl yn teimlo mor ansicr a diffyg hyder yn yr hyn y mae'r Gweinidog wedi ei ddweud heddiw.

Having said that, he will know full well that many people, particularly in Pembrokeshire, will be exceptionally disappointed with his decision and will feel very angry about it. One of the reasons for that is not the content of what he has said, but the context, because so many statements made by the health board in the past have been proven to be false, and have not come to fruition. Many people in the Hywel Dda area now have a lack of trust in the clinical leadership of the current health board because of the way that it runs its services, for example, the case that I was asking the First Minister about earlier, where it cuts a service temporarily and then, a year later, that service is not re-established. That is the context as to why people are so uncertain and lack confidence in what the Minister has said today.

I really want to ask some more detailed questions, not so much on the statement that the Minister has made today, but on the accompanying material that he sent to us, and particularly the letter from the panel to the Minister, which I think has some worrying caveats in setting out its recommendation that this issue should be taken ahead. There is a long list of some dozen extremely important points that are not yet in place for this service to be safe. These are what you describe, Minister, as the safety net. I want to put it to you that, before we venture down this road, we have to be absolutely certain that this safety net is not only in place, but is robust and able to deal with the changes coming forward.

Rwyf yn awyddus i ofyn rhai cwestiynau manylach, nid yn gymaint am y datganiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud heddiw, ond am y deunydd ategol a anfonodd atom, ac yn arbennig y llythyr gan y panel i'r Gweinidog; credaf fod hwnnw'n cynnwys rhai cafeatau sy'n peri pryder wrth amlinellu ei argymhelliad y dylid symud ymlaen â'r mater hwn. Mae rhestr hir o ryw ddwsin o bwyntiau hynod bwysig nad ydynt ar waith eto er mwyn i'r gwasanaeth hwn fod yn ddiogel. Dyma'r hyn yr ydych yn ei ddisgrifio, Weinidog, fel rhwyd ddiogelwch. Hoffwn awgrymu wrthych, cyn inni fentro i lawr y ffordd hon, fod yn rhaid inni fod yn hollol sicr bod y rhwyd ddiogelwch nid yn unig yn ei lle, ond yn gadarn ac yn gallu ymdopi â'r newidiadau a ddaw.

Let me put a couple of these to you if I may. First of all, there is the concern, very clearly expressed at the top of the letter, at the lack of contingency planning for emergencies. There is no more explanation of that, but it is a shocking statement in itself, and I really need to ask you: have you satisfied yourself that that contingency planning is now in place?

Gadewch imi egluro rhai o'r rhain ichi, os caf. Yn gyntaf oll, mae'r pryder, a fynegwyd yn glir iawn ar frig y llythyr, am ddiffyg cynlluniau wrth gefn ar gyfer argyfyngau. Nid oes dim mwy o esboniad, ond mae'n ddatganiad syfrdanol ynddo'i hun, ac mae angen imi ofyn ichi: a ydych chi eich hun yn fodlon bod y cynlluniau wrth gefn bellach ar waith?

The second is around what you said, and have already referred to, about the transfer of patients, and particularly the air ambulance. When we undertook the Children and Young People Committee review of this, we had quite a bit of evidence to say that air ambulances were not in fact very good at transferring either mothers in labour or neonates. Have things changed? Do we now have an air ambulance system that can do this, day and night, in all weathers and at all times? I did not think that we did. Your decision seems to be predicated on that happening, yet the letter suggests that there need to be improvements in the transport system before it can happen.

Mae'r ail yn ymwneud â'r hyn a ddywedasoch, a'r hyn yr ydych eisoes wedi cyfeirio ato, am drosglwyddo cleifion, ac yn enwedig am yr ambiwlans awyr. Pan gynhaliwyd adolygiad y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc o hyn, roedd gennym gryn dipyn o dystiolaeth i ddweud nad yw ambiwlansys awyr mewn gwirionedd yn dda iawn am drosglwyddo mamau sydd ar esgor na babanod newydd-anedig. A yw pethau wedi newid? A oes gennym yn awr system ambiwlans awyr sy'n gallu gwneud hyn, ddydd a nos, ym mhob tywydd ac ar bob adeg? Nid oeddwn yn meddwl bod gennym un. Ymddengys fod eich penderfyniad wedi'i seilio ar hynny, ac eto mae'r llythyr yn awgrymu bod angen gwella'r system drafnidiaeth cyn y gall hyn ddigwydd.

Third is a point that you have already referred to, but I want to come back to it because I do not accept your response to Rebecca Evans: the fact that developments are happening in Morriston that may impact on the decision to place this new unit in Glangwili. Let us accept that we need a unit in Hywel Dda, for a start, as recommended by the Children and Young People Committee, but why Glangwili? If Morriston is going to develop, that will undermine Glangwili, particularly as regards recruitment, I would suggest. If you say that recruitment is better in Glangwili than it can be at Withybush, then the inference is that it will be even better in Morriston than it can be at Glangwili. You said that we have to make decisions for here and now, and that is for the future, but according to the letter you have received from the panel, there have been no meaningful discussions between Hywel Dda and Abertawe Bro Morgannwg. How on earth did we get to a situation where we are planning nationally, surely, for neonates, level 2 and other levels of concern, and there have been no such meaningful discussions? You are taking a decision on the basis of something that the two health boards have not discussed, and I think that is quite shocking.

Mae'r trydydd yn bwynt yr ydych eisoes wedi cyfeirio ato, ond hoffwn ddod yn ôl ato oherwydd nid wyf yn derbyn eich ymateb i Rebecca Evans: y ffaith fod datblygiadau'n digwydd yn Nhreforys a allai effeithio ar y penderfyniad i leoli'r uned newydd hon yng Nglangwili. Gadewch inni dderbyn bod angen uned yn Hywel Dda, i ddechrau, fel yr argymhellodd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, ond pam Glangwili? Os yw Treforys yn mynd i ddatblygu, bydd hynny'n tanseilio Glangwili, yn enwedig o ran recriwtio, byddwn yn awgrymu. Os ydych yn dweud bod recriwtio'n well yng Nglangwili nag y gall fod yn Llwynhelyg, mae hynny'n awgrymu y byddai hyd yn oed yn well yn Nhreforys nag y gall fod yng Nglangwili. Dywedasoch fod yn rhaid inni wneud penderfyniadau ar gyfer heddiw, a bod hynny ar gyfer y dyfodol, ond yn ôl y llythyr a gawsoch gan y panel, ni fu unrhyw drafodaethau ystyrlon rhwng Hywel Dda ac Abertawe Bro Morgannwg. Sut ar y ddaear y cyraeddasom sefyllfa lle'r ydym yn cynllunio'n genedlaethol, onid ydym, am wasanaethau babanod newydd-anedig ar lefel 2 a lefelau pryder eraill, heb gael dim trafodaethau ystyrlon o'r fath? Rydych yn gwneud penderfyniad ar sail rhywbeth nad yw'r ddau fwrdd iechyd wedi'i drafod, ac rwyf yn meddwl bod hynny'n eithaf syfrdanol.

The final point that I wanted to raise on what is contained in the letter—there are many more points, but I do not have the time—is the reference to the work of the obstetricians, who the letter says must be there to support and not interfere with midwives. That is quite a strong statement. It is even stronger when you go on to read that that support is not there. The panel does not find that support there. There are all kinds of implications about the relationship between midwives, obstetrics and so forth that it is probably beyond my pay scale to go into, but it is not there now, and the panel says that it has to be there before we can move to this system. On what basis are you taking the decision today without being absolutely sure that these healthcare professionals are working in a much more joined-up way?

Y pwynt olaf yr oeddwn am ei godi am yr hyn sydd yn y llythyr—mae llawer mwy o bwyntiau, ond nid oes gennyf amser—yw'r cyfeiriad at waith yr obstetryddion; mae'r llythyr yn dweud bod yn rhaid iddynt fod yno i gefnogi'r bydwragedd a pheidio ag ymyrryd â hwy. Mae hwnnw'n ddatganiad eithaf cryf. Mae'n gryfach fyth pan ewch ymlaen i ddarllen nad yw'r gefnogaeth yno. Nid yw'r panel yn canfod bod y gefnogaeth honno yno. Mae pob math o oblygiadau i'r berthynas rhwng bydwragedd, obstetreg ac yn y blaen sydd yn ôl pob tebyg y tu hwnt i fy ngraddfa gyflog i, ond nid yw yno'n awr, ac mae'r panel yn dweud bod yn rhaid iddi fod yno cyn y gallwn symud at y system hon. Ar ba sail ydych chi'n gwneud y penderfyniad heddiw heb fod yn hollol siŵr fod y gweithwyr gofal iechyd proffesiynol hyn yn gweithio mewn ffordd lawer mwy cydgysylltiedig?

My final question is about something you said in your statement. You said that the majority of women can safely choose to have their deliveries at their local midwife-led unit. If we look specifically at Withybush, the letter to you states that the midwives themselves make the assessment that the number of deliveries at Withybush will fall from 1,200 a year to 350 under the new arrangements. That is not a majority in any way, shape of form. Making statements like that, Minister, which are not borne out in the evidence, is what leads people to have a lack of faith in the decisions made on their behalf.

Mae fy nghwestiwn olaf yn ymwneud â rhywbeth a ddywedasoch yn eich datganiad. Dywedasoch y gall y rhan fwyaf o fenywod ddewis geni eu babanod yn ddiogel yn eu huned leol dan arweiniad bydwragedd. Os edrychwn yn benodol ar Lwynhelyg, mae'r llythyr atoch yn nodi bod asesiad y bydwragedd eu hunain yn dweud y bydd nifer y genedigaethau yn Llwynhelyg yn gostwng o 1,200 y flwyddyn i 350 o dan y trefniadau newydd. Nid yw hynny'n fwyafrif o fath yn y byd. Datganiadau fel hyn, Weinidog, nad yw'r dystiolaeth yn eu hategu, sy'n peri nad oes gan bobl ffydd yn y penderfyniadau a wneir ar eu rhan.

15:20

## Mark Drakeford Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Dechreuaf drwy ddweud gair o ddiolch i Simon Thomas am yr hyn a ddywedodd i ddechrau a'r hyn ddywedodd am fydwragedd. Rwy'n cytuno'n hollol. Fe ddof nôl ar y diwedd at yr hyn a ddywedodd am ddewisiadau i famau yn y maes hwn. Rwy'n cydnabod bod darn o waith mawr i'w wneud gyda'r bwrdd iechyd i ailadeiladu'r berthynas rhyngddo a'r bobl leol. Rwyf wedi gofyn i'r NHS Confederation yng Nghymru i helpu'r bwrdd iechyd gyda'r gwaith hwnnw.

I will start by thanking Simon Thomas for his initial comments and what he said about midwives. I agree entirely. I will return at the end of my contribution to what he said about providing options for mothers in this area. I recognise that there is a major piece of work to be done by the health board to rebuild its relationship with local communities. I have asked the Welsh NHS Confederation to assist the health board in that particular endeavour.

I turn to the panel's letter. I will say, to begin with, that it was my decision to publish the letter alongside the report. The panel did not write the letter to me necessarily for publication, as it did its public work in the report itself, but I felt that it was important for people to see the whole picture. I would rather that we were able to debate and discuss here the things that the letter said, rather than for people to feel in some way that information had been kept from anybody.

Trof at lythyr y panel. Dywedaf, i ddechrau, mai fy mhenderfyniad i oedd cyhoeddi'r llythyr ochr yn ochr â'r adroddiad. Ni ysgrifennodd y panel lythyr ataf er mwyn ei gyhoeddi o reidrwydd, fel y gwnaeth â'i waith cyhoeddus yn yr adroddiad ei hun, ond roeddwn o'r farn ei bod yn bwysig i bobl weld y darlun cyfan. Byddai'n well gennyf inni allu dadlau ynghylch y pethau a ddywedwyd yn y llythyr yma a'u trafod, yn hytrach na bod pobl yn teimlo bod gwybodaeth wedi ei chadw oddi wrth unrhyw un mewn rhyw ffordd.

I will respond to some of the points that Simon Thomas raised on that letter. It is because of the panel's concerns about contingency planning for emergencies that it put such an emphasis in its report on the need for safety-net arrangements. It says, and I have said this afternoon, that having those arrangements in place is a pre-condition of this plan going ahead. I have tried to outline some of the practical measures that are already being agreed to make that contingency planning real.

Rwyf am ymateb i rai o'r pwyntiau a gododd Simon Thomas ynghylch y llythyr hwnnw. Pryderon y panel ynglŷn â chynlluniau wrth gefn ar gyfer argyfyngau a barodd iddo roi'r fath bwyslais yn ei adroddiad ar yr angen am drefniadau rhwyd ddiogelwch. Mae'n dweud, ac rwyf innau wedi dweud y prynhawn yma, fod sicrhau bod y trefniadau hynny ar waith yn rhag-amod i'r cynllun hwn fynd yn ei flaen. Rwyf wedi ceisio amlinellu rhai o'r mesurau ymarferol y cytunwyd arnynt eisoes i wireddu'r cynlluniau wrth gefn hynny.

As for the emergency retrieval service, we will be in discussions with the air ambulance service. There is more to do to explore with it the part that it might be willing and able to play. It already has a helicopter capable of flying day and night, around the clock. There are developments that mean that more can be done in terms of transporting very small and sick babies, and mothers in labour, by an air ambulance service. We have not concluded those discussions. I did not imply that, I do not think, in my statement. What I said was that those discussions are going ahead and going ahead on an accelerated basis.

Ynglŷn â'r gwasanaeth adalw brys, byddwn yn cynnal trafodaethau â'r gwasanaeth ambiwlans awyr. Mae mwy i'w wneud i archwilio gyda'r gwasanaeth y rhan y gallai fod yn barod i'w chwarae a'r rhan y gallai ei chwarae. Mae ganddo hofrennydd eisoes sy'n gallu hedfan ddydd a nos. Mae datblygiadau sy'n golygu y gallwn wneud mwy o ran cludo babanod bach iawn a rhai sâl, a mamau sydd ar esgor, drwy ddefnyddio'r gwasanaeth ambiwlans awyr. Nid ydym wedi cwblhau'r trafodaethau hynny. Nid wyf yn credu imi awgrymu hynny yn fy natganiad. Yr hyn a ddywedais oedd bod y trafodaethau hynny'n mynd rhagddynt a'u bod wedi'u cyflymu.

I cannot wait for developments that may happen six or seven years hence. There is an immense frustration among clinicians in the Welsh NHS at the way in which reasons are always found to delay a decision and not to take things head on. I said when I became Minister for health that I thought it was my responsibility in my first year to try to bring the three major reconfiguration exercises in Wales to a conclusion. I understand that there will be many people in Pembrokeshire who are anxious at the decision, but I believe that a decision is better for them than continuing uncertainty and years more of arguing, wrangling, claims and counter claims, and difficulties in recruiting staff—as Plaid Cymru focused on last week—when that uncertainty undermines the confidence of potential recruits in the future of a service. There have to be meaningful discussions between health boards and that will happen.

Ni allaf aros am ddatblygiadau a allai ddigwydd ymhen chwech neu saith mlynedd. Mae rhwystredigaeth aruthrol ymysg clinigwyr yn y GIG yng Nghymru ynglŷn â'r ffordd y mae pobl yn dod o hyd i resymau o hyd i ohirio gwneud penderfyniad a pheidio â mynd i'r afael â phethau. Dywedais pan ddeuthum yn Weinidog iechyd fy mod o'r farn mai fy nghyfrifoldeb i yn fy mlwyddyn gyntaf oedd ceisio dod â'r tair proses ad-drefnu fawr yng Nghymru i ben. Rwyf yn deall y bydd llawer o bobl yn sir Benfro'n pryderu am y penderfyniad, ond rwyf yn credu bod penderfyniad yn well iddynt nag ansicrwydd parhaus a blynyddoedd o ddadlau, ffraeo, hawliadau a gwrth-hawliadau, ac anawsterau wrth recriwtio staff—fel y canolbwyntiodd Plaid Cymru arno'r wythnos diwethaf—pan fo'r ansicrwydd hwnnw'n tanseilio hyder darpar recriwtiaid yn nyfodol y gwasanaeth. Rhaid cael trafodaethau ystyrlon rhwng byrddau iechyd a bydd hynny'n digwydd.

I will move to the final point because it was an important one. I was careful in what I said in my statement not to mislead people in any way. What I said was that midwife-led units are capable, according to NICE guidance and other expert advice, of accommodating between 50% and 60% of births, but the fundamental point is the one that Simon Thomas made, which is about mothers' choice. The figures in the letter tell you what midwives in Withybush think that mothers will choose when that service is up there to begin with and that is less than half—only a third of women in Cardiff choose to use the well-established midwifery service that is available to potential mothers in Cardiff. More of them choose to use the other service. However, the figures show, and that is what I said in my statement, that between 50% and 60% of births can be safely accommodated in midwifery-led units. It is my belief that as these units become established, gain reputation and show what they can do, the figure in that letter will grow.

Symudaf at y pwynt olaf oherwydd roedd yn un pwysig. Roeddwn yn ofalus yn yr hyn a ddywedais yn fy natganiad i beidio â chamarwain pobl mewn unrhyw ffordd. Yr hyn a ddywedais oedd, yn ôl canllawiau NICE a chyngor arbenigol arall, y gall rhwng 50% a 60% o enedigaethau ddigwydd mewn unedau dan arweiniad bydwragedd, ond y pwynt sylfaenol yw'r un a wnaeth Simon Thomas, sy'n ymwneud â dewis y fam. Mae'r ffigurau yn y llythyr yn dweud wrthych yr hyn y mae bydwragedd yn Llwynhelyg yn credu y bydd mamau'n ei ddewis pan fydd y gwasanaeth yno i ddechrau ac mae hynny'n llai na hanner—dim ond traean menywod Caerdydd sy'n dewis defnyddio'r gwasanaeth bydwreigiaeth sefydledig sydd ar gael i ddarpar famau yng Nghaerdydd. Mae mwy ohonynt yn dewis defnyddio'r gwasanaeth arall. Fodd bynnag, dengys y ffigurau, a dyna'r hyn a ddywedais yn fy natganiad, y gall rhwng 50% a 60% o enedigaethau ddigwydd yn ddiogel mewn unedau dan arweiniad bydwragedd. Yn fy marn i, wrth i'r unedau hyn gael eu sefydlu, ennill enw da a dangos yr hyn y gallant ei wneud, bydd y ffigur yn y llythyr hwnnw'n tyfu.

15:25

## Kirsty Williams Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Regardless of what the Minister says today and what academia and experts may say, I believe that the decision will be a bitter blow to the local population. While I agree that midwife-led units offer a very good service, it is clear from the letter that a majority of mothers who have previously delivered their babies in Withybush will now have to travel to deliver their babies. That is not only because they are high risk, but—you are right, Minister—because of the very real choices that mothers make. I do not want to pull rank with the Minister, but, believe me, the availability of a full range of pain relief is something that weighs very heavily on an expectant mother's mind.

Waeth beth a ddywed y Gweinidog heddiw na beth y mae'r byd academaidd ac arbenigwyr yn ei ddweud, rwyf yn credu y bydd y penderfyniad yn ergyd chwerw i'r boblogaeth leol. Er fy mod yn cytuno bod unedau dan arweiniad bydwragedd yn cynnig gwasanaeth da iawn, mae'n amlwg o'r llythyr y bydd y rhan fwyaf o'r mamau sydd wedi geni eu babanod o'r blaen yn Llwynhelyg bellach yn gorfod teithio i roi genedigaeth i'w babanod. Nid dim ond am fod eu risg yn uchel y mae hynny, ond—rydych yn iawn, Weinidog—oherwydd y dewisiadau real iawn y mae mamau'n eu gwneud. Nid wyf am roi'r Gweinidog yn ei le, ond, credwch fi, mae gallu cynnig ystod lawn o ddewisiadau lleddfu poen yn rhywbeth sy'n pwyso'n drwm iawn ar feddwl mam feichiog.

It is simply counterintuitive to tell people that to travel further away for a service will give them a better service, because all of their instincts tell them something completely different. As we have just heard, the scrutiny group's letter—and I welcome the fact that the Minister has taken a very positive decision to make that letter available—raises a number of concerns for me about the robustness of how the Hywel Dda board has developed its plans, especially with regard to emergencies, and indeed its ability to deliver on its proposals. Far from being reassured that these changes will lead to a better service, I am sure that many parents-to-be in Pembrokeshire, when they read this letter, will not be reassured and will feel let down.

Mae'n groes i'r graen dweud wrth bobl y bydd teithio ymhellach i ffwrdd i gael gwasanaeth yn golygu eu bod yn cael gwell gwasanaeth, oherwydd mae eu greddf yn dweud rhywbeth hollol wahanol wrthynt. Fel yr ydym newydd ei glywed, mae llythyr y grŵp craffu—ac rwyf yn croesawu'r ffaith fod y Gweinidog wedi gwneud penderfyniad cadarnhaol iawn wrth sicrhau bod y llythyr hwnnw ar gael—yn codi nifer o bryderon i mi am gadernid y ffordd y mae bwrdd Hywel Dda wedi datblygu ei gynlluniau, yn enwedig o ran argyfyngau, ac yn wir ei allu i gyflawni ei gynigion. Ymhell o fod yn dawel eu meddwl y bydd y newidiadau hyn yn arwain at wasanaeth gwell, rwyf yn siŵr y bydd llawer o ddarpar rieni yn sir Benfro, o ddarllen y llythyr hwn, yn teimlo pryder a siom.

The Minister has been very kind to highlight the issue of Powys and the fact that, in Powys, we have had a midwife-led service since 2001. It is true; it is a very good service and it serves the women of my constituency very well indeed. The number of emergency transfers is limited and I am not aware of a single case where an emergency transfer has resulted in a tragic outcome. However, the Minister has been slightly cute, Presiding Officer, because the situation was slightly different in Powys. At the previous units, at Brecon, for instance, babies were not delivered by obstetricians; they were delivered by GPs who had an interest in obstetrics, who were carrying out caesarean operations with one GP doing the surgery and one doing the anaesthesia. I am sure that all of us can agree that, in hindsight, it was the right decision to move to a midwife-led service.

Mae'r Gweinidog wedi bod yn garedig iawn wrth dynnu sylw at Bowys a'r ffaith y bu, ym Mhowys, wasanaeth dan arweiniad bydwragedd ers 2001. Mae'n wir; mae'n wasanaeth da iawn ac mae'n gwasanaethu menywod fy etholaeth yn dda iawn wir. Nifer bach o drosglwyddiadau brys sydd ac nid wyf yn gwybod am yr un achos lle mae trosglwyddo mewn argyfwng wedi arwain at ganlyniad trasig. Fodd bynnag, mae'r Gweinidog wedi bod braidd yn giwt, Lywydd, oherwydd roedd y sefyllfa ychydig yn wahanol ym Mhowys. Yn yr unedau blaenorol, yn Aberhonddu, er enghraifft, nid obstetryddion oedd yn geni babanod, ond meddygon teulu â diddordeb mewn obstetreg, a oedd yn gwneud llawdriniaethau cesaraidd gydag un meddyg teulu'n gwneud y llawdriniaeth ac un arall yn gwneud yr anesthesia. Rwyf yn siŵr y gall pob un ohonom gytuno, o edrych yn ôl, fod y penderfyniad i symud at wasanaeth dan arweiniad bydwragedd yn un da.

The Minister was asked earlier about the lessons that we can learn. What is absolutely crucial, and what we learnt in Powys, is that midwives who have been operating under supervision—either, in the case of Brecon, under the supervision of GPs, or, in this case, under the supervision of obstetricians—have done their midwifery skills in a different way. They will require a great deal of training, support and reassurance as they use their midwifery skills in a different way. That takes a lot of time and resource to give the midwives the confidence that they will need in order to move to a very different system, where they will be professionally autonomous in terms of making those decisions and will not be doing so under the guidance of obstetricians. I too am very concerned to hear that the relationships that currently exist are not positive ones. I would like to hear what the Minister and the health board are going to do about that.

Gofynnwyd i'r Gweinidog yn gynharach am y gwersi y gallwn eu dysgu. Yr hyn sy'n hollbwysig, a'r hyn a ddysgwyd gennym ym Mhowys, yw bod bydwragedd sydd wedi bod yn gweithredu dan oruchwyliaeth—naill ai, yn achos Aberhonddu, dan oruchwyliaeth meddygon teulu, neu, yn yr achos hwn, dan oruchwyliaeth obstetryddion—wedi gwneud eu sgiliau bydwreigiaeth mewn ffordd wahanol. Bydd arnynt angen llawer iawn o hyfforddiant, cymorth a sicrwydd wrth iddynt ddefnyddio eu sgiliau bydwreigiaeth mewn ffordd wahanol. Mae hynny'n cymryd llawer o amser ac adnoddau er mwyn rhoi i'r bydwragedd yr hyder y bydd ei angen arnynt i symud i system wahanol iawn, lle byddant yn broffesiynol annibynnol o ran gwneud y penderfyniadau hynny a lle na fyddant yn gwneud hynny dan gyfarwyddyd obstetryddion. Rwyf finnau hefyd yn bryderus iawn o glywed nad yw'r berthynas ar hyn o bryd yn un gadarnhaol. Hoffwn glywed beth y mae'r Gweinidog a'r bwrdd iechyd yn mynd i'w wneud am hynny.

With regard to retrieval systems, with all due respect, Minister, we have been hearing for years about the need to improve retrieval systems. Every time we discuss the issue of neonates and neonatal services, the Government says that it is working really hard to develop a really first-class retrieval system, and every time we debate this subject, which we have done over many years in this Chamber, the Minister says, 'Oh, we need to do more'. When do you think that you as a Government will be able to say definitively that we have a robust retrieval system? We have talked about it for years and years and we never seem to get there.

O ran systemau adalw, gyda phob dyledus barch, Weinidog, rydym yn clywed ers blynyddoedd fod angen gwella systemau adalw. Bob tro y trafodwn fabanod newydd-anedig a gwasanaethau newyddenedigol, mae'r Llywodraeth yn dweud ei bod yn gweithio'n galed iawn i ddatblygu system adalw o'r radd flaenaf, a bob tro y trafodwn y pwnc hwn—ac rydym wedi gwneud hynny dros flynyddoedd lawer yn y Siambr hon—mae'r Gweinidog yn dweud, 'O, mae angen inni wneud mwy'. Pryd ydych chi'n meddwl y byddwch chi fel Llywodraeth yn gallu dweud yn bendant fod gennym system adalw gadarn? Rydym yn siarad am hyn ers blynyddoedd lawer ac nid ydym byth fel petaem yn cyrraedd pen y daith.

I am particularly concerned about the role of the air ambulance in this. It does an amazing job and I know that the Government gives money to that service in terms of paying for salaries. However, those ambulances stay in the air because of the tin-rattling and the charitable efforts of communities the length and breadth of Wales. Surely, if we are asking them to take on this kind of role, we should re-examine the relationship between the air ambulance service, the Welsh ambulance service, and the Welsh Government. I would be grateful to hear the Minister's views on that.

Rwyf yn arbennig o bryderus am swyddogaeth yr ambiwlans awyr yn hyn o beth. Mae'n gwneud gwaith anhygoel a gwn fod y Llywodraeth yn rhoi arian i'r gwasanaeth hwnnw o ran talu am gyflogau. Fodd bynnag, mae'r ambiwlansys hynny'n aros yn yr awyr oherwydd ymdrechion elusennol a chodi arian gan gymunedau ledled Cymru. Os ydym yn gofyn iddynt ymgymryd â'r math hwn o swyddogaeth, oni ddylem ailystyried y berthynas rhwng y gwasanaeth ambiwlans awyr, gwasanaeth ambiwlans Cymru, a Llywodraeth Cymru? Byddai'n dda gennyf glywed barn y Gweinidog am hynny.

The Minister says that capital money will be available next year for the development of the new tier 2 services in Carmarthenshire and the whole letter raises concerns about Hywel Dda's prospective timetable of moving to this system by 1 August of this year. Could you tell us definitively when you expect these new services to be in place? Finally, the letter also says that there is an assumption that the three MLUs can be developed and made fully operational safely at the same time. Could you give us a hierarchy of when these services will be delivered and can you once again clarify to us what that statement means for services at Bronglais hospital above and beyond those that can be delivered by midwives?

Dywed y Gweinidog y bydd arian cyfalaf ar gael y flwyddyn nesaf i ddatblygu'r gwasanaethau haen 2 newydd yn sir Gaerfyrddin ac mae'r llythyr cyfan yn codi pryderon am amserlen arfaethedig Hywel Dda ar gyfer symud at y system hon erbyn 1 Awst eleni. A allwch ddweud wrthym yn bendant pryd yr ydych yn disgwyl i'r gwasanaethau newydd hyn fod ar waith? Yn olaf, mae'r llythyr hefyd yn dweud bod tybiaeth y gellir datblygu'r tair uned dan arweiniad bydwragedd a'u gwneud yn gwbl weithredol yn ddiogel ar yr un pryd. A allech roi hierarchaeth inni o bryd y caiff y gwasanaethau hyn eu darparu ac a allwch unwaith eto egluro inni'r hyn y mae'r datganiad hwnnw'n ei olygu i wasanaethau yn ysbyty Bronglais y tu hwnt i'r rhai y gall bydwragedd eu cyflenwi?

15:31

## Mark Drakeford Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I fully accept what the Member said at the outset and certainly bow to her greater expertise in the way that women actually make decisions in these sorts of areas. The panel's advice to me in its September report was that only 10% of women needed a level 2 service, but we know, and those are the figures partly reflected in the letter, that women will choose differently from what is perhaps strictly necessary clinically. We must plan on the basis of what women will choose and what women will want. Women in this part of Wales will have all the different tiers of service in a stratified service available to them. Choices will, I believe, change over time as people come to see the service that they have there on the ground.

Rwyf yn derbyn yn llwyr yr hyn a ddywedodd yr Aelod ar y dechrau ac yn sicr yn derbyn bod ganddi fwy o arbenigedd o ran y ffordd y mae menywod mewn gwirionedd yn gwneud penderfyniadau yn y mathau hyn o feysydd. Cyngor y panel imi yn ei adroddiad ym mis Medi oedd mai dim ond ar 10% o fenywod yr oedd angen gwasanaeth lefel 2, ond gwyddom, a dyma'r ffigurau a adlewyrchir yn rhannol yn y llythyr, y bydd menywod yn dewis yn wahanol i'r hyn sydd efallai'n glinigol gwbl angenrheidiol. Rhaid inni gynllunio ar sail yr hyn y bydd menywod yn ei ddewis a'r hyn y bydd ei eisiau ar fenywod. Bydd holl wahanol haenau gwasanaeth haenedig ar gael i fenywod yn y rhan hon o Gymru. Credaf y bydd dewisiadau'n newid dros amser wrth i bobl ddod i weld y gwasanaeth sydd ganddynt yno ar lawr gwlad.

It may be counterintuitive to say to people that you sometimes get a better service by travelling further, but, even if it is counterintuitive, we know very well that that can be true. I am not going to repeat what is by now the hackneyed story of the footballer who dies on the football pitch and is then driven past three hospitals in order to get to the one that actually saves his life. However, that is a true example, and sometimes going further will be better. Part of what the panel has done, I firmly believe, is to introduce a greater degree of robustness into the plan that Hywel Dda first put forward, which is why I am so grateful to it for the work that it has done. That is why I have said in my decision today to the health board that, while I give it the go-ahead for the new service model, that go-ahead is predicated on it delivering on the requirements that the panel has set out.

Efallai ei bod yn groes i'r graen dweud wrth bobl y gallwch weithiau gael gwasanaeth gwell drwy deithio ymhellach, ond, hyd yn oed os yw'n groes i'r graen, gwyddom yn iawn y gall hynny fod yn wir. Nid wyf am ailadrodd y stori, sy'n hen stori erbyn hyn, am y pêl-droediwr sy'n marw ar y cae pêl-droed, ac yna'n cael ei yrru heibio i dri ysbyty er mwyn cyrraedd yr un sydd mewn gwirionedd yn achub ei fywyd. Ond mae honno'n enghraifft wir, ac weithiau mae'n well mynd ymhellach. Rwyf yn gryf o'r farn mai rhan o'r hyn y mae'r panel wedi'i wneud yw rhoi mwy o gadernid i'r cynllun a gyflwynodd Hywel Dda yn y lle cyntaf, a dyna pam yr wyf mor ddiolchgar iddo am y gwaith y mae wedi'i wneud. Dyna pam yr wyf wedi dweud yn fy mhenderfyniad heddiw wrth y bwrdd iechyd, er fy mod yn rhoi sêl bendith i'r model gwasanaeth newydd, fod y sêl bendith honno'n amodol ar gyflawni'r gofynion a nodwyd gan y panel.

While the transition in Powys may have been different, when I look back at the Brecon midwife service and its establishment at the beginning of the last decade, I am not necessarily remembering that it was that much easier. Of course, Kirsty Williams is absolutely right that midwives need to have the new skills that they will need to carry out these new jobs. I know that one of the things that the panel was most impressed by when it went to Withybush was the determination, skills, the enthusiasm and commitment of the midwives that it met there. It does point to some relationship issues that exist between different groups of staff and I believe that, by making this decision today and drawing this to a conclusion and making sure people know what they have to face in the future, some of those relationship difficulties will now have to move on and improve.

Er efallai y bu'r newid ym Mhowys yn wahanol, pan edrychaf yn ôl ar wasanaeth bydwreigiaeth Aberhonddu a'i sefydlu ar ddechrau'r degawd diwethaf, nid wyf o reidrwydd yn cofio'i fod yn llawer haws. Wrth gwrs, mae Kirsty Williams yn gwbl gywir fod angen y sgiliau newydd ar fydwragedd y bydd eu hangen arnynt i wneud y swyddi newydd hyn. Gwn mai un o'r pethau a wnaeth yr argraff fwyaf ar y panel pan aeth i Lwynhelyg oedd penderfyniad, sgiliau, brwdfrydedd ac ymroddiad y bydwragedd a welodd yno. Mae'n tynnu sylw at rai materion yn ymwneud â'r berthynas rhwng gwahanol grwpiau o staff a chredaf, drwy wneud y penderfyniad hwn heddiw a dirwyn hyn i ben, a gwneud yn siŵr bod pobl yn gwybod beth fydd yn eu hwynebu yn y dyfodol, y bydd yn rhaid i rai o'r anawsterau hynny o ran y berthynas rhwng staff yn awr symud ymlaen a gwella.

The capital is there for next year, and we will deploy it as those plans are confirmed. The panel was clear that there is a path here and a staged implementation of this plan; not all midwifery-led units can happen at the same time.

Mae'r cyfalaf yno ar gyfer y flwyddyn nesaf, a byddwn yn ei ddefnyddio wrth i'r cynlluniau hynny gael eu cadarnhau. Roedd y panel yn glir fod llwybr yma ac y dylid gweithredu'r cynllun hwn fesul cam; ni all pob uned dan arweiniad bydwragedd ddigwydd ar yr un pryd.

Finally, as far as Bronglais is concerned, I will simply say what I have said in answers already: Bronglais will remain a stratified service, supported by an obstetric rota, and mothers who are considered to be at high risk will be transferred to Glangwili hospital to deliver their babies, as happens now.

Yn olaf, o ran Bronglais, dywedaf yn syml yr hyn yr wyf eisoes wedi'i ddweud mewn atebion: bydd Bronglais yn parhau i fod yn wasanaeth haenedig, gyda chymorth rota obstetreg, a bydd mamau yr ystyrir bod eu risg yn uchel yn cael eu trosglwyddo i ysbyty Glangwili i eni eu babanod, fel sy'n digwydd yn awr.

15:35

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you. I do understand that this is a very important statement, of particular geographical reference. The Minister gave a very detailed presentation originally, and we have had four very detailed sets of questioning, and four very detailed replies. I still have some speakers, and I am just going to ask you now to ask new questions. If you do not ask new questions, I will cut you off, because I hope to get through everyone, and we are already 20 minutes over the allotted time. I call on Angela Burns.

Diolch ichi. Rwyf yn deall bod hwn yn ddatganiad pwysig iawn, yn arbennig o safbwynt daearyddol. Rhoddodd y Gweinidog gyflwyniad manwl iawn yn wreiddiol, ac rydym wedi cael pedair set fanwl iawn o gwestiynau, a phedwar ateb manwl iawn. Mae gennyf rai siaradwyr yn weddill, ac rwyf am ofyn ichi yn awr ofyn cwestiynau newydd. Os na fyddwch yn gofyn cwestiynau newydd, byddaf yn torri ar eich traws, oherwydd rwyf yn gobeithio rhoi cyfle i bawb, ac rydym eisoes 20 munud dros yr amser penodedig. Galwaf ar Angela Burns.

15:36

## Angela Burns Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, Presiding Officer. Minister, trust and safety are the two most important things for any new mother and any new child. We need to have trust that we have good, safe systems in place. So, my question to you is actually very simple; I had a whole list of questions, but those have been asked by everyone else, and I thank Members for those questions, and I thank you for your answers, Minister.

Diolch, Lywydd. Weinidog, ymddiriedaeth a diogelwch yw'r ddau beth pwysicaf i bob mam newydd ac i bob plentyn newydd. Mae angen inni fod yn ffyddiog fod gennym systemau diogel, da ar waith. Felly, mae fy nghwestiwn ichi mewn gwirionedd yn syml iawn; roedd gennyf restr gyfan o gwestiynau, ond mae pawb arall wedi eu gofyn, ac rwyf am ddiolch i'r Aelodau am y cwestiynau hynny, ac i chi am eich atebion, Weinidog.

My question is really simple. Minister, I would like your undertaking that you—and I mean you personally—will keep a watching brief on this over the next few years to come. Why do I ask you this? It is because Hywel Dda has three traits that are unpleasant and that are highly evidenced. The first is that it has a tendency to shut things and then put the solution in afterwards. Although you, your report, and your statement, say that alternatives will be put into place, that safety nets will be put into place, and that transportation arrangements will be put into place, I would like my constituents to know that the Minister for health of Wales is actually keeping an eye on this.

Mae fy nghwestiwn yn syml iawn. Weinidog, hoffwn ichi ymrwymo y byddwch chi—ac rwyf yn eich golygu chi'n bersonol—yn cadw golwg ar hyn dros yr ychydig flynyddoedd nesaf. Pam ydw i'n gofyn hyn ichi? Y rheswm yw bod gan Hywel Dda dair nodwedd annymunol y mae llawer o dystiolaeth ohonynt. Y gyntaf yw ei fod yn tueddu i gau pethau a rhoi'r ateb ar waith wedyn. Er eich bod chi, eich adroddiad, a'ch datganiad, yn dweud y bydd dewisiadau eraill ar gael, y bydd rhwydi diogelwch ar waith, ac y bydd trefniadau cludiant ar waith, hoffwn i'm hetholwyr wybod bod Gweinidog iechyd Cymru yn cadw llygad ar hyn mewn gwirionedd.

The second reason is that Hywel Dda has proven itself to be quite incapable of recruiting people and implementing positions and process. It has taken four years to take an oncologist on board, and that person is still not in place. Again, so much of this is predicated on those other things being put in place, Minister, and I would like you to keep that watching brief on behalf of the constituents.

Yr ail reswm yw bod Hywel Dda wedi dangos ei fod yn eithaf analluog i recriwtio pobl a gweithredu safleoedd a phrosesau. Mae wedi cymryd pedair blynedd i benodi oncolegydd, ac nid yw'r unigolyn hwnnw yn ei swydd eto. Unwaith eto, mae cymaint o hyn yn seiliedig ar roi'r pethau eraill hynny ar waith, Weinidog, a hoffwn ichi gadw golwg ar bethau ar ran yr etholwyr.

The third and final reason is that the trust has been woefully poor at maintaining an honest and transparent communications strategy. If we are to convince all those people who stand outside Withybush Hospital on Saturdays and Sundays protesting—because people love their hospital, have trust in the hospital, and know that it is safe for them—it is going to take quite something to persuade them elsewhere. So, in order for them to believe all of this that we have talked about today, they need to have a really excellent communications programme that is very clear to them. Minister, I think that that will only happen if it is driven from the very top of Welsh Government, and I would ask that you keep that on board.

Y trydydd rheswm, a'r rheswm olaf, yw bod yr ymddiriedolaeth wedi bod yn druenus o wael o ran cynnal strategaeth gyfathrebu onest a thryloyw. Os ydym am argyhoeddi'r holl bobl hynny sy'n sefyll y tu allan i Ysbyty Llwynhelyg ar ddydd Sadwrn a dydd Sul yn protestio—oherwydd mae pobl yn caru eu hysbyty, maent yn ymddiried yn yr ysbyty, ac maent yn gwybod ei fod yn ddiogel iddynt—bydd angen rhywbeth mawr i'w perswadio i fynd i rywle arall. Felly, er mwyn iddynt gredu popeth yr ydym wedi sôn amdano heddiw, mae arnynt angen rhaglen gyfathrebu wirioneddol wych sy'n glir iawn iddynt. Weinidog, rwyf yn credu mai'r unig ffordd o sicrhau y bydd hynny'n digwydd yw sbarduno hyn o frig Llywodraeth Cymru, a gofynnaf ichi gofio hynny.

I have one last comment, Presiding Officer. The slippery slope argument—the local health board has already started talking to the CHC about the future of paediatrics. That is why people worry about—

Mae gennyf un sylw olaf, Lywydd. Mae dadl y llethr llithrig—mae'r bwrdd iechyd lleol eisoes wedi dechrau siarad â'r cyngor iechyd cymuned am ddyfodol pediatreg. Dyna pam y mae pobl yn poeni am—

15:38

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

That is not an issue for this afternoon. I call the Minister.

Nid yw hynny'n fater i'w drafod y prynhawn yma. Galwaf ar y Gweinidog.

15:38

## Mark Drakeford Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

On trust and safety, I think that the announcement that I have made this afternoon is predicated on a safe service being provided, and that is something that I think that I have been able to do. Angela Burns is right about trust. Trust is something that the health board does have to work hard at to rebuild with its local population. By chance, I have myself a long and current family relationship with Haverfordwest; I am a freeman of Haverfordwest—

O ran ymddiriedaeth a diogelwch, credaf fod y cyhoeddiad yr wyf wedi'i wneud y prynhawn yma'n seiliedig ar ddarparu gwasanaeth diogel, ac mae hynny'n rhywbeth yr wyf yn meddwl fy mod wedi gallu ei wneud. Mae Angela Burns yn iawn ynglŷn ag ymddiriedaeth. Mae ymddiriedaeth yn rhywbeth y mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd weithio'n galed arno er mwyn ei meithrin o'r newydd â'i boblogaeth leol. Fel y mae'n digwydd, mae gennyf berthynas deuluol hir a chyfredol â Hwlffordd; rwyf yn un o ryddfreinwyr Hwlffordd—

15:39

## Kirsty Williams Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Then we know what is wrong with it. [Laughter.]

Rydym yn gwybod beth sydd o'i le â'r lle felly. [Chwerthin.]

15:39

## Mark Drakeford Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Can it be rescinded? [Laughter.]

A oes modd ei ddirymu? [Chwerthin.]

Of course I will keep an eye on this—I will do more than keep an eye; I will take a close personal interest in the way that all of this develops while I am the Minister for health. I give that undertaking.

Wrth gwrs, byddaf yn cadw llygad ar hyn—gwnaf fwy na chadw llygad; bydd gennyf ddiddordeb personol agos yn y ffordd y mae hyn i gyd yn datblygu tra byddaf yn Weinidog iechyd. Rwyf yn addo hynny.

15:39

## Joyce Watson Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The first thing that I want to say is that I live in Haverfordwest. I understand the concerns that people have out there, and the real anxiety and fear, quite frankly, behind any decision to change.

Y peth cyntaf yr wyf am ei ddweud yw fy mod yn byw yn Hwlffordd. Rwyf yn deall y pryderon sydd gan bobl yno, a'r pryder gwirioneddol a'r ofn, a dweud y gwir, y tu ôl i unrhyw benderfyniad i newid.

You have been asked several times today, Minister, about planned care, and you have answered by saying that that will undoubtedly put pressure on Glangwili, but, even with all the very best planning in the world, you can never anticipate the emergency that happens. That was the situation that I found myself in when I was having my son. Within 15 minutes, he was born. Had he not been born, I doubt very much that he would be here now for me to tell you that story. I also doubt very much that I would have been here looking as healthy as I do. So, given my own personal experience, which I do not usually bring to the Chamber—in fact, I do not think that I have ever done so before—I have to ask you a question, which I know you will give an honest answer to, because I have no doubt that it is what you will do: are you happy, Minister, that the plans that are here will satisfy a situation like the one that I have just described, in all cases?

Gofynnwyd ichi sawl gwaith heddiw, Weinidog, am ofal wedi'i gynllunio, ac rydych wedi ateb drwy ddweud y bydd hynny'n ddiau yn rhoi pwysau ar ysbyty Glangwili, ond, hyd yn oed gyda'r cynllunio gorau yn y byd, ni allwch fyth ragweld yr argyfwng sy'n digwydd. Dyna oedd y sefyllfa y cefais fy hun ynddi pan oeddwn yn cael fy mab. O fewn 15 munud, roedd wedi'i eni. Pe na bai wedi ei eni, rwyf yn amau'n gryf a fyddai yma yn awr imi ddweud y stori hon wrthych. Rwyf hefyd yn amau'n gryf iawn a fyddwn innau yma'n edrych mor iach ag yr wyf. Felly, ac ystyried fy mhrofiad personol fy hun, sy'n rhywbeth nad wyf fel arfer yn ei rannu â'r Siambr—a dweud y gwir, nid wyf yn meddwl imi erioed wneud hynny o'r blaen—rhaid imi ofyn cwestiwn ichi, a gwn y byddwch yn rhoi ateb gonest, oherwydd nid oes gennyf ddim amheuaeth mai dyna a wnewch: a ydych yn hapus, Weinidog, y bydd y cynlluniau sydd yma'n bodloni sefyllfa fel yr un yr wyf newydd ei disgrifio, ym mhob achos?

15:41 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I recognise very strongly the way in which the Member understands and represents the views of people who live in Haverfordwest, and I have been able to be at Withybush hospital with Joyce Watson in the past summer to look at services there. What I say is this: the best advice available to me says that the decision that I have made today will provide a long-term safe service for mothers in west Wales, it will provide a service that they can rely on and a service that will last. It has to be built up and the safety of it has to be paramount. That is why there are conditions in this. However, I very firmly believe that the package that we have put on the table in this statement today will be one that does everything that the Member has asked of me.

Rwyf yn cydnabod yn gryf iawn y modd y mae'r Aelod yn deall ac yn cynrychioli barn y bobl sy'n byw yn Hwlffordd, a bûm yn ysbyty Llwynhelyg gyda Joyce Watson yr haf diwethaf i edrych ar wasanaethau yno. Yr hyn yr wyf am ei ddweud yw hyn: mae'r cyngor gorau sydd ar gael imi'n dweud y bydd y penderfyniad yr wyf wedi'i wneud heddiw'n darparu gwasanaeth diogel hirdymor i famau yn y gorllewin, bydd yn darparu gwasanaeth y gallant ddibynnu arno a gwasanaeth a fydd yn para. Mae'n rhaid ei ddatblygu ac mae'n hollbwysig sicrhau ei fod yn ddiogel. Dyna pam y mae amodau'n gysylltiedig â hyn. Fodd bynnag, rwyf yn credu'n gryf iawn y bydd y pecyn yr ydym wedi ei roi ar y bwrdd yn y datganiad hwn heddiw'n un sy'n gwneud popeth y mae'r Aelod wedi'i ofyn imi.

15:42 **Elin Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Weinidog, am y datganiad. Mae'r datganiad, a'ch penderfyniad chi heddiw, yn dweud, yn y tymor hir, y byddwch eisiau gweld gwasanaethau bydwragedd yn unig yn ysbyty Bronglais. Mae hynny'n wahanol i argymhelliad y bwrdd iechyd ar gyfer ymgynghoriad yn y gorllewin ychydig fisoedd yn ôl, ac, yn wir, yn wahanol iawn i'r hyn y bu ichi ei ddweud wrthyf fis Medi diwethaf yn y Siambr. Pan gyhoeddwyd y gwaith gennych, gofynnais ichi a fyddai Bronglais yn cael ei hystyried fel rhan o'r adolygiad hwn a bu ichi ddweud yn glir iawn wrthyf na fyddech yn agor y mater ynglŷn â Bronglais:

Thank you, Minister, for the statement. The statement, and your decision today, states that, in the long term, you would wish to see midwife-led services only at Bronglais hospital. That is different from the recommendation of the health board for a consultation in west Wales just some months ago, and, indeed, is very different from what you told me last September in the Chamber. When you announced this work, I asked you whether Bronglais would be considered as part of this review and you stated very clearly that you would not open up the issue of Bronglais:

'The issue of services at Bronglais hospital has not been referred to me by the community health council because it has reached an agreement with the local health board... Nothing in what I have said today should be taken as casting any doubt on that agreement for opening up an issue that has not been referred to me for consideration'.

'Nid yw'r cyngor iechyd cymuned wedi atgyfeirio gwasanaethau yn ysbyty Bronglais ataf oherwydd maent wedi cytuno â'r bwrdd iechyd lleol ... Ni ddylid ystyried bod dim yn yr hyn yr wyf wedi'i ddweud heddiw sy'n bwrw unrhyw amheuaeth ar y cytundeb hwnnw i agor mater na chafodd ei atgyfeirio ataf i'w ystyried.'

Ac eto, heddiw, rydych wedi dweud wrthym eich bod yn datgan mai gwasanaeth bydwragedd fydd ym Mronglais, sydd yn wahanol. Bydd yn sioc i'r gymuned leol i glywed hyn yn cael ei ddatgan gennych ar lawr y Siambr heddiw heb ymgynghoriad penodol gyda phobl leol ar y math hwn o wasanaeth. Gofynnaf ichi esbonio pam yr ydych wedi cymryd cam mor bellgyrhaeddol â hyn ynglŷn â'r gwasanaeth ym Mronglais. Clywais yr hyn a ddywedoch ynglŷn ag amseri'r gwasanaeth hwnnw, a gwn eich bod yn bwriadu aros nes bod yr adroddiad annibynnol yn rhoi cyngor pellach i chi. Fodd bynnag, bydd hyn yn sioc i'r gymuned. Mae'r pellteroedd yng nghyd-destun Bronglais gymaint yn fwy na'r pellteroedd yng nghyd-destun bron i unrhyw gymuned arall yng Nghymru. Felly, mae pobl ardal Bronglais yn haeddu datganiad pellach gennych, byddwn yn ei ddweud, ynglŷn â pha fath o wasanaeth y gallant ei ddisgwyl dros y tymor byr, yn ogystal â'r gwasanaeth yn y tymor hir, i'r ardal hwnnw.

Yet, today, you are telling us that you are stating that there will be a midwifery-led service in Bronglais, which is different. It will be a shock to the local community to hear you saying this on the floor of the Chamber today without there being a specific consultation with local people on this kind of service. I ask you to explain why you have taken such a far-reaching step in relation to the service in Bronglais. I have heard what you have said about the timing of that service, and I know that you intend to wait until the independent report provides you with further advice. However, this will be a shock to the community. The distances in the context of Bronglais are so much greater than the distances in the context of almost any other community in Wales. Therefore, the people in the Bronglais area deserve a further statement from you, I would say, on exactly what sort of service they can expect in the short term, as well as the long-term service, for that area.

15:44

## Mark Drakeford Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank Elin Jones for raising that important set of issues, and I recognise and accept that the advice that the panel has given to me has altered in that respect between its original report and what it has said in its subsidiary report. Back in September, it made no observations about any change at Bronglais. However, you will recall that what it said it needed before it could give the go-ahead to the new service model was further information and assurance from the local health board about the wider pattern of maternity care services. In that wider pattern and the extra information that the LHB has provided it is the LHB that has said to the panel that it sees, in the longer term, a midwifery-led service at Bronglais. That is what I reported in my statement because the panel endorses the health board's position. However, because it is a departure from what was said here in September, I have tried to be clear this afternoon. I really hope—there is no need for the local population to be alarmed at what the statement says because what I am trying to be as clear as I can about is this: for the foreseeable future the service at Bronglais will be exactly the same service that is there now. No changes will be made in this service at Bronglais until the independent piece of work that is being commissioned, looking at services across the top of that mid part of Wales, has reported. Its report will cast a further reflection on these services and their future. It may be that in the future the local health board's plan, as endorsed by the panel, will come to fruition at Bronglais. However, we are not at that point today. In the safety-net period of 12 months and beyond I believe that the current service at Bronglais will continue and there will be a whole new set of important work done that will provide a new context in which that longer-term future to which the Member referred will be shaped.

Diolch i Elin Jones am godi'r gyfres bwysig honno o faterion; rwyf yn cydnabod ac yn derbyn bod y cyngor a roddodd y panel imi wedi newid yn hynny o beth rhwng ei adroddiad gwreiddiol a'r hyn y mae wedi'i ddweud yn ei is-adroddiad. Yn ôl ym mis Medi, ni wnaeth ddim sylwadau am unrhyw newid ym Mronglais. Fodd bynnag, byddwch yn cofio iddo ddweud y byddai arno angen gwybodaeth bellach a sicrwydd gan y bwrdd iechyd lleol am batrwm ehangach gwasanaethau gofal mamolaeth cyn y gallai roi sêl bendith i'r model gwasanaeth newydd. Yn y patrwm ehangach hwnnw a'r wybodaeth ychwanegol y mae'r bwrdd iechyd lleol wedi'i darparu, y bwrdd iechyd lleol sydd wedi dweud wrth y panel ei fod yn rhagweld gwasanaeth dan arweiniad bydwragedd yn Ysbyty Bronglais yn y tymor hwy. Dyna'r hyn a ddywedais yn fy natganiad oherwydd mae'r panel yn cefnogi safbwynt y bwrdd iechyd. Fodd bynnag, gan ei fod yn gwyro oddi wrth yr hyn a ddywedwyd yma ym mis Medi, rwyf wedi ceisio bod yn glir y prynhawn yma. Rwyf yn gobeithio'n wirioneddol—nid oes angen i'r boblogaeth leol ddychryn ynghylch yr hyn y mae'r datganiad yn ei ddweud oherwydd dyma'r hyn yr wyf yn ceisio bod mor glir ag y gallaf yn ei gylch: hyd y gellir ei ragweld, bydd y gwasanaeth ym Mronglais yn union yr un gwasanaeth ag sydd yno yn awr. Ni chaiff dim newidiadau eu gwneud i'r gwasanaeth hwn ym Mronglais hyd nes i'r darn annibynnol o waith sy'n cael ei gomisiynu, ac sy'n edrych ar wasanaethau ar draws rhan uchaf canolbarth Cymru, gynhyrchu adroddiad. Bydd yr adroddiad yn rhoi adlewyrchiad pellach ar y gwasanaethau hyn a'u dyfodol. Efallai y bydd cynllun y bwrdd iechyd lleol, fel y'i cymeradwywyd gan y panel, yn dwyn ffrwyth ym Mronglais yn y dyfodol. Fodd bynnag, nid ydym wedi cyrraedd y pwynt hwnnw heddiw. Yng nghyfnod 12 mis y rhwyd ddiogelwch a thu hwnt, credaf y bydd y gwasanaeth presennol yn ysbyty Bronglais yn parhau a gwneir darn cwbl newydd o waith pwysig a fydd yn darparu cyd-destun newydd ar gyfer llunio'r dyfodol tymor hwy hwnnw y cyfeiriodd yr Aelod ato.

15:46

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Russell George has indicated that his questions have been asked. Therefore, thank you, Minister.

Mae Russell George wedi dynodi bod ei gwestiynau wedi eu gofyn. Felly, diolch, Weinidog.

15:47

## Datganiad: Perfformiad Llywodraeth Leol—Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent

## Statement: Local Government Performance—Blaenau Gwent County Borough Council

Y Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

### Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

This item has been postponed.

Mae'r eitem hon wedi ei gohirio.

15:47

## Datganiad: Gwella Perfformiad Ynni Adeiladau yng Nghymru

## Statement: Improving the Energy Performance of Buildings in Wales

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

### Carl Sargeant [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Gweinidog Tai ac Adfywio / The Minister for Housing and Regeneration*

In July and September last year, I published written statements concerning the stimulation of house building in Wales and proposed changes to the 2010 building regulations. Both statements outlined details of my plans to improve the energy efficiency of all buildings in Wales. The decisions contained within these statements were arrived at following an extensive consultation and engagement process that concluded at the end of 2013. I am pleased to announce to you today that the review of Part L of Schedule 1 to the building regulations is complete, and this week I will sign the amendment regulations to make these plans a reality. Addressing climate change is a key Government priority, and building regulations are a crucial tool for tackling greenhouse gas emissions in the built environment.

Ym mis Gorffennaf a mis Medi y llynedd, cyhoeddais ddatganiadau ysgrifenedig ynghylch ysgogi'r diwydiant adeiladu tai yng Nghymru a'r newidiadau arfaethedig i reoliadau adeiladu 2010. Roedd y ddau ddatganiad yn amlinellu manylion fy nghynlluniau i wella effeithlonrwydd ynni holl adeiladau Cymru. Gwnaed y penderfyniadau a gynhwysir yn y datganiadau hyn yn dilyn proses ymgynghori ac ymgysylltu helaeth a ddaeth i ben ar ddiwedd 2013. Mae'n bleser gennyf gyhoeddi i chi heddiw bod yr adolygiad o Ran L o Atodlen 1 i'r rheoliadau adeiladu wedi ei gwblhau, a'r wythnos hon byddaf yn llofnodi'r rheoliadau diwygio i wireddu'r cynlluniau hyn. Mae'n flaenoriaeth allweddol gan y Llywodraeth i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, ac mae rheoliadau adeiladu yn arf hanfodol ar gyfer mynd i'r afael ag allyriadau nwyon tŷ gwydr yn yr amgylchedd adeiledig.

We previously consulted on ambitious plans to use the building regulations to reduce these emissions by 40% compared with the 2010 building regulation standards. The consultation responses that we received were largely supportive of our proposals. However, they also pointed out the potential for unintended negative consequences. In the case of new homes, there were concerns that increased standards would mean increased costs at a time when the housing market was still recovering from the crash of 2008.

Buom yn ymgynghori'n flaenorol ar gynlluniau uchelgeisiol i ddefnyddio'r rheoliadau adeiladu i allyrru 40% yn llai o'r nwyon hyn o'i gymharu â safonau rheoliadau adeiladu 2010. Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad a gynhaliwyd yn gefnogol i'n cynigion i raddau helaeth. Fodd bynnag, roeddent yn tynnu sylw hefyd at y potensial ar gyfer canlyniadau negyddol anfwriadol. Yn achos cartrefi newydd, mynegwyd pryderon y byddai safonau uwch yn golygu costau uwch ar adeg pan oedd y farchnad dai yn dal i ddod ati'i hun ar ôl cwymp 2008.

House building is an important element of the Welsh economy and I was mindful of the negative impact that changes at the time might have had on the housing and labour markets. With this in mind, I decided to implement a revised energy efficiency target, equivalent to an 8% improvement on 2010 targets for all new homes in Wales. Although this is lower than the previous preferred consultation target, I believe that it represents a practical and logical step that will improve our emissions' position. This is because the 8% improvement for new homes will align building regulations with the existing planning guidance, namely technical advice note 22. My July statement indicated my intention to review technical advice note 22, looking to simplify and reduce policy burdens now that we have the power to make building regulations. However, there will be no let-up in the sustainable agenda. TAN 22 has been useful in raising the profile of sustainability in the building environment. We will now look to embed the key criteria that the Building Research Establishment environmental assessment method and the code for sustainable homes provide for within existing policy tools, including building regulations.

Mae adeiladu tai yn elfen bwysig o economi Cymru ac rwy'n ymwybodol o'r effaith negyddol y gallai newidiadau fod wedi ei chael ar y pryd ar y farchnad dai a'r farchnad lafur. Gyda hyn mewn golwg, penderfynais weithredu targed effeithlonrwydd ynni diwygiedig, sy'n cyfateb i welliant o 8% ar dargedau 2010 ar gyfer pob cartref newydd yng Nghymru. Er bod hwn yn is na'r targed ymgynghori blaenorol a ffefrir, credaf ei fod yn gam ymarferol a rhesymegol a fydd yn gwella ein sefyllfa o ran allyriadau. Mae hyn oherwydd y bydd y gwelliant o 8% ar gyfer cartrefi newydd yn golygu bod rheoliadau adeiladu yn cyd-fynd â'r canllawiau cynllunio presennol, sef nodyn cyngor technegol 22. Nododd fy natganiad ym mis Gorffennaf fy mwriad i adolygu nodyn cyngor technegol 22, gan geisio symleiddio a lleihau beichiau polisi nawr bod gennym y pŵer i wneud rheoliadau adeiladu. Fodd bynnag, ni fydd unrhyw laesu dwylo yn yr agenda gynaliadwyedd. Mae TAN 22 wedi bod yn ddefnyddiol o ran codi proffil cynaliadwyedd yn yr amgylchedd adeiladu. Byddwn yn awr yn ceisio ymwreiddio'r meini prawf allweddol y mae dull asesu amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladu a'r cod ar gyfer cartrefi cynaliadwy yn darparu ar eu cyfer o fewn arfau polisi sydd eisoes yn bodoli, gan gynnwys rheoliadau adeiladu.

It is not just new homes that will benefit from the changes to the building regulations. We have also made significant improvements to how we regulate building work in existing buildings. From July this year, buildings subject to extension or integrated conversion will be required to undertake consequential improvements. That will mean that, as part of our changes to the building regulations, any extensions or integrated conversions will be required to meet improved standards of fabric efficiency. That means that if you are building an extension, it will not be acceptable to simply build it to the same standards as your existing property. You must build it from materials that are as thermally efficient as any new home in Wales. However, even with these improved fabric standards, the increase in a building's size will almost inevitably mean an increase in its energy consumption.

Nid dim ond cartrefi newydd fydd yn elwa o'r newidiadau i'r rheoliadau adeiladu. Rydym hefyd wedi gwneud gwelliannau sylweddol i'r ffordd yr ydym yn rheoleiddio gwaith adeiladu mewn adeiladau presennol. O fis Gorffennaf eleni, bydd yn ofynnol gwneud gwelliannau canlyniadol wrth godi estyniad i adeiladau neu wneud gwaith addasu integredig. Bydd hynny'n golygu, fel rhan o'n newidiadau i'r rheoliadau adeiladu, y bydd yn ofynnol i unrhyw estyniadau neu addasiadau integredig fodloni gwell safonau o ran effeithlonrwydd y deunyddiau. Mae hynny'n golygu na fydd yn dderbyniol, os ydych yn adeiladu estyniad, gwneud dim ond ei adeiladu i'r un safonau â'ch eiddo presennol. Mae'n rhaid i chi ei adeiladu o ddeunyddiau sydd mor thermol effeithlon ag unrhyw gartref newydd yng Nghymru. Fodd bynnag, hyd yn oed gyda'r gwell safonau hyn, bydd y cynnydd mewn maint adeilad bron yn anochel yn golygu y defnyddir mwy o ynni.

The introduction of consequential improvements will mean that when a building is extended or subject to an integrated conversion, the original building will also be subject to energy efficiency improvements. For homeowners, this could mean installing loft, cavity or hot-water insulation. However, we would only expect them to do that where it was cost-effective and suitable to do so. For non-domestic buildings, all extensions, regardless of size, will require the owner to spend 10% of the total extension cost on making suitable improvements to the original building. Currently, the requirement applies only to buildings over 1,000 sq m.

Yn sgil cyflwyno gwelliannau canlyniadol, pan fydd adeilad yn cael estyniad neu addasiadau integredig, bydd yr adeilad gwreiddiol hefyd yn destun gwelliannau effeithlonrwydd ynni. Ar gyfer perchnogion tai, gallai hyn olygu inswleiddio'r atig, waliau ceudod neu'r bwyler dŵr poeth. Fodd bynnag, ni fyddem ond yn disgwyl iddynt wneud hynny lle'r oedd yn gost effeithiol ac yn briodol. Ar gyfer adeiladau annomestig, bydd yn ofynnol i berchennog pob estyniad, waeth beth fo'i faint, wario 10% o gyfanswm cost yr estyniad ar wneud gwelliannau addas i'r adeilad gwreiddiol. Ar hyn o bryd, mae'r gofyniad yn berthnasol i adeiladau dros 1,000 metr sgwâr yn unig.

Moving on to non-domestic buildings, I have decided that we will press ahead with our plans to reduce the emissions of all new non-domestic buildings by 20%. This improvement will be achieved through a mixture of improved fabric and building standards. It is also likely to require renewable technologies such as solar panels. Non-domestic buildings include hospitals, schools and factories. These buildings are responsible for around a fifth of all greenhouse gas emissions in Wales. Improving the efficiency of new non-domestic buildings represents a significant step forward towards our ultimate goal that all new buildings in Wales will be nearly zero energy by 2019 for the public sector, and 2021 for all new buildings.

Gan symud ymlaen at adeiladau annomestig, rwyf wedi penderfynu y byddwn yn bwrw ymlaen â'n cynlluniau i leihau allyriadau o bob adeilad annomestig newydd 20%. Bydd y gwelliant hwn yn cael ei gyflawni drwy gymysgedd o well safonau adeiladu a deunyddiau. Mae hefyd yn debygol y bydd angen technolegau ynni adnewyddadwy megis paneli solar. Mae adeiladau annomestig yn cynnwys ysbytai, ysgolion a ffatrïoedd. Mae'r adeiladau hyn yn gyfrifol am oddeutu un rhan o bump o'r holl allyriadau nwyon tŷ gwydr yng Nghymru. Trwy wella effeithlonrwydd adeiladau annomestig newydd, byddwn yn cymryd cam sylweddol ymlaen tuag at ein nod yn y pen draw o sicrhau y bydd defnydd ynni net pob adeilad newydd yng Nghymru bron yn sero erbyn 2019 ar gyfer y sector cyhoeddus, ac erbyn 2021 ar gyfer pob adeilad newydd.

This goal has been set by the European energy performance of buildings directive. It has created a legal obligation for us to reduce our buildings' carbon emissions. These changes to the building regulations represent an interim step forward to meeting these obligations. I plan to review Part L of Schedule 1 to the building regulations again in 2016. I will continue with that. As with the changes that I have described to you today, the review will be subject to a full public consultation. We will also seek guidance from the Building Regulations Advisory Committee for Wales.

Mae'r nod wedi ei osod gan y gyfarwyddeb Ewropeaidd ar berfformiad ynni adeiladau. Mae wedi rhoi dyletswydd gyfreithiol arnom i leihau allyriadau carbon ein hadeiladau. Mae'r newidiadau hyn i'r rheoliadau adeiladu yn gam dros dro ymlaen at gyflawni'r dyletswyddau hyn. Rwy'n bwriadu adolygu Rhan L o Atodlen 1 i'r rheoliadau adeiladu eto yn 2016. Byddaf yn parhau â hynny. Fel yn achos y newidiadau yr wyf wedi'u disgrifio i chi heddiw, bydd yr adolygiad yn destun ymgynghoriad cyhoeddus llawn. Byddwn hefyd yn ceisio arweiniad gan y Pwyllgor Cynghori Cymru ar Reoliadau Adeiladu.

The final objective is clear: from 2021, a new building in Wales will be zero carbon or nearly zero energy. These changes to the building regulations represent a significant step forward today towards realising those objectives.

Mae'r amcan olaf yn glir: o 2021, bydd adeilad newydd yng Nghymru yn ddi-garbon neu bydd ei ddefnydd ynni net bron yn sero. Mae'r newidiadau hyn i'r rheoliadau adeiladu yn gam pwysig ymlaen heddiw tuag at wireddu'r amcanion hynny.

15:53

**Russell George** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank the Minister for the opportunity to scrutinise this policy decision. The first thing that struck me when the initial announcement was made in the summer was the stark difference between the ambitious proposals set out in the consultation document, which I thought were very detailed and comprehensive, compared with this final analysis and announcement. The Government inflated expectations prior to the devolution of building regulations in 2011 about what it intended to do with them. In 2012, the Government claimed that new regulations were going to achieve a 55% improvement in energy efficiency over the 2006 levels, and 40% over the 2010 levels, which was consistent with the goal set out in the current programme for government.

Rwy'n diolch i'r Gweinidog am y cyfle i graffu ar y penderfyniad polisi hwn. Y peth cyntaf a wnaeth fy nharo pan wnaed y cyhoeddiad cychwynnol yn yr haf oedd y gwahaniaeth amlwg rhwng y cynigion uchelgeisiol a nodwyd yn y ddogfen ymgynghori, cynigion manwl a chynhwysfawr iawn yn fy marn i, o'i gymharu â'r dadansoddiad a'r cyhoeddiad terfynol hwn. Gorliwiodd y Llywodraeth y disgwyliadau ynglŷn â'r hyn yr oedd yn bwriadu ei wneud gyda rheoliadau adeiladu cyn eu datganoli yn 2011. Yn 2012, honnodd y Llywodraeth fod rheoliadau newydd yn mynd i wella effeithlonrwydd ynni 55% uwch ben lefelau 2006, a 40% uwch ben lefelau 2010. Roedd hyn yn gyson â'r targed a nodir yn y rhaglen lywodraethu bresennol.

You have said repeatedly that you took the final decision based more on socioeconomic consequences, rather than on solely environmental ones. I understand that the industry, directly and indirectly, has raised concerns, but I would like to understand why the gap between what was initially proposed to what we have today is so great.

Rydych wedi dweud dro ar ôl tro eich bod wedi gwneud y penderfyniad terfynol yn fwy seiliedig ar ganlyniadau economaidd-gymdeithasol, yn hytrach nag ar rai amgylcheddol yn unig. Deallaf fod y diwydiant, yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol, wedi mynegi pryderon, ond hoffwn i ddeall pam mae'r bwlch rhwng yr hyn a gynigiwyd yn y lle cyntaf â'r hyn sydd gennym heddiw mor fawr.

We are now in the position where we have two very different regulatory environments between Wales and England. The UK Department for Communities and Local Government made its announcement on 30 July while introducing 2014 standards, which are similar to the new Welsh ones. However, it stresses that zero-carbon homes will be built in England from 2016. I know that the industry is also concerned with the 2016 target in England, but do you believe that having a lower target in Wales—considering that you are setting out baseline requirements to move to those new build EU targets of nearly zero by 2019 and 2021—will stimulate more building development in Wales, particularly new domestic developments? If you believe that it will, do you feel that there is an opportunity there to work with the industry and, perhaps, the social rented sector to pilot some zero-carbon developments in targeted communities across Wales, which may go some way to return to the Government's original aspiration for building regulations?

Rydym yn awr yn y sefyllfa lle mae gennym ddau amgylchedd rheoleiddio gwahanol iawn rhwng Cymru a Lloegr. Gwnaeth Adran y DU dros Gymunedau a Llywodraeth Leol ei chyhoeddiad ar 30 Gorffennaf wrth gyflwyno safonau 2014, sy'n debyg i rai newydd Cymru. Fodd bynnag, mae'n pwysleisio y bydd cartrefi di-garbon yn cael eu hadeiladu yn Lloegr o 2016. Gwn fod y diwydiant hefyd yn bryderus ynghylch y targed ar gyfer 2016 yn Lloegr, ond a ydych yn credu y bydd targed is yng Nghymru—o ystyried eich bod yn pennu gofynion sylfaenol i symud at dargedau adeiladu newydd yr UE o bron i sero erbyn 2019 a 2021—yn ysgogi mwy o ddatblygiadau adeiladu yng Nghymru, yn enwedig datblygiadau domestig newydd? Os ydych yn credu y bydd, a ydych yn teimlo bod cyfle yno i weithio gyda'r diwydiant ac, efallai, y sector rhentu cymdeithasol i dreialu rhai datblygiadau di-garbon mewn cymunedau a dargedwyd ar draws Cymru, gan fynd beth o'r ffordd o bosibl at ddychwelyd at ddyhead gwreiddiol y Llywodraeth ar gyfer rheoliadau adeiladu?

Finally, while I understand the desire to factor in renewable technologies to new developments, which will go some way to making buildings more sustainable, I am a big believer that energy conservation goes before energy creation. All you are potentially doing, if standards are not suitably robust, is losing that energy that you will generate. That is why I would like to see the gap in terms of energy efficiency between building design and development performance narrowing, ensuring that targets that are set for developers are not just achieved, but exceeded. How will the Government be persuading developers to undertake more performance measurements during the construction phase, ensuring that standards are being complied with, and that stated design performance is being achieved?

Yn olaf, er fy mod yn deall y dymuniad i gynnwys technolegau adnewyddadwy mewn datblygiadau newydd, gan y bydd y rhain yn mynd rhywfaint o'r ffordd i wneud adeiladau'n fwy cynaliadwy, rwy'n gredwr mawr yn y syniad bod angen arbed ynni cyn creu ynni. Y cyfan yr ydych yn ei wneud o bosibl, os nad yw safonau'n ddigon cadarn, yw colli'r ynni y byddwch yn ei gynhyrchu. Dyna pam y byddwn yn hoffi gweld y bwlch o ran effeithlonrwydd ynni rhwng perfformiad datblygiadau a dyluniad adeiladau yn culhau, gan sicrhau y cyflawnir ac y rhagorir ar y targedau a osodir ar gyfer datblygwyr. Sut y bydd y Llywodraeth yn darbwyllo datblygwyr i wneud mwy i fesur perfformiad yn ystod y cyfnod adeiladu, gan sicrhau bod safonau'n cael eu dilyn, a bod perfformiad dylunio a nodir yn cael ei gyflawni?

*Daeth y Dirprwy Lywydd (David Melding) i'r Gadair am 15:54.*

*The Deputy Presiding Officer (David Melding) took the Chair at 15:54.*

15:56 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank the Member for his questions, although I am slightly surprised by the content of his contribution this afternoon. When I came into post as Minister for Housing and Regeneration, it was obvious to me from all quarters of the political representation here, as well as from external bodies in the private sector, that there were pressures within the housing and construction industry. I took a very strong position in terms of reviewing policy, not only on building regulations and energy conservation, but on the building supply opportunities that we are currently looking at. In terms of that process, the consultation document that the Member refers to was purely a consultation document. Of course, there were Government aspirations to deliver on the target, which was a European directive target, and we are still ambitious enough to be able to look to deliver on the same scale as the English model to which the Member refers.

Diolch i'r Aelod am ei gwestiynau, er fy mod wedi fy synnu braidd gan gynnwys ei gyfraniad y prynhawn yma. Pan ddechreuais yn y swydd Gweinidog Tai ac Adfywio, roedd yn amlwg i mi o bob cyfeiriad gwleidyddol a gynrychiolir yma, yn ogystal â chan gyrff allanol yn y sector preifat, bod pwysau o fewn y diwydiant tai ac adeiladu. Cymerais safbwynt cryf iawn o ran adolygu polisi, nid yn unig ym maes rheoliadau adeiladau ac arbed ynni, ond hefyd ym maes y cyfleoedd i gyflenwi adeiladau yr ydym yn edrych arnynt ar hyn o bryd. O ran y broses honno, dogfen ymgynghori yn unig oedd y ddogfen ymgynghori y mae'r Aelod yn cyfeirio ati. Wrth gwrs, roedd gan y Llywodraeth ddyheadau i gyflawni 'r targed, a oedd yn darged mewn cyfarwyddeb Ewropeaidd, ac rydym yn dal yn ddigon uchelgeisiol i allu ceisio cyflawni ar yr un raddfa â model Lloegr y mae'r Aelod yn cyfeirio ato.

On the basis of economic challenges, the Member tried to make some comparisons between England and Wales. I recognise that the Member is within his right to do so, but he should also recognise the additional challenges that we face in Wales in terms of the construction industry itself; the viability of land opportunities in Wales is a lot lower than in the markets of the south-east of the UK. The construction industry has to consider that in that process.

Ar sail heriau economaidd, ceisiodd yr Aelod wneud rhai cymariaethau rhwng Cymru a Lloegr. Rwy'n cydnabod bod gan yr Aelod hawl i wneud hynny, ond dylai hefyd gydnabod yr heriau ychwanegol yr ydym yn eu hwynebu yng Nghymru o ran y diwydiant adeiladu ei hun; mae hyfywedd cyfleoedd tir yng Nghymru yn llawer is nag ym marchnadoedd de-ddwyrain y DU. Mae'n rhaid i'r diwydiant adeiladu ystyried hynny yn y broses honno.

My decision to reduce the journey time of change for energy conservation and energy performance has been welcomed by the industry. I would hope that the Member would reflect on his challenges and that he would also welcome the private sector wanting to support these proposals. It is still my intention to move forward with the target date of 2020, as I mentioned in the opening part of this debate. The Member will, I am sure, welcome the opportunity to review the performance targets in 2016, when I look again at Part L in terms of what that could mean for the reintroduction of a new target in 2016, subject to market conditions. I think that that is a wise move in terms of looking at how the sector is doing economically before we pile more challenges onto it and before we try to achieve targets that prevent and prohibit new opportunities for development in Wales, while seeking to have a balance between the environmental and energy performance that we strive to achieve.

Mae diwydiant wedi croesawu fy mhenderfyniad i leihau'r amser teithio ar gyfer newidiadau ym maes arbed ynni a pherfformiad ynni. Byddwn yn gobeithio y byddai'r Aelod yn myfyrio ar ei heriau ac y byddai hefyd yn croesawu'r ffaith bod y sector preifat yn dymuno cefnogi'r cynigion hyn. Mae'n dal yn fwriad gennyf i symud ymlaen gyda'r dyddiad targed o 2020, fel y soniais yn rhan agoriadol y ddadl hon. Bydd yr Aelod, rwy'n siŵr, yn croesawu'r cyfle i adolygu'r targedau perfformiad yn 2016, pan fyddaf yn edrych eto ar Ran L a'r hyn y gallai ei olygu o ran ailgyflwyno targed newydd yn 2016, yn amodol ar y farchnad. Rwy'n meddwl ei fod yn gam doeth i ystyried sut y mae'r sector yn ei wneud yn economaidd cyn i ni bentyrru mwy o heriau arno a chyn i ni geisio cyflawni targedau sy'n atal a gwahardd cyfleoedd newydd ar gyfer datblygu yng Nghymru, gan geisio cael cydbwysedd ar yr un pryd rhwng perfformiad amgylcheddol a pherfformiad o ran ynni yr ydym yn ymdrechu i'w gyflawni.

15:59 **Keith Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Mae gennyf rywbeth pwysig i'w godi gyda chi, Weinidog. Mae Prifysgol Abertawe wedi bod yn gweithio gyda'r sector metelau ers bron ganrif ar ymchwil byd-eang sy'n arwain at ddatblygu cynnyrch newydd. Yn ddiweddar, mae'r brifysgol wedi gweithio gyda phrifysgolion Imperial yn Llundain a Chaerfaddon, a gyda chwmnïau Tata a Pilkington. Mae'r ymchwil yn datblygu cynhyrchion dur a gwydr i'w hymgorffori mewn adeiladau presennol ac adeiladau newydd, ac a fydd yn galluogi waliau a thoeon i gynhyrchu, storio a rhyddhau ynni. A ydych chi wedi trafod yr ymchwil gyda'r brifysgol er mwyn lleihau'r ynni sydd yn awr yn cael ei ddefnyddio yn ein hadeiladau?

I have something important to raise with you today, Minister. Swansea University has been working with the metals sector for around a century now on worldwide research that leads to developing new products. Lately, the university has worked with Imperial College London and Bath university and Tata and Pilkington companies. The research is developing glass and steel products to be incorporated into current buildings and new buildings and which will enable walls and roofs to produce, store and release energy. Have you discussed this research with the university in order to decrease the energy that is now being used in our buildings?

16:00 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Member makes a very important point about technology and the opportunities we seek from business and our education sector in Wales. I have not had a conversation with the university directly, but I have visited Tata Steel's energy centre in my constituency, where I saw examples of really up-to-date technology relating to energy development, which can be applied to domestic supply and non-domestic properties. The timeline that it faces for development and new products is an interesting one because you have to have the market to build into. What we are trying to create in Wales is a market that can grow and be sustained, and therefore the products will be more accessible and be able to be used on new developments. So, I welcome the Member's contribution today. He raises a very important point about using new technologies to increase energy efficiency in buildings in future in Wales and beyond.

Mae'r Aelod yn gwneud pwynt pwysig iawn ynglŷn â thechnoleg a'r cyfleoedd yr ydym yn eu ceisio gan fusnes a'n sector addysg yng Nghymru. Nid wyf wedi cael sgwrs gyda'r brifysgol yn uniongyrchol, ond rwyf wedi ymweld â chanolfan ynni Tata Steel yn fy etholaeth, lle y gwelais enghreifftiau o'r dechnoleg fwyaf diweddar ym maes datblygu ynni, y gellir ei rhoi ar waith ar gyfer cyflenwadau domestig ac eiddo annomestig. Mae'r amserlen y mae'n ei hwynebu ar gyfer datblygu a chreu cynhyrchion newydd yn un ddiddorol oherwydd bod yn rhaid i chi gael y farchnad i adeiladu ar ei chyfer. Yr hyn yr ydym yn ceisio ei greu yng Nghymru yw marchnad sy'n gallu ehangu ac y gellir ei chynnal, ac felly bydd y cynhyrchion yn fwy hygyrch a gellir eu defnyddio mewn datblygiadau newydd. Felly, rwy'n croesawu cyfraniad yr Aelod heddiw. Mae'n codi pwynt pwysig iawn ynglŷn â defnyddio technolegau newydd i ddefnyddio ynni'n fwy effeithlon mewn adeiladau yn y dyfodol yng Nghymru a thu hwnt.

16:02 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rwyf wedi mynegi fy siom yn y Siambr cyn heddiw fod y targed o dorri allyriadau o 8% yn rhy isel. Rwy'n cydnabod bod y 40% yn uchelgeisiol ac yn dod â heriau gydag ef. Ond, byddwn am ofyn i'r Gweinidog a fyddai'n cytuno y byddai targed uwch wedi dod â cyfleoedd hefyd, er enghraifft, cyfle i Gymru fod ar flaen y gad wrth fabwysiadu safonau sero-ynni yn gynharach na rhannau helaeth eraill o Ewrop. Byddai'n rhoi cyfle i ni ddatblygu sector adeiladwyr ac entrepreneuriaid a fyddai wedi datblygu rhagoriaeth yn y maes hwn cyn i bawb arall orfod gwneud hynny hefyd, a byddai hynny wedyn yn dod â chyfle. Mae pobl yn sôn am yr Almaen yn arloesi ym maes PV. Wel, byddai cyfle wedyn i Gymru am unwaith i allu allforio arbenigedd a sgiliau i wledydd eraill y Deyrnas Unedig ac efallai y tu hwnt, ar draws Ewrop. Felly, byddwn i'n licio clywed pa ystyriaeth a roesoch chi i unrhyw gyfleoedd economaidd a fyddai wedi dod yn sgîl gosod targedau ychydig yn fwy uchelgeisiol.

I have expressed my disappointment previously in this Chamber that this target of an 8% emissions cut is too small a cut. I admit that 40% is ambitious and would bring challenges with it. However, I would want to ask the Minister whether he would agree that a higher target would also have brought opportunities, such as an opportunity for Wales to be in the vanguard of adopting zero-energy standards at an earlier stage than vast parts of Europe. It would give us an opportunity to develop a sector of constructors and entrepreneurs that would develop expertise and excellence in this area before everyone else, which, in turn, would have brought opportunities. People talk about Germany having been innovative in the area of photovoltaics. Well, there would be an opportunity for Wales for once to export expertise and skills to other nations within the UK and even further afield across Europe. So, I would like to hear what consideration you gave to any economic opportunities that could have emerged in light of setting targets that were a little more ambitious.

Mae tai yn cynhyrchu 20% o'r nwyon tŷ gwydr yng Nghymru, , ac rwy'n teimlo ein bod yn colli cyfle yn y fan hon i wneud mwy i ostwng allyriadau carbon yn un peth, ond hefyd i ostwng biliau cwsmeriaid. Nid yw 8%, wrth gwrs, yn ddigon i gwrdd â tharged Llywodraeth Cymru o ostwng allyriadau 40% yng Nghymru erbyn 2020. Mae gwaith ymchwil wedi dangos bod angen i draean o stoc dai Cymru gael ei adnewyddu yn y 10 mlynedd nesaf er mwyn inni fedru dod yn agos at gyrraedd y nod hwnnw. Rydych chi'n dweud yn y datganiad,

Homes produce 20% of greenhouse gases in Wales, and I feel that we are losing an opportunity to do more to reduce carbon emissions and to reduce customer bills. The target of 8%, of course, is not adequate in terms of meeting the Welsh Government's target of reducing emissions by 40% in Wales by 2020. Research has demonstrated that a third of Wales's housing stock would have to be renewed over the next decade if we were to get close to achieving that target. You say in your statement,

'climate change is a key Government priority'.

'mae'n flaenoriaeth allweddol gan y Llywodraeth i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd'.

Rydych chi hefyd yn dweud,

You also say that,

'there will be no let-up in the sustainable agenda',

'ni fydd unrhyw laesu dwylo yn yr agenda gynaliadwyedd',

ond mae'r dystiolaeth yn y fan hon, i fi, yn awgrymu yn wahanol.

but the evidence here, to me, indicates differently.

Rwy’n cydnabod eich bod yn dweud y bydd adolygiad pellach yn 2016, ond a gaf i ofyn a wnaethoch ystyried mapio allan y targedau effeithlonrwydd ynni tuag at 2021 yn awr, hynny yw, gosod cerrig milltir a fyddai efallai yn help i’r sector adeiladu i flaengynllunio, yn enwedig os ydych yn chwilio am gynnydd mwy graddol? Byddai’n dda gen i glywed pa ystyriaeth a roesoch chi i roi'r arweiniad hwnnw dros yr hirdymor. Os ydych chi, ar y llaw arall, am aros i weld pa fath o impact mae’r lefel o 8% yn ei gael er mwyn bwydo i mewn i’r adolygiad pellach yn 2016, mae hynny efallai yn awgrymu i raddau y byddech chi’n ystyried peidio â chyrraedd y nod yn y pen draw ac, o bosib, na fydd Cymru yn cydymffurfio â’r gyfarwyddeb Ewropeaidd ar berfformiad ynni adeiladau erbyn 2021 oherwydd goblygiadau negyddol annisgwyl eraill. Mi fyddwn i yn licio clywed yr hyn sydd gennych i’w ddweud ynglŷn â hynny. Os ydym am ddatblygu naratif cryf o daclo allyriadau carbon a mynd i’r afael â newid hinsawdd yma yng Nghymru, mae angen i Lywodraeth Cymru ddangos mwy o arweiniad a mwy o asgwrn cefn ar faterion fel hyn.

I acknowledge that you say that there will be a further review in 2016, but may I ask whether you gave any consideration to mapping out the targets for energy efficiency in the run-up to 2021, in order to set milestones that would perhaps assist the construction sector to forward plan, particularly if you are seeking a more gradual increase or progress? I would be pleased to hear what consideration you gave to giving that guidance over the longer term to the sector. On the other hand, if you want to wait to see what sort of impact the 8% level actually has in order to feed into that further review in 2016, that may suggest, to a certain extent, that you would consider not achieving your ultimate target and that, perhaps, Wales will not comply with the European directive on energy building requirements by 2021 because of the other negative impacts that may come into play. So, I would be pleased to hear what you have to say in that regard. If we are to develop a strong narrative of tackling carbon emissions and climate change here in Wales, the Welsh Government must show more leadership and more backbone on issues such as this.

Os yw 8%, fel rydych yn dweud yn eich datganiad, yn ‘significant step’, mae’n rhaid imi gwestiynu ymrwymiad gwirioneddol Llywodraeth Cymru i gwrdd â’i tharged.

If, as you say in your statement, 8% is a ‘significant step’, then I have to question the true commitment of the Welsh Government to achieving its target.

16:05

## Carl Sargeant Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

While I thank the Member for his contribution, I take no lessons from him in trying to pretend that he is the champion of the green agenda in Wales. It is an absolute nonsense, Presiding Officer. The fact is that we are still very committed to climate change and it is a priority for this Welsh Government, but we are also keen to make sure that we can grow the economy here in Wales. It is a balancing act between the environment and the economy. That is something that we have taken very seriously in the decisions that we have taken.

Er fy mod yn diolch i’r Aelod am ei gyfraniad, nid wyf yn cymryd unrhyw wersi ganddo wrth geisio honni mai ef yw hyrwyddwr yr agenda werdd yng Nghymru. Mae’n nonsens llwyr, Lywydd. Y ffaith yw ein bod yn dal wedi ymrwymo i newid yn yr hinsawdd ac mae’n flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru, ond rydym hefyd yn awyddus i wneud yn siŵr ein bod yn gallu ehangu’r economi yma yng Nghymru. Mae’n fater o ddod o hyd i’r cydbwysedd rhwng yr amgylchedd a’r economi. Mae hynny’n rhywbeth yr ydym wedi’i gymryd o ddifrif yn y penderfyniadau yr ydym wedi’u gwneud.

The Member’s contribution today was full of maybes and assumptions with no fact behind it, actually. The 2021 document is not an options paper; it is a European directive that we will have to comply with, either way. I do not know why the Member assumes that we may or may not consider meeting this target. The Member might make an observation, but it is not filled with any substance at all.

Roedd cyfraniad yr Aelod heddiw yn llawn tybiaethau a phosibilrwydd heb ffeithiau y tu ôl iddynt, mewn gwirionedd. Nid papur opsiynau yw dogfen 2021; mae’n gyfarwyddeb Ewropeaidd y bydd yn rhaid i ni gydymffurfio â hi, naill ffordd neu’r llall. Nid wyf yn gwybod pam y mae’r Aelod yn cymryd y gallwn ystyried neu beidio ag ystyried cyflawni’r targed hwn. Efallai y bydd yr Aelod yn gwneud sylw, ond nid oes unrhyw sylwedd iddo o gwbl.

We are not stopping developers in Wales from moving forward with introducing higher levels of reduction in energy performance, should they wish to do so. The fact that Wales is not an island, and that England and Scotland do have an effect on the industry and the builders within it, has to have a place in my decision-making process. I think that we have struck the right balance here. The industry is saying that we have done so and, in 2016, we will review the policy again. We will introduce residential sprinklers into properties in 2016, which will have another effect on the industry that we will have to balance. I hope that, by that time, we will see ourselves coming out of recession and that the industry will be able to sustain much more strongly the changes and the environmental pressures and effects as a result of what we require, but it is something that I will keep a very close eye on. I will certainly not be listening to the assumptions and maybes from the Member opposite, unless he has more facts to support them.

Nid ydym yn atal datblygwyr yng Nghymru rhag symud ymlaen i gyflwyno gostyngiad mwy fyth mewn perfformiad ynni, os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Wrth wneud penderfyniadau, mae'n rhaid imi ystyried y ffaith nad yw Cymru yn ynys, a bod Lloegr a'r Alban yn cael effaith ar y diwydiant a'r adeiladwyr ynddi. Rwy'n meddwl ein bod wedi taro'r cydbwysedd cywir yma. Mae'r diwydiant yn dweud ein bod wedi gwneud hynny ac, yn 2016, byddwn yn adolygu'r polisi eto. Byddwn yn cyflwyno systemau chwistrellu mewn eiddo preswyl yn 2016, a dyna effaith arall ar y diwydiant y bydd yn rhaid i ni ei chydbwyso. Rwy'n gobeithio, erbyn hynny, y byddwn yn dod allan o'r dirwasgiad ac y bydd y diwydiant mewn sefyllfa lawer cryfach i allu cynnal y newidiadau a'r pwysau a'r effeithiau amgylcheddol o ganlyniad i'r hyn yr ydym yn ei wneud yn ofynnol, ond mae'n rhywbeth yr wyf yn cadw llygad barcud arno. Yn sicr ni fyddaf yn gwrando ar y tybiaethau a'r posibilrwydd gan yr Aelod gyferbyn, heb fod ganddo fwy o ffeithiau i'w cefnogi.

16:07

## William Powell Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank the Minister for his wide-ranging statement today. While speaking in terms of energy performance, it is always critical, as other colleagues have already stated, to remember that efficiency and demand reduction are just as important as the way that we originally generate our electrical energy supply. That is why I welcome the improvements contained in the regulations as a whole. Nevertheless, I share the concerns that the majority of consultation respondents harbour that the target of 8% carbon dioxide emissions for new homes is simply not ambitious enough at this time. That said, however, I recognise the need for a degree of balance between environmental considerations and affordability, particularly with the overall economic driver that the construction sector accounts for.

Diolch i'r Gweinidog am ei ddatganiad eang heddiw. Wrth siarad am berfformiad ynni, mae bob amser yn hanfodol cofio, fel y mae cydweithwyr eraill eisoes wedi datgan, bod effeithlonrwydd a lleihau galw yr un mor bwysig â'r ffordd yr ydym yn cynhyrchu ein cyflenwad trydan yn wreiddiol. Dyna pam yr wyf yn croesawu'r gwelliannau sydd yn y rheoliadau yn eu cyfanrwydd. Serch hynny, rwy'n rhannu'r pryderon a fynegwyd gan fwyafrif yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad, nad yw'r targed o 8% ar gyfer allyriadau carbon deuocsid ar gyfer cartrefi newydd yn ddigon uchelgeisiol ar hyn o bryd. Wedi dweud hynny, fodd bynnag, rwy'n cydnabod yr angen am rywfaint o gydbwysedd rhwng ystyriaethau amgylcheddol a fforddiadwyedd, yn enwedig o ystyried bod y sector adeiladu sbardun cyffredinol i'r economi.

Given that many of the other questions have already been raised and addressed, I want to turn to a couple of specific questions around the impact of non-domestic buildings and conversions. In terms of non-domestic buildings, it was a source of some alarm to me last week to hear from more than one local authority in Wales, particularly in my region of Mid and West Wales, that certain Welsh Government officials from the twenty-first century schools department have been going around engaging with local authorities seeking to dampen expectations with regard to how transformational the buildings within the next phase of the twenty-first century schools programme may be, and the possibility of needing to supress levels of expectation around sustainability features. That was certainly the impression gained by a number of council officials, and it is a matter of some concern. I ask the Minister whether he is aware of such a development and ask him to engage with colleagues, particularly the Minister for Education and Skills who is also present in the Chamber this afternoon, on this important point, particularly as it could well be a very retrograde step and a false economy in the views of many, including myself. Naturally, this is likely to have a significant impact—if it were to be the case—on the Welsh Government's ability to meet its wider targets within the framework of European legislation.

O gofio bod llawer o gwestiynau eraill eisoes wedi cael eu codi ac wedi cael sylw, rwyf am droi at un neu ddau o gwestiynau penodol ynghylch effaith adeiladau annomestig ac addasiadau. O ran adeiladau annomestig, roedd yn destun peth braw i mi glywed yr wythnos diwethaf gan fwy nag un awdurdod lleol yng Nghymru, yn enwedig yn fy rhanbarth i, sef Canolbarth a Gorllewin Cymru, bod rhai swyddogion Llywodraeth Cymru o'r adran ysgolion ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain wedi bod yn mynd o gwmpas yn ymgysylltu ag awdurdodau lleol gan geisio lleihau disgwyliadau o ran pa mor drawsnewidiol y gallai'r adeiladau fod yng ngham nesaf y rhaglen ysgolion ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain, a'r posibilrwydd bod angen ffrwyno disgwyliadau o ran nodweddion cynaliadwyedd. Dyna'n sicr oedd yr argraff a gafwyd gan nifer o swyddogion y cynghorau, ac mae'n destun cryn bryder. Gofynnaf i'r Gweinidog a yw'n ymwybodol o ddatblygiad o'r fath a gofynnaf iddo ymgysylltu â chydweithwyr, yn enwedig y Gweinidog Addysg a Sgiliau sydd hefyd yn bresennol yn y Siambr y prynhawn yma, ar y pwynt pwysig hwn, yn enwedig gan y gallai hynny fod yn gam mawr yn ôl ac yn ddarbodaeth ffug ym marn llawer o bobl, gan gynnwys fi fy hun. Yn naturiol, mae hyn yn debygol o gael effaith sylweddol—pe bai'n wir—ar allu Llywodraeth Cymru i gyflawni ei thargedau ehangach o fewn fframwaith deddfwriaeth Ewropeaidd.

The second point that I want to raise is with regard to property conversions and the existing housing stock. In recent years, I have been involved in a number of conversion projects on a community regeneration basis, but I have also received a good deal of correspondence in the last several months from those who have struggled to make necessary changes and improvements to their homes, not least in recent weeks in the course of the aftermath of the recent flood events. One point that is regularly raised, especially in terms of those seeking to improve energy performance and to add small-scale renewable technologies to their existing homes is the difficulty sometimes experienced with planning authorities, mainly local authorities, but also national parks, and, on some occasions, concerns are expressed around the inflexible approach of Cadw in this regard. Given this and in the light of the wider regulations, Minister, will you outline what discussions you intend to have with the Minister for Culture and Sport, who has responsibility for Cadw and the wider national park brief, so as to minimise the level of obstruction and to create a more facilitating climate for these important retrofit developments? Diolch yn fawr.

Mae'r ail bwynt yr wyf am ei godi yn ymwneud ag addasiadau eiddo a'r stoc dai bresennol. Yn y blynyddoedd diwethaf, rwyf wedi bod yn rhan o nifer o brosiectau addasu ar sail adfywio cymunedol, ond rwyf hefyd wedi cael cryn dipyn o ohebiaeth yn y misoedd diwethaf gan bobl sydd wedi cael trafferth i wneud newidiadau a gwelliannau angenrheidiol i'w cartrefi, yn bennaf yn yr wythnosau diwethaf yn sgil y llifogydd diweddar. Un pwynt sy'n cael ei godi'n rheolaidd, yn enwedig gan bobl sy'n ceisio gwella perfformiad ynni ac ychwanegu technolegau adnewyddadwy ar raddfa fach i'w cartrefi presennol, yw'r anhawster a brofir weithiau gydag awdurdodau cynllunio—awdurdodau lleol yn bennaf, ond parciau cenedlaethol hefyd —ac, ar rai achlysuron, mae pryderon yn cael eu mynegi ynghylch agwedd anhyblyg Cadw yn hyn o beth. O ystyried hyn ac yng ngoleuni'r rheoliadau ehangach, Weinidog, a wnewch chi amlinellu pa drafodaethau yr ydych yn bwriadu eu cael gyda'r Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon, sy'n gyfrifol am Cadw a briff ehangach y parciau cenedlaethol, er mwyn lleihau lefel y rhwystr ac i greu hinsawdd sy'n gwneud mwy i hwyluso'r datblygiadau ôl-ffitio pwysig hyn? Diolch fawr.

16:11 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am very grateful for the Member's contribution today. The Member raised his concern about the 8% target but then welcomed the action, which slightly confused me in terms of his contribution. However, he raised a very important point around non-domestic buildings. I am not aware of the issue that the Member raised regarding schools, and pursuing a 20% improvement on 2010 standards represents a significant step forward in terms of realising our nearly zero energy ambitions. It is something that I know that Cabinet colleagues are aware of in terms of the opportunity that rests with their decision making in their portfolios. If the Member has concerns about this, I would welcome a note from him with any detail, which I would happily pursue for him.

Rwy'n ddiolchgar iawn am gyfraniad yr Aelod heddiw. Cododd yr Aelod ei bryder am y targed o 8% ond yna roedd yn croesawu'r gweithredu, oedd yn fy nrysu braidd o ran ei gyfraniad. Fodd bynnag, cododd bwynt pwysig iawn ynghylch adeiladau annomestig. Nid wyf yn ymwybodol o'r mater a gododd yr Aelod am ysgolion, a thrwy fynd ar drywydd gwelliant o 20% ar safonau 2010 byddwn yn cymryd cam sylweddol ymlaen o ran gwireddu ein huchelgeisiau i gael tai â defnydd ynni net o bron i sero. Mae'n rhywbeth y gwn fod cydweithwyr yn y Cabinet yn ymwybodol ohono o ran y cyfle sydd yn eu proses o wneud penderfyniadau yn eu portffolios. Os oes gan yr Aelod bryderon am hyn, byddwn yn croesawu nodyn oddi wrtho gydag unrhyw fanylion, a byddwn yn hapus i'w hystyried ar ei gyfer.

With regard to the issues around heritage and Cadw et cetera, I meet with the Minister, John Griffiths, on a regular basis—indeed, I met him only last week to talk about cross-cutting themes across departments with regard to his portfolio. As I mentioned earlier, it is something that I do not only with John Griffiths, but with Huw Lewis in terms of education, school buildings and the twenty-first century schools programme, which is an important part of the Government's manifesto commitments. It is something that we will work together on to get the best value for the limited resources that we have in Wales and to make sure that we get the best for the future for our young people, particularly in the education sector.

O ran y materion sy'n ymwneud â threftadaeth a Cadw ac ati, byddaf yn cwrdd â'r Gweinidog, John Griffiths, yn rheolaidd—yn wir, cwrddais ag ef yr wythnos diwethaf i siarad am themâu trawsbynciol ar draws adrannau o ran ei bortffolio. Fel y soniais yn gynharach, mae'n rhywbeth yr wyf yn ei wneud gyda John Griffiths, ond hefyd gyda Huw Lewis o ran addysg, adeiladau ysgolion a'r rhaglen ysgolion ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain, sy'n rhan bwysig o ymrwymiadau maniffesto'r Llywodraeth. Mae'n rhywbeth y byddwn yn gweithio gyda'n gilydd arno i sicrhau'r gwerth gorau o'r adnoddau cyfyngedig sydd gennym yng Nghymru ac i wneud yn siŵr ein bod yn cael y gorau at y dyfodol ar gyfer ein pobl ifanc, yn enwedig yn y sector addysg.

16:13 **Julie James** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I welcome this very much, Minister. I have two short points. First, when you were talking about aligning the building regulations improvements that you are looking at with TAN 22 and embedding BREEAM and CoSH—the code for sustainable homes—you said that you would be looking at BREEAM excellent and CoSH 6, which are the highest levels, as the target and as a path, perhaps, to embed those completely by the 2016 revision date.

Rwy'n croesawu'r hwn yn fawr iawn, Weinidog. Mae gennyf ddau bwynt byr. Yn gyntaf, pan oeddech yn sôn am sicrhau bod y gwelliannau a geisiwch i'r rheoliadau adeiladu yn cyd-fynd â TAN 22 a'r angen i ymwreiddio BREEAM a CoSH—y cod ar gyfer cartrefi cynaliadwy—dywedasoch y byddech yn edrych ar BREEAM rhagorol a Cosh 6, sef y lefelau uchaf, fel y targed ac fel llwybr, efallai, i ymwreiddio'r rhain yn llwyr erbyn y dyddiad adolygu 2016.

My second point is much more practical. When national homebuilders are looking at sites in our various constituencies, and I have several examples in mine, they are often looking at a map that does not show any other topographical features. I have a new housing development in my constituency where the kitchens are in the west, so that people have to have the lights on in the morning, and the living rooms are in the east, so that they have to have the lights on in the evening, because people use their kitchens in the morning and the living rooms in the evening. Therefore, although the house is beautifully efficient, people have to have the lights on all day because nobody had the very large mountain at the other end of the site marked on their map, I assume. When you are looking at very practical considerations about lining up building regulations with planning, perhaps there could be some guidance about the number of houses that you can get onto a site and their exact location. Looking at the guidance on eco-homes, for example, it shows how people should make the maximum use of natural daylight and the least use of expensive electricity.

Mae fy ail bwynt yn llawer mwy ymarferol. Pan fydd adeiladwyr tai cenedlaethol yn edrych ar safleoedd yn ein gwahanol etholaethau, ac mae gennyf nifer o enghreifftiau yn fy etholaeth i, maent yn aml yn edrych ar fap nad yw'n dangos unrhyw nodweddion topograffig eraill. Mae datblygiad tai newydd yn fy etholaeth lle mae'r ceginau yn y gorllewin, fel bod yn rhaid i bobl gael y goleuadau ymlaen yn y bore, ac mae'r ystafelloedd byw yn y dwyrain, fel bod yn rhaid iddynt gael y goleuadau ymlaen gyda'r nos, gan fod pobl yn defnyddio eu ceginau yn y bore a'r ystafelloedd byw yn y nos. Felly, er bod y tŷ yn hyfryd o effeithlon, rhaid i bobl gael y goleuadau ymlaen drwy'r dydd oherwydd nad oedd y mynydd mawr iawn ar ben arall y safle wedi'i farcio ar fap neb, rwy'n tybio. Pan fyddwch yn edrych ar ystyriaethau ymarferol iawn o ran cysoni rheoliadau adeiladu gyda chynllunio, efallai y gellid darparu rhywfaint o arweiniad ynglŷn â nifer y tai y gallwch eu cael ar safle a'u hunion leoliad. Mae'r canllawiau ar eco-gartrefi, er enghraifft, yn dangos sut y dylai pobl wneud y defnydd mwyaf posibl o olau dydd naturiol a'r defnydd lleiaf o drydan drud.

16:14

## Carl Sargeant Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank Julie James for her contribution today. We are reviewing technical advice note 22, to coincide with the CoSH regulations and BREEAM, and we are now looking at how all that best fits in, so I will bring an oral statement or a written statement to the attention of Members in the near future.

Diolch i Julie James am ei chyfraniad heddiw. Rydym yn adolygu nodyn cyngor technegol 22, i gyd-fynd â'r rheoliadau CoSH a BREEAM, ac rydym yn awr yn ystyried sut mae hyn i gyd yn cydweddu orau, felly byddaf yn cyflwyno datganiad llafar neu ddatganiad ysgrifenedig i sylw'r Aelodau yn y dyfodol agos.

In terms of the second part of the Member's question, we have just completed a piece of work on the housing supply taskforce, which looks at issues around planning, planning consent and the availability of land. The Member raises an important point around the topography of the area and what that may or may not look like. It is something on which I will take further advice. I recently visited a project called Tŷ Solar, which is a zero-energy building and very effective. Part of that is about placement, making sure that the area is suitable for maximising the light and the solar usage. So, it is an important point that the Member raises. I will look at that in more detail and seek some more advice from my department.

O safbwynt ail ran cwestiwn yr Aelod, rydym newydd gwblhau darn o waith ar y tasglu cyflenwad tai, sy'n edrych ar faterion yn ymwneud â chynllunio, caniatâd cynllunio a'r tir sydd ar gael. Mae'r Aelod yn codi pwynt pwysig ynghylch topograffeg yr ardal a sut y mae honno'n edrych. Mae'n rhywbeth y byddaf yn cymryd cyngor pellach arno. Yn ddiweddar, ymwelais â phrosiect o'r enw Tŷ Solar, sy'n adeilad â defnydd ynni net o sero ac sy'n effeithiol iawn. Mae rhan o hynny'n ymwneud â lleoliad, sicrhau bod yr ardal yn addas ar gyfer manteisio i'r eithaf ar y golau a'r defnydd solar. Felly, mae'n bwynt pwysig y mae'r Aelod yn ei godi. Byddaf yn edrych ar hynny'n fanylach ac yn ceisio mwy o gyngor gan fy adran.

16:15

## Mark Isherwood Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have just two questions. Prior to your announcement last July, home builders told the cross-party group on construction that, although they are adapting their business model to adjust to the burden of regulation in Wales, they also predicted a flow of investment into England. I therefore joined the Home Builders Federation in welcoming your announcement of the energy efficiency improvement target last July. However, the housing providers have also still expressed concern that deferring Wales-only regulatory costs is not enough when they are making long-term investment decisions. When revisiting this in 2016, therefore, how will you ensure that this is done with rather than to housing providers, prior to public consultation, to ensure that there are no cross-border disadvantages—you referred to the cross-border issues—to the delivery of housing supply in Wales via unco-ordinated delivery of the European energy performance of buildings directive?

Mae gennyf ddau gwestiwn. Cyn eich cyhoeddiad fis Gorffennaf diwethaf, dywedodd adeiladwyr cartrefi wrth y grŵp trawsbleidiol ar adeiladu eu bod yn addasu eu model busnes i ystyried y baich rheoleiddio yng Nghymru, ond eu bod hefyd yn rhagweld llif o fuddsoddiad i Loegr. Felly ymunais â'r Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi fis Gorffennaf diwethaf, gan groesawu eich cyhoeddiad ynglŷn â'r targed i wella effeithlonrwydd ynni. Fodd bynnag, mae'r darparwyr tai hefyd wedi parhau i fynegi pryder nad yw gohirio costau rheoleiddio ar gyfer Cymru yn unig yn ddigon pan fyddant yn gwneud penderfyniadau buddsoddi yn y tymor hir. Wrth edrych eto ar hyn yn 2016, felly, sut byddwch chi'n sicrhau y gwneir hyn gyda darparwyr tai yn hytrach nag iddynt, cyn yr ymgynghoriad cyhoeddus, er mwyn sicrhau nad oes unrhyw anfanteision trawsffiniol—gwnaethoch gyfeirio at faterion trawsffiniol—i'r broses o gyflenwi tai yng Nghymru yn sgil y dull anghydlynol o roi cyfarwyddeb Ewrop ar berfformiad ynni adeiladau ar waith?

Secondly, and finally, you are probably aware that Consumer Futures has called for the promotion of minimum energy standards in the private rented sector to help tackle fuel poverty. How would you respond to that call, and do you again recognise the need for that to be done with rather than to the sector, to avoid any unintended impact on investment in that key sector?

Yn ail, ac yn olaf, mae'n debyg eich bod yn ymwybodol bod Dyfodol Defnyddwyr wedi galw am hybu safonau ynni gofynnol yn y sector rhentu preifat i helpu i fynd i'r afael â thlodi tanwydd. Sut y byddech yn ymateb i'r alwad honno, ac a ydych unwaith eto yn cydnabod yr angen i wneud hynny gyda'r sector yn hytrach nag iddo, er mwyn osgoi unrhyw effaith anfwriadol ar fuddsoddi yn y sector allweddol hwnnw?

16:17 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for his contribution. I have regular dialogue with the building industry, and I will continue to do so up to and until 2016, when we are reviewing the part L regulations. It is an important part of my work to make sure that we understand the industry. It is welcomed by that sector.

Diolch i'r Aelod am ei gyfraniad. Rwy'n cael trafodaethau rheolaidd â'r diwydiant adeiladu, a byddaf yn parhau i wneud hynny hyd at 2016, pan fyddwn yn adolygu'r rheoliadau rhan L. Mae'n rhan bwysig o'm gwaith i wneud yn siŵr ein bod yn deall y diwydiant. Mae'n cael ei groesawu gan y sector hwnnw.

I am surprised by the Member's second point, when he refers to more regulation for the private sector. Of course, the Member has issues with me introducing the private rented sector landlord licensing scheme, yet he wants me to introduce regulation in terms of the energy efficiency of a private sector building. It is slightly odd, but of course the Member is entitled to his opinion. I am keen for all housing sectors, whether private or public, to have the opportunity to increase energy performance, because the net effect brings benefits for the environment, but also benefits for the tenants. That is what I will look at for the future.

Rwy'n synnu at ail bwynt yr Aelod, pryd y cyfeiriodd at reoleiddio mwy ar y sector preifat. Wrth gwrs, mae gan yr Aelod broblemau â'r ffaith fy mod yn cyflwyno cynllun trwyddedu ar gyfer landlordiaid y sector rhentu preifat, ond eto mae am imi gyflwyno rheoliadau o ran effeithlonrwydd ynni adeiladau yn y sector preifat. Mae braidd yn rhyfedd, ond wrth gwrs mae gan yr Aelod hawl i'w farn. Rwy'n awyddus i bob sector tai, boed yn breifat neu gyhoeddus, gael y cyfle i wella perfformiad ynni, oherwydd bod yr effaith net yn dod â manteision i'r amgylchedd, ond hefyd yn dod â manteision i'r tenantiaid. Dyna beth y byddaf yn ei ystyried ar gyfer y dyfodol.

16:18 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Finally, Jenny Rathbone.

Yn olaf, Jenny Rathbone.

16:18 **Jenny Rathbone** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I understand the balancing act that you have to perform, Minister, in order not to suppress the housing market so much that nothing gets built. I am interested in your consequential improvements, and I think that it is really clear that it is an opportunity for home owners to do what they should be doing anyway. I find it difficult to understand how any home owner is not insulating their loft, their cavity walls or their hot water tanks, because they are just feeding the birds. Unless they like living in a very cold home, they are obviously feeding the energy company profits. What more can be done to make it clear to people that the cost benefit of improving insulation is just absolutely undeniable?

Rwy'n deall y cydbwysedd y mae'n rhaid i chi ddod o hyd iddo, Weinidog, er mwyn peidio â ffrwyno'r farchnad dai cymaint fel bod dim yn cael ei adeiladu. Mae gennyf ddiddordeb yn eich gwelliannau canlyniadol, ac rwy'n meddwl bod y rhain yn rhoi cyfle amlwg iawn i berchnogion cartrefi wneud yr hyn y dylent fod yn ei wneud beth bynnag. Rwy'n ei chael hi'n anodd deall sut nad yw pob perchennog cartref yn inswleiddio eu hatig, eu waliau ceudod neu eu tanciau dŵr poeth, oherwydd mai dim ond bwydo'r adar y maent. Oni bai eu bod yn hoffi byw mewn cartref oer iawn, maent yn amlwg yn bwydo elw i'r cwmni ynni. Beth yn rhagor y gellir ei wneud i'w gwneud yn glir i bobl na ellir gwadu'r buddion a ddaw yn sgil insiwleiddio gwell?

16:19 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank the Member for her contribution this afternoon. Of course, the consequential improvements are a common-sense approach to futureproofing your development. Increasing opportunities for improvements through loft insulation, cavity wall and/or hot water cylinder insulation is logical and, of course, should be done. The Member is right to raise the issue of how we get messaging to individuals so that they understand that there is value in doing this in the longer term. I am working with my colleague Alun Davies on the schemes that he has within his department and in arm's-length bodies. We hope that we can have some synergies, in terms of opportunities for homeowners to use schemes that will be able to support the building industry and tenants as they move forward in both new and existing developments, where they can use free schemes such as cavity wall insulation.

Diolch i'r Aelod am ei chyfraniad y prynhawn yma. Wrth gwrs, mae'r gwelliannau canlyniadol yn ffordd synnwyr cyffredin o ddiogelu eich datblygiad at y dyfodol. Mae'n rhesymegol cynyddu cyfleoedd i wneud gwelliannau trwy inswleiddio'r atig, waliau ceudod a / neu inswleiddio silindr dŵr poeth ac, wrth gwrs, dylid gwneud hynny. Mae'r Aelod yn iawn i godi'r mater o sut mae trosglwyddo'r negeseuon i unigolion er mwyn iddynt ddeall bod gwerth mewn gwneud hyn yn y tymor hwy. Rwy'n gweithio gyda'm cydweithiwr Alun Davies ar y cynlluniau sydd ganddo o fewn ei adran ac mewn cyrff hyd braich. Rydym yn gobeithio y gallwn gael rhywfaint o synergedd, o ran cyfleoedd i berchnogion tai ddefnyddio cynlluniau a fydd yn gallu cefnogi'r diwydiant adeiladu a thenantiaid wrth iddynt symud ymlaen, mewn datblygiadau newydd a rhai sydd eisoes yn bodoli, lle y gallant ddefnyddio cynlluniau am ddim fel inswleiddio waliau ceudod.

## Gorchymyn Diwygio Deddfwriaethol (Taliadau Gan Gynghorau Plwyf, Cynghorau Cymuned ac Ymddiriedolwyr Siarter) 2013

## The Legislative Reform (Payments by Parish Councils, Community Councils and Charter Trustees) Order 2013

Cynnig NDM5359 Lesley Griffiths
Motion NDM5359 Lesley Griffiths

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cytuno, yn unol ag adran 11(1) o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006, a Rheol Sefydlog 30A.10, bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn gwneud Gorchymyn Diwygio Deddfwriaethol (Taliadau gan Gynghorau Plwyf, Cynghorau Cymuned ac Ymddiriedolwyr Siarter) 2013, yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 12 Tachwedd 2013.

To propose that the National Assembly for Wales agrees, in accordance with section 11(1) of the Legislative and Regulatory Reform Act 2006, and Standing Order 30A.10, that the Secretary of State makes the Legislative Reform (Payments by Parish Councils, Community Councils and Charter Trustees) Order 2013, in accordance with the draft laid in Table Office on 12 November 2013

16:20 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Local Government and Government Business*

I move the motion.

Cynigiaf y cynnig.

I am pleased to introduce this statutory instrument consent motion on the draft Legislative Reform (Payments by Parish Councils, Community Councils and Charter Trustees) Order 2013 into the Assembly. First, I would like to thank the Constitutional and Legislative Affairs Committee for its work in considering this matter, and its conclusion that a satisfactory case has been made in favour of the proposals.

Mae'n bleser gennyf gyflwyno'r cynnig cydsyniad offeryn statudol hwn ar ddrafft Gorchymyn Diwygio Deddfwriaethol (Taliadau gan Gynghorau Plwyf, Cynghorau Cymuned ac Ymddiriedolwyr Siarter) 2013 yn y Cynulliad. Yn gyntaf, hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol am ei waith yn ystyried y mater hwn, a'i gasgliad bod achos boddhaol wedi ei wneud o blaid y cynigion.

This consent motion is required for the Order, as it is the most appropriate and proportionate legislative vehicle to enable these provisions to apply in Wales at the earliest opportunity, and to ensure consistency in the provisions applied to parish, town and community councils and charter trustees across England and Wales, in order that a burden on all of these bodies is removed. The Order will repeal subsection (5) of section 150 of the Local Government Act 1972 and remove the requirement for every cheque or other order for the payment of money by a parish or community council to be signed by two members of the council. The Order also removes a similar requirement for parish councils in England and charter trustees. The Order will facilitate the use of modern methods of banking for payments, such as electronic banking, to ensure that financial management is adequate, efficient and effective, while maintaining sound financial control.

Mae angen y cynnig cydsyniad hwn ar gyfer y Gorchymyn, gan mai dyma'r cyfrwng deddfwriaethol mwyaf priodol a chymesur i alluogi'r darpariaethau hyn i fod yn berthnasol yng Nghymru ar y cyfle cyntaf, ac i sicrhau cysondeb yn y darpariaethau sy'n berthnasol i gynghorau plwyf, tref a chymuned ac ymddiriedolwyr siarter ledled Cymru a Lloegr, fel bod y baich ar bob un o'r cyrff hyn yn cael ei dileu. Bydd y Gorchymyn yn diddymu is-adran (5) o adran 150 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 a chael gwared ar y gofyniad i bob siec neu orchymyn arall ar gyfer talu arian gan gyngor plwyf neu gymuned gael ei llofnodi gan ddau aelod o'r cyngor. Mae'r Gorchymyn hefyd yn dileu gofyniad tebyg ar gyfer cynghorau plwyf yn Lloegr ac ymddiriedolwyr siarter. Bydd y Gorchymyn yn hwyluso'r defnydd o'r dulliau modern o fancio ar gyfer taliadau, megis bancio electronig, er mwyn sicrhau bod rheolaeth ariannol yn ddigonol, yn effeithlon ac yn effeithiol, ac yn cynnal rheolaeth ariannol gadarn ar yr un pryd.

For town and community councils, the benefits will include the simplification of financial transactions, saving time and making electronic payment easier, thus allowing access to discounts for electronic payment and avoiding bank charges associated with previous payment methods. Larger councils will be able to adopt a tiered approach to payment control that would make better use of members' time and improve control. The Order will not prevent the present arrangements continuing if a town or community council prefers to maintain the two-signature rule. Guidance will be provided to town and community councils in the practitioners' guide, prepared and published jointly by One Voice Wales and the Society of Local Council Clerks, and endorsed by the Wales Audit Office. This will ensure that there is a robust framework to protect the councils' fund after the repeal.

Ar gyfer cynghorau tref a chymuned, bydd y manteision yn cynnwys symleiddio trafodion ariannol, gan arbed amser a gwneud taliad electronig yn haws, gan ganiatáu mynediad i ostyngiadau ar gyfer taliadau electronig ac osgoi costau banc sy'n gysylltiedig â dulliau talu blaenorol. Bydd cynghorau mwy o faint yn gallu mabwysiadu dull haenog o reoli taliadau a fyddai'n gwneud gwell defnydd o amser aelodau a gwella rheolaeth. Ni fydd y Gorchymyn yn atal y trefniadau presennol rhag parhau os yw'n well gan gyngor tref neu gymuned gynnal y rheol dau lofnod. Bydd canllawiau yn cael eu darparu i gynghorau tref a chymuned yng nghanllaw'r ymarferwyr, sy'n cael ei baratoi a'i gyhoeddi ar y cyd gan Un Llais Cymru a Chymdeithas Clercod Cynghorau Lleol, a'i gymeradwyo gan Swyddfa Archwilio Cymru. Bydd hyn yn sicrhau bod fframwaith cadarn ar waith i ddiogelu cronfa'r cynghorau ar ôl y diddymu.

16:22

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer

Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We do not have any Members who have indicated that they wish to speak. The proposal is to agree the motion. Does any Member object? No. The motion is therefore agreed, in accordance with Standing Order 12.36.

Nid oes gennym unrhyw Aelodau sydd wedi nodi eu bod yn dymuno siarad. Y cynnig yw cytuno ar y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Na. Caiff y cynnig, felly, ei dderbyn, yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

# Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ynghylch y Bil Plant a Theuluoedd mewn perthynas â Rheoleiddio Deunydd Pacio Manwerthu Cynhyrchion Tybaco, Rheoli Cynhyrchion Tybaco eu hunain a Chreu Troseddau Cysylltiedig

Cynnig NDM5389 Mark Drakeford

# Supplementary Legislative Consent Motion on the Children and Families Bill in relation to the Regulation of Retail Packaging of Tobacco Products, the Regulation of Tobacco Products themselves and the Creation of Associated Offences

Motion NDM5389 Mark Drakeford

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried y darpariaethau yn y Bil Plant a Theuluoedd sy'n ymwneud â rheoleiddio pecynnu manwerthol cynhyrchion tybaco, rheoleiddio'r cynhyrchion tybaco eu hunain a chreu troseddau cysylltiedig, i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 29.6, agrees that provisions in the Children and Families Bill relating to the regulation of retail packaging of tobacco products, the regulation of tobacco products themselves and the creation of associated offences in so far as they fall within the legislative competence of the National Assembly for Wales, should be considered by the UK Parliament.

16:23 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services*

I move the motion, bringing forward an LCM that represents a significant opportunity to take action on the packaging of tobacco products at a UK level.

Cynigiaf y cynnig, gan gyflwyno Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol sy'n cynrychioli cyfle arwyddocaol i weithredu ar becynnu cynnyrch tybaco ar lefel y DU.

For clarity, this approach is now referred to as regulation of retail packaging of tobacco products, which, in legal terminology, supersedes the previously used plain or standardised packaging terminology. I continue to believe that it is very important that we take every action possible to reduce the harmful effects of tobacco use in Wales. It remains one of the most, if not the most, significant public health challenges. Many Members in all parts of this Chamber have long supported taking forward measures on the packaging of tobacco products. It was on that basis that I wrote to the Secretary of State for Health in Westminster, in advance of the Queen's Speech last year, urging him to take forward legislation on a UK basis. It was on the same basis that I wrote to him again, to express my disappointment when it was not included.

Er mwyn eglurder, cyfeirir at y dull hwn bellach fel rheoleiddio pecynnu manwerthol cynhyrchion tybaco, sydd, mewn terminoleg gyfreithiol, yn disodli'r derminoleg pecynnu plaen neu safonol a ddefnyddiwyd yn flaenorol. Rwy'n dal i gredu ei bod yn bwysig iawn ein bod yn cymryd pob cam posibl i leihau effeithiau niweidiol defnyddio tybaco yng Nghymru. Mae'n dal i fod yn un o'r heriau mwyaf sylweddol, os nad y mwyaf, i iechyd cyhoeddus. Mae nifer o Aelodau ym mhob rhan o'r Siambr hon wedi cefnogi datblygu mesurau ar becynnu cynnyrch tybaco. Ar y sail honno, ysgrifennais at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd yn San Steffan, cyn Araith y Frenhines y llynedd, yn ei annog i ddatblygu deddfwriaeth ar sail y DU. Ar yr un sail yr ysgrifennais ato eto, i fynegi fy siom nad oedd wedi ei gynnwys.

It was good news, therefore, when an announcement was made at Westminster at the end of November last year, that a review is to be commissioned of the evidence, with a view to taking forward action on standardised packaging of tobacco products if the review provides sufficient evidence for this action. At the same time, the Westminster Government announced an intention to introduce an amendment to the Children and Families Bill before Parliament in London to provide the Secretary of State with regulation-making powers related to the retail packaging of tobacco products. The amendment would give the Secretary of State the power to make regulations about the retail packaging of tobacco products. Such regulations may relate to the markings on, and appearance of, tobacco products, including the size, appearance, flavour and shape of such products, as well as creating associated offences.

Roedd yn newyddion da, felly, pan wnaed cyhoeddiad yn San Steffan ddiwedd mis Tachwedd y llynedd, bod adolygiad am gael ei gomisiynu o'r dystiolaeth, gyda golwg ar ddatblygu gweithredu ar becynnu safonol ar gyfer cynnyrch tybaco os yw'r adolygiad yn darparu digon o dystiolaeth ar gyfer y camau hyn. Ar yr un pryd, cyhoeddodd Llywodraeth San Steffan fwriad i gyflwyno gwelliant i'r Bil Plant a Theuluoedd gerbron y Senedd yn Llundain i roi pwerau i wneud rheoliadau i'r Ysgrifennydd Gwladol yn ymwneud â phecynnu manwerthol cynhyrchion tybaco. Byddai'r diwygiad yn rhoi pŵer i wneud rheoliadau ynghylch pecynnu manwerthol cynhyrchion tybaco i'r Ysgrifennydd Gwladol. Gall rheoliadau o'r fath ymwneud â'r marciau ar, ac ymddangosiad, cynnyrch tybaco, gan gynnwys maint, ymddangosiad, blas a siâp cynhyrchion o'r fath, yn ogystal â chreu troseddau cysylltiedig.

This announcement resulted in discussions across the UK, and Ministers for health from all the devolved administrations have agreed that action at a UK level would be the most sensible way forward. A UK-wide approach to legislation would mean that the measures come into force across the UK at the same time, minimising burdens on business, aiding enforcement, reducing cross-border complexities and supporting the communication of clear and consistent public health messages.

Arweiniodd y cyhoeddiad hwn at drafodaethau ar draws y DU, ac mae Gweinidogion iechyd o'r holl weinyddiaethau datganoledig wedi cytuno mai gweithredu ar lefel y DU fyddai'r ffordd fwyaf synhwyrol ymlaen. Byddai ymagwedd ar gyfer y DU gyfan i ddeddfwriaeth yn golygu bod y mesurau yn dod i rym ledled y DU ar yr un pryd, gan leihau beichiau ar fusnes, cynorthwyo gorfodaeth, lleihau cymhlethdodau trawsffiniol a chefnogi cyfathrebu negeseuon iechyd cyhoeddus clir a chyson.

However, as Members will know, this late amendment presented a timing difficulty. The Children and Families Bill is in its final stages in Parliament, and if the amendment tabled was to include Wales, then it would be necessary to move quickly to agree a legislative consent motion. Normally there would be time for full scrutiny of such a memorandum by an Assembly committee, and I much regret that this has not been possible on this occasion, although I am grateful, of course, to members of the Health and Social Care Committee for the opportunity to discuss the LCM before them last week. I have to emphasise, however, that it was the UK Government's decision to bring forward this amendment at such a late stage in its Bill's progress; but I still conclude that it is an important opportunity that we should not lose.

Fodd bynnag, fel y gŵyr yr Aelodau, roedd y gwelliant hwyr hwn yn creu anhawster o ran amseru. Mae'r Bil Plant a Theuluoedd yn ei gamau olaf yn y Senedd, ac os byddai'r gwelliant a gyflwynwyd yn cynnwys Cymru, yna byddai angen symud yn gyflym i gytuno ar gynnig cydsyniad deddfwriaethol. Fel arfer, byddai digon o amser ar gyfer craffu llawn ar femorandwm o'r fath gan un o bwyllgorau'r Cynulliad, ac rwy'n gresynu'n fawr nad yw hyn wedi bod yn bosibl ar yr achlysur hwn, er fy mod yn ddiolchgar, wrth gwrs, i aelodau'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol am y cyfle i drafod y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ger eu bron yr wythnos diwethaf. Mae'n rhaid i mi bwysleisio, fodd bynnag, mai penderfyniad Llywodraeth y DU oedd cyflwyno'r gwelliant hwn ar gam mor hwyr yng nghynnydd ei Bil, ond rwy'n dal o'r farn bod hwn yn gyfle pwysig na ddylem ei golli.

My policy and legal officials have been liaising with counterparts in the Department of Health on the amendment that has been tabled. We have secured a provision that requires the Secretary of State to obtain the consent of Welsh Ministers regarding regulations on retail packaging of tobacco products that would be within the legislative competence of the Assembly. This agreement has been mirrored for Scotland and Northern Ireland. I will bring information in front of the Assembly if and when such regulations are taken forward. On that basis, I hope that Members will support the motion this afternoon.

Mae fy swyddogion polisi a chyfreithiol wedi bod yn cysylltu â chymheiriaid yn yr Adran Iechyd ar y gwelliant sydd wedi ei gyflwyno. Rydym wedi sicrhau darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol gael caniatâd Gweinidogion Cymru ynghylch rheoliadau ar becynnu manwerthol cynhyrchion tybaco a fyddai o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad. Mae'r cytundeb hwn wedi cael ei adlewyrchu ar gyfer yr Alban a Gogledd Iwerddon. Byddaf yn dod â gwybodaeth gerbron y Cynulliad os a phan fydd rheoliadau o'r fath yn cael eu datblygu. Ar y sail honno, rwy'n gobeithio y bydd yr Aelodau'n cefnogi'r cynnig y prynhawn yma.

16:27

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call the Chair of the Health and Social Care Committee, David Rees.

Galwaf ar Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, David Rees.

16:27

## David Rees Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Minister has outlined the origins of today's debate in his opening remarks. Specifically, the LCM talks about the regulation of retail packaging of tobacco products—I am pleased that it is tobacco products, and not just cigarettes—the regulation of tobacco products themselves, and the creation of associated offences.

Mae'r Gweinidog wedi amlinellu tarddiad y ddadl heddiw yn ei sylwadau agoriadol. Yn benodol, mae'r Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol yn sôn am reoleiddio pecynnu manwerthol cynhyrchion tybaco—rwy'n falch mai cynnyrch tybaco ydyw, ac nid dim ond sigaréts—rheoleiddio cynhyrchion tybaco eu hunain, a chreu troseddau cysylltiedig.

As pointed out by the Minister, the Bill is in its latter stages at Westminster. I concur with him that it is disappointing that the UK Government's timing means that normal scrutiny by Assembly committees has not been possible. The committee was grateful, however, to conduct a short session with the Minister for Health and Social Services last Thursday on the LCM. The purpose of the session was to explore issues of interest to Members, and to help inform our contributions to today's debate. A link to the Record of our deliberations has been provided as part of today's Plenary agenda and we hope that it has been a useful aide to Members in preparing for this debate.

Fel y nodwyd gan y Gweinidog, mae'r Bil yn ei gamau olaf yn San Steffan. Cytunaf ag ef ei bod yn siomedig bod amseriad Llywodraeth y DU yn golygu nad yw craffu arferol gan bwyllgorau'r Cynulliad wedi bod yn bosibl. Roedd y pwyllgor yn ddiolchgar, fodd bynnag, o gynnal sesiwn fer gyda'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ddydd Iau diwethaf ar y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol. Pwrpas y sesiwn oedd archwilio materion o ddiddordeb i Aelodau, ac i helpu i lywio ein cyfraniadau i ddadl heddiw. Mae dolen i'r Cofnod o'n trafodaethau wedi ei darparu fel rhan o agenda'r Cyfarfod Llawn heddiw ac rydym yn gobeithio ei fod wedi bod yn gymorth defnyddiol i Aelodau wrth baratoi ar gyfer y ddadl hon.

I will now focus my contribution on the particular points of clarification raised by committee members during our session with the Minister last week. The Minister was asked whether plain packaging would encourage smuggling or the proliferation of fake cigarettes. He explained that this was a key factor in deciding to use the LCM mechanism to move forward on a pan-UK basis, to make the task of monitoring any illegal activity a lot easier across the various devolved Governments. The Minister noted that he agreed with the UK Government's view that the risk of smuggling is not a significant impediment to introducing plain packaging.

Byddaf yn awr yn canolbwyntio fy nghyfraniad ar y pwyntiau penodol o eglurhad a godwyd gan aelodau'r pwyllgor yn ystod ein sesiwn gyda'r Gweinidog yr wythnos diwethaf. Gofynnwyd i'r Gweinidog a fyddai pecynnau plaen yn annog smyglo neu doreth o sigaréts ffug. Eglurodd fod hyn yn ffactor allweddol wrth benderfynu defnyddio'r mecanwaith Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol i symud ymlaen ar sail y DU gyfan, er mwyn gwneud y dasg o fonitro unrhyw weithgaredd anghyfreithlon yn llawer haws ledled y gwahanol Lywodraethau datganoledig. Nododd y Gweinidog ei fod yn cytuno â barn Llywodraeth y DU nad oedd y risg o smyglo yn rhwystr sylweddol i gyflwyno pecynnau plaen.

In relation to health warnings, the Minister confirmed that the Secretary of State will be able to alter the warnings on packages, with potential for them to double in size. When asked whether regulations would allow bilingual warnings, the Minister noted that discussions would have to be held with the Department of Health to progress that further. The Minister drew Members' attention to the fact that agreement has been secured for Welsh Ministers' consent to be required before regulations progress, as opposed to being consulted only. We welcome this move.

O ran rhybuddion iechyd, cadarnhaodd y Gweinidog y bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn gallu newid y rhybuddion ar becynnau, gyda photensial iddynt ddyblu mewn maint. Pan ofynnwyd a fyddai rheoliadau yn caniatáu rhybuddion dwyieithog, nododd y Gweinidog y byddai'n rhaid cynnal trafodaethau gyda'r Adran Iechyd i ddatblygu hynny ymhellach. Tynnodd y Gweinidog sylw'r Aelodau at y ffaith fod cytundeb wedi ei sicrhau i ganiatâd Gweinidogion Cymru fod yn ofynnol cyn i'r rheoliadau symud ymlaen, yn hytrach nag ymgynghori yn unig. Rydym yn croesawu'r symudiad hwn.

During the session, Members asked whether there was any evidence to suggest that plain packaging would discourage smokers from choosing lower-tar options. The chief medical officer has written to the committee following the session to note that one of the benefits of plain tobacco packaging is that it removes the ability of tobacco manufacturers to use colours to distinguish between brand variants, and therefore removes the misperception that one brand or brand variant is less harmful than another.

Yn ystod y sesiwn, gofynnodd yr Aelodau a oedd unrhyw dystiolaeth i awgrymu y byddai pecynnu plaen yn na fyddai ysmygwyr yn dewis opsiynau sydd â llai o dar. Mae'r prif swyddog meddygol wedi ysgrifennu at y pwyllgor yn dilyn y sesiwn i nodi mai un o fanteision pecynnu tybaco plaen yw ei fod yn cael gwared ar allu gweithgynhyrchwyr tybaco i ddefnyddio lliwiau i wahaniaethu rhwng amrywiadau brand, ac felly'n cael gwared ar y camganfyddiad fod un brand neu amrywiad brand yn llai niweidiol nag un arall.

Finally, the committee touched on the likely timescales for the implementation of plain packaging should the UK Bill be passed. The Minister noted that a report by Sir Cyril Chantler on a plain packaging policy, commissioned by the UK Government, will be available in March and a further debate on the matter will follow. Members have questioned the Minister on what will happen in the event that the UK Government does not seek to make regulations in this area. He reassured Members that he had made it clear to the Under Secretary of State for Public Health that he reserves the right to go ahead alone in Wales if the Department of Health does not move ahead with this matter. He did note, however, that this is subject to the Welsh Government having the legal authority to do so, which remains the subject of differing legal opinion.

Yn olaf, cyfeiriodd y pwyllgor at yr amserlenni tebygol ar gyfer gweithredu pecynnu plaen pe byddai Bil y DU yn cael ei basio. Nododd y Gweinidog y bydd adroddiad gan Syr Cyril Chantler ar bolisi pecynnu plaen, a gomisiynwyd gan Lywodraeth y DU, ar gael ym mis Mawrth a bydd trafodaeth bellach ar y mater yn dilyn. Mae Aelodau wedi holi'r Gweinidog am yr hyn fydd yn digwydd os nad yw Llywodraeth y DU yn ceisio gwneud rheoliadau yn y maes hwn. Sicrhaodd yr Aelodau ei fod wedi ei gwneud yn glir i'r Is-ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd y Cyhoedd ei fod yn cadw'r hawl i fynd yn ei flaen ar ei ben ei hun yng Nghymru, os nad yw'r Adran Iechyd yn symud ymlaen gyda'r mater hwn. Nododd, fodd bynnag, fod hyn yn amodol ar Lywodraeth Cymru yn cael yr awdurdod cyfreithiol i wneud hynny, sy'n parhau i fod yn destun gwahanol farn gyfreithiol.

In closing, although the late tabling of this amendment by the UK Government has restricted our ability to scrutinise this LCM, we are grateful to the Minister for making himself available to attend the committee last week and to allow us, as members of the Health and Social Care Committee, to explore the issues outlined this afternoon.

I gloi, er bod cyflwyno hwyr y gwelliant hwn gan Lywodraeth y DU wedi cyfyngu ar ein gallu i graffu ar y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol hwn, rydym yn ddiolchgar i'r Gweinidog am drefnu ei fod ar gael i fod yn y pwyllgor yr wythnos diwethaf ac i ganiatáu i ni, fel aelodau o'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, i edrych ar y materion a amlinellwyd y prynhawn yma.

16:31 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am grateful for the opportunity to speak on this important matter. I share the concerns of the Minister and the Health and Social Care Committee about the unfortunate timing of this LCM coming forward and the fact that it has constrained the scrutiny of it somewhat.

Rwy'n ddiolchgar am y cyfle i siarad ar y mater pwysig hwn. Rwyf yn rhannu pryderon y Gweinidog a'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol am amseriad anffodus y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol hwn yn dod ymlaen a'r ffaith ei fod wedi cyfyngu ar graffu arno braidd.

We all know what the LCM is designed to achieve. It is designed to allow for a UK Secretary of State to be able to put regulations down that can apply to all parts of the United Kingdom in order to regulate the packaging of tobacco products. There are many arguments for regulation and some arguments against, which Members might want to make. As has historically been the case on the Conservative benches in the Assembly in relation to smoking matters and tobacco control, we will have a free vote on the LCM before us this afternoon.

Rydym i gyd yn gwybod yr hyn y mae'r Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol wedi'i gynllunio i'w gyflawni. Mae wedi ei gynllunio i ganiatáu i Ysgrifennydd Gwladol y DU fod yn gallu nodi rheoliadau a all fod yn berthnasol i bob rhan o'r Deyrnas Unedig er mwyn rheoleiddio pecynnu cynnyrch tybaco. Mae llawer o ddadleuon ar gyfer rheoleiddio a rhai dadleuon yn erbyn, y gallai Aelodau fod am eu gwneud. Fel sydd wedi digwydd ar feinciau'r Ceidwadwyr yn y Cynulliad o ran materion ysmygu a rheoli tybaco yn hanesyddol, byddwn yn cael pleidlais rydd ar y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol sydd ger ein bron y prynhawn yma.

Now is not the time to have a debate about the form of packaging. Today is more about whether there needs to be consistency across the United Kingdom and whether there is an opportunity to do that and to take the legislative consent opportunity afforded to us by the Children and Families Bill. I think that it is sensible that we are having an opportunity to discuss that today. My own view, for the record, is that I am not persuaded of the benefits of standardised packaging for tobacco products, but that is not to say that I do not think that there is some sense in having a UK-wide approach, rather than a Wales or England or Scotland-only one. I look forward to having further debates on this matter in future, when the regulations are scrutinised by the National Assembly and consent is sought of Ministers for that by the UK Government. I will leave my comments there for today.

Nid nawr yw'r amser i gael dadl ynglŷn â ffurf y pecynnu. Mae heddiw yn ymwneud mwy a pha un a oes angen cael cysondeb ar draws y Deyrnas Unedig ac a oes cyfle i wneud hynny ac i gymryd y cyfle cydsyniad deddfwriaethol a roddir i ni gan y Bil Plant a Theuluoedd. Rwy'n meddwl ei bod yn synhwyrol ein bod yn cael cyfle i drafod hynny heddiw. Fy marn i, fel ei fod ar gof a chadw, yw nad wyf wedi fy argyhoeddi o fanteision pecynnu safonol ar gyfer cynnyrch tybaco, ond nid yw hynny'n golygu nad wyf yn credu bod rhywfaint o synnwyr mewn cael dull gweithredu ar draws y DU, yn hytrach nag un Cymru neu Loegr neu'r Alban yn unig. Rwy'n edrych ymlaen at gael trafodaethau pellach ar y mater hwn yn y dyfodol, pan fydd y rheoliadau'n cael eu craffu gan y Cynulliad Cenedlaethol ac y gofynnir am ganiatâd y Gweinidogion am hynny gan Lywodraeth y DU. Rwyf am adael fy sylwadau yn y fan yna am heddiw.

16:33 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I want to speak briefly to give my support to this legislative consent motion. Like the Minister said, it is part of the long process of trying to stop people smoking and in particular to stop young people smoking. The timing is unfortunate. It is a shame that the Westminster Government did not move at the time that it was going to move and so it has to be done as a rather swifter process here. However, I think that the overwhelming aim is to ensure that we get this legislation through and that we have the benefits of plain packaging in Wales.

Rwyf yn dymuno siarad yn fyr i roi fy nghefnogaeth i'r Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol hwn. Fel y dywedodd y Gweinidog, mae'n rhan o'r broses hir o geisio atal pobl rhag ysmygu ac yn enwedig atal pobl ifanc rhag ysmygu. Mae'r amseriad yn anffodus. Mae'n drueni na wnaeth Llywodraeth San Steffan symud ar yr amser yr oedd yn mynd i symud ac felly mae'n rhaid iddo gael ei wneud fel proses gyflymach braidd yma. Fodd bynnag, rwy'n credu mai'r nod hollbwysig yw sicrhau ein bod yn symud ymlaen â'r ddeddfwriaeth hon a'n bod yn cael manteision pecynnu plaen yng Nghymru.

16:33 **Elin Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Mae Plaid Cymru yn cefnogi pecynnu plaen ar gyfer tybaco. Mae'r dadleuon dros hynny yn gryf yn fy marn i, yn enwedig, fel roedd Julie Morgan yn sôn, lle mae cwmnïau tybaco yn defnyddio pecynnau deniadol i ddenu ysmygwyr ifanc ac ysmygwyr am y tro cyntaf.

Plaid Cymru supports plain packaging for tobacco products. The arguments for that are very strong in my opinion, particularly, as Julie Morgan said, as tobacco companies use attractive packaging to attract young smokers and first-time smokers to their products.

Mae'r gwelliant sydd wedi'i gyflwyno gan Lywodraeth San Steffan wedi cael ei gyflwyno ar y funud olaf, fel sydd wedi'i ddweud, ac mae'r gwelliant hwnnw yn rhoi pwerau cydsynio i Weinidogion Cymru, i Ysgrifennydd San Steffan i ofyn am gydsyniad Gweinidogion Cymru. Mae hwnnw'n bŵer llawer gwell na'r pŵer i ymgynghori'n unig. Yr unig gwestiwn sydd gennyf yw a fyddai wedi bod yn hyd yn oed fwy manteisiol i Lywodraeth Cymru pe bai wedi gofyn am, a chael, pwerau a fyddai'n rhoi'r hawl i Gymru i gyflwyno deddfwriaeth yn annibynnol ar y mater hwn, petawn ni'n dewis gwneud hynny. Mae'n debyg, yn ôl yr hyn ddywedodd y Gweinidog wrthym yn y pwyllgor yr wythnos ddiwethaf, fod Llywodraeth yr Alban wedi gofyn am bwerau deddfwriaethol penodol fel rhan o'r gwelliant hwn, ond bod Llywodraeth Cymru wedi dewis gofyn am bwerau cydsynio yn unig. Rwyf yn deall y dadleuon y bydd hyn yn haws i'w gyflwyno os caiff ei gyflwyno yn Lloegr, Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon ar yr un pryd. Wrth gwrs, y sefyllfa yr ydym ynddi ar hyn o bryd yw bod Llywodraeth San Steffan yn gosod gwelliant i roi'r pŵer iddi ymgymryd â'r ddeddfwriaeth hon, os yw'n dymuno gwneud hynny. Eto, hyd yn hyn, nid ydym yn gwybod yn bendant a fydd Llywodraeth San Steffan yn cymryd y camau i gyflwyno pecynnau plaen oherwydd ni fydd yr adolygiad y mae hi wedi gofyn amdano yn adrodd tan fis Mawrth—rwy'n credu mai dyna ddywedodd y Gweinidog yn fan hon. Dim ond yn dilyn hynny y bydd Llywodraeth San Steffan yn penderfynu a yw hi'n mynd i ddefnyddio'r pwerau deddfwriaethol hyn i fynnu pecynnau plaen ar dybaco. Am heddiw, gyda'r hyn sydd o'n blaenau, byddwn ni, wrth gwrs, yn cefnogi'r LCM.

The amendment tabled by the Westminster Government was tabled at the last minute, as has already been noted, and that amendment provides consent powers to Welsh Ministers, for the Secretary of State at Westminster to ask for the consent of Welsh Ministers. That power is far better than a power to consult only. The only question that I have is whether it would have been even more beneficial for the Welsh Government to have requested and been granted powers that would give Wales the right to introduce independent legislation on this issue, if we so chose. It appears, from what the Minister told us at committee last week, that the Scottish Government has requested legislative powers specifically as part of this amendment, but the Welsh Government chose to ask for consent powers only. I understand the argument that this would be easier to implement if it were implemented across England, Wales, Scotland and Northern Ireland simultaneously. Of course, the situation that we are facing at present is that the Westminster Government is tabling an amendment granting it the power to carry on with this legislation, if it so choses. Again, at this point, we do not know as a matter of certainty whether the Westminster Government will take steps to introduce plain packaging, because the review that it has requested will not report until March—that is what I believe that the Minister said here. It is only after that that the Westminster Government will make a decision as to whether it will use these legislative powers to insist on plain packaging for tobacco products. For today, given what is before us, we will of course support the LM.

16:36

## Kirsty Williams Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Like the Minister, I too am very pleased that the UK Government has seen fit to review the issue of plain packaging of cigarettes and to look once again at the evidence for this proposal. I very much hope that, following the conclusion of that review, they will proceed to legislate in this area. I also believe that it is appropriate that legislation be introduced across the UK and, like the Minister, I feel that this is the preferable way of achieving this change in Wales. I hope that working across the UK will mean that the implementation of these changes will be as effective as it possibly can be in achieving the ultimate aim of the legislation in reducing the levels of tobacco use and smoking across the UK. On that basis, Deputy Presiding Officer, the Welsh Liberal Democrats will support the LCM this afternoon.

Fel y Gweinidog, rwyf innau hefyd yn falch iawn bod Llywodraeth y DU wedi gweld yn dda i adolygu'r mater pecynnu plaen ar sigaréts ac i edrych unwaith eto ar y dystiolaeth ar gyfer y cynnig hwn. Rwy'n gobeithio yn fawr iawn, yn dilyn casgliad yr adolygiad hwnnw, y byddant yn symud ymlaen i ddeddfu yn y maes hwn. Rwyf hefyd yn credu ei bod yn briodol y dylid cyflwyno deddfwriaeth ar draws y DU ac, fel y Gweinidog, rwy'n teimlo bod hon yn well ffordd o gyflawni'r newid hwn yng Nghymru. Rwy'n gobeithio y bydd gweithio ar draws y DU yn golygu y bydd rhoi'r newidiadau hyn ar waith mor effeithiol ag y gall fod i gyrraedd nod y ddeddfwriaeth yn y pen draw o leihau lefelau defnyddio tybaco ac ysmygu ar draws y DU. Ar sail hynny, Ddirprwy Lywydd, mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru'n cefnogi'r Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol y prynhawn yma.

16:37

## Rebecca Evans Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am also very pleased to be able to support the LCM today. I am pleased that the UK Government has had a late, but welcome change of heart on the issue.

Rwyf innau hefyd yn falch iawn o allu cefnogi'r Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol heddiw. Rwy'n falch bod Llywodraeth y DU, yn hwyr, ond yn dderbyniol, wedi newid ei meddwl ar y mater.

The committee Chair outlined clearly the discussions that we had in committee, but I do have one more point to make. This LCM is specifically aimed at making smoking unattractive to under 18s, which is great, but in Wales we have higher rates of smoking in pregnancy than anywhere else in the UK, with around 16% of Welsh mothers smoking throughout pregnancy. I would therefore ask the Minister to make a case to the UK Government that the health messages on packaging should continue to remind expectant mothers of the harm that all the evidence says that smoking is doing to the unborn child.

Amlinellodd Cadeirydd y pwyllgor yn glir y trafodaethau a gawsom yn y pwyllgor, ond mae gennyf un pwynt arall i'w wneud. Mae'r Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol â'r nod penodol o wneud ysmygu'n anneniadol i rai dan 18 oed, sy'n wych, ond yng Nghymru mae gennym gyfraddau uwch o ysmygu yn ystod beichiogrwydd nag yn unrhyw le arall yn y DU, gyda thua 16% o famau yng Nghymru'n ysmygu drwy gydol eu beichiogrwydd. Byddwn felly yn gofyn i'r Gweinidog i gyflwyno achos i Lywodraeth y DU y dylai'r negeseuon iechyd ar becynnau barhau i atgoffa mamau beichiog o'r niwed y mae'r holl dystiolaeth yn ei ddweud y mae ysmygu yn ei wneud i'r plentyn yn y groth.

We are voting on this LCM in good faith today, on the understanding that the UK Government will act. I urge it to do so quickly. Nonetheless, I would be keen to know from the Minister what he considers to be a reasonable time frame for action, before he will consider going it alone.

Rydym yn pleidleisio ar y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol hwn gyda phob ewyllys da heddiw, ar y ddealltwriaeth y bydd Llywodraeth y DU yn gweithredu. Rwy'n ei hannog i wneud hynny'n gyflym. Serch hynny, byddwn yn awyddus i gael gwybod gan y Gweinidog yr hyn y mae'n ystyried yn ffrâm amser rhesymol ar gyfer gweithredu, cyn y bydd yn ystyried symud ymlaen ar ei ben ei hun.

16:38

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I call on the Minister to reply to the debate.

Galwaf ar y Gweinidog i ymateb i'r ddadl.

16:38

## Mark Drakeford Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services*

Diolch, Dirprwy Lywydd. I thank all those Members who have taken part in the discussion and for the consensus that exists across the Chamber, I believe, to move ahead with the LCM today. Thank you to David Rees for putting on record the points that were raised at the Health and Social Care Committee. Other Members have echoed a small theme that arose there, but it seems to me that we have no option but to proceed on the basis that the UK propositions are being put forward in good faith and that they will move to legislation on the basis of the evidence collected. To answer Rebecca Evans's point, I believe that it is possible for that legislation to be brought forward before the end of the current parliamentary term and that is the time frame that I will be looking at.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Diolch i'r holl Aelodau hynny sydd wedi cymryd rhan yn y drafodaeth ac am y consenswS sy'n bodoli ar draws y Siambr, rwy'n credu, i symud ymlaen â'r Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol heddiw. Diolch i David Rees am roi ar gofnod y pwyntiau a godwyd yn y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Mae Aelodau eraill wedi adleisio thema fach a gododd yno, ond mae'n ymddangos i mi nad oes gennym unrhyw ddewis heblaw symud ymlaen ar y sail bod y cynigion yn y DU yn cael eu rhoi ymlaen mewn ffydd ac y byddant yn symud i ddeddfwriaeth ar sail y dystiolaeth a gasglwyd. I ateb pwynt Rebecca Evans, rwy'n credu ei bod yn bosibl cyflwyno'r ddeddfwriaeth honno cyn diwedd y tymor seneddol presennol, a dyna'r ffrâm amser y byddaf yn edrych arni.

The points that Elin Jones made will strengthen, of course, if the UK Government does not bring forward legislation in the way that we now anticipate. In front of the Health and Social Care Committee, Elin asked me whether I would publish the letter that I had sent to the Secretary of State in England, reserving the Welsh position on this matter. I have done that and that letter is available for Members to see.

Bydd y pwyntiau a wnaeth Elin Jones yn cryfhau, wrth gwrs, os nad yw Llywodraeth y DU yn cyflwyno deddfwriaeth yn y ffordd yr ydym yn awr yn rhagweld. Gerbron y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, gofynnodd Elin i mi a fyddwn yn cyhoeddi'r llythyr yr oeddwn wedi'i anfon at yr Ysgrifennydd Gwladol yn Lloegr, gan gadw sefyllfa Cymru ar y mater hwn. Rwyf wedi gwneud hynny ac mae'r llythyr ar gael i Aelodau ei weld.

We have not talked much, either in the Health and Social Care Committee or indeed here, about the case for plain packaging. I am grateful for Darren Millar's indication that he is happy to see today's debate go forward so that we can have that debate at the right time. I could say to Members today that the evidence is clear that packaging helps to recruit smokers. If I were to say that, I would be quoting the words of Andrew Lansley, the UK Secretary of State for Health, in 2010, or I could quote the words of Philip Morris, the world's biggest tobacco company, which said,

Nid ydym wedi siarad llawer, naill ai yn y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol nac yn wir yma, am yr achos ar gyfer pecynnu plaen. Rwy'n ddiolchgar am yr arwydd gan Darren Millar ei fod yn hapus i weld y ddadl heddiw yn mynd ymlaen fel y gallwn gael y drafodaeth ar yr adeg iawn. Gallwn ddweud wrth yr Aelodau heddiw fod y dystiolaeth yn glir bod pecynnu yn helpu i recriwtio ysmygwyr. Pe byddwn yn dweud hynny, byddwn yn dyfynnu geiriau Andrew Lansley, Ysgrifennydd Gwladol y DU dros Iechyd, yn 2010, neu gallwn ddyfynnu geiriau Philip Morris, cwmni tybaco mwyaf y byd, a ddywedodd,

‘Our final communication vehicle with our smokers is the pack itself…our packaging is our marketing.’

Ein cyfrwng cyfathrebu terfynol gyda’n hysmygwyr yw’r pecyn ei hun ... ein pecynnu yw ein marchnata.

We will come to that.

Byddwn yn dod at hynny.

16:40 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am very grateful to you for taking an intervention. We know that the evidence from Australia, where, of course, plain packaging has been introduced, is rather less favourable to some of your arguments. I do not want to have that debate today, but I know that you are eager to take some action to reduce the incidence of smoking in Wales. What consideration have you given to using the public health (Wales) Bill as an opportunity to introduce a ban on smoking in cars with children, which, of course, has the potential to recruit many more smokers than packaging to that particular nasty, unhealthy habit?

Rwy’n ddiolchgar iawn i chi am dderbyn ymyriad. Rydym yn gwybod bod y dystiolaeth o Awstralia, lle, wrth gwrs, mae pecynnu plaen wedi’i gyflwyno, ychydig yn llai ffafriol i rai o’ch dadleuon. Nid wyf yn dymuno cael y ddadl honno heddiw, ond rwy’n gwybod eich bod yn awyddus i gymryd rhyw gamau i leihau nifer yr achosion o ysmygu yng Nghymru. Pa ystyriaeth yr ydych chi wedi’i rhoi i ddefnyddio Bil iechyd y cyhoedd (Cymru) fel cyfle i gyflwyno gwaharddiad ar ysmygu mewn ceir gyda phlant, sydd, wrth gwrs, â’r potensial i recriwtio llawer mwy o ysmygwyr na phecynnu i’r arfer cas, afiach arbennig hwnnw?

16:41 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that question. Darren is absolutely right to say that the evidence from Australia will be very influential in the work of Sir Cyril Chantler. Indeed, he is visiting Australia as part of the work that he has now been commissioned to do by the Department of Health and we will see what report he brings of the experience there. I am glad that the Member is looking forward to the public health White Paper, and he will find many good things in there on smoking and on other points, too.

Diolch i chi am y cwestiwn yna. Mae Darren yn hollol iawn i ddweud y bydd y dystiolaeth o Awstralia yn ddylanwadol iawn yng ngwaith Syr Cyril Chantler. Yn wir, mae o’n ymweld ag Awstralia fel rhan o’r gwaith y mae bellach wedi cael ei gomisiynu i’w wneud gan yr Adran Iechyd a byddwn yn gweld pa adroddiad a ddaw o’r profiad yno. Rwy’n falch bod yr Aelod yn edrych ymlaen at y Papur Gwyn iechyd y cyhoedd, a bydd yn dod o hyd i lawer o bethau da yno ar ysmygu ac ar bwyntiau eraill, hefyd.

I would like to conclude by thanking Members who have taken part in the debate and say, once again, that I believe that taking action at the UK level is the best way forward, and I ask for Members’ support for this LCM.

Hoffwn gloi drwy ddiolch i’r Aelodau sydd wedi cymryd rhan yn y ddadl a dweud, unwaith eto, fy mod yn credu mai cymryd camau ar lefel y DU yw’r ffordd orau ymlaen, ac rwy’n gofyn am gefnogaeth yr Aelodau i’r Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol hwn.

16:42 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The proposal is to agree the motion. Does any Member object? There is objection. Therefore, I will defer voting on this item until voting time.

Y cynnig yw cytuno ar y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwrthwynebiad. Felly, byddaf yn gohirio’r pleidleisio ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

*Voting deferred until voting time.*

# Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ynghylch y Bil Plant a Theuluoedd mewn perthynas ag Adran 38 o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 1963 (Perfformiadau)

# Supplementary Legislative Consent Motion on the Children and Families Bill in relation to Section 38 of the Children and Young Persons Act 1963 (Child Performances)

Cynnig NDM5390 Huw Lewis

Motion NDM5390 Huw Lewis

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried y darpariaethau yn y Bil Plant a Theuluoedd, sy’n ymwneud â diddymu adran 38 o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 1963, i’r graddau y mae’n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 29.6 agrees that provisions in the Children and Families Bill, relating to the repeal of section 38 of the Children and Young Persons Act 1963, in so far as it falls within the legislative competence of the National Assembly for Wales, should be considered by the UK Parliament.

16:42 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*Y Gweinidog Addysg a Sgiliau / The Minister for Education and Skills*

I move the motion.

Cynigiaf y cynnig.

Deputy Presiding Officer, I thank you for the opportunity to explain the background to this LCM. This LCM was laid before the Assembly back on 20 December, because it has resulted from a very late amendment to the Children and Families Bill. The amendment to the Children and Families Bill seeks to repeal section 38 of the Children and Young Persons Act 1963, which will allow children under the age of 14 to participate in a wider range of performance activities. Despite the late tabling of the amendment to the Children and Families Bill and the subsequent tabling of the LCM, I am pleased to bring forward this LCM today because I believe that it will provide a greater opportunity for children under 14 to participate in more types of public performances.

Ddirprwy Lywydd, rwy’n diolch i chi am y cyfle i esbonio cefndir y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol hwn. Cafodd y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ei roi gerbron y Cynulliad yn ôl ar 20 Rhagfyr, oherwydd ei fod wedi deillio o welliant hwyr iawn i’r Bil Plant a Theuluoedd. Mae’r gwelliant i’r Bil Plant a Theuluoedd yn ceisio diddymu adran 38 o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 1963, a fydd yn caniatáu i blant o dan 14 oed gymryd rhan mewn ystod ehangach o weithgareddau perfformio. Er gwaethaf cyflwyno gwelliant i’r Bil Plant a Theuluoedd a chyflwyno dilynol y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol, rwy’n falch o gyflwyno’r Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol hwn heddiw oherwydd fy mod yn credu y bydd yn rhoi mwy o gyfle i blant dan 14 i gymryd rhan mewn mwy o fathau o berfformiadau cyhoeddus.

It also presents an effective and efficient way for the Welsh Government to update parts of the current legislative framework governing child performance licensing. The range of opportunities and activities open to children’s participation in public performances is still covered by legislation introduced in the early 1960s. The aim of the legislation at that time was to ensure that arrangements were made to protect the health, safety, welfare, education and wellbeing of children taking part in plays, shows and broadcasts. As the legislation was introduced over 40 years ago, some aspects are now clearly outdated. The range of activities and opportunities has expanded considerably since then, especially with new media genres and technologies providing more ways in which children can perform.

Mae hefyd yn cyflwyno ffordd effeithiol ac effeithlon i Lywodraeth Cymru ddiweddaru rhannau o’r fframwaith deddfwriaethol presennol sy’n llywodraethu trwyddedu perfformiadau plant. Mae’r ystod o gyfleoedd a gweithgareddau sy’n agored i gyfranogiad plant mewn perfformiadau cyhoeddus yn parhau i ddod o dan ddeddfwriaeth a gyflwynwyd yn y 1960au cynnar. Nod y ddeddfwriaeth ar y pryd oedd sicrhau bod trefniadau yn cael eu gwneud i ddiogelu iechyd, diogelwch, lles, addysg a llesiant y plant sy’n cymryd rhan mewn dramâu, sioeau a darllediadau. Gan fod y ddeddfwriaeth wedi ei chyflwyno dros 40 mlynedd yn ôl, mae rhai agweddau yn awr yn amlwg yn hen ffasiwn. Mae’r ystod o weithgareddau a chyfleoedd wedi ehangu’n sylweddol ers hynny, yn enwedig gyda genres a thechnolegau cyfryngau newydd yn darparu mwy o ffyrdd i blant allu perfformio.

The current legal framework has generally proved effective in ensuring that child performers are kept safe. However, aspects of the current legislation can present barriers that prevent children from taking up performance opportunities, although they do not appear to serve any meaningful function in terms of safeguarding the children involved. For example, the current legislation allows for a 14-year-old child to be granted a licence to participate in talent competitions or performances that are largely non-musical in nature. However, if a child was aged 13 and under then opportunities for them to engage in the same type of performance would be unduly restricted under the wording of the current legislation. This means that broadcast companies are more inclined not to engage with children aged under 14. As a result opportunities for those younger children to learn new skills, develop their talent and build confidence are constrained. It is clear to me that this distinction based on ages is quite arbitrary. Instead of 100% of the focus being on ensuring that all children, whatever their ages, are appropriately safeguarded when participating in performance activities, we have something a little different. The amendment to the legislation I believe will bring further rigour to the child performance licensing process. This will help to ensure that individuals involved in the child performance licensing process are able to prioritise the right factors in terms of ensuring a child’s wellbeing.

Yn gyffredinol, mae’r fframwaith cyfreithiol presennol wedi bod yn effeithiol o ran sicrhau bod perfformwyr sy’n blant yn cael eu cadw’n ddiogel. Fodd bynnag, gall agweddau ar y ddeddfwriaeth gyfredol gyflwyno rhwystrau sy’n atal y plant rhag manteisio ar gyfleoedd perfformio, er nad yw’n ymddangos bod iddynt unrhyw swyddogaeth ystyrlon o ran diogelu’r plant dan sylw. Er enghraifft, mae’r ddeddfwriaeth bresennol yn caniatáu i blentyn 14 mlwydd oed gael trwydded i gymryd rhan mewn cystadlaethau talent neu berfformiadau sydd i raddau helaeth heb fod yn gerddorol o ran natur. Fodd bynnag, pe byddai plentyn yn 13 oed neu’n iau, yna byddai cyfleoedd iddo gymryd rhan yn yr un math o berfformiad yn cael eu cyfyngu heb fod angen dan eiriad y ddeddfwriaeth gyfredol. Mae hyn yn golygu bod cwmnïau darlledu yn fwy tueddol o beidio ag ymgysylltu â phlant o dan 14 oed. O ganlyniad, mae cyfleoedd i’r plant iau hynny ddysgu sgiliau newydd, datblygu eu talent a meithrin hyder yn cael eu cyfyngu. Mae’n amlwg i mi fod y gwahaniaeth hwn yn seiliedig ar oedran yn eithaf mympwyol. Yn hytrach na bod 100% o’r pwyslais ar sicrhau bod pob plentyn, waeth beth yw ei oedran, yn cael ei ddiogelu’n briodol wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau perfformio, mae gennym rywbeth sydd ychydig yn wahanol. Rwy’n credu y bydd y gwelliant i’r ddeddfwriaeth yn dod â thrylwyredd pellach i’r broses drwyddedu perfformiad plant. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod unigolion sy’n ymwneud â’r broses drwyddedu perfformiad plant yn gallu blaenoriaethu’r ffactorau cywir o ran sicrhau lles plentyn.

The Welsh Government consulted jointly with the Department for Education last year on proposals to reform child performance legislation. Responses were divided on many of the consultation proposals, particularly where they may have affected the balance between allowing children to take up opportunities to perform and protecting them from undue risk. The evidence for wholesale reform of the current legislation around the consultation proposals was also unconvincing especially in the context of our fundamental priority of ensuring that safeguarding measures remained the paramount feature of any new legislative framework. In the absence of a clear way forward, this late amendment to the Children and Families Bill presents the opportunity to remove some restrictions that do not otherwise impact or dilute the current protections for child performers. Welsh respondents to the consultation were supportive of the proposal to remove the restrictions around the types of performances children aged under 14 can participate in, recognising that times have changed and opportunities for children have increased.

Ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar y cyd â'r Adran Addysg y llynedd ar gynigion i ddiwygio'r ddeddfwriaeth perfformiad plant. Roedd ymatebion yn wahanol i'w gilydd ar lawer o'r cynigion ymgynghori, yn enwedig lle y gallant fod wedi effeithio ar y cydbwysedd rhwng caniatáu i blant fanteisio ar gyfleoedd i berfformio a'u diogelu rhag perygl diangen. Nid oedd y dystiolaeth ar gyfer diwygio ar raddfa eang y ddeddfwriaeth bresennol o amgylch y cynigion ymgynghori yn argyhoeddi ychwaith yn enwedig yng nghyd-destun ein blaenoriaeth sylfaenol o sicrhau bod mesurau diogelu yn parhau i fod y nodwedd hollbwysig o unrhyw fframwaith deddfwriaethol newydd. Yn absenoldeb ffordd glir ymlaen, mae'r gwelliant hwyr hwn i'r Bil Plant a Theuluoedd yn cyflwyno'r cyfle i gael gwared ar rai cyfyngiadau nad ydynt fel arall yn cael effaith neu'n gwanhau'r amddiffyniadau presennol ar gyfer perfformwyr sy'n blant. Roedd ymatebwyr o Gymru i'r ymgynghoriad yn gefnogol i'r cynnig i gael gwared ar y cyfyngiadau o amgylch y mathau o berfformiadau y caiff plant o dan 14 oed gymryd rhan ynddynt, gan gydnabod bod yr oes wedi newid a chyfleoedd i blant wedi cynyddu.

I hope you will agree that it is important for this legislation to be taken forward at the same time as in England. To not do so would place children in Wales at a distinct disadvantage as they would be still subject to the outdated restrictions being lifted in England. The removal of these restrictions will help focus the licensing process on what is in a child's best interests, as opposed to licensing officers and the organisations involved having to think in creative ways about how best to comply with the out-of-date legislative criteria. It is because the repeal of section 38 of the Children and Young Persons Act 1963 only removes specific out-of-date and burdensome restrictions imposed on child performers, fundamentally without comprising any safeguarding arrangements and without putting children in Wales at a disadvantage, that I am in favour of this amendment to the current legislative framework. It is for these reasons that I am pleased to bring this LCM to the Assembly.

Rwy'n gobeithio y byddwch yn cytuno ei bod yn bwysig i'r ddeddfwriaeth hon gael ei symud ymlaen ar yr un pryd ag yn Lloegr. Byddai peidio â gwneud hynny'n rhoi plant yng Nghymru dan anfantais bendant gan y byddent yn dal i fod yn ddarostyngedig i'r cyfyngiadau hen ffasiwn sy'n cael eu diddymu yn Lloegr. Bydd cael gwared ar y cyfyngiadau hyn yn helpu i ganolbwyntio'r broses drwyddedu ar yr hyn sydd er lles gorau'r plentyn, yn hytrach na bod swyddogion trwyddedu a'r sefydliadau dan sylw yn gorfod meddwl mewn ffyrdd creadigol am y ffordd orau o gydymffurfio â'r meini prawf deddfwriaethol hen ffasiwn. Gan nad yw diddymu adran 38 o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 1963 ond yn cael gwared ar gyfyngiadau hen ffasiwn a beichus penodol a osodir ar berfformwyr sy'n blant, a hynny yn bendant heb beryglu unrhyw drefniadau diogelu, a heb roi plant yng Nghymru o dan anfantais, rwyf o blaid y gwelliant hwn i'r fframwaith deddfwriaethol presennol. Am y rhesymau hyn rwy'n falch o ddod â'r Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol hwn i'r Cynulliad.

16:48

## Jocelyn Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I am happy to support this LCM for the reasons already laid out by the Minister. This Bill provides a convenient vehicle to repeal the 'no under 14s' rule and, as the Welsh Government would still have regulation-making powers in relation to child protection issues for this cohort, I am happy to signal the support of this group. The Minister already mentioned the safety of children, and perhaps the Minister would be kind enough to outline what rules are in place to ensure the safeguarding of young performers, especially in light of the fears of potential exploitation that we frequently hear. If the Minister is not able to do that today, perhaps it would be convenient to do it in a written statement at a later date.

Rwy'n hapus i gefnogi'r Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol hwn am y rhesymau a nodwyd eisoes gan y Gweinidog. Mae'r Bil hwn yn darparu cyfrwng cyfleus i ddiddymu'r rheol 'neb dan 14 oed' a, gan y byddai gan Lywodraeth Cymru bwerau i wneud rheoliadau o hyd o ran materion amddiffyn plant ar gyfer y garfan hon, rwy'n hapus i ddangos cefnogaeth y grŵp hwn. Soniodd y Gweinidog eisoes am ddiogelwch plant, ac efallai y byddai'r Gweinidog yn ddigon caredig i amlinellu pa reolau sydd ar waith i sicrhau diogelwch perfformwyr ifanc, yn enwedig yng ngoleuni'r ofnau am gamfanteisio posibl yr ydym yn aml yn clywed amdanynt. Os nad yw'r Gweinidog yn gallu gwneud hynny heddiw, efallai y byddai'n gyfleus i wneud hynny mewn datganiad ysgrifenedig yn ddiweddarach.

16:49

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I call on the Minister to reply.

Galwaf ar y Gweinidog i ymateb.

16:49 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Addysg a Sgiliau / The Minister for Education and Skills*

I thank Jocelyn for those points. I would be more than happy to comply at a later date with regard to reassuring Members around the issues that she raises. Essentially, the changes that this LCM will enable are relatively narrow. I am completely satisfied that there would be no restriction; in fact, it would allow greater focus and rigour around the issue of protection, as opposed to worrying about the categorisation of the type of performance. There are special categories, for instance, in the 1963 Act for opera and ballet, which is fine, but there is a much wider range of performance opportunities that our young people would, no doubt, wish to take part in. So, it specifically reduces certain out-of-date restrictions for children under the age of 14, and it allows them to take advantage of the greater range of opportunities that are on offer in the twenty-first century.

Diolch i Jocelyn am y pwyntiau yna. Byddwn yn fwy na pharod i gydymffurfio yn ddiweddarach o ran sicrhau Aelodau ynglŷn â'r materion y mae hi'n eu codi. Yn y bôn, mae'r newidiadau y bydd y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol hwn yn eu galluogi yn gymharol gul. Rwy'n hollol fodlon na fyddai unrhyw gyfyngiad; mewn gwirionedd, byddai'n caniatáu mwy o bwyslais a thrylwyredd o amgylch y mater o ddiogelwch, yn hytrach na phoeni am gategoreiddio'r math o berfformiad. Ceir categorïau arbennig, er enghraifft, yn Neddf 1963 ar gyfer opera a bale, sy'n iawn, ond mae ystod llawer ehangach o gyfleoedd perfformio y byddai ein pobl ifanc, yn ddiau, yn dymuno cymryd rhan ynddynt. Felly, mae'n lleihau'r cyfyngiadau hen ffasiwn penodol ar gyfer plant o dan 14 oed, ac mae'n eu galluogi i fanteisio ar yr amrywiaeth fwy o gyfleoedd sy'n cael eu cynnig yn yr unfed ganrif ar hugain.

I believe that the proposed amendment will benefit children in Wales. It would also focus the licensing process on what is in the child's best interests. What it does not do is to dilute or compromise in any shape or form the safeguarding requirements currently in the system, such as the need for chaperones and so on.

Rwy'n credu y bydd y diwygiad arfaethedig o fudd i blant yng Nghymru. Byddai hefyd yn canolbwyntio'r broses drwyddedu ar yr hyn sydd er lles gorau'r plentyn. Yr hyn nad yw'n ei wneud yw gwanhau na pheryglu mewn unrhyw ffordd y gofynion diogelu sydd ar hyn o bryd yn y system, megis yr angen am hebryngwyr ac yn y blaen.

The regulatory regime applies across a huge range of performance activities, from local dramatic societies and talent shows to major stage productions, to popular tv programmes and films. Repealing section 38 of the Children and Young Persons Act 1963 provides an optimum environment for children aged under 14 to perform in a wider range of performances than are currently available. It will enable children in Wales to take advantage, as I have said, of opportunities not otherwise available to them in what is a diverse and potentially rewarding industry.

Mae'r gyfundrefn reoleiddio yn berthnasol ar draws ystod eang o weithgareddau perfformiad, o gymdeithasau drama lleol a sioeau talent i gynyrchiadau llwyfan mawr, i raglenni teledu poblogaidd a ffilmiau. Mae diddymu adran 38 o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 1963 yn darparu'r amgylchedd gorau posibl ar gyfer plant o dan 14 oed i berfformio mewn ystod ehangach o berfformiadau nag sydd ar gael ar hyn o bryd. Bydd yn galluogi plant yng Nghymru i fanteisio, fel y dywedais, ar gyfleoedd nad ydynt ar gael iddynt fel arall yn yr hyn sy'n ddiwydiant amrywiol ac o bosibl yn un sy'n talu.

So, I ask all Members to support this LCM today and ensure that our children continue to have the same opportunities as children in England to engage in and benefit from the full range of performance opportunities on offer.

Felly, rwy'n gofyn i bob Aelod gefnogi'r Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol hwn heddiw a sicrhau bod ein plant yn parhau i gael yr un cyfleoedd â phlant yn Lloegr i gymryd rhan ac elwa ar yr ystod lawn o gyfleoedd perfformio sydd ar gael.

16:51 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister. The proposal is to agree the motion. Does any Member object? There are no objections, therefore the motion is agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Diolch i chi, Weinidog. Y cynnig yw cytuno ar y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiad, felly, caiff y cynnig ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

## Sicrhau Mynediad Gwell at ein Treftadaeth A'n Diwylliant

*Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliannau 1 a 2 yn enw William Graham, gwelliant 3 yn enw Elin Jones, a gwelliannau 4, 5 a 6 yn enw Aled Roberts.*

## Ensuring Wider Access to our Heritage and Culture

*The following amendments have been selected: amendments 1 and 2 in the name of William Graham, amendment 3 in the name of Elin Jones, and amendments 4, 5 and 6 in the name of Aled Roberts.*

16:51 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Galwaf ar y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon i gynnig y cynnig—John Griffiths.

I call on the Minister for Culture and Sport to move the motion—John Griffiths.

Cynnig NDM5401 Lesley Griffiths

Motion NDM5401 Lesley Griffiths

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn cydnabod pwysigrwydd ehangu mynediad i dreftadaeth a diwylliant I bawb, gan annog pobl o bob rhan o gymdeithas i gymeryd rhan a sicrhau bod unrhyw rwystrau i gyfranogi yn cael eu dileu.

1. Recognises the importance of widening access to heritage and culture for all, encouraging people from all walks of life to take part and ensuring that the barriers to participation are removed.

2. Nodi'r gwaith sy'n cael ei gyflawni gan ein sector treftadaeth a diwylliant I wella mynediad ac i sicrhau y gall bawb yng Nghymru gymeryd rhan mewn gweithgarwch ddiwylliannol, neu gael mynediad i'n safleoedd treftadaeth a chael profiad gwerthfawr.

2. Notes the work carried out by our heritage and culture sector to improve access and to ensure everyone in Wales can engage in cultural activity, or access our great heritage sites and have a rewarding experience.

3. Nodi y bydd Llywodraeth Cymru yn parhau'r gwaith o gryfhau'r dull hwn o weithio drwy ddatblygu proses o weithio mewn partneriaeth effeithiol ar draws bob adran a chyda'r sector treftadaeth a diwylliant yng Nghymru yn ehangach.

3. Notes the Welsh Government will continue the work of strengthening this approach by developing effective partnership working across departments and with the wider heritage and cultural sector in Wales.

16:51 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon / The Minister for Culture and Sport*

Diolch yn fawr, Dirprwy Lywydd.

Thank you, Deputy Presiding Officer.

I move the motion.

Cynigiaf y cynnig.

We are rightly proud of our culture and heritage as part of what makes us unique as a nation. Wales is fortunate to possess a wide range of heritage and cultural assets, from superb museum collections, theatres, archives and libraries to world heritage sites. Culture delivers benefits on many levels, including making an important contribution to economic and social outcomes. Despite these difficult times, I am determined to ensure a clear strategic direction in extending access to innovative cultural services for all, including our many visitors to Wales.

Rydym yn falch o’n diwylliant a’n treftadaeth fel rhan o’r hyn sy’n ein gwneud yn unigryw fel cenedl. Mae Cymru’n ffodus i feddu ar ystod eang o asedau treftadaeth a diwylliannol, o gasgliadau amgueddfeydd, theatrau, archifau a llyfrgelloedd gwych i safleoedd treftadaeth y byd. Mae diwylliant yn rhoi manteision ar sawl lefel, gan gynnwys gwneud cyfraniad pwysig at ganlyniadau economaidd a chymdeithasol. Er gwaethaf yr amseroedd anodd hyn, rwy’n benderfynol o sicrhau cyfeiriad strategol clir wrth ymestyn mynediad at wasanaethau diwylliannol arloesol i bawb, gan gynnwys ein hymwelwyr niferus â Chymru.

This is at the heart of our approach to policy. Quite apart from the intrinsic benefits, participation in cultural activity boosts people’s life chances and skills such as literacy, and inspires children to learn. Widening access is therefore part of our action to tackle poverty. This is why, last July, I appointed Baroness Kay Andrews to review the contribution of our cultural and heritage bodies towards efforts to tackling poverty. Her report is expected shortly, and I am sure it will help us to focus and strengthen joint working to encourage participation by disadvantaged sections of our society. We also recently received Dai Smith and his team’s report on arts and education. Stimulating interest in all of our schoolchildren is its prime objective, and we will be responding as a Government in short order.

Mae hyn wrth wraidd ein hagwedd at bolisi. Ar wahân i’r manteision cynhenid, mae cymryd rhan mewn gweithgarwch diwylliannol yn rhoi hwb i gyfleoedd bywyd pobl a sgiliau fel llythrennedd, ac yn ysbrydoli plant i ddysgu. Felly mae ehangu mynediad yn rhan o’n camau gweithredu i drechu tlodi. Dyma pam, fis Gorffennaf diwethaf, y penodais y Farwnes Kay Andrews i adolygu cyfraniad ein cyrff diwylliannol a threftadaeth at ymdrechion i drechu tlodi. Disgwylir ei hadroddiad yn fuan, ac rwy’n siŵr y bydd yn ein helpu i ganolbwyntio a chryfhau gweithio ar y cyd i annog cyfranogiad gan adrannau difreintiedig yn ein cymdeithas. Rydym hefyd wedi derbyn adroddiad Dai Smith a’i dîm ar y celfyddydau ac addysg yn ddiweddar. Ysgogi diddordeb ym mhob un o’n plant ysgol yw ei brif amcan, a byddwn yn ymateb fel Llywodraeth yn fuan iawn.

We will build on a deal of good work taking place. National Museum Wales is leading innovative research on a UK basis to address the impact of poverty on children. Working with Communities First areas, the 'Just Bling' project was an opportunity to open up our cultural centres to new audiences.

Byddwn yn adeiladu ar lawer o waith da sy'n digwydd. Mae Amgueddfa Genedlaethol Cymru yn arwain ymchwil arloesol ar sail y DU i fynd i'r afael ag effaith tlodi ar blant. Gan weithio gydag ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf, mae'r prosiect 'Just Bling' yn gyfle i agor ein canolfannau diwylliannol i gynulleidfaoedd newydd.

Kids in Museums is a charity that has pioneered methods to make museums more child-friendly in their delivery of services. In November, Kids in Museums co-ordinated the second Welsh Taking Over Museums Day, with over 600 children taking part across the country.

Mae Plant mewn Amgueddfeydd yn elusen sydd wedi arloesi dulliau i wneud amgueddfeydd yn fwy ystyriol o blant wrth ddarparu gwasanaethau. Ym mis Tachwedd, cyd-drefnodd Plant mewn Amgueddfeydd ail Ddiwrnod Meddiannu Amgueddfeydd Cymru, gyda dros 600 o blant yn cymryd rhan ledled y wlad.

Our small museums are particularly vulnerable to budget pressures, but we know that collaboration under the national museums strategy demonstrates another way forward. The partnership of museums in north-east Wales is mutually supportive and more resilient than before.

Mae ein hamgueddfeydd bychain yn arbennig o agored i bwysau cyllidebol, ond rydym yn gwybod bod cydweithio o dan y strategaeth amgueddfeydd genedlaethol yn dangos ffordd arall ymlaen. Mae'r bartneriaeth o amgueddfeydd yn y gogledd-ddwyrain yn cefnogi ei gilydd ac yn gryfach nag o'r blaen.

The Welsh Government's 'Libraries Inspire' strategy places participation at the centre of its delivery plan. Together with the Minister for Education and Skills, I will shortly be implementing the first national scheme to offer library membership to every child in Wales.

Mae strategaeth 'Llyfrgelloedd yn Ysbrydoli' Llywodraeth Cymru yn gosod cyfranogiad yng nghanol ei gynllun cyflawni. Ynghyd â'r Gweinidog Addysg a Sgiliau, byddaf yn gweithredu'r cynllun cenedlaethol cyntaf yn fuan i gynnig aelodaeth o lyfrgell i bob plentyn yng Nghymru.

Cadw is working hard to increase community participation in hands-on experiences at monuments in its care and through the community archaeology programme. This programme provides opportunities for young people and those who have not previously thought that heritage was for them. There has also been some archaeology work with young offenders in Parc prison to re-engage and rehabilitate.

Mae Cadw yn gweithio'n galed i gynyddu cyfranogiad cymunedol mewn profiadau ymarferol mewn henebion dan ei ofal a thrwy'r rhaglen archaeoleg gymunedol. Mae'r rhaglen yn rhoi cyfleoedd i bobl ifanc a'r rhai nad ydynt wedi meddwl o'r blaen bod treftadaeth yn ymwneud â nhw. Bu rhywfaint o waith archaeoleg hefyd gyda throseddwyr ifanc yng ngharchar y Parc i ail-ymgysylltu ac adsefydlu.

Last year, the Arts Council of Wales supported the very successful Nights Out programme, where local touring companies gave over 500 performances in small venues, bringing live theatre to communities. The council's strategic partnerships with local authorities and other bodies demonstrate how collaboration enables much more to be done. I would like to see every adult, child and young person in Wales enjoying, learning and being inspired by our history, heritage and culture. Schemes such as the ones mentioned provide this sort of opportunity.

Flwyddyn ddiwethaf, cefnogodd Cyngor Celfyddydau Cymru y rhaglen Nosweithiau Allan llwyddiannus iawn, lle rhoddodd cwmnïau teithiol lleol dros 500 o berfformiadau mewn lleoliadau bach, gan ddod â theatr fyw i gymunedau. Mae partneriaethau strategol y cyngor gydag awdurdodau lleol a chyrff eraill yn dangos sut y mae cydweithredu yn galluogi gwneud llawer mwy. Hoffwn weld pob oedolyn, plentyn a pherson ifanc yng Nghymru yn mwynhau, yn dysgu ac yn cael eu hysbrydoli gan ein hanes, ein treftadaeth a'n diwylliant. Mae cynlluniau fel y rhai a grybwyllwyd yn darparu'r math hwn o gyfle.

Volunteering is crucial to all aspects of Welsh life and provides valuable opportunities for individuals of all ages to engage socially with others, to learn new skills and to pass on their own expertise. Many of our cultural organisations offer these opportunities, from the annual Open Doors events organised by the Civic Trust and Cadw, to digital conservation in archives, researching in the National Library of Wales and running independent museums or reading stories in libraries. Community cohesion is greatly strengthened by participation in cultural activities.

Mae gwirfoddoli yn hanfodol i bob agwedd ar fywyd Cymru ac yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i unigolion o bob oed i ymwneud yn gymdeithasol gydag eraill, i ddysgu sgiliau newydd ac i drosglwyddo eu harbenigedd eu hunain. Mae llawer o'n sefydliadau diwylliannol yn cynnig y cyfleoedd hyn, o'r digwyddiadau Drysau Agored blynyddol a drefnir gan yr Ymddiriedolaeth Ddinesig a Cadw, i gadwraeth ddigidol mewn archifau, ymchwilio yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru a rhedeg amgueddfeydd annibynnol neu ddarllen straeon mewn llyfrgelloedd. Mae cydlyniant cymunedol yn cael ei gryfhau yn helaeth trwy gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol.

Ensuring physical access, so that everyone is able to visit and enjoy our cultural and historic locations, is a priority. In partnership with sectoral bodies and disability groups, CyMAL: Museums, Archives and Libraries Wales is supporting a scheme to standardise the information provided on websites about physical access, improving the experience for disabled visitors. Cadw is developing an integrated approach to visitor access and safety, which includes a new programme of access audits to Cadw sites. This approach is exemplified by the Taking Flight Theatre Company, which produces plays at a number of Cadw's monuments. All productions are created using an integrated cast of disabled and non-disabled professional actors and the productions are supported or interpreted with British Sign Language. I have emphasised the importance of this approach in my historic environment strategy, so that heritage sites are accessible and enjoyable places for visitors to Wales and for people living here.

Mae sicrhau mynediad ffisegol, fel bod pawb yn gallu ymweld a mwynhau ein lleoliadau diwylliannol a hanesyddol, yn flaenoriaeth. Mewn partneriaeth â chyrff sectoraidd a grwpiau anabledd, mae CyMAL: Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Cymru yn cefnogi cynllun i safoni'r wybodaeth a ddarperir ar wefannau am fynediad ffisegol, gan wella'r profiad ar gyfer ymwelwyr anabl. Mae Cadw yn datblygu dull integredig o fynediad a diogelwch ymwelwyr, sy'n cynnwys rhaglen newydd o archwiliadau mynediad ar gyfer safleoedd Cadw. Ceir enghraifft o'r dull hwn gan Gwmni Theatr Taking Flight, sy'n cynhyrchu dramâu mewn nifer o henebion Cadw. Mae'r holl gynyrchiadau yn cael eu creu gan ddefnyddio cast integredig o actorion proffesiynol anabl a'r rhai nad ydynt yn anabl ac mae'r cynyrchiadau yn cael eu hategu neu eu dehongli drwy Iaith Arwyddion Prydain. Rwyf wedi pwysleisio pwysigrwydd y dull hwn yn fy strategaeth amgylchedd hanesyddol, fel bod safleoedd treftadaeth yn fannau hygyrch a difyr i ymwelwyr i Gymru ac i bobl sy'n byw yma.

In contemporary Wales, technology provides opportunities to extend access to culture and heritage to new audiences. Social media enables everyone to share their memories and stories and our cultural organisations are increasingly able to open up access to the national collections. The national library has pioneered the digitisation of iconic manuscripts, Welsh newspapers, diaries, books and photographs. Welsh libraries provide free access to e-books, e-magazines, newspapers and family history resources. I am keen to develop a coherent national digital library service, available in the home, school, library and workplace.

Yn y Gymru gyfoes, mae technoleg yn darparu cyfleoedd i ehangu mynediad i ddiwylliant a threftadaeth i gynulleidfaoedd newydd. Mae cyfryngau cymdeithasol yn galluogi pawb i rannu eu hatgofion a'u straeon ac mae ein sefydliadau diwylliannol yn gynyddol yn gallu agor mynediad i'r casgliadau cenedlaethol. Mae'r llyfrgell genedlaethol wedi arloesi digideiddio llawysgrifau eiconig, papurau newydd Cymru, dyddiaduron, llyfrau a ffotograffau. Mae llyfrgelloedd Cymru yn darparu mynediad am ddim i e-lyfrau, e-gylchgronau, papurau newydd ac adnoddau hanes teulu. Rwy'n awyddus i ddatblygu gwasanaeth llyfrgell digidol cenedlaethol cydlynol, sydd ar gael yn y cartref, yr ysgol, yn y llyfrgell ac yn y gweithle.

Museums and archives are also developing new virtual collections. The People's Collection Wales programme provides support and expertise for our community digitisation schemes, working with the Communities 2.0 digital skills programme. Mobile access is increasingly popular and, in November 2013, I launched the Archwilio app, the first of its kind, which provides access on the move to the regional historic environment records available through the Archwilio website.

Mae amgueddfeydd ac archifau hefyd yn datblygu casgliadau rhithwir newydd. Mae rhaglen Casgliad y Werin Cymru yn darparu cefnogaeth ac arbenigedd ar gyfer ein cynlluniau digido cymunedol, gan weithio gyda'r rhaglen 2.0 sgiliau digidol Cymunedau. Mae mynediad symudol yn gynyddol boblogaidd ac, ym mis Tachwedd 2013 lansiais yr ap Archwilio, y cyntaf o'i fath, sy'n darparu mynediad, pan eich bod yn symud, at gofnodion yr amgylchedd hanesyddol rhanbarthol sydd ar gael drwy'r wefan Archwilio.

Extending access is, therefore, a fundamental element of my strategy for culture and heritage and this will continue. More needs to be done to encourage collaboration and joint working to develop resilient services in difficult times, and I take encouragement from the good work already achieved. We need to reach everyone in Wales to spread the benefits and widen life experiences. I look to our cultural and heritage bodies to work with me in delivering this key objective.

Mae ymestyn mynediad, felly, yn elfen sylfaenol o fy strategaeth ar gyfer diwylliant a threftadaeth a bydd hyn yn parhau. Mae angen gwneud mwy i annog cydweithio a gweithio ar y cyd i ddatblygu gwasanaethau cryf mewn cyfnod anodd, ac rwy'n cael fy nghalonogi gan y gwaith da a gyflawnwyd eisoes. Mae angen i ni gyrraedd pawb yng Nghymru i ledaenu manteision ac ehangu profiadau bywyd. Disgwyliaf i'n cyrff diwylliannol a threftadaeth weithio gyda mi wrth gyflawni'r amcan allweddol hwn.

17:00

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rwyf wedi dethol y chwe gwelliant i'r cynnig, a galwaf ar Suzy Davies i gynnig gwelliannau 1 a 2 a gyflwynwyd yn enw William Graham.

I have selected the six amendments to the motion and I call on Suzy Davies to move amendments 1 and 2 tabled in the name of William Graham.

*Gwelliant 1—William Graham*

*Amendment 1—William Graham*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn nodi'r ymgynghoriad ystyrlon, 'Dyfodol ein Gorffennol', ac yn croesawu dylanwad yr ymatebion hynny ar benderfyniad y Gweinidog ynghylch dyfodol Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru.*

*Notes the meaningful consultation 'The Future of Our Past' and welcomes the influence of those responses on the Minister's decision regarding the future of the Royal Commission on the Ancient and Historic Monuments for Wales.*

*Gwelliant 2—William Graham*

*Amendment 2—William Graham*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau prosesau monitro ac adrodd cyson ar gyfer yr holl gamau a gymerir i annog pobl i ymwneud mwy â threftadaeth a diwylliant ac i gyfrannu mwy atynt, a fydd yn ddigon i ddarparu gwerthusiad cadarn.*

*Calls on the Welsh Government to ensure consistent monitoring and reporting processes for all measures to widen engagement and participation in heritage and culture, sufficient to provide robust evaluation.*

17:00

## Suzy Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I move amendments 1 and 2 in the name of William Graham.

Cynigiaf welliannau 1 a 2 yn enw William Graham.

I thank the Government for bringing forward this debate today. The Welsh Conservatives have no argument with the three points raised in this motion, which simply note that the Government is doing something and that it will be building on that something. What I hope it will not be doing is using widening access to heritage landscape as a back-door argument for doing away with the voluntary agreements regarding the use of waterways. We believe that the robust evaluation processes that we call for in amendment 2, if you use them, may mean that you have the evidence to be a little more self-congratulatory with your motions from now on, Minister. Nevertheless, we do appreciate the modesty captured by the motion—this is the second chance I have had in a week, I think, to urge your Cabinet colleagues to follow your good practice.

Diolchaf i'r Llywodraeth am gyflwyno'r ddadl hon heddiw. Nid oes gan y Ceidwadwyr Cymreig unrhyw ddadl gyda'r tri phwynt a godwyd yn y cynnig hwn, sy'n syml yn nodi bod y Llywodraeth yn gwneud rhywbeth ac y bydd yn adeiladu ar y rhywbeth hwnnw. Yr hyn yr wyf yn gobeithio na fydd yn ei wneud yw defnyddio mynediad wedi'i ehangu i dirwedd treftadaeth fel dadl drws cefn ar gyfer gwneud i ffwrdd â'r cytundebau gwirfoddol ynghylch y defnydd o ddyfrffyrdd. Rydym yn credu y gall y prosesau gwerthuso cadarn yr ydym yn galw amdanynt yng ngwelliant 2, os byddwch yn eu defnyddio, olygu bod gennych y dystiolaeth i longyfarch eich hunan ychydig yn fwy gyda'ch cynigion o hyn ymlaen, Weinidog. Serch hynny, rydym yn gwerthfawrogi'r symlrwydd a gipiwyd gan y cynnig—dyma'r ail gyfle yr wyf wedi ei gael mewn wythnos, rwy'n credu, i annog eich cydweithwyr yn y Cabinet i ddilyn eich arfer da.

The same amendment mentions consistent monitoring and reporting processes, and I am grateful to you, Minister, for updating us on progress today. In your statement last week, you were kind enough to acknowledge that all parties value our culture and heritage, and I will always be pleased to support your work where I can see that it has a positive effect. My concern is that, sometimes, it can be a little difficult to see what is working. Even today, you have told us an awful lot about some very welcome activity but not an awful lot about what it is actually achieving.

Mae'r un gwelliant yn sôn am brosesau monitro ac adrodd cyson, ac rwy'n ddiolchgar ichi, Weinidog, am roi'r diweddaraf i ni ar y cynnydd heddiw. Yn eich datganiad yr wythnos diwethaf, roeddech yn ddigon caredig i gydnabod bod pob plaid yn gwerthfawrogi ein diwylliant a'n treftadaeth, a byddaf bob amser yn falch o gefnogi eich gwaith lle gallaf weld ei fod yn cael effaith gadarnhaol. Fy mhryder yw, weithiau, y gall fod braidd yn anodd gweld beth sy'n gweithio. Hyd yn oed heddiw, rydych wedi dweud llawer iawn am weithgaredd i'w groesawu'n fawr, ond fawr iawn am yr hyn y mae'n ei gyflawni mewn gwirionedd.

In your 2013 programme for government update, we have a one-and-a-half-page summary, which sets out briefly the mixed picture of the levels of participation in various heritage and cultural experiences and a little bit about the money spent. So, for more information, I went to the performance indicator pages in the programme for government, which I hoped was where I might find out a little bit more about the outcomes and evaluation of your activity. I have a few here. We have two lines on visits to Cadw monuments that blame the weather and economic climate for a drop in figures. We have five lines on the heritage tourism project, which actually finishes this year. We have four lines on the strategic delivery plans for the museum, library and archive sectors, which just say that CyMAL appointed someone in 2012 to evaluate Libraries Inspire. There is nothing in the indicators to suggest that there might be an interim report to comment on local authorities looking at the kind of partnerships with the voluntary sector that the strategy actually hoped to avoid. We have three lines on the same company delivering an evaluation framework to assess the museum strategy, which, again, comes to an end next year.

Yn eich rhaglen 2013 ar gyfer gwybodaeth ddiweddaraf y llywodraeth, mae gennym grynodeb un dudalen a hanner, sy'n gosod yn gryno y darlun cymysg o'r lefelau cyfranogiad mewn gwahanol brofiadau treftadaeth a diwylliannol ac ychydig am yr arian a wariwyd. Felly, i gael mwy o wybodaeth, es i i'r tudalennau dangosydd perfformiad yn y rhaglen ar gyfer llywodraethu, lle'r oeddwn yn gobeithio y gallwn gael gwybod ychydig mwy am ganlyniadau a gwerthusiad eich gweithgaredd. Mae gen i rywfaint yma. Mae gennym ddwy linell ar ymweliadau â henebion Cadw sy'n rhoi'r bai ar y tywydd a'r hinsawdd economaidd am y gostyngiad yn y ffigurau. Mae gennym bum llinell ar y prosiect twristiaeth treftadaeth, sydd mewn gwirionedd yn gorffen eleni. Mae gennym bedair llinell ar y cynlluniau cyflawni strategol ar gyfer y sectorau amgueddfeydd, llyfrgelloedd ac archifau, sydd ddim ond yn dweud bod CyMAL wedi penodi rhywun yn 2012 i werthuso Llyfrgelloedd yn Ysbrydoli. Nid oes unrhyw beth yn y dangosyddion i awgrymu y gallai fod adroddiad dros dro i roi sylwadau ar awdurdodau lleol yn edrych ar y math o bartneriaethau gyda'r sector gwirfoddol yr oedd y strategaeth mewn gwirionedd yn gobeithio eu hosgoi. Mae gennym dair llinell ar yr un cwmni yn darparu fframwaith gwerthuso i asesu'r strategaeth amgueddfeydd, sydd, unwaith eto, yn dod i ben y flwyddyn nesaf.

So, while the quantitative statistics are helpful, Minister, it is the qualitative data that tell us whether your strategic aims are being met, and, while I can see increases and decreases in participation rates, I cannot tell whether that participation is helping to combat both the causes and symptoms of poverty, for example, although I do appreciate that you mentioned in your speech earlier that there is a report due imminently on that. The little information that I do see, though, suggests that there is a gap still when it comes to participation rates between the wider population and those from deprived backgrounds.

Felly, tra bod yr ystadegau meintiol yn ddefnyddiol, Weinidog, y data ansoddol sy'n dweud wrthym a yw eich nodau strategol yn cael eu cyflawni, ac, er fy mod yn gallu gweld cynnydd a gostyngiad mewn cyfraddau cyfranogiad, ni allaf ddweud a yw'r cyfranogiad hwnnw'n helpu i wrthsefyll achosion a symptomau tlodi, er enghraifft, er fy mod yn gwerthfawrogi eich bod wedi sôn yn eich araith yn gynharach bod adroddiad i fod ar gael yn fuan ar hynny. Mae'r ychydig wybodaeth yr wyf yn gallu ei gweld, fodd bynnag, yn awgrymu bod bwlch o hyd pan ddaw at gyfraddau cyfranogiad rhwng y boblogaeth ehangach a'r rheiny o gefndiroedd difreintiedig.

On the pan-Wales heritage interpretation plan, have the evaluation results of that been shared with partners as it was said they would be? What is the news on your 2013 lifelong learning strategy, which, in terms of monitoring, referred mainly to methods that have not worked before. If this Assembly is all about delivery, as the First Minister has said, can it also be about transparency so that we may praise you when you get it right but hold you to account, Minister, when, perhaps, you do not?

Ar y cynllun dehongli treftadaeth Cymru gyfan, a yw canlyniadau'r gwerthuso hwnnw wedi cael eu rhannu gyda phartneriaid fel y dywedwyd y byddent? Beth yw'r newyddion ar eich strategaeth dysgu gydol oes 2013, a oedd, o ran monitro, yn cyfeirio'n bennaf at ddulliau nad ydynt wedi gweithio o'r blaen. Os yw'r Cynulliad hwn yn ymwneud â chyflawni, fel y mae'r Prif Weinidog wedi ei ddweud, gall hefyd fod yn ymwneud â thryloywder fel y gallwn eich canmol chi pan fyddwch yn cael pethau'n iawn, ond yn eich dwyn i gyfrif, Weinidog, pan, efallai, nad ydych?

Turning to amendments 1, 4 and 5 on the royal commission, as Bethan Jenkins said last week, the decision you have made is all the better for you having listened, and I hope it is one that is not going to be influenced by the contrary views expressed in the Williams report yesterday. Amendment 1 was tabled specifically to acknowledge the quality of the consultation and the level of consideration of the responses because it was a nice change. We see a lot of cosmetic consultations. Members may wish to check out the Bridgend County Borough Council's attempt on school buses, for example, if they want to see something more familiar.

Gan droi at welliannau 1, 4 a 5 ar y comisiwn brenhinol, fel y dywedodd Bethan Jenkins yr wythnos diwethaf, mae'r penderfyniad yr ydych wedi'i wneud gymaint yn well am eich bod wedi gwrando, ac rwy'n gobeithio ei fod yn un nad yw'n mynd i gael ei ddylanwadu gan y safbwyntiau croes a fynegwyd yn adroddiad Williams ddoe. Cynigiwyd gwelliant 1 yn benodol i gydnabod ansawdd yr ymgynghoriad a lefel ystyriaeth yr ymatebion oherwydd ei fod yn newid braf. Rydym yn gweld llawer o ymgynghoriadau cosmetig. Efallai y bydd aelodau'n dymuno edrych ar ymgais Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar fysiau ysgol, er enghraifft, os ydynt am weld rhywbeth mwy cyfarwydd.

While we will be resisting immediate support for Plaid's idea for heritage apprenticeships until we know a little bit more about them—and we look forward to hearing more about those today—I note that in the Government's heritage debate in October 2012 your predecessor Minister confirmed that it was one of his four priorities that heritage skills and learning opportunities be embraced. Alun Ffred Jones drew attention to the fact that there are only a few companies here in Wales that specialise in maintenance and restoration work, so the financial benefit of work often tends to be felt outside Wales. Perhaps, Minister, you could tell us how you followed up on the traditional building skills summit in March.

Er na fyddwn yn rhoi cefnogaeth ar unwaith i syniad y Blaid ar gyfer prentisiaethau treftadaeth hyd nes ein bod yn gwybod ychydig mwy amdanynt—ac rydym yn edrych ymlaen at glywed mwy am y rheini heddiw—nodaf yn y ddadl treftadaeth y Llywodraeth ym mis Hydref 2012 y cadarnhaodd eich rhagflaenydd fel Gweinidog ei mai un o'i bedair blaenoriaeth oedd cofleidio sgiliau treftadaeth a chyfleoedd dysgu. Tynnodd Alun Ffred Jones sylw at y ffaith mai prin yw'r cwmnïau sydd yma yng Nghymru sy'n arbenigo mewn cynnal a chadw a gwaith adfer, felly mae budd ariannol gwaith yn aml yn tueddu i gael ei deimlo y tu allan i Gymru. Efallai, Weinidog, y gallech ddweud wrthym sut yr ydych wedi gwneud gwaith dilynol ar yr uwchgynhadledd sgiliau adeiladu traddodiadol ym mis Mawrth.

We will support amendment 6, as we did in December. It complements are our own idea of repatriation of heritage and cultural items of interest to Wales. With both the Mostyn gallery and, in my region, the Glynn Vivian Art Gallery being part of the Plus Tate network, maybe there will be something in Hyundai's 11-year new sponsorship deal with the Tate Modern that might release some money that will be of advantage to us in that regard.

Byddwn yn cefnogi gwelliant 6, fel y gwnaethom ym mis Rhagfyr. Mae'n ategu ein syniad ni ein hunain o ddychwelyd eitemau treftadaeth ddiwylliannol o ddiddordeb i Gymru. Gan fod oriel Mostyn ac, yn fy rhanbarth i, Oriel Gelf Glynn Vivian yn rhan o'r rhwydwaith Plus Tate, efallai bydd rhywbeth yng nghytundeb nawdd 11 mlynedd newydd Hyundai gyda'r Tate Modern a allai ryddhau rhywfaint o arian a fydd o fantais i ni yn hynny o beth.

*Gwelliant 3—Elin Jones*

*Amendment 3—Elin Jones*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:*

*Calls on the Welsh Government to:*

*a) sicrhau ein bod yn cadw arbenigedd yn ein sefydliadau treftadaeth fel na fyddwn yn colli'r gallu i ddehongli ein gorffennol yn sgîl colli swyddi.*

*a) ensure that expertise is maintained in our heritage institutions so that interpretation of our past is not lost as a consequence of staff redundancies.*

*b) cyflwyno prentisiaethau treftadaeth fel ffordd o sicrhau bod ein dealltwriaeth o'n treftadaeth yn cael ei throsglwyddo i genedlaethau'r dyfodol.*

*b) introduce heritage apprenticeships as a means of ensuring that the understanding of our heritage is passed on to future generations.*

17:05

## Bethan Jenkins Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I move amendment 3.

Cynigiaf welliant 3.

Obviously, all of us who are interested in the heritage and cultural sector are pleased to take part in this debate today, but I was disappointed with what the Minister said in that he did not really say anything new. I hoped that we would have something more meaty that we could discuss here, given that the Minister said that there are two reports that he is waiting on, and that he will respond in due course. Why do we not wait to have a debate like this when we have something constructive to debate?

Yn amlwg, mae pob un ohonom sydd â diddordeb yn y sector treftadaeth a diwylliannol yn falch o gymryd rhan yn y ddadl hon heddiw, ond roeddwn yn siomedig â'r hyn a ddywedodd y Gweinidog o ran na ddywedodd unrhyw beth newydd mewn gwirionedd. Roeddwn wedi gobeithio y byddem yn cael rhywbeth mwy swmpus y gallem ei drafod yma, o ystyried bod y Gweinidog wedi dweud bod dau adroddiad y mae'n aros amdanynt, ac y bydd yn ymateb maes o law. Pam nad ydym yn aros i gael dadl fel hon pan fydd gennym rywbeth adeiladol i'w drafod?

We are also waiting on a consultation on libraries. Minister, libraries are closing all over Wales. If the consultation that you are administering on libraries is to mean anything, there has to be some sort of moratorium on those closures. We cannot discuss the accessibility of libraries at the same time as closing them in our everyday communities.

Rydym hefyd yn aros am ymgynghoriad ar lyfrgelloedd. Weinidog, mae llyfrgelloedd yn cau ledled Cymru. Os yw'r ymgynghoriad yr ydych yn ei weinyddu ar lyfrgelloedd i olygu unrhyw beth, mae'n rhaid cael rhyw fath o foratoriwm ar y cau hwnnw. Ni allwn drafod hygyrchedd llyfrgelloedd ar yr un pryd â'u cau yn ein cymunedau bob dydd.

We were obviously very happy with the stance that you took last week with regard to the royal commission. I am sure that many of the amendments that are put forward today by other parties are there purely to reflect the fact that it must be made clear that we do not want any change of decision now that the Williams commission's report has suggested that some sort of amalgamation with Cadw would be ideal. We maintain that we disagree with that and hope that you stick to that decision, Minister.

Rydym yn amlwg yn hapus iawn gyda'r safiad a wnaethoch yr wythnos diwethaf o ran y comisiwn brenhinol. Rwy'n siŵr bod llawer o'r gwelliannau sy'n cael eu cyflwyno heddiw gan bartïon eraill yno yn unig i adlewyrchu'r ffaith fod yn rhaid ei gwneud yn glir nad ydym eisiau unrhyw newid penderfyniad gan fod adroddiad comisiwn Williams wedi awgrymu erbyn hyn y byddai rhyw fath o gyfuno â Cadw yn ddelfrydol. Rydym yn dal i anghytuno â hynny, a gobeithio y byddwch yn cadw at y penderfyniad hwnnw, Weinidog.

The amendment that we have tabled is reflective of lots of meetings that I have had within the heritage sector. It has not come from me, per se, but I have supported the call, therefore, to look at how we can grow this particular sector. We are finding that many people are retiring here in Wales—people who have huge specialisms in archives, monuments and so forth—but because they are retiring, or because redundancies are being made in certain areas like the national museum, or in the national library or the royal commission, those positions are not being taken up. We are seeing the perverse situation of those who have specialisms coming back either as consultants or as volunteers. We need to look to bring new people through—those young people who are very keen on and want to understand their own histories, but who, at the moment, are not finding that they have any job prospects within the heritage sector in Wales. When I spoke to staff last week via the trade union Prospect, that came out loud and clear. They said that they were very worried that the heritage sector would become files on shelves, as opposed to a living entity in the future, if we did not look to come up with ideas for the future.

Mae'r gwelliant yr ydym wedi'i gyflwyno yn adlewyrchu llawer o gyfarfodydd yr wyf wedi'u cael o fewn y sector treftadaeth. Nid yw wedi dod oddi wrthyf fi, fel y cyfryw, ond rwyf wedi cefnogi'r alwad, felly, i edrych ar sut y gallwn dyfu'r sector penodol hwn. Rydym yn gweld bod llawer o bobl yn ymddeol yma yng Nghymru—pobl sydd ag arbenigedd helaeth mewn archifau, henebion ac yn y blaen—ond am eu bod yn ymddeol, neu oherwydd diswyddiadau yn cael eu gwneud mewn rhai meysydd fel yr amgueddfa genedlaethol, neu yn y llyfrgell genedlaethol neu y comisiwn brenhinol, nid yw'r swyddi hynny'n cael eu llenwi. Rydym yn gweld y sefyllfa wrthnysig lle mae rhai ag arbenigeddau yn dod yn ôl naill ai fel ymgynghorwyr neu fel gwirfoddolwyr. Mae angen i ni geisio dod â phobl newydd ymlaen—y bobl ifanc hynny sy'n awyddus iawn ac sydd eisiau deall eu hanes eu hunain, ond nad ydynt, ar hyn o bryd, yn gweld bod ganddynt unrhyw ragolygon o gael swydd o fewn y sector treftadaeth yng Nghymru. Pan siaradais â staff yr wythnos diwethaf drwy gyfrwng yr undeb llafur Prospect, daeth hynny drwodd yn uchel ac yn glir. Maent yn dweud eu bod yn bryderus iawn y byddai'r sector treftadaeth yn dod yn ffeiliau ar silffoedd, yn hytrach nag endid byw yn y dyfodol, os nad ydym yn ceisio dod o hyd i syniadau ar gyfer y dyfodol.

Therefore, the apprenticeship concept that Suzy was excited to hear about was more about us as a party throwing an idea out there. We are looking at apprenticeships in other areas, so why not look at apprenticeships in heritage, too, so that we can encourage our young people to stay in Wales? For example, we have the royal commission in Aberystwyth, and we have the national library in the same town. We want to encourage young people to stay in their own communities, and if they have those specialised jobs in such places, they need not move away and they can stay and raise families in their areas.

Felly, mae'r cysyniad prentisiaeth yr oedd Suzy yn edrych ymlaen at glywed amdano yn ymwneud mwy â ni fel plaid yn taflu syniad allan i'w drafod. Rydym yn edrych ar brentisiaethau mewn meysydd eraill, felly beth am edrych ar brentisiaethau mewn treftadaeth hefyd, fel y gallwn annog ein pobl ifanc i aros yng Nghymru? Er enghraifft, mae gennym y comisiwn brenhinol yn Aberystwyth, ac mae gennym y llyfrgell genedlaethol yn yr un dref. Rydym yn awyddus i annog pobl ifanc i aros yn eu cymunedau eu hunain, ac os oes ganddynt y swyddi arbenigol hynny mewn mannau o'r fath, nid oes angen iddynt symud i ffwrdd a gallant aros a magu teuluoedd yn eu hardaloedd.

What is important for us all to acknowledge is that we are very good at talking about how important these sectors are, but, at the moment, many of these decisions are being made by local authorities. Also, we all know that times are very tough, because of the cuts that we are faced with from Westminster. So, managers, especially with regard to staffing budgets at the national museum, for example, have no choice but to cut those top-level specialist jobs, because those have the biggest salaries. We should not really be putting people in that position, because if we cannot actually record our history effectively, we may find out in the future that we have no history to reference.

Yr hyn sy'n bwysig i ni i gyd ei gydnabod yw ein bod yn dda iawn am sôn am ba mor bwysig yw'r sectorau hyn, ond, ar hyn o bryd, mae llawer o'r penderfyniadau hyn yn cael eu gwneud gan awdurdodau lleol. Hefyd, rydym i gyd yn gwybod bod pethau'n anodd iawn, oherwydd y toriadau yr ydym yn eu hwynebu o San Steffan. Felly, nid oes dewis gan reolwyr, yn enwedig o ran cyllidebau staffio yn yr amgueddfa genedlaethol, er enghraifft, heblaw torri'r swyddi arbenigol lefel uchaf hynny, oherwydd mai'r rheini sy'n cael y cyflogau mwyaf. Ni ddylem mewn gwirionedd fod yn rhoi pobl yn y sefyllfa honno, oherwydd os na allwn gofnodi ein hanes yn effeithiol, mae'n bosibl y byddwn yn gweld yn y dyfodol nad oes gennym hanes i gyfeirio ato.

Those are the points that we want to make as a party, but I urge the Minister, as he is a listening Minister, to think, when we discuss these issues, about what we can constructively bring to the table. We cannot discuss this in a silo, and we have to have answers for those real problems that are facing communities in Wales.

Dyna'r pwyntiau yr ydym yn dymuno eu gwneud fel plaid, ond rwy'n annog y Gweinidog, gan ei fod yn Weinidog sy'n gwrando, i feddwl, pan fyddwn yn trafod y materion hyn, am yr hyn y gallwn ni ei ddwyn ymlaen mewn modd adeiladol. Ni allwn drafod hyn mewn seilo, ac mae'n rhaid inni gael atebion ar gyfer y problemau gwirioneddol hynny sy'n wynebu cymunedau yng Nghymru.

*Gwelliant 4—Aled Roberts*

*Amendment 4—Aled Roberts*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn canmol gwaith Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru, ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau y bydd swyddi'r staff yn ddiogel yn y tymor hir.*

*Commends the work of the Royal Commission on the Ancient and Historical Monuments of Wales and calls on the Welsh Government to ensure long-term security for its staff.*

*Gwelliant 5—Aled Roberts*

*Amendment 5—Aled Roberts*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gynorthwyo Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru i ymchwilio i'r broses o gael statws elusennol.*

*Calls on the Welsh Government to provide support for the Royal Commission on the Ancient and Historical Monuments of Wales to investigate obtaining charitable status.*

*Gwelliant 6—Aled Roberts*

*Amendment 6—Aled Roberts*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gydag amgueddfeydd, orielau a chasgliadau celf a threftadaeth eraill i sicrhau y gellir rhoi benthyg eitemau nad ydynt yn cael eu harddangos yng Nghymru i gyfleusterau eraill.*

*Calls on the Welsh Government to work with museums, galleries and other collections of art and heritage to ensure that items which are not on display in Wales can be loaned to other facilities.*

17:10

## Eluned Parrott Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I move amendments 4, 5 and 6.

Cynigiaf welliannau 4, 5 a 6.

I, too, would like to thank the Minister for bringing this debate forward today. One of my favourite poems is 'Ozymandias' by Shelley, and if you do not know it, it tells of a shattered, ancient statue lying forgotten in a desert. I have been to Egypt and seen the statue, lying in the corner of a farmer's field, with crops growing out of the middle of it, and I have to say that a lot less remains of it now than in the poem, but part of it is on display in the British Museum. The justification for 'rescuing' these kinds of artefacts, some 200 years ago, was that we valued culture, we valued heritage and we would care for these very special things.

Hoffwn innau, hefyd, ddiolch i'r Gweinidog am ddod â'r ddadl hon gerbron heddiw. Un o fy hoff gerddi yw 'Ozymandias' gan Shelley, ac os nad ydych yn gwybod amdani, mae'n sôn am gerflun hynafol , wedi'i chwalu, yn gorwedd yn angof mewn anialwch. Rwyf wedi bod yn yr Aifft ac wedi gweld y cerflun, yn gorwedd yng nghornel cae ffermwr, gyda chnydau yn tyfu allan o'i ganol, ac mae'n rhaid i mi ddweud bod llawer llai o olion yn awr nag sydd yn y gerdd, ond mae rhan ohono'n cael ei arddangos yn yr Amgueddfa Brydeinig. Y cyfiawnhad dros 'achub' y mathau hyn o arteffactau, rhyw 200 o flynyddoedd yn ôl, oedd ein bod yn gwerthfawrogi diwylliant, roeddem yn gwerthfawrogi treftadaeth a byddem yn gofalu am y pethau arbennig iawn hyn.

However, driving to work this morning through the Vale of Glamorgan, I passed two neolithic barrows, a neolithic tomb, five hill-forts—mostly prehistoric, but some with occupation as recently as the medieval period—at least one Roman villa, a medieval castle, four medieval ring works and, apparently, a moated site as well. Much like the remains of Ozymandias, the majority of these scheduled monuments lie by the roadside or in a farmer's field, passed by thousands of people every day without a second glance, and without ever knowing that they are there. That is where the work of the royal commission is so important in recording and preserving our heritage for future generations.

Fodd bynnag, wrth yrru i'r gwaith y bore yma trwy Fro Morgannwg, es heibio dwy garnedd neolithig, beddrod neolithig, pum bryngaer—cynhanesyddol yn bennaf, ond gyda thrigolion mor ddiweddar â'r cyfnod canoloesol—o leiaf un fila Rufeinig, castell canoloesol, pedwar gwaith cylch canoloesol ac, mae'n debyg, safle amffosog hefyd. Fel gweddillion Ozymandias, mae'r rhan fwyaf o'r henebion cofrestredig hyn yn gorwedd ar ymyl y ffordd neu mewn cae ffermwr, a miloedd o bobl yn mynd heibio iddynt bob dydd heb feddwl ddwywaith, a heb erioed wybod eu bod yno. Dyna pam mae gwaith y comisiwn brenhinol mor bwysig wrth gofnodi a chadw ein treftadaeth ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

My party was therefore delighted, Minister, by your statement clarifying the commission's future, independent of Cadw, but I share the concerns raised by Bethan Jenkins about the long-term future for the royal commission and the important work that it does for all of us. These wonderful places are safe, but they are not, in my view, always as well recognised or well promoted as they might be. In fact, many of these places not only are not advertised, but are actively difficult to find, even if you go out looking for them. There is one such site not a mile from my home, and I do not know where exactly it is, despite having looked for it.

Felly, roedd fy mhlaid yn falch iawn, Weinidog, gyda'ch datganiad yn egluro dyfodol y comisiwn, yn annibynnol ar Cadw, ond rwy'n rhannu'r pryderon a godwyd gan Bethan Jenkins am y dyfodol hirdymor ar gyfer y comisiwn brenhinol a'r gwaith pwysig y mae'n ei wneud dros bob un ohonom . Mae'r mannau gwych hyn yn ddiogel, ond nid ydynt, yn fy marn i, bob amser yn cael eu cydnabod na'u hyrwyddo cystal ag y gallent fod. Yn wir, mae llawer o'r lleoedd hyn nid yn unig heb fod yn cael eu hysbysebu, ond mae'n ymarferol anodd iawn dod o hyd iddynt, hyd yn oed os ydych yn mynd allan i chwilio amdanynt. Mae un safle o'r fath lai na milltir o fy nghartref, ac nid wyf yn gwybod ble yn union y mae, er fy mod wedi chwilio amdano.

I believe that there are now questions that we need to ask in terms of the future and how we move things forward, how we promote these sites and how we can make the most of all of the culture that we have available to us. Cadw has this role officially and yet, while Cadw works very hard to promote the key sites that it directly manages and runs a very respected range of engagement programmes at those sites, much more could be done to give a broader view of Wales's truly exceptional heritage. It is things like the prehistoric heritage in particular that lose out by not being so popular among the Cadw sites as, perhaps, some of the medieval castles that we are all very aware of. One such mechanism for this in the future could be to investigate charitable status for the royal commission, to free it to perform a broader role in promoting the sites on its register, be that through signage, improved maps and historical information or even community engagement projects that could encourage local communities to learn and to understand—

Rwy'n credu bod yna bellach gwestiynau y mae angen i ni eu gofyn o ran y dyfodol, a sut yr ydym yn symud pethau ymlaen, sut yr ydym yn hyrwyddo'r safleoedd hyn a sut y gallwn wneud y mwyaf o'r holl ddiwylliant sydd gennym ar gael i ni. Gan Cadw y mae'r swyddogaeth hon yn swyddogol ac eto, er bod Cadw yn gweithio'n galed iawn i hyrwyddo'r safleoedd allweddol y mae'n eu rheoli yn uniongyrchol ac yn cynnal amrywiaeth uchel ei barch o raglenni ymgysylltu yn y safleoedd hynny, gellid gwneud llawer mwy i roi darlun ehangach o dreftadaeth gwirioneddol eithriadol Cymru. Pethau fel y dreftadaeth gynhanesyddol yn arbennig sydd ar ei cholled drwy beidio â bod mor boblogaidd ymhlith y safleoedd Cadw ag, efallai, rai o'r cestyll canoloesol yr ydym i gyd yn ymwybodol iawn ohonynt. Un mecanwaith o'r fath ar gyfer hyn yn y dyfodol allai fod ymchwilio i statws elusennol ar gyfer y comisiwn brenhinol, i'w ryddhau i gyflawni swyddogaeth ehangach o ran hyrwyddo'r safleoedd ar ei gofrestr, boed hynny trwy arwyddion, gwell mapiau a gwybodaeth hanesyddol neu brosiectau ymgysylltu cymunedol hyd yn oed, a allai annog cymunedau lleol i ddysgu a deall—

17:13 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will you give way?

A wnewch chi ildio?

17:13 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes, of course.

Gwnaf, wrth gwrs.

17:13 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for giving way. You will share my concern about the way that Cadw was very slow to react to the discovery of a prehistoric site just outside Monmouth in my constituency last year, initially thought to be a long house, but there are different theories now. Cadw has since recognised that it misjudged what that site was. Do you agree that Cadw might be good at some things, but we need to make sure that, when it comes to prehistoric sites, it brushes up on its act?

Diolch i chi am ildio. Byddwch yn rhannu fy mhryder am y ffordd yr oedd Cadw yn araf iawn i ymateb i ddarganfyddiad safle cynhanesyddol yn union y tu allan i Drefynwy yn fy etholaeth i y llynedd, y credid yn wreiddiol ei fod yn dŷ hir, ond mae gwahanol ddamcaniaethau erbyn hyn. Ers hynny mae Cadw wedi cydnabod ei fod wedi camfarnu beth oedd y safle. A ydych chi'n cytuno y gallai Cadw fod yn dda am rai pethau, ond mae angen i ni wneud yn siŵr, pan ddaw'n fater o safleoedd cynhanesyddol, ei fod yn gwella ei berfformiad?

17:14 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for that. I am not aware of the specific site, so I am not able to comment on that in particular, but I would say that, in general, Cadw is very good at managing the sites that it runs, but in terms of its broader role in managing the heritage and culture in Wales, more could be done. As I say, I envisage a broader role for the royal commission in this area.

Diolch i'r Aelod am hynna. Nid wyf yn ymwybodol o'r safle penodol, felly nid wyf yn gallu gwneud sylwadau ar hynny yn benodol, ond byddwn yn dweud, yn gyffredinol, bod Cadw yn dda iawn am reoli'r safleoedd y mae'n eu rhedeg, ond o ran ei swyddogaeth ehangach yn rheoli'r dreftadaeth a diwylliant yng Nghymru, gellid gwneud mwy. Fel y dywedais, rwy'n rhagweld swyddogaeth ehangach ar gyfer y comisiwn brenhinol yn y maes hwn.

In terms of engagement with our cultural heritage, it is about much more than access to a site. Engagement would suggest to me that a person experiences a sense of involvement in the place. One great example of this in Cardiff is the Caerau and Ely rediscovering heritage project. I do not know if you have noticed it, but as you drive up the A4232, leaving Cardiff, you will see a church on a hill on the right-hand side, and that is on a prehistoric hill-fort that is one of the forgotten sites that I mentioned.

O ran ymgysylltu â'n treftadaeth ddiwylliannol, mae'n golygu llawer mwy na mynediad i safle. Byddai ymgysylltu yn awgrymu i mi fod person yn profi ymdeimlad o gyfranogiad yn y lle. Un enghraifft wych o hyn yng Nghaerdydd yw'r prosiect ailddarganfod treftadaeth Caerau a Threlái. Nid wyf yn gwybod a ydych wedi sylwi arno, ond wrth i chi yrru i fyny yr A4232, gan adael Caerdydd, fe welwch eglwys ar fryn ar yr ochr dde, ac mae honno ar fryngaer gynhanesyddol sy'n un o'r safleoedd anghofiedig y soniais amdanynt.

There is a fantastic partnership ongoing there at the moment between Cardiff University, local schools and the local community, called the CAER Heritage Project, where they have not only an active academic research site to learn about the site, but learning experiences for young people to give them a positive experience of that kind of learning, along with a community cohesion project attached to it. I think that we should celebrate examples of best practice like that.

Mae partneriaeth wych barhaus yno ar hyn o bryd rhwng Prifysgol Caerdydd, ysgolion lleol a'r gymuned leol, o'r enw Prosiect Treftadaeth CAER, lle mae ganddynt nid yn unig safle ymchwil academaidd gweithredol i ddysgu am y safle, ond profiadau dysgu ar gyfer pobl ifanc i roi profiad cadarnhaol iddynt o'r math hwnnw o ddysgu, ynghyd â phrosiect cydlyniant cymunedol ynghlwm ag ef. Rwy'n meddwl y dylem ddathlu enghreifftiau o arfer gorau fel hyn.

Our final amendment recognises that in Wales we have a wealth of treasures in our museums and galleries, and not just in our built environment. We believe that there is an opportunity here to ensure that those treasures are shared not only with the people of Wales, but further afield to celebrate the true richness of Wales's cultural heritage. I hope that you will give that some consideration, Minister.

Mae ein gwelliant olaf yn cydnabod, bod gennym yng Nghymru, gyfoeth o drysorau yn ein hamgueddfeydd a'n horielau, ac nid dim ond yn ein hamgylchedd adeiledig. Rydym yn credu bod cyfle yma i sicrhau bod y trysorau hynny'n cael eu rhannu nid yn unig â phobl Cymru, ond y tu hwnt i ddathlu gwir gyfoeth treftadaeth ddiwylliannol Cymru. Rwy'n gobeithio y byddwch yn rhoi rhywfaint o ystyriaeth i hynny, Weinidog.

17:15 **Keith Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rwy'n falch o siarad yn y ddadl heddiw. Adlewyrchir ein hanes yn nifer yr amgueddfeydd, cestyll a safleoedd o bwysigrwydd i'n treftadaeth a'n hetifeddiaeth sydd gennym yn sir Gâr, er enghraifft. Credaf fod ein cymysgedd llewyrchus o hanes diwydiannol, cymdeithasol a diwylliannol yn werth ei ddathlu. Mae gan bron bob ardal o Gymru hanes, boed yn ddiweddar neu'n bellach yn ôl, sydd yn dal i fod yn weladwy heddiw.

I am pleased to speak in today's debate. Our history is reflected in the number of museums, castles and sites of importance to our heritage and legacy that we have in Carmarthenshire, for example. I believe that our illustrious blend of industrial, social and cultural heritage is worth celebrating. Almost every part of Wales has its own unique history, be it recent or further back, which is still visible today.

Yr ydym ni yn Llanelli yn agosáu at ddau ddigwyddiad o bwysigrwydd mawr eleni a'r flwyddyn nesaf, yn gyntaf wrth i'r Eisteddfod Genedlaethol ymweld â Llanelli unwaith eto—fel y dywedir, 'Ble mae Llanelli yn arwain…'. Hefyd, os nad yw'n hysbys i bawb eto, mae Cydweli'n dathlu ei nawcanmlwyddiant yn 2015. Pa le gwell i ddathlu ein treftadaeth na Chydweli, gyda'r castell ysblennydd sydd yno, a pha le gwell i ddathlu ein diwylliant grymus, byw a chyfoethog nag yn yr Eisteddfod Genedlaethol?

We in Llanelli are approaching two events of major importance this year and next year, the first of which is the hosting of the National Eisteddfod once again—as is often said, 'Where Llanelli leads…'. If it is not yet known to everyone, Kidwelly will be celebrating its ninth centenary in 2015. Where better to celebrate our heritage than in Kidwelly, with its magnificent castle, and where better to celebrate our powerful, vibrant and rich history than at the National Eisteddfod?

Hoffwn ganolbwyntio ar ddwy thema yn bennaf, sef gweithredu lleol a manteision twristaidd ac economaidd.

There are two main themes on which I wish to focus, which are local action and the advantages for tourism and the economy.

Yn y ddeuddegfed ganrif, cafwyd siarter frenhinol i Gydweli. Yn 2015, bydd Cydweli a Mynydd-y-garreg yn dathlu gyda blwyddyn o ddigwyddiadau a drefnwyd gan gyngor y dref ac asiantaethau lleol. Mae'r calendr ar gael ar wefan y dathliadau ac mae'n cynnwys nifer helaeth o weithgareddau gwahanol. Ymhlith yr hyn sydd ar gynnig gan Gydweli y mae'r pethau yr ydych chi, Weinidog, wedi ymweld â hwy, sef y castell, yr amgueddfa, Capel Sul a'r eglwys. Mae rhai yn fwy cyfarwydd nag eraill; er enghraifft, mae pawb sy'n mynd yno yn gweld y castell, ond nid yw pawb yn or-gyfarwydd â'r amgueddfa ddiwydiannol. Crëwyd y gwaith tunplat ym 1727—yr hynaf-ond-un yng Nghymru, a'r unig un ym Mhrydain sydd yn dal yn sefyll gyda'i beiriannau ac adeiladau 'in situ'. Chwaraeodd Cydweli rôl hanfodol yn stori llwyddiant Tinopolis yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, lle bu Llanelli'n gartref i'r gwaith o gynhyrchu hanner tunplat y byd. Erbyn heddiw, mae'r peiriannau yn dal i fod yno, gydag amgueddfa unigryw sydd wedi'i neilltuo i ddehongli'r diwydiant tunplat yn ogystal â glo.

In the twelfth century, Kidwelly was awarded a royal charter. In 2015, Kidwelly and Mynydd-y-garreg will be celebrating with a year of events organised by the town council and local agencies. The calendar is available on the event's website and includes a vast number of different activities. Among what is on offer in Kidwelly are the things that you, Minister, have visited, namely the castle, the museum, Capel Sul and the church. Some are more familiar than others; for example, everyone who goes to Kidwelly sees the castle, but not everyone knows of the museum of industry. The tinplate works were established in 1727, and they are the oldest-but-one in Wales and the only ones in the UK that still stand with the machines and buildings in situ. Kidwelly played a crucial role in the success story of Tinopolis in the nineteenth century, where Llanelli was home to the production of half of the world's tinplate. These days, the machines can still be seen as part of a unique museum dedicated to the interpretation of the tinplate industry as well as the coal industry.

Rwy'n falch bod y dathliadau wedi derbyn grant o Gronfa Dreftadaeth y Loteri a chymorth gan asiantaethau lleol eraill, a bod y gymuned y tu ôl i'r dathliad ac yn ei gefnogi. Gobeithiwn y daw mwy o arian y flwyddyn nesaf. Felly, mae'n bwysig gallu defnyddio'r berthynas gyda phartneriaid ac asiantaethau, y cyfeirir atynt yn eich strategaeth, i hyrwyddo dathliadau lleol penodol. Mae hefyd yn bwysig bod gwaith ehangu mynediad yn dod i lawr, yn y diwedd, i lefel leol.

I am pleased that the celebrations have received a grant from the Heritage Lottery Fund, that they have the support of local agencies, and that the community is also behind the celebrations with its support. I hope that additional funding will be awarded next year. Therefore, it is important to have the ability to use the relationship with partners and agencies, which are referred to in your strategy, to promote specific local celebrations. It is also important that the work of widening access also, ultimately, comes down to the local level.

Mae'n siŵr nad oes angen imi roi hanes yr Eisteddfod, ond rwy'n edrych ymlaen at glywed ymateb y Llywodraeth i'r adolygiad ar yr Eisteddfod, gan ystyried mai Eisteddfod Sir Gâr, efallai, fydd y cyntaf i'w chynnal wedi i argymhellion yr adolygiad gael eu rhoi ar waith.

I am sure that I do not need to rehearse the history of the Eisteddfod, but I look forward to the Government's response to the review of the Eisteddfod, particularly as the Carmarthenshire Eisteddfod could well be the first to be held following the implementation of the review's recommendations.

Hoffwn yn awr ganolbwyntio ar fanteision economaidd a thwristaidd. Mae'r Eisteddfod ymhlith gwyliau gorau'r byd sy'n dathlu diwylliant. Mae'n denu tua 150,000 o bobl. Y gwir amdani yw ei bod yn fuddiol i'r naill ochr a'r llall. Bydd manteision i'r economi a thwristiaeth leol. Dywedir bod 80% o'r rhai sy'n mynychu Eisteddfod ac yn aros yn yr ardal yn dymuno cymryd rhan mewn digwyddiadau lleol, a bod 96% am dderbyn gwybodaeth amdanynt. Byddai cael stondin wybodaeth ym mhob Eisteddfod am dwristiaeth leol yn helpu gyda hyn.

I now want to concentrate on the economic and tourism implications. The Eisteddfod is one of the most important global festivals celebrating culture. It attracts some 150,000 visitors. The fact of the matter is that it is beneficial for everyone. There will be advantages to the economy and to local tourism. It is said that 80% of those who attend the Eisteddfod and stay in the locality say that they want to take part in local events, and that 96% wish to receive information about those events. Having an information stand at every Eisteddfod about local tourism would help with this.

I orffen, mae digwyddiadau sy'n dechrau gyda threftadaeth a diwylliant lleol yn llesol i bob ardal yng Nghymru. Roeddwn yn falch i ddarllen yr ymatebion cefnogol i'r ymgynghoriad ar ddyfodol ein gorffennol, ac edrychaf ymlaen at weld eich llwyddiant.

To conclude, events that begin with local heritage and culture are beneficial to every area in Wales. I was pleased to read the supportive responses to the consultation on the future of our past, and I look forward to seeing the success of the strategy.

17:19 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am very pleased to take part in this debate today. I think that it is absolutely essential that the arts are integrated as much as possible into our daily lives and that they become part of the texture of our daily lives, and not removed from them. The American writer Henry David Thoreau said that the highest of arts is to affect the quality of the day. We should applaud all of the artists, organisations and partnerships in Wales that lift our ordinary lives into the realm of the extraordinary. The Minister has already referred to the importance of culture and heritage to children, and to all of the efforts that have been made to bring that to children. I was very pleased to join Takeover Cardiff , a museum takeover event, which I thought was very exciting and stimulating. It is very important to widen access to buildings and venues. We should applaud again the Welsh Government's longstanding commitment to providing free access to all of the seven sites operated by the National Museum Wales.

Rwy'n falch iawn o gymryd rhan yn y ddadl hon heddiw. Rwy'n meddwl ei bod yn gwbl hanfodol bod y celfyddydau yn cael eu hintegreiddio gymaint â phosibl yn ein bywydau bob dydd a'u bod yn dod yn rhan o wead ein bywydau bob dydd, ac nid yn cael eu dileu ohonynt. Dywedodd yr awdur Americanaidd Henry David Thoreau mai'r gelfyddyd uchaf yw effeithio ar ansawdd y diwrnod. Dylem gymeradwyo pob un o'r artistiaid, sefydliadau a phartneriaethau yng Nghymru sy'n codi ein bywydau cyffredin i fyd arbennig. Mae'r Gweinidog eisoes wedi cyfeirio at bwysigrwydd diwylliant a threftadaeth i blant, ac at bob un o'r ymdrechion a wnaed i ddod â hynny i blant. Roeddwn yn falch iawn o ymuno â Takeover Caerdydd, digwyddiad meddiannu amgueddfeydd, yr oeddwn yn ei ystyried yn gyffrous ac ysgogol iawn. Mae'n bwysig iawn i ehangu mynediad i adeiladau a lleoliadau. Dylem gymeradwyo eto ymrwymiad hirsefydlog Llywodraeth Cymru i ddarparu mynediad am ddim i bob un o'r saith safle a weithredir gan Amgueddfa Genedlaethol Cymru.

It is also very important to bring the arts into the community and to make culture a part of our daily lives, not apart from it. I still find it exciting when you come down to Cardiff bay, whether you are walking or driving, and you see Gwyneth Lewis's lines on the Wales Millennium Centre. I know that they have been there quite a long time, but I still find it quite thrilling that poetry has been brought into our lives in that sort of way and has inspired us to create truth and let horizons sing. It would be good if we could encourage there to be more poems on buses, for examples. I know that there have been some schemes where there has been poetry on buses, but that is something that could bring arts and culture very close to our lives.

Mae hefyd yn bwysig iawn i ddod â'r celfyddydau i'r gymuned ac i sicrhau bod diwylliant yn rhan o'n bywydau bob dydd, nid ar wahân oddi wrtho. Rwy'n dal yn i deimlo cyffro pan fydd rhywun yn dod i lawr i fae Caerdydd, pa un a ydych yn cerdded neu'n gyrru, ac yn gweld llinellau Gwyneth Lewis ar Ganolfan Mileniwm Cymru. Gwn eu bod wedi bod yno ers amser hir, ond rwy'n dal i'w weld yn gyffrous bod barddoniaeth wedi dod i mewn i'n bywydau yn y ffordd honno ac wedi'n hysbrydoli i greu gwir a gadael i orwelion ganu. Byddai'n dda pe gallem annog mwy o gerddi ar fysiau, er enghraifft. Gwn y bu rhai cynlluniau pryd y bu barddoniaeth ar fysiau, ond mae hynny'n rhywbeth a allai ddod â'r celfyddydau a diwylliant yn agos iawn at ein bywydau.

I was very pleased that a press like Seren Books had a pop-up shop in one of the arcades in Cardiff over Christmas. It took an empty shop and welcomed people in to hear about what it was doing. Again, that was making the arts a part of the ordinary shopping experience. In a village in the Vale, it is very interesting that, in an old red telephone box, there has been a library created. I do not know if that is common, but certainly, there is a village that has a library in an old red telephone box. That is great. We should applaud theatre companies like National Theatre Wales for bringing the theatre into communities with the triumph of 'The Passion' in Port Talbot, in which so many thousands of local people were involved. It has also been involved with communities in Cardiff bay, in Blackwood Miners' Institute and on the coast in Barmouth. Those are the sorts of things that are such triumphs for our arts.

Rwy'n falch iawn bod gwasg fel Seren Books wedi cael siop dros dro yn un o'r arcedau yng Nghaerdydd dros y Nadolig. Cymerodd siop wag a chroesawu pobl i mewn i glywed am yr hyn oedd yn ei wneud. Unwaith eto roedd hynny'n gwneud y celfyddydau yn rhan o'r profiad siopa arferol. Mewn pentref yn y Fro, mae'n ddiddorol iawn, mewn hen flwch ffôn coch, bod llyfrgell wedi cael ei chreu. Wn i ddim os yw hynny'n gyffredin, ond yn sicr, mae pentref sydd â llyfrgell mewn hen flwch ffôn coch. Mae hynny'n wych. Dylem gymeradwyo cwmnïau theatr fel Theatr Genedlaethol Cymru am ddod â'r theatr i gymunedau gyda gorchest 'The Passion' ym Mhort Talbot, lle'r oedd miloedd o bobl leol yn cymryd rhan. Mae hefyd wedi bod yn ymwneud â chymunedau ym mae Caerdydd, yn Sefydliad y Glowyr y Coed Duon ac ar yr arfordir yn Abermaw. Dyna'r math o bethau sy'n cynrychioli gorchestion gwych yn ein celfyddydau.

17:22 **David Rees** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for giving way, and thank you for mentioning 'The Passion'. Do you also agree that this is a triumph not just for the arts, but for the people, because it puts pride back into the people and the towns as well?

Diolch i chi am ildio, a diolch i chi am grybwyll 'The Passion'. A ydych chi hefyd yn cytuno bod hyn yn orchest nid yn unig i'r celfyddydau, ond i'r bobl, gan ei fod yn rhoi balchder yn ôl i'r bobl a'r trefi hefyd?

17:22

## Julie Morgan [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv
Fideo Video

That is a very important point. You could see, in what happened in Port Talbot, that there was a huge uplifting of the community spirit, and you could see how much it mattered to all of those people. That is a very important intervention for the Member, who covers Port Talbot, and I hope that there will be many more things like that. I thought that that was a most inspiring occasion.

Mae hwnnw'n bwynt pwysig iawn. Gallech weld, yn yr hyn a ddigwyddodd ym Mhort Talbot, yr elfen codi ysbryd enfawr yn y gymuned, a gallech weld pa mor bwysig yr oedd i bob un o'r bobl hynny. Mae hynny'n ymyriad pwysig iawn i'r Aelod, sy'n gofalu am Port Talbot, ac rwy'n gobeithio y bydd llawer mwy o bethau fel hwnnw. Roeddwn yn meddwl ei fod yn achlysur hynod ysbrydoledig.

The other thing I want to mention—and I am sure that this has been talked about and discussed before—is that it would be really great if we could have a bold, artistic statement as you come into Wales, either over the Severn bridge or in the north. It could be something like the Angel of the North, perhaps. When you see the Angel of the North when you go into Newcastle, it is a great, definitive statement. Or, it could be something like the Antony Gormley statues on the beach; I went to see those, just outside Liverpool. It seems to me that if we could have something like that, it would be an absolutely great, definitive statement that you are coming into Wales, and a great statement about how we support these sorts of projects in Wales.

Y peth arall yr wyf am sôn amdano—ac rwy'n siŵr bod hyn wedi cael ei grybwyll a'i drafod o'r blaen—yw y byddai'n wirioneddol wych pe gallem gael datganiad beiddgar, artistig wrth i chi ddod i mewn i Gymru, naill ai dros bont Hafren neu yn y gogledd. Gallai fod yn rhywbeth fel Angel y Gogledd, efallai. Pan fyddwch yn gweld Angel y Gogledd wrth fynd i mewn i Newcastle, mae'n ddatganiad gwych, diffiniol. Neu, gallai fod yn rhywbeth fel cerfluniau Antony Gormley ar y traeth; es i weld y rheini, yn union y tu allan i Lerpwl. Mae'n ymddangos i mi, pe gallem gael rhywbeth felly, byddai'n ddatganiad hollol wych, pendant eich bod yn dod i mewn i Gymru, ac yn ddatganiad gwych am sut yr ydym yn cefnogi'r mathau hynny o brosiectau yng Nghymru.

17:24

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv
Fideo Video

Galwaf ar y Gweinidog i ymateb i'r ddadl.

I call on the Minister to reply to the debate.

17:24

## John Griffiths [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv
Fideo Video

*Y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon / The Minister for Culture and Sport*

I thank Members for their overwhelmingly positive contributions to the debate. Importantly, they recognise the wealth of heritage and culture that we have in Wales, as I outlined in my opening remarks. It was very impressive to hear from Eluned Parrott, for example, about all of those ancient historic sites in the Vale of Glamorgan. Some of them have signage, and it is very important that awareness is raised, so that people are aware of their existence and can visit them if they wish. That is something that perhaps we could make more progress on.

Diolch i'r Aelodau am eu cyfraniadau eithriadol o gadarnhaol i'r ddadl. Yn bwysig, maent yn cydnabod y cyfoeth o dreftadaeth a diwylliant sydd gennym yng Nghymru, fel yr amlinellais yn fy sylwadau agoriadol. Roedd yn drawiadol iawn i glywed oddi wrth Eluned Parrott, er enghraifft, am yr holl safleoedd hanesyddol hynafol ym Mro Morgannwg. Mae gan rai ohonynt arwyddion, ac mae'n bwysig iawn bod ymwybyddiaeth yn cael ei godi, fel bod pobl yn ymwybodol o'u bodolaeth ac yn gallu ymweld â hwy os ydynt yn dymuno. Mae hynny'n rhywbeth efallai y gallem wneud mwy o gynnydd arno.

I was very pleased to visit Kidwelly to see the great history there and learn about the amazing tinplate industry and visit the museum as well. It is great that the Eisteddfod will be reinforcing some of those key messages with its flagship status in terms of culture in Wales and much further afield. Of course, we should recognise what Julie Morgan has just mentioned—it is easy to forget the importance of the huge steps forward taken with the creation of the Wales Millennium Centre and Gwyneth Lewis's poetry symbolising what it is about. Then there is free access—what a massive step forward that was in terms of connecting people in Wales to their culture. Similarly with 'The Passion' of Port Talbot, which I agree was an incredible event that really showed how you can galvanise a community around its local history and culture.

Roeddwn yn falch iawn o ymweld â Chydweli i weld yr hanes gwych yno a dysgu am y diwydiant tunplat anhygoel ac ymweld â'r amgueddfa hefyd. Mae'n wych y bydd yr Eisteddfod yn atgyfnerthu rhai o'r negeseuon allweddol hynny gyda'i statws blaenllaw o ran diwylliant yng Nghymru a thu hwnt. Wrth gwrs, dylem gydnabod yr hyn y mae Julie Morgan newydd ei grybwyll—mae'n hawdd anghofio pwysigrwydd y camau enfawr ymlaen a gymerwyd gyda Chanolfan Mileniwm Cymru a barddoniaeth Gwyneth Lewis yn symbol o beth ydyw. Yna mae mynediad rhad ac am ddim—dyna gam enfawr ymlaen oedd hynny o ran cysylltu pobl yng Nghymru â'u diwylliant. Yn yr un modd gyda 'The Passion', Port Talbot, rwy'n cytuno oedd yn ddigwyddiad anhygoel sydd wir yn dangos sut y gallwch chi ysgogi cymuned o gwmpas ei hanes a'i diwylliant lleol.

There is much in Wales to celebrate, but, of course, Members also had some issues to raise. A number of Members raised the royal commission and the Williams report, and the significance of that. Of course, we have recognised all along, and I recognised in my statement last week, that there is a strong case for merger, and that was recognised by our committee and Members generally. However, I maintain the stance that I set out last week—that before a decision might be taken to merge, there are important developments in England and Scotland, and here in Wales, in terms of what leverage the royal commission may be able to achieve in terms of monies from without Welsh Government funding being brought to the table. There is a lot to evaluate, I think, and, as I said last week, we need to do that through the remainder of this Assembly term before any revisiting takes place.

Mae llawer yng Nghymru i ddathlu, ond, wrth gwrs, roedd gan yr Aelodau hefyd rai materion i'w codi. Cododd nifer o Aelodau y comisiwn brenhinol ac adroddiad Williams, ac arwyddocâd hynny. Wrth gwrs, rydym wedi cydnabod o'r cychwyn, ac roeddwn yn cydnabod yn fy natganiad yr wythnos diwethaf, bod achos cryf dros gyfuno, a chafodd hynny ei gydnabod gan ein pwyllgor ac Aelodau yn gyffredinol. Fodd bynnag, rwy'n dal at y safiad a nodais yr wythnos diwethaf—cyn y gellir gwneud penderfyniad i gyfuno, mae datblygiadau pwysig yn Lloegr a'r Alban, ac yma yng Nghymru, o ran y dylanwad efallai y bydd y comisiwn brenhinol yn gallu ei gael o ran arian o'r tu allan i gyllid Llywodraeth Cymru yn cael ei ddwyn at y bwrdd. Mae llawer i'w werthuso, rwy'n meddwl, ac, fel y dywedais yr wythnos diwethaf, mae angen i ni wneud hynny drwy weddill tymor y Cynulliad hwn cyn unrhyw ail arfarnu.

On heritage skills, I agree it is absolutely vital that we have these necessary skills here in Wales to maintain our heritage and to enhance it. There have been meetings of the heritage environment group and the sub-group that deals with these skills, and we expect to take forward some important projects to develop those heritage skills in the months to come. Obviously, I will keep Members updated on that.

Ar sgiliau treftadaeth, rwy'n cytuno ei bod yn gwbl hanfodol bod y sgiliau angenrheidiol hyn gennym yma yng Nghymru i gynnal ein treftadaeth ac i'w gwella. Cafwyd cyfarfodydd y grŵp amgylchedd treftadaeth a'r is-grŵp sy'n ymwneud â'r sgiliau hyn, ac rydym yn disgwyl symud ymlaen â rhai prosiectau pwysig i ddatblygu'r sgiliau treftadaeth hynny yn ystod y misoedd i ddod. Yn amlwg, byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am hynny.

I very much agree that we need to be increasingly focused on outcomes rather than inputs, as Suzy Davies mentioned. There is a lot of work going on around that, across Welsh Government, and that will be our emphasis, working with partners—in my case with partners such as the Arts Council of Wale—into the future.

Cytunaf yn llwyr fod angen inni fod yn canolbwyntio fwyfwy ar ganlyniadau yn hytrach na mewnbynnau, fel y soniodd Suzy Davies. Mae llawer o waith yn digwydd o amgylch hynny, ar draws Llywodraeth Cymru, a dyna fydd ein pwyslais, gan weithio gyda phartneriaid—yn fy achos i gyda phartneriaid megis Cyngor Celfyddydau Cymru—yn y dyfodol.

When we look at libraries, Dirprwy Lywydd, I think it is absolutely clear that they bring an awful lot to our communities in Wales and the Welsh Government's priorities right across the piece. That is why I was so keen to announce the review that will take place. It is looking at budgetary decisions in local authorities, reminding them of their statutory obligations—and I have written to them—as well as the process that needs to be gone through before budgetary decisions are made. So, I will continue on the case there, working very closely with our local authority partners and involving our officials. These budgetary decisions are key across the piece when it comes to the arts, culture, libraries and museums, and that is why I want to make sure that my officials are engaged in a very meaningful way, as is the Arts Council of Wales. It has a wealth of expertise and experience to bring to the table. It can discuss alternatives to cuts that local authorities may be considering. We have many good examples of new and innovative provision, whether it is co-location or outsourcing of one type or another. There really is a lot that can be done to explore these more positive alternatives to some of the proposals that we see discussed at the moment. I hope that that is recognised by local authorities and acted upon.

Pan edrychwn ar lyfrgelloedd, Ddirprwy Lywydd, rwy'n credu ei bod yn gwbl glir eu bod yn dod â llawer iawn i'n cymunedau yng Nghymru a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru yn gyffredinol. Dyna pam yr oeddwn mor awyddus i gyhoeddi'r adolygiad a fydd yn digwydd. Mae'n edrych ar benderfyniadau cyllidebol mewn awdurdodau lleol, yn eu hatgoffa o'u rhwymedigaethau statudol—ac rwyf wedi ysgrifennu atynt—yn ogystal â'r broses y mae angen mynd drwyddi cyn i benderfyniadau cyllidebol gael eu gwneud. Felly, byddaf yn parhau i fynd ar ôl hynny, yn gweithio'n agos iawn gyda'n partneriaid awdurdod lleol a chynnwys ein swyddogion. Mae'r penderfyniadau cyllidebol hyn yn allweddol yn gyffredinol pan ddaw at y celfyddydau, diwylliant, llyfrgelloedd ac amgueddfeydd, a dyna pam yr wyf yn awyddus i wneud yn siŵr bod fy swyddogion yn cymryd rhan mewn ffordd ystyrlon iawn, fel y mae Cyngor Celfyddydau Cymru. Mae ganddo gyfoeth o arbenigedd a phrofiad i'w ddwyn ymlaen. Gall drafod dewisiadau amgen i doriadau y gallai awdurdodau lleol fod yn eu hystyried. Mae gennym lawer o enghreifftiau da o ddarpariaeth newydd ac arloesol, boed hynny'n gyd-leoliad neu'n is-gontractio o ryw fath neu'i gilydd. Yn wir, mae llawer y gellir ei wneud i ymchwilio i'r dewisiadau mwy cadarnhaol o ran rhai o'r cynigion yr ydym yn eu gweld yn cael eu trafod ar hyn o bryd. Rwy'n gobeithio y bydd awdurdodau lleol yn cydnabod hynny ac yn gweithredu arno.

When it comes to the amendments, we are content with all of them, with the exception of amendment 4, which we oppose as it is not practicable to ensure employment in the way that the amendment suggests.

Pan ddaw at y gwelliannau, rydym yn fodlon gyda phob un ohonynt, ac eithrio gwelliant 4, yr ydym yn ei wrthwynebu gan nad yw'n ymarferol i sicrhau cyflogaeth yn y ffordd y mae'r gwelliant yn ei awgrymu.

In conclusion, it is fair to say that the contributions that we have heard today reinforce my remarks in my opening speech. We all understand the importance of culture and heritage services for the people in Wales. As the Minister for culture, I remain determined to drive forward our strategic vision, working with cultural and heritage organisations, to make sure that we build on free access and all the improvements and important steps forward that we have heard about today to increasingly make our cultural services available and accessible to all.

I gloi, mae'n deg dweud bod y cyfraniadau yr ydym wedi eu clywed heddiw yn atgyfnerthu fy sylwadau yn fy araith agoriadol. Rydym i gyd yn deall pwysigrwydd gwasanaethau diwylliant a threftadaeth i bobl yng Nghymru. Fel y Gweinidog diwylliant, rwy'n dal yn benderfynol o fwrw ymlaen ein gweledigaeth strategol, gan weithio gyda sefydliadau diwylliannol a threftadaeth, i wneud yn siŵr ein bod yn adeiladu ar fynediad am ddim a holl welliannau a chamau pwysig ymlaen yr ydym wedi clywed amdanynt heddiw i wneud ein gwasanaethau diwylliannol fwyfwy hygyrch ac ar gael i bawb.

17:30

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Y cwestiwn yw y dylid derbyn gwelliant 1. A oes gwrthwynebiad? Nid oes gwrthwynebiad. Felly, derbynnir gwelliant 1 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

The question is that amendment 1 be agreed to. Is there any objection? There are no objections. Therefore, amendment 1 is agreed in accordance with Standing Order 12.36.

*Derbyniwyd gwelliant 1 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 1 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Y cwestiwn yw y dylid derbyn gwelliant 2. A oes gwrthwynebiad? Nid oes gwrthwynebiad. Felly, derbynnir gwelliant 2 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

The question is that amendment 2 be agreed to. Is there any objection? There are no objections. Therefore, amendment 2 is agreed in accordance with Standing Order 12.36.

*Derbyniwyd gwelliant 2 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 2 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Y cwestiwn yw y dylid derbyn gwelliant 3. A oes gwrthwynebiad? Mae gwrthwynebiad, felly gohiriaf bob pleidlais arall ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

The question is that amendment 3 be agreed to. Is there any opposition? There is objection. Therefore, all further voting will be deferred until voting time.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

*Voting deferred until voting time.*

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Before we move to voting time, are there three Members who wish for the bell to be rung? There are; ring the bell.

Cyn i ni symud at y cyfnod pleidleisio, a oes tri Aelod sy'n dymuno i'r gloch gael ei chanu? Oes; canwch y gloch.

*Canwyd y gloch.*

*The bell was rung.*

# Cyfnod Pleidleisio

# Voting Time

Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5389.

Result of the vote on motion NDM5389.

*Derbyniwyd y cynnig: O blaid 50, Yn erbyn 1, Ymatal 3.*

*Motion agreed: For 50, Against 1, Abstain 3.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 3 i gynnig NDM5401.

Result of the vote on amendment 3 to motion NDM5401.

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 41, Yn erbyn 0, Ymatal 13.*

*Amendment agreed: For 41, Against 0, Abstain 13.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 4 i gynnig NDM5401.

Result of the vote on amendment 4 to motion NDM5401.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 27, Yn erbyn 27, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 27, Against 27, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog Rhif 6.20, defnyddiodd y Diprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order No. 6.20 the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 5 i gynnig NDM5401.

Result of the vote on amendment 5 to motion NDM5401.

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 44, Yn erbyn 0, Ymatal 10.*

*Amendment agreed: For 44, Against 0, Abstain 10.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 6 i gynnig NDM5401.

Result of the vote on amendment 6 to motion NDM5401.

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 54, Yn erbyn 0, Ymatal 0.*

*Amendment agreed: For 54, Against 0, Abstain 0.*

*Cynnig NDM5401 fel y'i diwygiwyd:*

*Motion NDM5401 as amended:*

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*To propose that the National Assembly for Wales:*

*1. Yn cydnabod pwysigrwydd ehangu mynediad i dreftadaeth a diwylliant I bawb, gan annog pobl o bob rhan o gymdeithas i gymeryd rhan a sicrhau bod unrhyw rwystrau i gyfranogi yn cael eu dileu.*

*1. Recognises the importance of widening access to heritage and culture for all, encouraging people from all walks of life to take part and ensuring that the barriers to participation are removed.*

*2. Nodi'r gwaith sy'n cael ei gyflawni gan ein sector treftadaeth a diwylliant I wella mynediad ac i sicrhau y gall bawb yng Nghymru gymeryd rhan mewn gweithgarwch ddiwylliannol, neu gael mynediad i'n safleoedd treftadaeth a chael profiad gwerthfawr.*

*2. Notes the work carried out by our heritage and culture sector to improve access and to ensure everyone in Wales can engage in cultural activity, or access our great heritage sites and have a rewarding experience.*

*3. Nodi y bydd Llywodraeth Cymru yn parhau'r gwaith o gryfhau'r dull hwn o weithio drwy ddatblygu proses o weithio mewn partneriaeth effeithiol ar draws bob adran a chyda'r sector treftadaeth a diwylliant yng Nghymru yn ehangach.*

*3. Notes the Welsh Government will continue the work of strengthening this approach by developing effective partnership working across departments and with the wider heritage and cultural sector in Wales.*

*4. Yn nodi'r ymgynghoriad ystyrlon, 'Dyfodol ein Gorffennol', ac yn croesawu dylanwad yr ymatebion hynny ar benderfyniad y Gweinidog ynghylch dyfodol Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru.*

*4. Notes the meaningful consultation 'The Future of Our Past' and welcomes the influence of those responses on the Minister's decision regarding the future of the Royal Commission on the Ancient and Historic Monuments for Wales.*

*5. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau prosesau monitro ac adrodd cyson ar gyfer yr holl gamau a gymerir i annog pobl i ymwneud mwy â threftadaeth a diwylliant ac i gyfrannu mwy atynt, a fydd yn ddigon i ddarparu gwerthusiad cadarn.*

*5. Calls on the Welsh Government to ensure consistent monitoring and reporting processes for all measures to widen engagement and participation in heritage and culture, sufficient to provide robust evaluation.*

*6. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:*

*6. Calls on the Welsh Government to:*

*a) sicrhau ein bod yn cadw arbenigedd yn ein sefydliadau treftadaeth fel na fyddwn yn colli'r gallu i ddehongli ein gorffennol yn sgîl colli swyddi.*

*a) ensure that expertise is maintained in our heritage institutions so that interpretation of our past is not lost as a consequence of staff redundancies.*

*b) cyflwyno prentisiaethau treftadaeth fel ffordd o sicrhau bod ein dealltwriaeth o'n treftadaeth yn cael ei throsglwyddo i genedlaethau'r dyfodol.*

*b) introduce heritage apprenticeships as a means of ensuring that the understanding of our heritage is passed on to future generations.*

*7. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gynorthwyo Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru i ymchwilio i'r broses o gael statws elusennol.*

*7. Calls on the Welsh Government to provide support for the Royal Commission on the Ancient and Historical Monuments of Wales to investigate obtaining charitable status.*

*8. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gydag amgueddfeydd, orielau a chasgliadau celf a threftadaeth eraill i sicrhau y gellir rhoi benthyg eitemau nad ydynt yn cael eu harddangos yng Nghymru i gyfleusterau eraill.*

*8. Calls on the Welsh Government to work with museums, galleries and other collections of art and heritage to ensure that items which are not on display in Wales can be loaned to other facilities.*

Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5401 fel y'i diwygiwyd.

Result of the vote on motion NDM5401 as amended.

*Derbyniwyd y cynnig: O blaid 54, Yn erbyn 0, Ymatal 0.*

*Motion agreed: For 54, Against 0, Abstain 0.*

17:38

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer

Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

That concludes today's business

Dyna ddiwedd busnes heddiw

*Daeth y cyfarfod i ben am 17:38.*

*The meeting ended at 17:38.*